# Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg

## Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ar gymunedau sydd â dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg



Comisiwn Cymunedau Cymraeg

Awst 2024

## Trosolwg

Sefydlwyd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg gan Lywodraeth Cymru yn sgil cyhoeddi adroddiad *Ail gartrefi: datblygu polisïau newydd yng Nghymru*. Amlygodd yr adroddiad hwnnw fod ein cymunedau Cymraeg yn wynebu heriau strwythurol sydd wedi gwaethygu yn sgil penderfyniad y Deyrnas Gyfunol i adael yr Undeb Ewropeaidd ynghyd ag effeithiau pandemig COVID-19. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn i'w helpu i ddatblygu polisi cyhoeddus ar gyfer cynnal ein hiaith yn y cymunedau hynny. Mae'r Comisiwn yn cynnwys deg aelod annibynnol sydd ag arbenigedd a phrofiad mewn amrywiaeth o feysydd polisi. Cadeirydd y Comisiwn yw Dr Simon Brooks.

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Is-adran Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru
Doc Fictoria
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1TH

e-bost: Cymraeg2050@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn Llyw.Cymru/Comisiwn-Cymunedau-Cymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49989, ISBN argraffu 978-1-83625-390-7, ISBN digidol 978-1-83625-389-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

**Cynnwys**


Rhagair y Cadeirydd ... 3

Crynodeb gweithredol ... 4

Cefndir: gwaith y Comisiwn ... 11

1. Egwyddorion cyffredinol ... 13
2. Cyfrifiad 2021 ... 20
3. Ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch ... 26
4. Economi ... 56
5. Gweithleoedd Cymraeg ... 74
6. Datblygu cymunedol ... 79
7. Tai ... 84
8. Cynllunio gwlad a thref ... 95
9. Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ... 98
10. Addysg Gymraeg ... 105
11. Cynllunio ieithyddol cymunedol ... 118
12. Rhestr argymhellion ... 127
13. Llyfryddiaeth ... 137



Dr Simon Brooks
**Cadeirydd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg**
Chair of the Commission for Welsh-speaking Communities



Dr Talat Chaudhri



Dr Lowri Cunnington Wynn



Cynog Dafis



Meinir Ebbsworth



Delyth Evans



Dafydd Gruffydd



Dr Myfanwy Jones



Cris Tomos



Rhys Tudur



Shan Lloyd Williams

**Aelodau'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg**
Members of the Commission for Welsh-speaking Communities

## Rhagair y Cadeirydd

Mae'n fraint cyflwyno i Lywodraeth Cymru, ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd, adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ar gymunedau sydd â dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg.

Ein man cychwyn yw bod y Gymraeg yn iaith genedlaethol sy'n perthyn i bob un ohonom—waeth pwy ydym ni, ble rydym ni'n byw, neu faint ohoni y gallwn ei siarad.

Yn ystod y trigain mlynedd diwethaf, o ganlyniad i ymdrechion pobl Cymru a llywodraethau'r wlad, bu cynnydd aruthrol o ran statws y Gymraeg, a chydnabyddiaeth ac ymwybyddiaeth ohoni ar lefel genedlaethol a rhyngwladol. Amhosibl heddiw ddychmygu Cymru heb y Gymraeg.

Dylem ymfalchïo yn y llwyddiant hwn a'i ddathlu. Nid oes dim mewn hanes yn anochel. Canlyniad cydymdrech yw'r llwyddiant hwn ac mae'n dangos beth gallwn ei gyflawni drwy weithio ochr yn ochr, gyda'n gilydd.

Er gwaetha'r llwyddiannau hyn, bu lleihad yn nifer y cymunedau yng Nghymru lle mae canran gymharol uchel o'r boblogaeth yn medru siarad Cymraeg. Mae hyn wedi lleihau defnydd cymdeithasol beunyddiol o'r Gymraeg. Gwyddom mor greiddiol yw cymunedau ieithyddol cydlynus daearyddol i ffyniant ieithoedd ar draws y byd.

Rydym yn falch fod Llywodraeth Cymru wrth ofyn i'r Comisiwn edrych ar y mater hwn yn cydnabod pwysigrwydd cymunedau o'r fath. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn gwneud argymhellion am eu dyfodol. Ein dymuniad yw gwlad lle mae cymunedau Cymraeg yn ffynnu a'r Gymraeg yn iaith gymunedol fyw.

Oherwydd y ceir continwwm ieithyddol rhwng cymunedau oddi mewn i Gymru, ac am fod cydnabyddiaeth fod y Gymraeg yn wir iaith genedlaethol, bydd cyfnerthu cymunedau Cymraeg yn cryfhau'r Gymraeg ymhob rhan o Gymru.

Bydd atgyfnerthu'r Gymraeg fel iaith gymunedol yn ei hatgyfnerthu fel iaith genedlaethol.

Trwy gydymdrech, gallwn sicrhau dyfodol bywiog a llewyrchus i'r Gymraeg. Ein hiaith ni yw hi. Iaith sy'n perthyn i bob un o bobl Cymru ac i'w siaradwyr ymhob man.

Dr Simon Brooks

Cadeirydd Comisiwn Cymunedau Cymraeg

# Crynodeb gweithredol

## Cefndir ac egwyddorion

Sefydlwyd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2022 i wneud argymhellion polisi gyda'r nod o gryfhau cymunedau Cymraeg.

Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru ac hefyd i siaradwyr Cymraeg tu hwnt i'r wlad. Yng Nghymru, mae gan bawb yr un hawliau ieithyddol, lle bynnag maen nhw'n byw. Mae'r Gymraeg yn iaith genedlaethol.

Mae iaith yn cael ei defnyddio mewn cyd-destun cymdeithasol. Mae cyfansoddiad ieithyddol cymunedau yn dylanwadu ar duedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg. Er mwyn cefnogi'r Gymraeg fel iaith genedlaethol, mae'n rhaid felly ei chynnal fel iaith gymunedol.

## Canlyniadau Cyfrifiad 2021

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad o ganlyniadau Cyfrifiad 2021 yn yr ardaloedd hynny lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf. Yng Ngwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin y ceir y dwysedd uchaf o siaradwyr Cymraeg. Ceir hefyd ddwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg mewn nifer o ardaloedd sy'n ffinio ar y siroedd hynny. Yn y cymunedau hyn y mae'r potensial mwyaf ar gyfer defnydd bob dydd o'r iaith ar draws ystod o gyd-destunau cymdeithasol.

Mae'r dadansoddiad ar sail data Cyfrifiad 2021 yn awgrymu fod y Gymraeg yn colli tir ymysg grwpiau o gefndir llai breintiedig mewn rhai cymunedau Cymraeg. Hyd yma, ni fu dosbarth cymdeithasol yn ystyriaeth ganolog i gynllunio ieithyddol, ond bydd rhaid i gynllunio ieithyddol gydnabod yn llawn ei arwyddocâd. Dylai polisïau fod yn berthnasol i bob grŵp o ran cefndir sosioeconomaidd.

Mae Cyfrifiad 2021 hefyd yn awgrymu fod rhai sectorau economaidd yn neilltuol bwysig i ddyfodol y Gymraeg megis amaethyddiaeth ac hefyd rannau o'r sector cyhoeddus.

Yn y ddwy sir sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg, Gwynedd ac Ynys Môn, mae siaradwyr Cymraeg yn cael eu tangynrychioli fel grŵp yn y categorïau sosioeconomaidd mwyaf breintiedig. Ochr yn ochr â mathau eraill o dystiolaeth, mae hyn yn awgrymu fod siaradwyr Cymraeg fel grŵp cymdeithasol mewn rhai ardaloedd sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn dioddef peth mesur o anfantais economaidd strwythurol.

## Ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch—eu swyddogaeth

Mae dwysedd siaradwyr Cymraeg yn allweddol bwysig o safbwynt defnydd iaith ar lefel gymunedol. Er gwaethaf cynnydd o ran y gydnabyddiaeth genedlaethol o'r Gymraeg, bu gostyngiad sylweddol yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau hynny lle mae siaradwyr Cymraeg yn ffurfio mwyafrif, neu leiafrif sylweddol, o'r boblogaeth. Mae'r dirywiad yn fygythiad i ddyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol, ac felly fel iaith genedlaethol. Mae cynaliadwyedd cymunedol yn

greiddiol o safbwynt dyfodol y Gymraeg. Bydd addasu polisïau cenedlaethol er mwyn mynd i’r afael ag anghenion penodol cymunedau Cymraeg yn fodd i helpu sicrhau’r cynaliadwyedd hwnnw. O fewn yr ardaloedd hyn felly, dylid mynd ati i addasu polisïau cyhoeddus er mwyn mynd i’r afael â’r heriau amrywiol sydd yn wynebu’r iaith.

Y math o bolisïau lle bo angen gweithredu yw rhai mewn meysydd sosioeconomaidd a sosioieithyddol sy’n cael effaith ar ffyniant y Gymraeg fel iaith gymunedol. Mae’r rhain yn cynnwys meysydd fel polisi economaidd, polisi tai, cynllunio gwlad a thref ac addysg.

Mae cynaliadwyedd cymunedol yn hanfodol i ddyfodol y Gymraeg. Bydd amrywio polisïau er mwyn mynd i’r afael ag anghenion penodol cymunedau Cymraeg yn hollbwysig er mwyn cynnal y cynaliadwyedd hwnnw.

Ni fydd angen amrywio pob polisi – dylai llawer o bolisïau, megis ynghylch statws y Gymraeg a hawliau ei siaradwyr, fod yn rhai a weithredir trwy Gymru.

Er mwyn caniatáu a hwyluso amrywio polisïau, dylid dynodi cymunedau sydd â chanran uchel, neu gymharol uchel, o siaradwyr Cymraeg fel ‘ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch’.

Dylai’r dynodiad hwn fodoli ochr yn ochr ag ymrwymiad cadarn gan Lywodraeth Cymru i adfywio’r Gymraeg ymhob rhan o Gymru.

Felly, bydd dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn rhan o’r gwaith o gryfhau’r Gymraeg trwy Gymru gyfan.

Bydd creu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn sylfaen ar gyfer: rhoi mwy o ystyriaeth i’r Gymraeg fel iaith gymunedol o fewn fframweithiau polisi, sicrhau fod addasiadau polisi yn ymateb i anghenion cymdeithasol ac ieithyddol, a grymuso cymunedau i wrthdroi shifft iaith.

Dylid sefydlu uned bolisi oddi mewn i Lywodraeth Cymru er mwyn helpu datblygu a chydlynu polisi ar gyfer ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

### Ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch – sut i’w dynodi

Dylid dynodi ardal o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch ar sail ystyriaeth o sefyllfa’r Gymraeg yn lleol.

Dylai fod modd gwneud y dynodiad mewn un o ddwy ffordd.

Un ffordd fyddai bod Llywodraeth Cymru yn gosod trothwy ystadegol yn seiliedig ar ganlyniadau Cyfrifiad 2021. Byddai cymunedau sydd â chanran o siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth sy’n hafal i neu’n uwch na ffigur neilltuol yn cael eu dynodi fel ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Gallai’r trothwy gael ei bennu maes o law gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael iddo, mae’r Comisiwn o’r farn y dylai fod rhagdybiaeth o blaid dynodi’r trothwy hwn fel 40%.

Ni ddylai unrhyw gymuned gael ei rhwystro rhag cael ei dynodi fel ardal o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch am ei bod yn disgyn ychydig bwyntiau canran o dan y trothwy hwn, ac am y rheswm hwnnw yn unig. Mae sawl cymuned yng Nghymru sy'n ffiniol yn ieithyddol. Felly, bydd angen ail ddull o ddynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Dylai'r dull hwn fod yn wreiddiedig mewn democratiaeth leol.

Dylai fod gan awdurdodau lleol y disgresiwn i ddynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Byddai hyn yn sicrhau elfen bwysig o atebolrwydd lleol o ran polisi iaith.

Gallai ffynonellau ystadegol heblaw y cyfrifiad, gwybodaeth leol, awydd cymuned i fod yn rhan o ddynodiad, a ffactorau yn ymwneud â gweinyddiaeth effeithiol, fod yn berthnasol wrth ystyried a ddylid gwneud dynodiad mewn achosion o'r fath. Er mwyn ymarferoldeb polisi cyhoeddus, byddai'n bwysig, er enghraifft, fod cymaint o gydlynedd tiriogaethol i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch ag sy'n bosib. Gallai fod yn briodol ddefnyddio disgresiwn er mwyn ymestyn ar ffiniau allanol ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, neu er mwyn cynnwys ardaloedd sydd, er eu bod o dan y trothwy, wedi'u hamgylchynnu gan ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Dylid sefydlu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch trwy ddeddfwriaeth gynradd newydd. Gellid gwneud darpariaeth mewn deddfwriaeth o'r fath fel a ganlyn:

> *Ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch*
>
> (1) Mae dyletswydd ar awdurdod lleol i ddynodi ardal o fewn ei ardal fel un o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch os yw canran y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal honno yn hafal i neu'n uwch na X%.
>
> (2) Gall awdurdod lleol hefyd ddynodi ardal arall o fewn ei ardal fel un o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch:
>
> (a) os ydyw'n ffinio ag ardal a ddynodir yn unol ag isadran (1) uchod.
>
> (b) os ydyw'n ystyried y dylid gwneud hynny ar sail dwysedd y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal honno fel canran o'i phoblogaeth, hyd yn oed os yw'r ganran honno yn is na X%.
>
> (3) Wrth arfer eu swyddogaethau, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol roi sylw arbennig i hyfywedd y Gymraeg o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.
>
> (4) Mae dyletswydd ar awdurdod lleol i gydweithio gydag awdurdodau lleol eraill drwy rannu arbenigedd a gwybodaeth sy'n berthnasol i'w dyletswyddau a'u grymoedd o dan yr adran hon.

Er mwyn dangos sut gallai ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch weithio'n ymarferol, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys rhestr o bob LSOA (ardal fach a ddefnyddir at ddibenion ystadegol) lle mae dros 40% o'r boblogaeth yn medru

siarad Cymraeg, a hefyd pob LSOA lle mae dros 25% o'r boblogaeth yn medru siarad Cymraeg. Ceir yn sgil hynny drafodaeth o ran addasrwydd dynodi rhai cymunedau lle mae rhwng 25% a 40% yn medru siarad Cymraeg yn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch trwy ddisgresiwn.

Yn achos cymunedau lle mae rhwng 25% a 40% o'r boblogaeth yn medru siarad Cymraeg, ac na fyddant yn cael eu dynodi fel ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, bydd angen craffu ar bolisïau o ran y Gymraeg yn fanwl. Bydd y Comisiwn yn gwneud argymhellion o ran hyn yn ei adroddiad a gyhoeddir erbyn 2026.

### Meysydd polisi penodol

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r heriau sy'n wynebu cymunedau Cymraeg mewn meysydd polisi penodol, ac yn trafod atebion posib i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Yn sgil hynny, mae'r Comisiwn yn gwneud nifer o argymhellion polisi.

Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro er mwyn caniatáu i ddarllenwyr droi at faes polisi neilltuol yn ddidrafferth, ac am y rheswm hwn ni cheir yma ond crynodeb byr iawn o'r rhannau hynny o'r adroddiad.

### Economi

Mae'r economi yn faes allweddol mewn perthynas â'r Gymraeg, a'r cymunedau hynny lle mae hi'n iaith gymunedol. Mae'r cymunedau hyn yn wynebu heriau strwythurol sylweddol gan gynnwys poblogaeth sy'n heneiddio ac allfudo cyson o bobl ifanc. Felly, dylai Llywodraeth Cymru lunio a gweithredu strategaeth economaidd ar gyfer ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

I'r perwyl hwnnw, mae'r Comisiwn yn gwneud argymhellion polisi mewn amryw o feysydd. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau anghenion sylfaenol y boblogaeth; cefnogi mentrau a busnesau cymdeithasol; pwysleisio pwysigrwydd y fferm deuluol; sicrhau mwy o fudd i gymunedau lleol o'r economi ymwelwyr; manteisio ar wariant cyrff cyhoeddus fel modd o fuddsoddi yn yr economi leol; sicrhau fod pobl leol yn gallu manteisio ar datblygiadau economaidd mawr fel y pwerdy niwclear arfaethedig yn Wylfa; cefnogi busnesau lleol; a chydlynu gweithgarwch i fynd i'r afael ag allfudo.

Mae'r Comisiwn o'r farn y dylid creu corff addas i arwain a chydlynu strategaeth economaidd fydd yn gwasanaethu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

### Gweithleoedd Cymraeg

Mae gan sefydliadau cyhoeddus, o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, ddyletswydd i ymestyn eu defnydd mewnol o'r Gymraeg yn y gweithle. Er mwyn eu helpu i wneud hyn, dylid mesur a datblygu gallu ieithyddol y gweithlu yn effeithiol; cefnogi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg drwy dechnoleg; a newid diwylliant arweinyddol sefydliadau er gwell. Mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, gellid defnyddio Safonau'r Gymraeg er mwyn symud cyrff

cyhoeddus ar hyd continwwm ieithyddol o ran eu defnydd o’r Gymraeg yn fewnol. Mae rôl bwysig hefyd i weithleoedd yn y sector preifat a’r trydydd sector—gan gynnwys mentrau cymunedol—wrth gynnal cymunedau Cymraeg.

### Datblygu cymunedol

Mae dyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol ffyniannus yn dibynnu ar gynaliadwyedd cymunedau, ac felly ar lunio sylfeini economaidd a chymdeithasol cynaliadwy. Mae rhai cymunedau wedi dangos y gallu i’w cefnogi eu hunain mewn amgylchiadau heriol drwy ddatblygu cymunedol. Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi modelau o ddatblygu cymunedol sy’n hybu mentrau cymunedol a chyd-berchnogaeth.

### Tai

Mae Cymru yn wynebu argyfwng tai. Mae hyn yn fygythiad i gymunedau Cymraeg gan y gall fod yn anodd i bobl ifanc a theuluoedd ddod o hyd i gartrefi sy’n addas ac yn fforddiadwy yn lleol. Mae sefyllfa ail gartrefi wedi dwysáu’r problemau hyn ac mae’r Comisiwn yn gefnogol i ymdrechion sydd ar waith gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn y maes hwnnw.

Trafodir yn yr adroddiad amryw o ystyriaethau yn y maes tai megis pwysigrwydd seilio datblygiadau tai ar yr angen lleol. Dylid cynnal asesiad o’r anghenion hyn ar lefel cyngor cymuned neu dref bob pum mlynedd.

Mewn ardaloedd gwledig, dylid sicrhau hyblygrwydd yn y fformiwla grantiau tai cymdeithasol er mwyn medru hwyluso datblygiadau tai ar raddfa fechan. Byddai hyn yn sicrhau cyflenwad o dai at anghenion lleol gan leihau’r risgiau sydd ynghlwm wrth or-ddatblygu.

Dylid gwneud y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn barhaol. Gallai fod yn gerbyd strategol ar gyfer polisi tai mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Mae’r Comisiwn yn croesawu gwaith y peilot ail gartrefi a fforddiadwyedd yn Nwyfor. Bydd angen monitro effaith ymyraethau polisi yn y maes ail gartrefi yn ofalus, yn enwedig mewn cyswllt â Chyfarwyddyd Erthygl 4.

Dylai fod mwy o gymorth ar gael i gynorthwyo grwpiau cymunedol i ddatblygu tai dan arweiniad y gymuned. Dylid creu cronfa benthyciadau llog isel neu gynllun ecwiti er mwyn cynorthwyo grwpiau cymunedol i brynu tir neu eiddo.

Ceir trafodaeth hefyd ar wahanol faterion ym maes amodau cysylltiadau lleol.

### Cynllunio gwlad a thref

Mae’r berthynas rhwng cynllunio gwlad a thref a chynllunio ieithyddol yn allweddol.

Bydd angen gwneud newidiadau i bolisïau a chanllawiau yn y maes cynllunio er mwyn cryfhau cynaliadwyedd ieithyddol cymunedol. Bydd angen newidiadau yn y meysydd canlynol o leiaf: gwell arweiniad yn *Polisi Cynllunio Cymru* mewn perthynas â datblygu cynaliadwy a’r Gymraeg; mwy o gydnabyddiaeth yn y fframwaith datblygu cenedlaethol, *Cymru’r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040*, o ddosbarthiad

gofodol siaradwyr Cymraeg; adolygiad cynhwysfawr o *Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a'r Gymraeg*; a gwell arweiniad ynglŷn â’r Gymraeg yn y *Llawlyfr Cynlluniau Datblygu.* Dylid hefyd gydweithio gyda’r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol er mwyn sicrhau y gellid cael gwell hyfforddiant i gynllunwyr gwlad a thref o ran egwyddorion cynllunio ieithyddol.

Mae hyn oll yn ddarn sylweddol o waith, a bydd rhaid craffu ar gynllunio gwlad a thref yn genedlaethol yn ogystal ag oddi mewn i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Oherwydd pwysigrwydd y maes, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi adroddiad ac ynddo argymhellion manwl o ran cynllunio gwlad a thref erbyn Rhagfyr 2024.

### Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Mae’r Gymraeg yn perthyn i bawb. Mae llawer o siaradwyr Cymraeg sydd â nodweddion gwarchodedig, ac mae llawer o’r siaradwyr Cymraeg hyn yn byw mewn cymunedau Cymraeg. Dylid felly graffu ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yng nghyd-destun y Gymraeg a chymunedau Cymraeg. Er mwyn gwneud hyn, dylid sefydlu grŵp tasg a gorffen er mwyn datblygu awgrymiadau polisi pellach o ran nodweddion gwarchodedig a’r Gymraeg, ac yn benodol mewn perthynas ag ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

### Addysg

Addysg yw’r maes polisi mwyaf dylanwadol o ran creu siaradwyr newydd, gwaith sy’n hanfodol bwysig er mwyn cynnal a chefnogi cymunedau Cymraeg. Felly, mae’n bryder i’r Comisiwn y ceir sefyllfaoedd mewn rhai cymunedau Cymraeg lle mae rhai disgyblion yn dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus, ond nid yw eraill yn cael cyfleoedd cystal i wneud hynny.

Mae taith addysgol plentyn yn cychwyn yn ystod y blynyddoedd cynnar gyda darpariaeth gofal plant a chwarae cyn dechrau cyfnod addysg statudol. Dylid ceisio cyplysu polisi iaith yn y blynyddoedd cynnar allweddol hyn â pholisi iaith mewn addysg gynradd statudol.

Dylid mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch osod targedau mwy uchelgeisiol o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dylai pob plentyn yn yr ardaloedd hyn adael addysg statudol yn hyddysg yn yr iaith. Dylid gosod nod fod pob ysgol ymhen y rhawg yn cynnig addysg Gymraeg gynhwysol. Yn y cyfamser mae angen symud ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol. Dylai pob ysgol gynradd mewn ardal o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch fod o fewn cyfnod rhesymol yn ysgol cyfrwng Cymraeg a dylai ysgolion uwchradd fod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg (categori 3) neu ysgolion cyfrwng Cymraeg penodedig (categori 3P). Os oes rhesymau eithriadol, dylai awdurdod lleol allu eithrio ysgol rhag gorfod cydymffurfio â’r dynodiad. Oddi mewn i ffiniau ieithyddol eu categori, dylai ysgolion gynyddu eu darpariaeth Gymraeg.

Dylai fod gwell data ar gael am ddarpariaeth Gymraeg ysgolion, mwy o bwyslais ar ddefnydd allgyrsiol a chymdeithasol o’r Gymraeg mewn ysgolion, gwell dilyniant o

ran darpariaeth Gymraeg wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn, a mwy o rôl gan Estyn mewn perthynas â rhai materion. Rhaid hefyd roi sylw i ysgolion gwirfoddol a sefydledig, problemau recriwtio, canolfannau trochi, ac addysg drydyddol a galwedigaethol.

**Cynllunio ieithyddol cymunedol**

Mae angen mwy o gynllunio ieithyddol ar lefel y gymuned. Nid oes digon ohono ar hyn o bryd i wrthsefyll y shifft iaith i'r Saesneg sy'n mynd rhagddo mewn cymunedau Cymraeg. Bydd angen ar brydiau ailystyried blaenoriaethau yng nghyd-destun adnoddau presennol er mwyn rhoi sylw priodol i weithgarwch sy'n targedu shifft iaith ar lefel gymunedol. Yn anorfod hefyd, bydd angen mwy o adnoddau.

Dylai cynllunio ieithyddol cymunedol fod wrth galon strategaeth iaith Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill. Gellid defnyddio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i greu gofyniad newydd o dan safonau hybu'r Mesur i awdurdodau lleol lunio strategaeth cynllunio ieithyddol cymunedol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Awgryma'r Comisiwn sawl ffordd bosibl arall o weithredu. Yn eu plith, tynnir sylw at yr angen i flaenoriaethu'r gwaith o gynyddu graddfeydd trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau, boed ar yr aelwyd neu yn y gymuned yn ehangach. Mae angen canolbwyntio'n strategol hefyd ar arferion ieithyddol pobl ifanc, er enghraifft mewn clybiau chwaraeon lleol wrth gynnig mwy o hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae angen rhoi sylw i ddosbarth cymdeithasol: oherwydd y shifft iaith i'r Saesneg mewn trefi yn y gogledd-orllewin sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg, dylid cynnal peilot gyda'r nod o wyrdroi shifft iaith ar stad o dai cymdeithasol yn un o'r trefi hynny.

## Cefndir: gwaith y Comisiwn

Sefydlwyd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2022. Gofynnwyd iddo wneud argymhellion er mwyn cryfhau polisi cyhoeddus o ran cynaliadwyedd ieithyddol cymunedau Cymraeg.

Gofynnodd y Llywodraeth hefyd i'r Comisiwn gynnig dadansoddiad o ganlyniadau Cyfrifiad 2021. Trwy gydweithio â *Bro: Arolwg Sosioieithyddol Cynhwysfawr o Gymunedau Cymraeg Cyfoes* (Prosiect BRO), mae'r Comisiwn wedi cyflawni hyn wrth gynnwys yn yr adroddiad hwn gompendiwm o ystadegau iaith Cyfrifiad 2021 a baratowyd ganddynt yn y prif ardaloedd sydd dan sylw gennym. Ceir dadansoddiad o'u harwyddocâd o safbwynt cyfeiriad polisi cyhoeddus posibl yng nghorff yr adroddiad.

Yn ogystal â hyn, gofynnodd y Llywodraeth i'r Comisiwn gynnig barn ar bolisi, ac yn benodol mewn perthynas â'r *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg* ac yng nghyd-destun datblygu papur gwyn ar y Bil Addysg Gymraeg. Darparodd y Comisiwn gyngor ynghylch y materion hyn.

Prif gais Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn, fodd bynnag, oedd iddo gyflwyno argymhellion polisi cyhoeddus ar ffurf adroddiad erbyn mis Awst 2024. Yn y ddogfen hon, mae'r Comisiwn yn falch o gyflwyno'r adroddiad hwnnw.

Wrth wneud ei waith, roedd y Comisiwn yn awyddus fod argymhellion yn seiliedig ar arbenigedd priodol, a bod y broses o gynnull tystiolaeth yn un agored a thryloyw; yn broses y gallai pawb gyfrannu iddi.

Gyda hynny mewn golwg, lansiodd y Comisiwn alwad am dystiolaeth ym mis Tachwedd 2022. Daeth yr alwad i ben ym mis Ionawr 2023. Daeth 179 o ymatebion i law a cyhoeddwyd crynodeb ohonynt ym mis Mai 2023. Bu'r ymatebion hyn yn amhrisiadwy i ni fel Comisiwn, ac rydym yn diolch i bawb a gyflwynodd dystiolaeth.

Yn sgil yr alwad hon am dystiolaeth, cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023 ar faes Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri Bapur Safbwynt yn trafod rhai casgliadau cychwynnol. Yn y Papur Safbwynt hwn, gwyntyllwyd syniadau polisi cyhoeddus posibl, gan gynnwys y syniad o ddynodi ardaloedd yn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Cynhaliwyd cyfarfodydd i gyflwyno'r Papur Safbwynt ar faes Sioe Frenhinol Amaethyddol Cymru ac yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Llŷn ac Eifionydd. Roedd yr ymateb yn y digwyddiadau hyn yn gadarnhaol.

Wrth i'r Comisiwn gyflawni ei waith, aethpwyd ati i ymgynghori ag ystod eang o arbenigwyr mewn gwahanol feysydd polisi. Gwnaethpwyd hyn fel a ganlyn:

- Cynhaliwyd pedwar gweithdy rhanddeiliaid (am yr economi, tai, datblygu cymunedol, a chynllunio gwlad a thref).
- Darparodd arbenigwr allanol adroddiad ar gynllunio gwlad a thref i'r Comisiwn oedd yn seiliedig ar weithdy rhanddeiliaid, trafodaethau ymysg aelodau'r Comisiwn, a'r alwad am dystiolaeth. Bydd yr adroddiad o gymorth i'r

Comisiwn wrth iddo gyflwyno argymhellion manwl yn y maes hwn erbyn mis Rhagfyr 2024.

- Mynychwyd gwahanol gyfarfodydd o’r Comisiwn gan 22 o arbenigwyr mewn ystod o feysydd i roi tystiolaeth neu er mwyn cyfrannu i drafodaethau.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd gydag aelodau etholedig a/neu swyddogion mewn naw awdurdod lleol perthnasol.
- Gwnaeth y Cadeirydd gyflwyniadau rheolaidd am ddatblygiad y gwaith i Gyngor Partneriaeth y Gymraeg, y corff statudol sy’n rhoi cyngor i Weinidogion Cymru mewn perthynas â’r Gymraeg, a chafwyd adborth gan ei aelodau.
- Cynhaliwyd cyfarfod rhwng Cadeirydd y Comisiwn ac Is-grŵp Cydraddoldeb, Cynhwysiant ac Amrywiaeth Cyngor Partneriaeth y Gymraeg i drafod syniadau polisi ym maes hil ac ethnigrwydd.
- Gofynnodd y Comisiwn i siaradwr Cymraeg blaenllaw o’r gymuned LHDTC+ â phrofiad polisi cyhoeddus perthnasol baratoi ar ei gyfer bapur trafod ym maes materion LHDTC+.
- Cynhaliwyd nifer o drafodaethau eraill gyda sefydliadau, rhanddeiliaid ac arbenigwyr ynghylch materion penodol.

Derbyniodd y Comisiwn gyngor oddi wrth Gwion Lewis CB mewn perthynas ag amryw o faterion, ac rydym yn hynod ddiolchgar iddo am ei gymorth.

Wedi cyflwyno’r adroddiad hwn i Lywodraeth Cymru ar Faes yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd yn haf 2024, bydd ail gam i waith y Comisiwn Cymunedau Cymraeg.

Bydd yn craffu ar y Gymraeg mewn rhannau eraill o Gymru a thu hwnt. Bydd y cam hwnnw wedi cael ei gwblhau erbyn 2026.

# 1. Egwyddorion cyffredinol

## 1.1 Ffenomen gymdeithasol yw iaith

Ffenomen gymdeithasol yw iaith gan mai ei diben yw caniatáu i bobl gyfathrebu â'i gilydd.

Gall y cyd-destun cymdeithasol lle defnyddir y Gymraeg fod yn dra amrywiol. Gall fod yn wledig, yn drefol neu'n ddinesig; gall ddigwydd mewn cymuned lle mae'r mwyafrif yn medru ei siarad, neu mewn cymuned lle mae hi'n iaith y lleiafrif. Gall fod mai'r cyd-destun cymdeithasol yw cymuned ddaearyddol, neu mewn rhai mannau gall fod yn rhwydwaith mewn cymuned ehangach. Gall fod yn gymuned ar-lein, neu'n gymuned brint. Mae ystyriaethau eraill yn bwysig. Gall defnydd o'r Gymraeg amrywio yn ôl iaith aelwyd, iaith cymdogaeth, iaith addysg, iaith sector economaidd ac mae ffactorau eraill megis oedran a dosbarth cymdeithasol yn hollbwysig.

Cred y Comisiwn fod pob un cyd-destun cymdeithasol lle defnyddir y Gymraeg yn werthfawr, a bod siaradwyr Cymraeg gyfwerth â'i gilydd lle bynnag maen nhw'n byw, a beth bynnag yw eu nodweddion. Mae'r Comisiwn yn ymrwymedig i'r egwyddor sylfaenol fod y Gymraeg yn iaith genedlaethol sy'n perthyn i bawb yng Nghymru, ac mae'n eiddo i'w siaradwyr yng ngweddill y byd hefyd.

Ond beth bynnag y cyd-destun lle caiff y Gymraeg ei harfer, mae'r defnydd ohoni'n cael ei siapio gan amodau cymdeithasol. Dyna sy'n esbonio pam fod patrymau defnydd iaith yn amrywio cymaint yng Nghymru—rhwng gwahanol gymunedau, yn ogystal ag oddi mewn iddynt.

Mae patrymau defnydd iaith wedi newid hefyd dros amser. Yn fras, y patrwm fu shifft iaith graddol—a sydyn ar adegau—o'r Gymraeg i'r Saesneg dros nifer o ddegawdau. Yn 1891 (y cyfrifiad cyntaf lle holwyd am y gallu i siarad Cymraeg), roedd gan fwyafrif pobl Cymru allu yn y Gymraeg, ac mewn sawl ardal roedd y mwyafrif yn uniaith Gymraeg. Rhwng 1891 a'r Ail Ryfel Byd, daeth y boblogaeth mewn ardaloedd Cymraeg cadarn yn gynyddol ddwyieithog er i'r Gymraeg aros yn iaith arferedig i'r mwyafrif mawr. O'r 1940au ymlaen, cynyddai'r boblogaeth ddi-Gymraeg, gyda Seisnigo ar gyrion, ac yna ym mherfeddwlad, yr ardaloedd hyn. O ganlyniad i brosesau hirdymor, mae'r Gymraeg heddiw yn wannach fel iaith gymunedol nag y bu erioed.

Pe bai tueddiadau presennol yn parhau, nid yw'n amhosibl y gall maes o law ddiflannu fel iaith gymunedol a arferir dros diriogaeth eang oni chyflwynir ymyraethau polisi cyhoeddus sy'n mynd i'r afael â'r sefyllfa.

Mewn rhai mannau yng Nghymru, ac yn enwedig efallai yn rhai o'n cymunedau mwy Cymraeg, mae modd adnabod rhai tueddiadau cymdeithasegol sydd yn fwy tebygol o fod yn gysylltiedig â siaradwyr Cymraeg—patrymau neilltuol o ran yr economi, cyflogaeth, defnydd tir, a pherthynas â rhai meysydd sosioeconomaidd. Dangoswyd hyn mewn astudiaethau academaidd o siaradwyr Cymraeg sydd yn ceisio eu diffinio fel grŵp cymdeithasol (gweler Williams a Morris, 2000).

Man cychwyn y Comisiwn felly yw mai grŵp cymdeithasol yw grŵp iaith (gweler European Commission, 1996: 5). Mae'n un ymhlith nifer o grwpiau cymdeithasol y dylid eu hystyried mewn perthynas â'i gilydd, a gall unigolyn wrth gwrs berthyn i fwy nag un grŵp cymdeithasol. Gall grwpiau cymdeithasol feddu ar wahanol raddfeydd o rym, ac yn yr ystyr honno, gall fod weithiau anghyfartaledd rhyngddynt.

Ceir ymdeimlad ymysg llawer o siaradwyr Cymraeg fod y grŵp sy'n siarad Cymraeg (o'i gymryd yn ei gyfanrwydd) yn profi anfantais gymharol mewn rhai meysydd sosioeconomaidd mewn rhai ardaloedd o Gymru. Yn sicr, dyna fu'r canfyddiad wrth gefn rhai trafodaethau cyhoeddus diweddar, gan gynnwys dadleuon am fynediad teg at rai adnoddau hanfodol—megis tai mewn cymunedau lle ceir nifer uchel o ail gartrefi. O ystyried lleoliad daearyddol y cymunedau Cymraeg yn bell o ganolfannau grym a phrif farchnadoedd economaidd Prydain; a hefyd hanes siaradwyr Cymraeg fel grŵp lleiafrifedig dros ganrifoedd lawer, go brin y dylai canfyddiad o anfantais o'r fath fod yn annisgwyl. Ategir hyn gan dystiolaeth, y cyfeirir ati yn yr adran sy'n dehongli Cyfrifiad 2021, fod siaradwyr Cymraeg yn cael eu tangynrychioli fel grŵp yn y galwedigaethau a'r categorïau sosioeconomaidd mwyaf breintiedig yn y ddwy sir gyda'r dwysedd uchaf o siaradwyr Cymraeg.

Canlyniad yr holl brosesau hyn yw fod y drafodaeth ynghylch cymunedau Cymraeg yn ymgyffwrdd yn aml â thrafodaethau am gyfiawnder cymdeithasol mewn meysydd fel y farchnad dai, yr economi ac yn y blaen.

## 1.2 Cynaliadwyedd cymunedol a chyfiawnder cymdeithasol

Ffenomen yw iaith a arferir rhwng pobl, yn ogystal â bod yn nodwedd sy'n perthyn i unigolyn ar ei ben ei hun, ac mae arferion ieithyddol yn gysylltiedig â chyd-ymwneud grŵp o siaradwyr, yn hytrach na'u bod yn nodwedd yn unig ar siaradwyr fel endidau ar eu pennau eu hunain.

Felly, i'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg, craidd cynllunio ieithyddol yw cyfnerthu cyd-destunau cymdeithasol sydd o blaid caffael a defnyddio iaith. Mae angen canfod y ffactorau sy'n dadsefydlogi'r grŵp Cymraeg, ac ymateb iddynt drwy bolisi cyhoeddus. Dyna sy'n greiddiol i'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn.

Wrth wneud ein gwaith, daethom i rai casgliadau cyffredinol cychwynnol:

- mae cynaliadwyedd cymunedol mewn ardaloedd lle ceir dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn hanfodol er mwyn cynnal y Gymraeg fel iaith gymunedol.
- mae hyrwyddo caffael a defnydd iaith yn effeithiol yn hollbwysig.
- mae hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol yn debyg o fod yn llesol o safbwynt cynaliadwyedd cymunedol, ac felly yn llesol yn ieithyddol.
- mae dwysáu'r ystyriaeth a wneir o'r Gymraeg o fewn polisi cyhoeddus yn angenrheidiol er mwyn ei sefydlogi a'i chryfhau fel iaith gymunedol.

Bydd llawer o argymhellion y Comisiwn yn tarddu o’r casgliadau cyffredinol hyn. Roedd llawer o ymatebion i alwad y Comisiwn am dystiolaeth dros aeaf 2022-23 yn canolbwyntio ar sut i hyrwyddo budd sosioeconomaidd cymunedau Cymraeg, ac yn rhoi pwyslais hefyd ar hybu cyfiawnder cymdeithasol o’u mewn, er enghraifft, yn y farchnad dai (Llywodraeth Cymru, 2023a). Roedd dymuniad hefyd i hyrwyddo caffael iaith yn fwy effeithiol yn y gyfundrefn addysg. Cyfeiriwyd at lawer o’r ystyriaethau hyn ym Mhapur Safbwynt y Comisiwn a gyhoeddwyd ym mis Mehefin, 2023 (Llywodraeth Cymru, 2023b).

## 1.3 Hawliau Cymru gyfan siaradwyr Cymraeg—y Gymraeg fel iaith pawb

Iaith genedlaethol yw’r Gymraeg a chadarnheir mewn deddfwriaeth bod statws swyddogol iddi ymhob rhan o Gymru. Trwy ddadlau dros gryfhau cymunedau Cymraeg, mae’n bwysig nodi nad ydym o blaid gwanhau’r Gymraeg mewn unrhyw ran arall o Gymru. Oherwydd rhwydweithiau mewnol oddi mewn i Gymru, nodwn hefyd y byddai cryfhau’r Gymraeg mewn cymunedau Cymraeg yn debyg o gael effaith bositif hirdymor ymhob rhan o Gymru.

Mewn termau athronyddol, mae i’r Gymraeg yng Nghymru rai priodoleddau cyfanfydol a dylai polisi cyhoeddus adlewyrchu hyn. Er enghraifft, dylai hawliau iaith fod yn gyfanfydol—maen nhw’n perthyn i bob un o ddinasyddion Cymru lle bynnag maen nhw’n byw yn y wlad. Mae’r Comisiwn yn dymuno gweld hyn yn cael ei wireddu’n ymarferol yn ogystal ag o safbwynt athronyddol. Gwneir argymhellion er mwyn hwyluso hyn yn ystod ail gam gwaith y Comisiwn a fydd yn craffu ar y Gymraeg fel iaith mewn rhannau eraill o Gymru a thu hwnt.

Felly, wrth inni fynegi yn yr adroddiad hwn gefnogaeth y Comisiwn i’r cysyniad o ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch (gweler yr adran ‘ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch’ am drafodaeth lawn), mae’n bwysig nodi nad ydym yn credu y bydd hyn yn mynd yn groes i hawliau Cymru gyfan siaradwyr Cymraeg. Nod dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yw caniatáu amrywio polisi cyhoeddus sydd yn ymwneud â meysydd sosioeconomaidd a sosioieithyddol mewn ardaloedd daearyddol sy’n wynebu shifft iaith i’r Saesneg. Meysydd polisi fel tai, addysg, datblygu cymunedol, cynllunio gwlad a thref, a pholisi economaidd yw’r rhain yn bennaf. Y meysydd hyn yw’r dylanwad pennaf ar ddefnydd o’r Gymraeg fel iaith lafar mewn bywyd bob dydd mewn cymunedau Cymraeg. Nid ydym o blaid amrywio pob polisi yn y cymunedau hyn, a dylai ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch fodoli ochr-yn-ochr â dealltwriaeth y bydd llawer o bolisïau yn cael eu gweithredu ar sail cyfanfydol trwy Gymru gyfan gan mai iaith genedlaethol yw’r Gymraeg.

## 1.4 Argyfwng hinsawdd a’r Gymraeg

Er mai mater amgylcheddol yw’r argyfwng hinsawdd, mae ganddo oblygiadau cymdeithasol sylweddol. Mae adroddiad diweddaraf y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (2023) yn disgwyl i dymheredd byd-eang godi o 1.5°C neu fwy uwch lefel tymheredd 1850-1900 yn yr ugain mlynedd nesaf, gan gynyddu’n

sylweddol y tebygolrwydd o dywydd eithafol a chynnydd yn lefel y môr. I lawer o ardaloedd ar draws y byd, bydd hyn yn cael effaith niweidiol ar gyfansoddiad cymdeithasol a diwylliannol cymunedau ac felly â'r potensial i achosi argyfwng iaith trychinebus o fewn y ganrif nesaf (Jaakkola et al, 2018). Mae hyn yn berthnasol i Gymru, gwlad sydd eisoes yn ceisio mynd i'r afael â dirywiad yn niferoedd siaradwyr Cymraeg yn ôl data diweddar Cyfrifiad 2021. Gall marwolaeth ieithoedd lleiafrifol fod yn ganlyniad arall yr argyfwng hinsawdd oherwydd mudo gorfodol a'r modd y mae grymoedd sy'n cymell cwymp ecolegol hefyd yn dinistrio diwylliannau ac ieithoedd. Yn ogystal, mae argyfwng byd natur, gan gynnwys newid hinsawdd a'r difrod enbyd i amrywioldeb biolegol y blaned, yn rhwym o gael effeithiau cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol pellgyrhaeddol. Mae hyn oll yn berthnasol i ddyfodol rhanbarthau gorllewinol Cymru, lle y ceir y rhan fwyaf o'r cymunedau Cymraeg tiriogaethol.

Gall fod yn anodd amddiffyn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol rhag cynnydd yn lefel y môr, llifogydd a sychder, pethau a all orfodi cymunedau i fudo neu gael eu dadleoli o'u cadarnleoedd traddodiadol. Gall prosesau o'r fath arwain at wasgaru cymunedau ieithyddol wrth i bobl symud i wahanol ranbarthau neu gymhathu i boblogaethau mwy, gan arwain mewn sawl achos at golli amrywiaeth ieithyddol. Yn ogystal, gall y creisis amgylcheddol gynyddu pwysau economaidd ar gymunedau ieithoedd lleiafrifedig, yn enwedig y rhai sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth, pysgota, neu ddiwydiannau eraill sy'n sensitif i'r newidiadau anochel hyn (Addaney et al, 2022). Gallwn ragweld dadsefydlogi patrymau cyfarwydd o drefnu economi a chymdeithas.

Yng nghyd-destun Cymru, mae mynd i'r afael ag effaith yr argyfwng hinsawdd ar y Gymraeg yn gofyn am ddulliau cyfannol sy'n cydnabod cydgysylltiad iaith, diwylliant a'r amgylchedd. Rhaid i ymdrechion i liniaru effeithiau posibl yr argyfwng hwn ystyried anghenion lleiafrifoedd ieithyddol, tra dylai mentrau adfywio iaith ymgorffori strategaethau ar gyfer addasu i newidiadau amgylcheddol.

Nod Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2021 yw ymgorffori ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wneir (Llywodraeth Cymru, 2021a). O ganlyniad, mae angen meddwl sut y gallai'r argyfwng hinsawdd arwain at ganlyniadau penodol i'r Gymraeg. Pe bai'n peri newid mewn patrymau sy'n ymwneud â mudo, er enghraifft, byddai angen ymateb i hynny drwy lunio strategaethau newydd: wrth fynd i'r afael ag allfudo o gymunedau Cymraeg, o bosibl, neu hwyrach y bydd angen newid pwyslais y system addysg er mwyn integreiddio hwyr-ddyfodiaid yn ieithyddol yn fwy effeithiol.

Yn ogystal â heriau, bydd cyfleoedd pwysig wrth i gymdeithasau ymaddasu a newid yn wyneb amgylchiadau newydd y degawdau nesaf. Yn rhanbarthau gorllewinol Cymru, mae ffynonellau cyfoethog o ynni adnewyddol, digonedd o ddŵr a chyfleoedd i amrywioli cyflenwadau a marchnadoedd o gynnyrch y tir. Y gamp fydd gweithredu model datblygu amgen sy'n berthnasol i her yr amseroedd ac sy'n llesol i ffyniant ein cymunedau.

Un o brif egwyddorion y Comisiwn yw fod a wnelo llesiant y Gymraeg fel iaith gymunedol â chynaliadwyedd y cymunedau lle caiff ei siarad. Mae cyswllt amlwg hefyd rhwng cynaliadwyedd cymdeithasau dynol a'r ymateb i'r argyfwng hinsawdd.

Ar un wedd felly, mae perthynas rhwng sut yr ymatebwn i'r argyfwng hinsawdd a sut yr ymatebwn i'r argyfwng ieithyddol sy'n bodoli mewn cymunedau Cymraeg.

Mae'r pwyslais hwn ar gynaliadwyedd cymunedol wedi arwain y Comisiwn at nifer o gasgliadau polisi, ac mae'n sail nifer arwyddocaol o'n hargymhellion.

## 1.5 Ymwybod ag iaith

Prosiect uchelgeisiol fydd gweithredu er mwyn atal ac yna wrthdroi enciliad y Gymraeg mewn cymunedau Cymraeg. Er mwyn llwyddo, bydd angen i bobl yn gyffredinol, ac arweinyddion, fod yn ymwybodol o'r hyn mae prosiect o'r fath yn ei olygu, a pham ei bod yn bwysig ymgymryd ag ef.

Bydd sicrhau ymwybyddiaeth ieithyddol ymysg trwch y boblogaeth yn hanfodol er mwyn cyflawni hyn. Dylai fod ymwybyddiaeth yng Nghymru o hanes y Gymraeg, ei chyfoeth a'i threftadaeth, ac yn fwy cyffredinol o arwyddocâd iaith yn hanes y ddynoliaeth. Bydd yn bwysig deall hanes cymdeithasol y Gymraeg ynghyd â'r ffactorau sydd wedi peri shifft iaith i'r Saesneg. Dylai hanes ymdrechion i wrthdroi shifft iaith, gan gynnwys hanes yr ymgyrchu i ddyrchafu statws y Gymraeg, fod yn hysbys i bawb hefyd.

I'r perwyl hwnnw, bydd angen datblygu rhaglenni mewn ymwybyddiaeth ieithyddol wedi'u dylunio ar gyfer amrywiol gynulleidfaoedd—o blant ysgol, rhieni ac athrawon i weithwyr cyhoeddus a'u harweinyddion, ymgyrchwyr cymdeithasol, mentergarwyr a phobl fusnes, a gweithwyr yn y trydydd sector—waeth beth yw eu gallu i siarad yr iaith.

Dylai'r rhaglenni hyn gael eu seilio ar wybodaeth gadarn o sosioieithyddiaeth a chymdeithaseg iaith. Mae galw arbennig am ddeall dwyieithrwydd fel cysyniad. Mae'n sgil personol gwerthfawr, ond hefyd yn ffenomen gymdeithasol. Gall dwyieithrwydd fodoli, mewn amgylchiadau gwahanol, mewn cyflwr sefydlog neu ansefydlog, ac mae'r olaf fel arfer yn rhan o symudiad o un iaith i iaith arall. Dylid anelu yng Nghymru at ddwyieithrwydd sefydlog sy'n caniatáu i'r Gymraeg feddu ar barthau lle gall fod iddi swyddogaeth fel prif iaith. O safbwynt ymarferol, bydd yn bwysig delio â sefyllfaoedd cymdeithasol dwyieithog o'r math sy'n gyffredin bellach mewn ardaloedd Cymraeg.

Hanfodol hefyd yw ymwybyddiaeth o gyd-destunau rhyngwladol. Byddai Cymru ar ei hennill o gyfnewid gwybodaeth yn y maes yn rhyngwladol, gan osod ei hymdrech i wrthdroi shifft iaith ochr-yn-ochr ag ymdrechion cyffelyb mewn gwledydd megis Catalwnia a Gwlad y Basg. Mae hyn hyd yn oed yn fwy gwerthfawr nag y bu o'r blaen gan i Gymru adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae bodolaeth cymdeithas iaith leiafrifol mewn gwladwriaeth amlgenedl yn weithred normal, ac mae gwybod am sefyllfaoedd cyffelyb ar dir mawr Ewrop yn gallu ein helpu i werthfawrogi hyn.

## 1.6 Cyfrifoldeb i genedlaethau'r dyfodol i feithrin cymunedau Cymraeg heddiw

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru mewn modd sy'n gydnaws â'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy. Rhaid i gorff cyhoeddus wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy osod a chyhoeddi amcanion llesiant. Mae'r ddeddf yn pennu saith nod llesiant ac un ohonynt yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

Mae'r ddeddf hefyd yn amlinellu pum peth y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu gwneud er mwyn dangos eu bod wedi dilyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a diogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir, gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu, ystyried sut gall amcanion llesiant corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, cydweithio, a chynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau eu bod yn adlewyrchu amrywiaeth ardal.

Mae'r egwyddorion hyn yn cryfhau'r ddadl y dylai cynaliadwyedd y Gymraeg fel iaith gymunedol fod yn greiddiol i bolisi iaith yng Nghymru. Heb gefnogaeth i gymunedau Cymraeg heddiw, ni fydd modd i genedlaethau'r dyfodol arddel y Gymraeg yn naturiol yn y cymunedau hyn, ac felly gellid dadlau fod argymhellion yr adroddiad hwn nid yn unig yn ymateb i anghenion heddiw ond yn cyfrannu tuag at eu diwallu yn yr hirdymor.

## 1.7 Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Grŵp amlweddog yw grŵp iaith. Mae hyn yn wir yn sicr am y grŵp Cymraeg sy'n cynnwys o'i fewn amrywiaeth mewnol sylweddol o ran nodweddion a hunaniaethau siaradwyr unigol, ynghyd â nodweddion a hunaniaethau mae grwpiau o siaradwyr Cymraeg yn eu rhannu gyda'i gilydd ar y cyd. Fel siaradwyr ieithoedd eraill, mae gan siaradwyr Cymraeg nodweddion a hunaniaethau heblaw rhai ieithyddol yn unig. Mae'n hanfodol fod pob siaradwr Cymraeg yn teimlo fod y nodweddion hynny yn cael eu parchu, a bod modd iddynt fynegi eu hunaniaethau, y tu fewn i'r grŵp iaith yn ogystal ag oddi allan iddo.

At hynny, fel yn y gorllewin yn gyffredinol, mae rhai grwpiau yn y gymdeithas Gymraeg sydd â nodweddion gwarchodedig wedi wynebu camwahaniaethu neu wedi profi anfantais. Mewn rhai achosion, mae'r camwahaniaethu neu anfantais yn parhau, ac mae'n bwysig fod cynllunio ieithyddol yn cydnabod hyn, ac yn mynd i'r afael ag ef.

## 1.8 Dosbarth cymdeithasol

Mae'r dadansoddiad o Gyfrifiad 2021 a geir yn yr adroddiad hwn yn dangos pwysigrwydd y gydberthynas rhwng iaith a dosbarth cymdeithasol. Mae arwyddion bod y Gymraeg yn colli tir ymysg rhai o gefndir sosioeconomaidd llai breintiedig mewn rhai cymunedau Cymraeg. Hyd yma, bu haenu dosbarth cymdeithasol oddi mewn i'r grŵp iaith yn ystyriaeth absennol i raddau helaeth o gynllunio ieithyddol. Yn

aml, ymddengys ymdrechion tuag at gynllunio ieithyddol yn uniongyrchol berthnasol i rai sydd eisoes yn meddu ar fesur o gyfalaf economaidd a diwylliannol, ac sydd gan hynny yn llai tebygol o fynd drwy shifft iaith, o'u cymharu â'r rheini sydd â llai o gyfalaf cymdeithasol. Mae'n hanfodol sicrhau fod cynllunio ieithyddol yn cydnabod yn llawn arwyddocâd dosbarth cymdeithasol, ac yn cymryd camau i sicrhau ei berthnasedd i grwpiau o gefndir sosioeconomaidd llai breintiedig, gan gynnwys mewn cyd-destunau trefol yn yr ardaloedd Cymraeg.

**Argymhelliad 1: Iaith genedlaethol yw'r Gymraeg sy'n perthyn i bawb yng Nghymru yn ogystal ag i'w siaradwyr yng ngweddill y byd. Er mwyn cryfhau'r Gymraeg fel iaith genedlaethol fyw, mae angen ei chryfhau fel iaith gymunedol. Dylid atgyfnerthu cymunedau Cymraeg, a chryfhau hefyd gynaliadwyedd y Gymraeg mewn cymunedau Cymraeg, a dylai polisi cyhoeddus adlewyrchu'r nodau hyn yn llawn.**

# 2. Cyfrifiad 2021

## 2.1 Cyfrifiad 2021

Mae cylch gorchwyl y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn gofyn iddo gyflwyno dadansoddiad o Gyfrifiad 2021. Penderfynodd y Comisiwn wneud hyn trwy ofyn i Brosiect BRO baratoi compendiwm o ystadegau demoieithyddol ar sail data Cyfrifiad 2021 gan ganolbwyntio ar yr ardaloedd hynny lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf. Yn yr adran hon, cynigir sylwadau cryno ynghylch rhai o'r tueddiadau pwysicaf sydd i'w gweld. Ceir hefyd restr a mapiau o LSOAs (*Lower layer Super Output Areas*) perthnasol yn yr adran 'Ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch'.

Ardal ddaearyddol ar gyfer trefnu a chyflwyno ystadegau cyfrifiad sy'n cynnwys poblogaeth o rhwng 1,000 a 3,000, a rhwng 400 a 1,200 o aelwydydd, yw LSOA (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2023). Mae'n uned sydd yn ymgyrraedd tuag at gysondeb wrth gymharu ardaloedd â'i gilydd, ac wrth gymharu dros amser.

## 2.2 Dosbarthiad daearyddol LSOAs lle ceir dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg

Yn atodiad yr adroddiad hwn ceir compendiwm o ystadegau demoieithyddol a baratowyd gan Brosiect BRO ar sail data Cyfrifiad 2021 sy'n rhoi niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth gyfan ym mhob LSOA yn Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin.

Ym mhob un o'r siroedd hyn mae dros 40% o'r trigolion yn medru siarad Cymraeg yn dros hanner yr LSOAs:

- Ynys Môn, 34 allan o 41 LSOA (83%)
- Gwynedd, 65 allan o 71 LSOA (92%)
- Ceredigion, 37 allan o 45 LSOA (82%)
- Sir Gaerfyrddin, 58 allan o 111 LSOA (52%)

Y sir nesaf atynt o ran nifer LSOAs lle mae hyn yn wir yw Conwy gyda 12 allan o 71 LSOA (17%). Ceir hefyd LSOAs y mae dros 40% o'u poblogaeth yn medru siarad Cymraeg yn Sir Benfro, Sir Ddinbych, Powys a Chastell-nedd Port Talbot.

Yn genedlaethol, mae cyfanswm o 231 LSOA y mae dros 40% o'u poblogaeth yn medru siarad Cymraeg. Mae 194 allan o'r 231 LSOA hynny (84%) yn y pedair sir uchod. Gwelir felly fod craidd yr ardal a nodweddir gan ddwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn y pedair sir, ond ei bod hefyd yn croesi ffiniau sirol i mewn i diriogaeth awdurdodau lleol cyfagos.

O godi'r trothwy 10% ar y tro gellir ymhelaethu ymhellach fel a ganlyn:

- O'r 141 LSOA y mae dros 50% o'u poblogaeth yn medru siarad Cymraeg, mae 126 ohonynt (89%) o fewn terfynau'r pedair sir hyn.
- O'r 72 LSOA y mae dros 60% o'u poblogaeth yn medru siarad Cymraeg, mae 68 ohonynt (94%) o fewn terfynau'r pedair sir hyn.

- Nid oes LSOA lle mae dros 70% o'i phoblogaeth yn medru siarad Cymraeg y tu allan i Wynedd ac Ynys Môn.

O ddwyn y pedair sir hyn ynghyd, mae 50% o'u poblogaeth yn medru siarad Cymraeg. Cyferbynner hynny â 12% o'r boblogaeth yng Nghymru y tu allan i'r siroedd hyn. Gwelir, gan hynny, bod y dwysedd demoieithyddol Cymraeg sy'n nodweddu'r siroedd hyn yn eu hynodi ymhlith awdurdodau lleol eraill Cymru a'u bod, ar y cyd â rhai ardaloedd sy'n ffinio â hwy mewn siroedd cyfagos, yn ffurfio tiriogaeth gydlynus. Yma mae dwysedd siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth yn creu amgylchiadau cyfaddas i allu ieithyddol arwain at ddefnydd cymdeithasol beunyddiol o'r Gymraeg.

## 2.3 Dwysedd a dosbarthiad daearyddol aelwydydd Cymraeg

Yn ogystal â hynny, dengys data am aelwydydd Cymraeg yn y pedair sir y capasiti uwch sydd yn yr ardaloedd hyn ar gyfer trosglwyddo'r Gymraeg o fewn y teulu. Yn teithio o'r gogledd i'r de, mae canran yr aelwydydd â phlant lle mae pob oedolyn yn medru siarad Cymraeg yn y pedair sir fel a ganlyn:

- Ynys Môn – 48%
- Gwynedd – 63%
- Ceredigion – 36%
- Sir Gaerfyrddin – 23%

O ddwyn y pedair sir ynghyd, 39% yw'r ganran o gymharu â 5% yng ngweddill Cymru. O ychwanegu at yr aelwydydd hyn yr aelwydydd â phlant lle mae o leiaf un oedolyn, ond nid pob oedolyn, yn medru siarad Cymraeg, 66% yw'r ganran yn y pedair sir a 20% yng ngweddill Cymru.

## 2.4 Tueddiadau ar lefel LSOA

Mae'r data yn y compendiwm yn disgrifio'r diriogaeth lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf ond mae hefyd yn cynnig darlun manylach a mwy cynnil o'r cadernid cymharol hwn ar lefel LSOA.

Mae gan Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin 268 LSOA rhyngddynt. Yn 252 (94%) o'r LSOAs hynny, bu gostyngiad o rhwng 1 a 21 pwynt canran yng nghanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2021. Mae canrannau fel hyn ar gyfer y boblogaeth gyfan, heb durio ymhellach i'r data yn ôl grwpiau oedran, yn cynnig darlun gyda'r mwyaf cadarnhaol o safbwynt hyfywedd yr iaith.

O graffu ar ganran y siaradwyr Cymraeg yn 2021 yn LSOAs y pedair sir yn ôl grŵp oedran, gwelir bod y ganran sy'n medru siarad Cymraeg yn y grŵp oed 3-15 yn gyson uwch na'r ganran gyfatebol ar gyfer y boblogaeth yn ei chyfanrwydd a hynny o rhwng 2 a 44 pwynt canran. I raddau felly, ymddengys bod data'r grŵp oedran hwn yn adlewyrchu defnydd sefydliadol o'r Gymraeg ym myd addysg, a'i fod yn codi'r ganran ar gyfer y boblogaeth yn gyffredinol gan roi'r argraff bod y defnydd cymdeithasol o'r iaith ryw gymaint yn uwch nag ydyw mewn gwirionedd.

Er mwyn llyfnhau'r anghysondeb sy'n gallu codi wrth ddefnyddio canrannau amrwd o ganlyniad i amrywiadau fel hyn yn y gallu i siarad Cymraeg ar draws grwpiau oedran mewn ardal neilltuol, gwnaed dadansoddiad o ystadegau iaith Cyfrifiad 2021 ar sail cymhareb niferoedd safonedig (CNS). Golyga hyn gymharu nifer y siaradwyr Cymraeg yn LSOAs y pedair sir, a'r grwpiau oedran oddi mewn iddynt, â'r cyfartaledd ar gyfer ardal gyfan y pedair sir a'r grwpiau oedran. Gwelir bod mwy na'r nifer disgwyliedig o siaradwyr Cymraeg yn 129 o'r LSOAs a llai na'r nifer disgwyliedig mewn 139 ohonynt. Nid oes ond 26 o'r 111 LSOA yn Sir Gaerfyrddin (23%) â sgôr CNS dros 1.0, o gymharu â 44% o LSOAs Ceredigion, 63% o LSOAs Ynys Môn ac 80% o LSOAs Gwynedd.

Fel y nodwyd uchod, mesur o ddefnydd iaith mewn potensial ydyw niferoedd a chanrannau siaradwyr. Mae niferoedd a chanrannau'r aelwydydd Cymraeg yn rheitiach ffon fesur o ddefnydd iaith go iawn, mewn gwirionedd. Mae canran yr aelwydydd â phlant lle mae pob oedolyn yn medru siarad Cymraeg yn fwy na 50% yn 19 o'r 41 LSOA yn Ynys Môn (46%) a 53 o'r 71 LSOA yng Ngwynedd (75%). Yn achos Ceredigion a Sir Gaerfyrddin y ffigurau cyfatebol yw 4 o 45 LSOA yn y naill (8.9%) ac 1 allan o 111 LSOA yn y llall (0.9%).

Awgryma'r data ar siaradwyr ac aelwydydd Cymraeg bod y potensial ar gyfer defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn gryfach yn y pedair sir nac yng ngweddill Cymru. Yn yr un modd, awgrymir ymhellach bod y potensial yn gryfach yn y gogledd-orllewin na'r de-orllewin. Mewn gair, mae'r potensial ar gyfer defnydd cymdeithasol o'r iaith yn gryfach mewn ardaloedd o ddwysedd uwch.

## 2.5 Diwydiannau a sectorau economaidd

Ynghyd â'r dwysedd uwch o siaradwyr ac aelwydydd Cymraeg sy'n nodweddu ardaloedd neilltuol, nodweddir rhai diwydiannau a sectorau economaidd hefyd gan lefel uwch o gynrychiolaeth o siaradwyr Cymraeg. Gwelir, er enghraifft, fod y ganran yn y pedair sir sy'n weithredol ym myd amaeth a diwydiannau cysylltiedig ac sy'n siaradwyr Cymraeg yn sylweddol uwch na'r ganran mewn diwydiannau eraill:

- Ynys Môn – 73%
- Gwynedd – 84%
- Ceredigion – 71%
- Sir Gaerfyrddin – 56%

Felly hefyd ym meysydd gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd:

- Ynys Môn – 65%
- Gwynedd – 74%
- Ceredigion – 52%
- Sir Gaerfyrddin – 43%

Ac yn yr un modd yn y diwydiant adeiladu:

- Ynys Môn – 63%
- Gwynedd – 74%

- Ceredigion – 54%
- Sir Gaerfyrddin – 42%

Gellir rhagdybio felly bod gwarchod y sectorau hyn yn bwysig o ran cynnal defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a'r gymdeithas yn ehangach. Noder hefyd, at hynny, bod canran y siaradwyr Cymraeg sy'n weithredol ym myd amaeth ac mewn diwydiannau cysylltiedig yn siroedd y gogledd-ddwyrain yn neilltuol uchel o gymharu â sectorau eraill, gan awgrymu pwysigrwydd y sector hwn, a'r rhwydweithiau cymdeithasol cysylltiedig, i gynnal y Gymraeg mewn ardaloedd lle nad yw dwysedd y siaradwyr cyn gryfed.

## 2.6 Pentrefi a daearyddiaeth y Gymraeg

Nodwedd arall yw pwysigrwydd pentrefi o safbwynt y Gymraeg, ac mae Cyfrifiad 2021 hefyd yn dangos cryfder cymharol y Gymraeg mewn nifer o drefi, er bod arwyddion diweddar o shifft iaith yno yn peri pryder. Ond ynghyd â'r ganran uchel o siaradwyr Cymraeg mewn LSOAs ym mhrif drefi'r gogledd-orllewin, sylwer fod ymysg yr LSOAs lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf nifer â phentrefi yn ganolbwynt iddynt a rhai eraill sy'n cynnwys clystyrau o bentrefi llai.

Mae'r rhain yn cynnwys: Bryngwran, Gwalchmai, Llannerch-y-medd, Bodedern a Brynsiencyn yn Ynys Môn; Llanrug, Bethel, Bontnewydd, Abererch, Botwnnog, Tudweiliog, Chwilog, Llanystumdwy a Llanuwchllyn yng Ngwynedd; Llanilar, Llanafan, Llanfarian, Felinfach a Chiliau Aeron yng Ngheredigion; Pontyberem, Brynaman Uchaf, Llanddarog a Llannon yn Sir Gaerfyrddin.

Gwelir felly bod y Gymraeg, ynghyd â bod yn iaith drefol (fel y mae yng Nghaernarfon) ac yn iaith wledig (fel y mae yn achos y sector amaethyddol), hefyd yn iaith bentrefol ac y gellir rhagdybio bod llawer o'r defnydd cymdeithasol o'r iaith ynghlwm wrth y sefydliadau sy'n ganolbwynt i'r pentrefi hyn (ysgol, tafarn, meddygfa, canolfan gymunedol ac ati).

## 2.7 Tangynrychiolaeth siaradwyr Cymraeg fel grŵp yn y galwedigaethau a'r categorïau sosioeconomaidd mwyaf breintiedig

Dylid sylwi yn ogystal ar ddau dueddiad gwrthgyferbyniol arall ar wastad sosioeconomaidd a awgrymir gan ddata Cyfrifiad 2021. Yn Ynys Môn a Gwynedd, mae canran y siaradwyr Cymraeg yng nghategorïau NS-SEC (Dosbarthiad sosioeconomaidd ystadegau gwladol) L1, L2 ac L3 (galwedigaethau rheolaethol, gweinyddol a phroffesiynol uwch) yn arwyddocaol is na chanran y siaradwyr Cymraeg yn nhrwch y categorïau NS-SEC eraill:

**Tabl 2.1: Canran o siaradwyr Cymraeg yn nhrwch y categorïau NS-SEC**

| Awdurdod lleol | L1, L2 a L3 | L4, L5 a L6 | L7 | L8 a L9 | L10 a L11 | L12 | L13 | L14.1 a L14.2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 46% | 55% | 56% | 49% | 54% | 53% | 55% | 44% |
| Gwynedd | 55% | 65% | 68% | 57% | 65% | 65% | 65% | 53% |

L1, L2 a L3: Galwedigaethau rheolaethol, gweinyddol a phroffesiynol uwch
L4, L5 a L6: Galwedigaethau rheolaethol, gweinyddol a phroffesiynol is, galwedigaethau goruchwyliol uwch
L7: Galwedigaethau canolradd
L8 a L9: Cyflogwyr bach a gweithwyr ar eu liwt eu hunain
L10 a L11: Galwedigaethau goruchwylio a thechnegol is
L12: Galwedigaethau lled-ailadroddus
L13: Galwedigaethau ailadroddus
L14.1 a L14.2: Heb weithio erioed ac wedi bod yn ddi-waith yn y tymor hir

Ychwaneger at hyn ddata am y gallu i siarad Cymraeg yn ôl galwedigaeth, lle dangosir bod canran y rheolwyr, y cyfarwyddwyr a'r uwch swyddogion sy'n medru siarad Cymraeg yn y ddwy sir dros 10 pwynt canran yn is na chanran y siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu yn ei gyfanrwydd (48% o gymharu â 59% yn Ynys Môn; 57% o gymharu â 68% yng Ngwynedd). Ymddengys fod yma dystiolaeth o hirhoedledd y rhaniad diwylliannol o lafur a ddisgrifiwyd gan Glyn Williams a Delyth Morris ddiwedd y ganrif ddiwethaf yn eu llyfr, *Language Planning and Language Use* (Williams a Morris, 2000).

Nid yw'r sefyllfa mor eglur yn y de-orllewin, ac mae'n bosibl fod hynny am fod canran y siaradwyr Cymraeg yn llai dwys yno, a bod felly lai o gymunedau lle byddai tueddiadau o'r fath yn gallu dod i'r amlwg. Byddai'n fuddiol ymchwilio ymhellach i hyn.

Weithiau ceir canfyddiad mewn trafodaethau cyhoeddus yng Nghymru fod siaradwyr Cymraeg fel grŵp yn gymharol freintiedig. Fodd bynnag, yng Ngwynedd ac Ynys Môn o leiaf, sef yn y ddwy sir lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf, ymddengys nad yw hyn yn wir a bod y grŵp Cymraeg yn cael ei dangynrychioli yn y galwedigaethau a'r categorïau sosioeconomaidd mwyaf breintiedig.

Mae tystiolaeth o feysydd eraill fel pe bai'n ategu'r canfyddiad hwn. Gwyddys fod canran y siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau lle ceir prisiau tai uchel, ynghyd â phatrymau uchel o fewnfudo a pherchnogaeth ail gartrefi, yn is yn aml na'r ganran mewn cymunedau cyfagos, sy'n awgrymu mewn amgylchiadau o'r fath anfantais gymharol (Cyngor Gwynedd, 2020, 37-48). O ystyried fod ardaloedd Cymraeg ar gwr, yn hytrach nag yng nghraidd, tiriogaeth y wladwriaeth Brydeinig, ac ymhell hefyd o'r canolfannau economaidd mwyaf ffyniannus, ni fyddai'n gwbl annisgwyl efallai fod grŵp lleiafrifedig yno yn wynebu rhai gweddau ar anfantais strwythurol mewn rhai amgylchiadau. Ychwaneger at hynny bod ffenomen shifft iaith ynddi hi ei hun yn tystio i gloffrwm sosioeconomaidd ar allu'r grŵp iaith i'w atgynhyrchu ei hun yn effeithiol dros amser.

Mae angen mwy o ymchwil er mwyn deall yn llawn oblygiadau hyn. Mae hefyd angen rhagor o ymchwil i'r cyswllt rhwng iaith a dosbarth cymdeithasol.

## 2.8 Effaith anfantais sosioeconomaidd ar y gallu i atgynhyrchu'r Gymraeg

Nid yw'r anfantais a ddisgrifir uchod yn absoliwt. Felly, dylid nodi fod canran y siaradwyr Cymraeg yng nghategorïau NS-SEC L14.1 ac L14.2 (heb weithio erioed

ac wedi bod yn ddi-waith yn y tymor hir) yn arwyddocaol is na chanran y siaradwyr Cymraeg yn y categorïau NS-SEC eraill (gweler y tabl uchod).

- Ynys Môn – 44%
- Gwynedd – 53%
- Ceredigion – 33%
- Sir Gaerfyrddin – 27%

Gellir rhagdybio bod y dwysedd is o siaradwyr Cymraeg yn y categorïau sosioeconomaidd hyn yn gynnyrch, *a hefyd yn cynhyrchu*, amgylchiadau llai ffafriol i ddefnyddio'r Gymraeg. Ategir hynny gan ddata ar drosglwyddiad iaith oddi mewn i'r teulu. Dengys fod dwywaith gymaint o blant nad ydynt yn medru siarad Cymraeg ar aelwydydd lle mae o leiaf un oedolyn yn medru siarad Cymraeg yng nghategorïau Gradd Gymdeithasol Fras D ac E (galwedigaethau llaw rhannol fedrus a heb sgiliau, di-waith, galwedigaethau ar y raddfa is) o gymharu ag aelwydydd yng nghategorïau Gradd Gymdeithasol Fras A a B (galwedigaethau rheolaethol, gweinyddol a phroffesiynol uwch):

- Ynys Môn – 21% yng nghategorïau DE o gymharu ag 11% yng nghategorïau AB
- Gwynedd – 11% yng nghategorïau DE o gymharu â 4% yng nghategorïau AB
- Ceredigion – 21% yng nghategorïau DE o gymharu â 9% yng nghategorïau AB
- Sir Gaerfyrddin – 33% yng nghategorïau DE o gymharu â 13% yng nghategorïau AB

I grynhoi, awgryma'r data ar y naill law bod siaradwyr Cymraeg fel grŵp cymdeithasol mewn cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn dioddef mesur o anfantais economaidd strwythurol, ac ar y llaw arall awgrymir bod y grŵp iaith i ryw raddau yn ymrannu ar hyd llinellau dosbarth cymdeithasol.

# 3. Ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch

Cwestiwn amlwg sy’n codi yng nghyswllt gwaith y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yw beth yn union yw ‘cymuned Gymraeg’, a beth yw goblygiadau hyn o safbwynt cynllunio ieithyddol. Mae cylch gorchwyl y Comisiwn yn disgrifio cymuned Gymraeg fel cymuned ‘lle mae [y Gymraeg] yn iaith mwyafrif y boblogaeth, neu lle mae hyn wedi bod yn wir tan yn gymharol ddiweddar.’ Fodd bynnag, geiriad yw hwn er mwyn gosod maes gwaith y Comisiwn, nid diffiniad ar gyfer polisi cyhoeddus.

## 3.1 Pwysigrwydd dwysedd siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau neilltuol

Mae dwysedd siaradwyr Cymraeg mewn ardal benodol yn bwysig o safbwynt cynllunio ieithyddol. Mae modd byw bywyd helaeth a llawn trwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyd-destunau lle mae hi’n iaith lleiafrif cymharol fychan, fel y dengys hanes y Gymraeg yng Nghaerdydd, er enghraifft, a chyn hynny yn Lerpwl. Dibynna hyn ar natur rhwydweithiau cymdeithasol sydd weithiau’n ieithyddol eu natur. Ond mewn ardaloedd lle mae’r Gymraeg yn iaith gymunedol diriogaethol, ceir cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg y tu allan i rwydweithiau penodol o’r fath, neu gall fod mwy o rwydweithiau ar gael. Yn aml hefyd, mae tebygolrwydd uwch y bydd y Gymraeg yn cael ei throsglwyddo ar yr aelwyd rhwng cenedlaethau. Mewn ardaloedd lle mae’r Gymraeg yn gryf iawn, y Gymraeg yn aml yw iaith ddiofyn cyfathrebu cymdeithasol y gymuned.

O safbwynt polisi cyhoeddus, mae’n bwysig nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* i sicrhau fod ‘canran y boblogaeth sy’n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy’n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013-15) i 20 y cant erbyn 2050’ (Llywodraeth Cymru, 2017a: 11).

Mae dwysedd siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau Cymraeg yn gysylltiedig ag amlder y defnydd ohoni yn y cymunedau hynny, ac mae i hyn oblygiadau cenedlaethol o ran cwrdd â thargedau o ran defnydd o’r Gymraeg. O ganlyniad, mae meithrin cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn ganolog i strategaeth iaith Llywodraeth Cymru ac i gynllunio ieithyddol yng Nghymru yn gyffredinol.

## 3.2 Ardaloedd o arwyddocâd neu sensitifrwydd ieithyddol: hanes cysyniad

Bu’r cysyniad o ardaloedd o arwyddocâd neu sensitifrwydd ieithyddol yn rhan o’r drafodaeth am gynllunio ieithyddol yng Nghymru ers dyddiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Trafodir ‘Ardaloedd Ieithyddol Sensitif’ (AIS) mewn dogfen o 2005 (*Cynllunio a’r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen,* 2005: 6-7; 11-12), er enghraifft, sy’n grynodeb o waith a wnaed gan gonsortiwm o sefydliadau gan gynnwys awdurdodau lleol, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Cynulliad Cymru (fel y’i gelwid bryd hynny).

Defnyddid y cysyniad er mwyn hyrwyddo cynllunio ieithyddol mewn ardaloedd a oedd yn wynebu shifft iaith. Er enghraifft, bu Bwrdd yr Iaith Gymraeg tua diwedd ei oes yn cyfeirio at ardal Aman-Tawe fel ardal o sensitifrwydd ieithyddol, cysyniad a oedd hefyd â'r mantais o hybu cydweithio ar draws ffiniau sirol.

Yn fwy diweddar, ceid cyfeiriadau at ardaloedd o sensitifrwydd neu arwyddocâd ieithyddol mewn Cynlluniau Datblygu Lleol. Ond yn ei ddogfen, *Cynllunio a'r Gymraeg: arolwg o weithdrefnau awdurdodau cynllunio Cymru* (Comisiynydd y Gymraeg, 2019), awgrymodd Comisiynydd y Gymraeg fod ansicrwydd ynghylch sut i ddefnyddio'r cysyniad yn ymarferol. Dyfynnodd awdurdod cynllunio nas enwir:

> Rydym yn deall nad oes diffiniad o ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol ar gael ar hyn o bryd, er bod gan awdurdodau y rhyddid i ddiffinio ardaloedd o'r fath yn ôl eu dymuniad. Ond mae hyn yn gallu arwain at anghysondebau a methiant i weld fod rhai ardaloedd yn ieithyddol sensitif, ble y dylen nhw fod wedi cael eu cydnabod felly, neu vice versa (Comisiynydd y Gymraeg, 2019: 6).

Wrth ymateb i alwad y Comisiwn am dystiolaeth, roedd rhai cyrff yn gofyn am arweiniad pellach oddi wrth Lywodraeth Cymru am beth yn union yw ardal o arwyddocâd ieithyddol. Er enghraifft, dadleuodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri y byddai'n ddymunol 'cael arweiniad cliriach ar beth olygir o ran ardaloedd o sensitifrwydd neu arwyddocâd ieithyddol' (Llywodraeth Cymru, 2023b: 15).

Bu'r cysyniad o ardaloedd o arwyddocâd neu sensitifrwydd ieithyddol yn rhan o'r drafodaeth am bolisi, ac i ryw raddau'n rhan o bolisi ei hun, ers ymron i ugain mlynedd. Ond bu'r defnydd o'r term yn dameidiog ac anghyson. Amlygodd yr alwad am dystiolaeth awydd i roi trefn ar y cysyniad hwn, er mwyn ei gyflwyno i fyd polisi iaith yng Nghymru mewn modd cynlluniedig. Felly, yn ei Bapur Safbwynt, trafododd y Comisiwn yn fanwl y syniad o ddynodi'n ffurfiol 'ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch' yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2023b: 12-28).

Mae'n werth nodi fod y cysyniad hwn yn cael ei wyntyllu mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig hefyd. Cyflwynwyd Bil Ieithoedd yr Alban i Senedd yr Alban ym mis Tachwedd 2023. Mae'r Bil arfaethedig yn rhoi statws swyddogol i Aeleg a Sgoteg yn yr Alban, ac mae'n cynnwys darpariaethau ar gyfer creu pŵer i ddynodi ardaloedd daearyddol yn 'ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol'. Gall 'ardal' gael ei dynodi yn seiliedig ar ganran siaradwyr, neu dreftadaeth hanesyddol, neu ddarpariaeth o addysg Aeleg neu fodolaeth gweithgarwch arwyddocaol yn yr iaith, ac nid oes rhaid i'r 'ardaloedd' fod yn ardal awdurdod lleol. Gallent fod yn ardal lai sy'n ffurfio rhan o ardal awdurdod lleol.

## 3.3 Cymhariaeth ryngwladol—Gwlad y Basg

Ceir ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ardaloedd gyda dwysedd uchel o siaradwyr iaith leiafrifol y tu allan i'r Deyrnas Unedig hefyd. Bu cydnabyddiaeth sefydliadol o gymunedau o'r fath yng Ngwlad y Basg, er enghraifft.

Sefydlwyd Udalerri Euskaldunen Mankomunitatea (UEMA), sef Cymdeithas Cynghorau Cymuned Basgeg, yn 1991 ar gyfer cynghorau cymuned mewn ardaloedd lle mae canran y siaradwyr Basgeg dros 70%. Un o nodau'r gymdeithas yw creu tiriogaeth lle bydd y Fasgeg yn iaith fwyafrifol.

Bu UEMA yn cydweithio'n agos gydag Euskarabidea (Adran Polisi Iaith Llywodraeth Nafarroa) ac Adran Diwylliant a Pholisi Iaith Gwlad y Basg ar lunio strategaeth i gynnal a datblygu ardaloedd a gofodau sydd â dwysedd uwch o siaradwyr Basgeg. Cyhoeddwyd adroddiad *Euskararen Arnasguneak 2024* (Gofodau Anadlu'r Iaith Fasgeg 2024) ym mis Mawrth eleni (Euskarabidea, 2024). Pwysleisia'r adroddiad pa mor allweddol fu ardaloedd daearyddol dwysedd uwch i oroesiad yr iaith, a'u bod hyd heddiw'n angenrheidiol ar gyfer ei pharhad. Yn ogystal mae'n cydnabod fod gofodau dwysedd uwch (megis ysgolion) mewn ardaloedd dwysedd is hefyd yn rhan o'r 'gofod anadlu' ehangach sy'n anhepgor ar gyfer adfywio unrhyw iaith leiafrifedig. Mae'r adroddiad yn adnabod heriau yn yr ardaloedd dwysedd uwch, ac yn argymell gwaith pellach er mwyn deall, dadansoddi a chynnig atebion polisi.

Gwelir fod y drafodaeth ar arwyddocâd ardaloedd daearyddol sydd â dwysedd uwch o siaradwyr yn hawlio lle canolog yng Ngwlad y Basg wrth ystyried cynaliadwyedd yr iaith.

Yng Ngwlad y Basg, mae'r gwaith o adfer y Fasgeg fel iaith genedlaethol drwy ei thiriogaeth gyfan yn cydfynd â phwyslais ar gynaliadwyedd ieithyddol cymunedau dwysedd uwch.

## 3.4 Yr egwyddor o ddynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol

Mae'r Comisiwn o blaid dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol er mwyn cefnogi'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Heb wneud hynny, y tebygolrwydd yw mai parhau i ddirywio a wna'r Gymraeg yn y cymunedau hynny sydd â dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg. Bydd hynny yn ei dro yn gwanhau'r Gymraeg fel iaith genedlaethol fyw trwy Gymru gyfan.

**Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru ddynodi 'ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch' yng Nghymru.**

## 3.5 Terminoleg cynhwysol

Mae cylch gorchwyl y Comisiwn yn gofyn iddo 'adnabod ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol lle y gall fod angen ymyrraeth bolisi er mwyn cefnogi a chryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol'. Yn rhan o'r broses honno, bu'r Comisiwn yn ystyried pa derminoleg y dylid ei ddefnyddio wrth gyfeirio at ardaloedd o'r fath.

Mae'n well gan y Comisiwn y term 'arwyddocâd ieithyddol' na 'sensitifrwydd ieithyddol'.

Mae'r Comisiwn yn nodi fod pob cymuned lle siaredir y Gymraeg o arwyddocâd ieithyddol i'r sawl sy'n byw yno. Nid yw cadarnleoedd y Gymraeg yn unigryw am eu bod yn 'arwyddocaol' neu'n 'sensitif' ond am eu bod yn 'arwyddocaol' neu'n 'sensitif' mewn ffordd benodol.

Mae’r Gymraeg yn iaith gymunedol rwydweithiol ymhob rhan o Gymru. Ond nid yw’n iaith gymunedol ymhob man yng Nghymru mewn cyd-destun lle ceir dwysedd uchel o siaradwyr fel canran o’r boblogaeth yn lleol.

Er mwyn cyfeirio at yr ardaloedd a drafodir yn yr adroddiad hwn mewn modd gwrthrychol a chynhwysol, ac er mwyn pwysleisio fod y Gymraeg o arwyddocâd ymhob man lle caiff ei siarad, mae’r Comisiwn yn ffafrio defnyddio term sy’n gwneud hyn yn eglur. Y term mae’r Comisiwn am ei arddel er mwyn cyfeirio at yr ardaloedd hyn yw ‘ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch’.

Byddai hyn yn caniatáu cyfeirio at ardaloedd eraill o Gymru fel ‘ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol’ hefyd. Nid yw ystyried priodoldeb hynny yn rhan o gylch gorchwyl y Comisiwn yn ei waith presennol, ond wrth arddel terminoleg cynhwysol, mae’r Comisiwn yn caniatáu i hynny ddigwydd.

Y pwynt sylfaenol yw fod pob ardal yng Nghymru yn un lle mae’r Gymraeg yn arwyddocaol. Term technegol yw ‘dwysedd uwch’ ar gyfer diffinio ardaloedd lle gellid amrywio polisi cyhoeddus mewn modd sy’n ymateb i amgylchiadau sosioieithyddol perthnasol. Nid datganiad ydyw am ddilysrwydd y Gymraeg mewn unrhyw ardal benodol.

## 3.6 Pwrpas ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch

Byddai dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer:

- dwysáu’r ystyriaeth a wneir o’r Gymraeg o fewn fframwaith polisi.
- caniatáu ymyraethau ac amrywiaeth polisi a phwyslais polisi o blaid y Gymraeg fel iaith gymunedol.
- sicrhau fod yr amrywiaeth polisi yn ymateb i anghenion cymdeithasol ac ieithyddol yr ardaloedd hyn.
- rhoi grymoedd angenrheidiol i rymuso cymunedau i wrthdroi shifft iaith.

Dengys yr adroddiad hwn sut y gellid defnyddio dynodiad o’r fath er lles y Gymraeg mewn modd ymarferol. Gallai dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch hwyluso er enghraifft:

- defnydd strategol o adnoddau – creu cyd-destun ar gyfer darparu adnoddau mewn modd strategol i wrthdroi shifft iaith.
- cydweithio – gweithio a rhannu adnoddau ac arbenigedd ar draws ffiniau sirol mewn modd sydd yn llesol i’r Gymraeg.
- cynllunio ieithyddol ar lefel y gymuned – cynllunio ieithyddol sydd wedi’i seilio ar gynaliadwyedd cymunedol a gweithredu holistaidd, ac yn effeithiol ar y lefel meicro.
- datblygu cymunedol – cryfhau cynaliadwyedd a chydlynedd cymunedol gan gyfnerthu o ganlyniad y Gymraeg fel iaith gymunedol.
- economi – llunio polisïau economaidd fydd yn ymateb i anghenion neilltuol cymunedau Cymraeg wrth synio amdanynt o safbwynt strategol.

- gweithleoedd – cynnig cyd-destun ar gyfer cynyddu defnydd o’r Gymraeg mewn gweithleoedd a fydd yn ei dro yn cryfhau’r defnydd ohoni mewn cymunedau.
- tai – datblygu polisi tai sydd nid yn unig yn mynd i’r afael ag anghenion tai ond hefyd yn cydnabod ystyriaethau sy’n codi mewn cymunedau Cymraeg yn benodol.
- cynllunio gwlad a thref – datblygu a safoni’r cysyniad o ardaloedd o sensitifrwydd neu arwyddocâd ieithyddol a ddefnyddir yn y maes cynllunio gwlad a thref eisoes, gan gryfhau’r fframwaith polisi ar gyfer ymyraethau pellach, ac er mwyn amrywio polisi mewn modd sy’n adlewyrchu anghenion a dyheadau cymunedau.
- cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant – datblygu strategaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant sy’n cydnabod cyd-destunau cymunedol y Gymraeg, ac yn sicrhau y gall pawb gyfrannu iddynt.
- addysg – asesu a gosod nodau o ran darpariaeth Gymraeg sy’n sicrhau y bydd disgyblion yn dod yn hyddysg ac yn llythrennog yn y Gymraeg, gan gyfnerthu hefyd defnydd cymdeithasol ohoni yn y gymuned ehangach.

**Argymhelliad 3: Dylid mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch:**

- **dwysáu’r ystyriaeth a wneir o’r Gymraeg o fewn fframwaith polisi.**
- **caniatáu ymyraethau ac amrywiaeth polisi a phwyslais polisi o blaid y Gymraeg fel iaith gymunedol.**
- **sicrhau fod yr amrywiaeth polisi yn ymateb i anghenion cymdeithasol ac ieithyddol yr ardaloedd hyn.**
- **rhoi grymoedd angenrheidiol i rymuso cymunedau i wrthdroi shifft iaith.**

## 3.7 Polisïau cenedlaethol nad ydynt yn cael eu hamrywio

Er y gallai fod yn fuddiol, mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, i weithredu amrywiadau polisi mewn modd sy’n debyg o gael effaith sosioieithyddol, nid ydym yn rhagweld y bydd pob pwnc polisi sy’n ymwneud â’r Gymraeg yn y cymunedau hyn yn destun amrywiadau o’r fath. Mewn sawl maes, gall fod yn well cael polisi cenedlaethol heb weithredu amrywiadau. Oddi mewn i feysydd polisi ag effaith sosioieithyddol hefyd, bydd rhai polisïau’n cael eu gweithredu heb amrywiadau.

Nid yw hyn yn ddadl yn erbyn dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch gan mai diben y dynodi yw creu’r *gallu* i amrywio polisi. Mae’r Comisiwn yn credu hefyd y byddai’r weithred o ddynodi’n effeithio ar yr hinsawdd ar gyfer polisi a gweithredu’n gyffredinol. Byddai dynodiad o’r fath yn ddefnyddiol hyd yn oed pe na châi ei ddefnyddio ymhob maes polisi.

**Argymhelliad 4: Ni ddylai dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch olygu na wneir darpariaeth gyfanfydol (sy’n weithredol ymhob rhan o diriogaeth Cymru) ar gyfer y Gymraeg mewn nifer o feysydd polisi. Mewn materion o’r fath, ni ddylai fod rhaid amrywio polisi.**

## Dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch

### 3.8 Sut i ddynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch

Un ffordd o ddiffinio ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch fyddai trwy ddiffiniad sy’n seiliedig ar dystiolaeth ystadegol yn unig. Mae’n debyg y byddai diffiniad o’r fath yn gorfod dibynnu ar ystadegau iaith Cyfrifiad 2021 oherwydd natur gynhwysfawr yr ystadegau hynny.

Ffordd arall fyddai ystyried nifer o ffactorau perthynol yn ogystal ag ystadegau’r cyfrifiad er mwyn cydnabod cyd-destun cymdeithasol ehangach.

Barn y Comisiwn yw y dylid dynodi ardal o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yng nghyd-destun dealltwriaeth o amgylchiadau’r grŵp Cymraeg yn lleol. Mae hyn yn awgrymu y byddai angen mecanwaith polisi â mesur o awtonomi lleol wrth ddod i benderfyniad terfynol ynghylch yr union ardaloedd a ddynodir.

Felly, ni fyddai’r Comisiwn yn bleidiol i fodel sy’n ystyried ystadegau fel yr unig feincnod ar gyfer dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Pe bai meincnod yn cyfeirio at y ganran benodol o’r boblogaeth leol sy’n medru siarad Cymraeg, ni fyddem o blaid eithrio cymuned am fod canran ychydig yn is yn medru Cymraeg, ac am y rheswm hwnnw’n unig. Fel yr esbonnir isod, credwn y gellid defnyddio disgresiwn awdurdodau lleol er mwyn dynodi cymunedau mewn achosion o’r fath.

Mae’n rhaid hefyd i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch fod yn ddigon mawr i fod yn ystyrlon o safbwynt datblygu a gweinyddu polisi cyhoeddus yn effeithiol. Rhaid iddynt sicrhau bod ganddynt y gallu hefyd i gynnwys ardaloedd o’u mewn sy’n syrthio o dan drothwy ystadegol neilltuol, ond sy’n bwysig eu cynnwys oherwydd eu lleoliad daearyddol, neu hwyrach am eu bod yn ganolfannau lleol (o ran lleoliad cyfleusterau, er enghraifft), neu am reswm dilys arall.

Mae’r Comisiwn felly o’r farn y dylid defnyddio methodoleg hybrid er mwyn gwneud penderfyniad am yr union ardaloedd a ddynodir fel ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Byddai rhai ardaloedd yn cael eu dynodi ar sail tystiolaeth ystadegol Cyfrifiad 2021 yn unig. Byddai ardaloedd eraill yn cael eu dynodi ar sail ystyriaeth o ffactorau perthynol yn ogystal â Chyfrifiad 2021 megis ffynonellau ystadegol eraill, gwybodaeth leol, ewyllys yn lleol i fod yn rhan o ddynodiad, a ffactorau yn ymwneud â gweinyddiaeth effeithiol o safbwynt datblygu polisi cyhoeddus fyddai’n llesol i gynaliadwyedd y Gymraeg.

Yn yr is-adrannau nesaf, byddwn yn esbonio sut y gallai methodoleg hybrid o’r fath weithio.

## 3.9 Llywodraeth Cymru yn gosod trothwy cenedlaethol ar gyfer dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch

Nodweddir pob cymuned yng Nghymru lle ceir dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg gan shifft iaith i ryw raddau neu'i gilydd, ac mae gwyddor cynllunio ieithyddol yn awgrymu mai gwell yw ymyrryd yn gynnar yn y broses o geisio gwrthdroi shifft iaith. Felly, byddai'r Comisiwn o blaid dynodi'r ardaloedd sydd â'r dwysedd uchaf o siaradwyr Cymraeg yn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn ogystal â'r llefydd hynny lle mae arwyddion o shifft iaith yn fwy amlwg.

Er mwyn hynny, mae'r Comisiwn o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru osod trothwy ystadegol a fyddai'n arwain at ddynodi ardaloedd sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg.

Nid dyma fyddai'r unig ffordd o ddynodi ardaloedd yn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, ond mae'r Comisiwn o'r farn y byddai trothwy cenedlaethol yn osgoi sefyllfa lle gallai awdurdod lleol beidio gwneud dynodiad, hyd yn oed pe bai'n amlwg y dylid gwneud hynny. Gellid hefyd ystyried rhoi'r cyfrifoldeb ar Weinidogion Cymru yn ganolog i gyflawni dynodiadau amlwg os yw'r awdurdod lleol yn gwrthod gwneud hynny. Ceir sawl cynsail yn y meysydd cynllunio ac addysg lle rhoddir dyletswydd neu ddisgresiwn i Weinidogion Cymru weithredu yn niffyg awdurdod lleol i wneud hynny.

Ar gyfer y trothwy cenedlaethol hwn, rydym yn cynnig defnyddio Cyfrifiad 2021. Mae defnyddio'r cyfrifiad yn ddull symlach, haws-ei-ddeall a mwy tryloyw na dulliau eraill. Cyfiawnhad pwysig dros ddefnyddio ffigurau cyfrifiad yn unig wrth osod trothwy cenedlaethol yw y byddent yn cael eu defnyddio i ddynodi isafswm o ardaloedd yn unig.

O ganlyniad, ni fyddai problemau allai ddeillio o ddefnyddio un ffynhonnell ystadegol yn unig yn debyg o godi—er enghraifft, hollti ardal am fod un rhan ohoni ychydig o dan drothwy, a rhan ohoni fymryn uwchben y trothwy hwnnw. Mae hyn oherwydd ein bod yn awgrymu mabwysiadu ail ddull o ddynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch a fyddai'n medru mynd i'r afael â chymhlethdodau o'r fath.

## 3.10 Dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch trwy ddisgresiwn awdurdodau lleol

Dim ond rhai lleoedd fyddai'n cael eu dynodi fel ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch drwy gyfrwng trothwy cenedlaethol a osodir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Comisiwn yn rhagdybio y bydd nifer o leoedd eraill yn cael eu dynodi hefyd. Yn yr achosion hyn, gellid defnyddio ystod o ffigurau ystadegol o wahanol ffynonellau, yn ogystal hefyd ag ystyriaethau nad ydynt yn seiliedig ar ystadegau iaith yn unig, megis lleoliad daearyddol, er mwyn gwneud dynodiad.

Ceir yng Nghymru lawer o gymunedau sydd â phroffeil ieithyddol canolig. Er nad yw'r Gymraeg mor gryf yno ag mewn ardaloedd eraill, mae'r iaith yn rhan bwysig o'r gwead cymdeithasol. Mae cymunedau o'r fath yn sensitif o safbwynt ieithyddol i

newidiadau cymdeithasol neu sosioeconomaidd. Bydd angen ystyriaeth ofalus a ddylid eu dynodi'n ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch ai peidio.

Mae'r Comisiwn o'r farn na ddylai llywodraeth ganolog wneud y penderfyniad hwnnw. Rydym yn rhagweld mai awdurdodau lleol fyddai'n gwneud hyn.

Dylai awdurdodau lleol fod yn gyfrifol am ddynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch oherwydd bydd dynodiad yn dod â rhai cyfrifoldebau polisi cyhoeddus ychwanegol yn ei sgil. Dylai fod cefnogaeth i hyn yn lleol. Er mwyn bod yn effeithiol, mae'n rhaid fod cynllunio ieithyddol wedi'i wreiddio yn y gymuned. Pe bai cymunedau sydd â dwysedd is o siaradwyr Cymraeg na'r trothwy cenedlaethol yn barod i dderbyn y cyfrifoldebau polisi a fyddai'n dod yn sgil dynodiad o'r fath, nid yw'r Comisiwn yn gweld pam na ddylid eu cynnwys.

Byddai hyn oll yn medru dod â hyblygrwydd i ddynodiad. Byddai'n sicrhau fod cynllunio ieithyddol yn digwydd ar sail 'o'r bôn i'r brig' yn hytrach nag 'o'r brig i'r bôn'. Trwy ymateb i ddemocratiaeth leol, gall leihau'r posibiliad y byddai ardaloedd yn cael eu heithrio'n groes i ddymuniadau eu trigolion. Byddai'n sicrhau hefyd y ceir 'llywodraeth trwy gydsyniad' mewn cymunedau sy'n ffiniol yn ieithyddol. I ryw raddau felly, mae'r Comisiwn o'r farn y gallai ewyllys cymuned benodol i fod yn ardal o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch fod yn ystyriaeth ddilys wrth benderfynu ar ddynodiad, ac mai'r ffordd orau o fesur yr awydd hwnnw fyddai trwy'r broses ddemocrataidd yn lleol.

Er y gellid sicrhau atebolrwydd lleol mewn sawl ffordd—gan ddwyn i ystyriaeth farn grwpiau cymunedol, ynghyd â barn cynghorau tref a chymuned—y corff mwyaf addas i lunio'r dynodiad terfynol fyddai'r awdurdod lleol.

Mewn rhai amgylchiadau, gallai fod yn fuddiol i awdurdod lleol yn ei gyfanrwydd fod yn ardal o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch ac mewn amgylchiadau eraill gellid dadlau na fyddai'n synhwyrol i ddynodi'r awdurdod lleol i gyd.

O ystyried yr uchod, trwy ganiatáu diffiniad eithaf eang o beth yw ardal o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, gellid galluogi awdurdodau lleol sydd â chanrannau is o siaradwyr i fabwysiadu'r cysyniad pe dymunent. Rydym yn ymwybodol y gallai fod yn briodol i Lywodraeth Cymru ddarparu cyngor er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol yn y gwaith o ddynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch drwy ddisgresiwn.

## 3.11 Ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch mewn awdurdodau lleol gyda dwysedd is o siaradwyr Cymraeg

Un fantais posibl o ddynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yw y gallai rymuso'r Gymraeg mewn cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg mewn awdurdodau lleol lle nad yw canran y siaradwyr Cymraeg ar draws y sir mor uchel. Ceir cymunedau Cymraeg mwyafrifol yn Sir Benfro, Castell-nedd Port Talbot, Powys, Conwy a Sir Ddinbych, er enghraifft.

Mae'r mwyafrif o'r cymunedau hyn yn ffinio ar 'bedair sir graidd' yr ardaloedd Cymraeg—Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Mae'n werth nodi

felly y byddai dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn hwyluso pontio strategol ar draws ffiniau awdurdodau lleol ac yn cryfhau cymunedau Cymraeg oddi allan i'r siroedd hyn yn ogystal ag oddi mewn iddynt.

### 3.12 Darpariaeth ddeddfwriaethol bosibl ar gyfer ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch

Mae'r Comisiwn o'r farn y gellid gwneud darpariaeth ar gyfer dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch mewn deddfwriaeth bosibl fel a ganlyn:

> <u>'Ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch'</u>
>
> (1) Mae dyletswydd ar awdurdod lleol i ddynodi ardal o fewn ei ardal fel un o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch os yw canran y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal honno yn hafal i neu'n uwch na X%.
>
> (2) Gall awdurdod lleol hefyd ddynodi ardal arall o fewn ei ardal fel un o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch:
>
> (a) os ydyw'n ffinio ag ardal a ddynodir yn unol ag isadran (1) uchod.
>
> (b) os ydyw'n ystyried y dylid gwneud hynny ar sail dwysedd y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal honno fel canran o'i phoblogaeth, hyd yn oed os yw'r ganran honno yn is na X%.
>
> (3) Wrth arfer eu swyddogaethau, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol roi sylw arbennig i hyfywedd y Gymraeg o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.
>
> (4) Mae dyletswydd ar awdurdod lleol i gydweithio gydag awdurdodau lleol eraill drwy rannu arbenigedd a gwybodaeth sy'n berthnasol i'w dyletswyddau a'u grymoedd o dan yr adran hon.

**Argymhelliad 5: Dylai ardal gael ei dynodi fel un o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch os yw canran y siaradwyr yn yr ardal yn hafal i neu'n uwch na throthwy cenedlaethol a osodir gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal â hynny dylai fod gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i ddynodi ardal fel un o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch os yw ardal yn ffinio ar ardal o'r fath, neu ar sail dwysedd siaradwyr Cymraeg fel canran o'r boblogaeth yno.**

**Dylid gwneud darpariaeth ar gyfer dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch fel a ganlyn:**

> **<u>'Ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch'</u>**
>
> **(1) Mae dyletswydd ar awdurdod lleol i ddynodi ardal o fewn ei ardal fel un o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch os yw canran y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal honno yn hafal i neu'n uwch na X%.**

**(2) Gall awdurdod lleol hefyd ddynodi ardal arall o fewn ei ardal fel un o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch:**

**(a) os ydyw'n ffinio ag ardal a ddynodir yn unol ag isadran (1) uchod.**

**(b) os ydyw'n ystyried y dylid gwneud hynny ar sail dwysedd y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal honno fel canran o'i phoblogaeth, hyd yn oed os yw'r ganran honno yn is na X%.**

**(3) Wrth arfer eu swyddogaethau, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol roi sylw arbennig i hyfywedd y Gymraeg o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.**

**(4) Mae dyletswydd ar awdurdod lleol i gydweithio gydag awdurdodau lleol eraill drwy rannu arbenigedd a gwybodaeth sy'n berthnasol i'w dyletswyddau a'u grymoedd o dan yr adran hon.**

### 3.13 Diffiniad o 'ardal'

Er mwyn dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, byddai'n rhaid yn gyntaf ddiffinio'r hyn a olygir wrth 'ardal'. Gallai 'ardal' fod yn 'LSOA' (*Lower layer Super Output Area*) fel y'i diffinnir yng nghyd-destun Cyfrifiad 2021, neu gall fod yn glwstwr o LSOAs sydd wedi'u dwyn ynghyd—er mwyn cynnwys tref neu anheddle penodol yn ei gyfanrwydd, er enghraifft, neu sy'n dwyn i ystyriaeth ryw nodwedd berthnasol arall, megis dalgylch ysgol uwchradd leol, neu ardal 'teithio-i-waith', neu ardal a nodir mewn Cynllun Datblygu Lleol.

Byddai'r Comisiwn yn ffafrio fod ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn ffinio ar ei gilydd. O safbwynt gweithredu polisi cyhoeddus, ni fyddai'n gwneud synnwyr pe ceid clofannau bach nad ydynt yn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch oddi mewn i ardal ehangach o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, neu glofannau bach sy'n ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch oddi mewn i ardal ehangach nad ydyw â'r diffiniad hwnnw.

Er enghraifft, ni fyddai'n gwneud fawr o synnwyr diffinio tref gyfan fel ardal o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch ac eithrio un rhan fechan o'r dref honno a fyddai wedi ei heithrio am fod LSOA unigol wedi syrthio'n is nag X%, sef y trothwy ar gyfer dynodiad statudol.

Mae hyn oll yn awgrymu y gallai fod angen trafodaeth ag ystadegwyr am yr hyn a olygir wrth 'ardal'.

Cyngor y Comisiwn yw fod Llywodraeth Cymru yn ceisio arweiniad pellach ar y mater hwn gan Prosiect BRO.

### 3.14 Trothwy cenedlaethol statudol ar gyfer dynodi ardal yn ardal o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch

Er mwyn sicrhau cydlynedd polisi cyhoeddus ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, ni ddylai fod modd peidio dynodi ardal yn ardal o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch

os yw canran y siaradwyr Cymraeg yn hafal i neu'n uwch na ffigur neilltuol oni bai fod rhesymau arbennig.

Rydym yn cyfeirio at y ganran honno yn yr adroddiad hwn fel X%.

I bob pwrpas ymarferol, byddai hyn yn creu trothwy cenedlaethol o ran y ganran o siaradwyr Cymraeg a geid mewn 'ardal' o ran bod dyletswydd i ddynodi'r ardal honno'n ardal o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Mae'r Comisiwn o'r farn y dylai hyn fod yn ddyletswydd statudol.

Pe gosodid y gofyniad statudol hwn mewn deddfwriaeth, ni fyddai'n rhaid nodi ar wyneb unrhyw Fil yr union ganran o siaradwyr Cymraeg mewn poblogaeth a fyddai'n gorfod cyfateb i X%. Gellid nodi'r ganran mewn rheoliadau. Gellid diffinio beth yw 'ardal' mewn rheoliadau hefyd. Byddai defnyddio rheoliadau nid yn unig yn cyflwyno elfen o hyblygrwydd wrth osod polisi cyhoeddus, ond hefyd yn golygu y gellid adolygu'r ganran yn ôl y galw. Byddai'n fuddiol gwneud hyn yn gyson—bob pum mlynedd, dyweder.

Byddai dwy ffactor a allai fod yn debyg o ddylanwadu ar benderfyniad Gweinidogion Cymru wrth bennu'r ganran a nodir fel X%.

Yr ystyriaeth gyntaf fyddai tystiolaeth sosioieithyddol ynghylch y newidiadau o ran defnydd iaith leiafrifol wrth i gyfran y siaradwyr mewn ardal ostwng neu godi. Nid oes gennym gymaint â hynny o dystiolaeth sydd wedi'i seilio ar waith maes manwl cyfoes yng Nghymru am newidiadau mewn defnydd o'r Gymraeg wrth i ganrannau siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau newid. Cymhlethir y sefyllfa gan y posibiliad y ceir mewn rhai lleoedd sydd wedi profi mewnfudo trwm o boblogaeth ddi-Gymraeg ddwy gymuned ieithyddol gyfochrog. Hynny yw, gallai fod mewn ardal neilltuol gymuned ieithyddol hyfyw sy'n defnyddio'r Gymraeg yn feunyddiol ar draws ystod o gyd-destunau sosioieithyddol er bod siaradwyr Cymraeg yn lleiafrif yn lleol.

Barn y Comisiwn yw y dylai'r cymunedau hyn hefyd gael eu dynodi'n ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch fel bod modd cael ymyraethau sosioieithyddol priodol ar eu cyfer. Mae'r Comisiwn yn rhagweld y bydd astudiaeth bresennol Prosiect BRO yn gallu darparu tipyn o'r dystiolaeth a fyddai'n sail i fyfyrdodau pellach yn y maes hwn.

Yr ail ystyriaeth yw ymarferoldeb mewn polisi cyhoeddus. Dylai ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch fod yn ddigon mawr i fod yn ystyrlon ar gyfer gweithredu polisi cyhoeddus, a dylent fod, i'r raddau bo hynny'n bosibl, yn gydlynus. Mae hyn oll yn berthnasol i'r drafodaeth am y ganran a nodir ar gyfer X%.

Pe bai X% yn rhy isel, gellid creu nifer o glofannau ieithyddol gwasgaredig a fyddai nid yn unig yn fach ond hefyd yn ynysig. Byddai angen eu dynodi fel ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch er eu bod yn bell oddi wrth ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch eraill. Ni fyddai'r clofannau hyn yn croesi'r trothwy cenedlaethol statudol ond o ychydig bwyntiau canran, a gall eu nodweddion cymdeithasol fod yn dra gwahanol i nodweddion ardaloedd eraill o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Mae hyn yn codi'r cwestiwn a fyddai'r math o ymyraethau polisi cyhoeddus a argymhellir yn yr adroddiad hwn yn briodol ar eu cyfer.

Pe bai X% yn rhy uchel, byddai'n anodd cael ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch dros diriogaeth eang er y gallai awdurdodau lleol yn y cyd-destun hwn ddefnyddio disgresiwn.

Mae'r Comisiwn hefyd yn awyddus i sicrhau fod X% yn ganran sy'n hwyluso defnydd o'r trothwy cenedlaethol mewn ardaloedd o'r de-orllewin yn ogystal â'r gogledd-orllewin. Pe bai X% yn uchel iawn (70%, dyweder), ni fyddai modd cynnwys unrhyw ran o dde-orllewin Cymru oddi mewn i'r diffiniad statudol. Ym marn y Comisiwn, ni fyddai hyn yn fuddiol.

Mae'r Comisiwn o'r farn y dylai X% gael ei bennu maes o law yn sgil cyhoeddi rhagor o ganlyniadau gwaith ymchwil Prosiect BRO, ac wrth ddwyn i ystyriaeth sylwadau academyddion ac ystadegwyr eraill, ac wedi ymgynghori â rhanddeiliaid gan gynnwys awdurdodau lleol.

Fodd bynnag, at ddiben yr adroddiad hwn, ac er mwyn medru modelu'r cysyniad, mae'r Comisiwn yn awgrymu y dylai X% gael ei bennu am y tro fel 40% o'r boblogaeth yn medru siarad Cymraeg mewn ardal neilltuol yn ôl ystadegau Cyfrifiad 2021.

Pe mabwysiedid 40% fel trothwy, gallai awdurdodau lleol ddynodi ardaloedd o dan y trothwy ar sail disgresiwn er mwyn, er enghraifft, sicrhau bod ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn eang ac yn gydlynus. Gellid yn ogystal ddefnyddio disgresiwn er mwyn ymestyn ar ffiniau'r ardaloedd hyn.

Mae'n werth nodi fod LSOAs ynghanol ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch sy'n syrthio islaw 40% fel arfer yn gwneud hynny o ychydig bwyntiau canran yn unig. Am y rheswm hwnnw, nid ydym o'r farn y byddai gwrthwynebiad lleol sylweddol mewn ardaloedd o'r fath i'w dynodiad fel ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch ar sail disgresiwn.

**Argymhelliad 6: Dylai fod rhagdybiaeth o blaid dynodi X% (sef y trothwy a grybwyllir yn argymhelliad 5) fel 40%. Dylai Llywodraeth Cymru wneud y penderfyniad terfynol ynghylch beth yw X% yn sgil cyhoeddi rhagor o ganlyniadau gwaith ymchwil Prosiect BRO, ac wrth ddwyn i ystyriaeth hefyd sylwadau academyddion ac ystadegwyr eraill, ac wedi ymgynghori â rhan-ddeiliaid gan gynnwys awdurdodau lleol.**

### 3.15 Rhestr o LSOAs perthnasol i'r drafodaeth

Mae'r rhestr hon yn cynnwys pob LSOA yng Ngwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Yng ngweddill Cymru, nodir pob LSOA sydd â chanran o siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth sy'n uwch na 25%.

**Tabl 3.1: Gwynedd—LSOAs sydd yn croesi'r trothwy 40%**

| Enw | % |
|---|---|
| Seiont 1 | 86% |
| Llanrug | 86% |
| Bethel a Chwm-y-Glo 1 | 86% |
| Peblig (Caernarfon) | 85% |
| Penygroes | 83% |
| Bontnewydd | 83% |
| Llanwnda | 81% |
| Ogwen 1 | 81% |
| Cadnant | 81% |
| Llandderfel a Llanuwchllyn 2 | 81% |
| Menai (Caernarfon) | 78% |
| Abererch | 78% |
| Groeslon | 77% |
| Dwyrain Porthmadog | 77% |
| Bowydd a Rhiw | 76% |
| Gogledd Pwllheli | 76% |
| Seiont 2 | 76% |
| Aberdaron / Botwnnog a Thudweiliog | 76% |
| Penrhyndeudraeth 2 | 75% |
| De Pwllheli | 75% |
| Llanystumdwy | 75% |
| Teigl | 74% |
| Ogwen 2 | 74% |
| Waunfawr | 74% |
| Deiniolen | 73% |
| Gerlan | 73% |
| Nefyn | 73% |
| Diffwys a Maenofferen | 73% |
| Efailnewydd/Buan | 73% |
| Trawsfynydd | 73% |
| Y Bala | 72% |
| Morfa Nefyn | 72% |
| Llanllyfni a Chlynnog | 71% |
| Llanaelhaearn | 70% |
| Talysarn | 70% |
| Penrhyndeudraeth 1 | 70% |
| Llanberis | 69% |
| Bethel a Chwm-y-Glo 2 | 69% |
| Y Felinheli | 68% |
| Penisarwaun | 68% |
| Tregarth a Mynydd Llandygai | 68% |
| Porthmadog – Tremadog | 66% |
| Dolbenmaen | 65% |
| Llandderfel a Llanuwchllyn 1 | 65% |
| Pentir 1 | 62% |
| Llanengan | 61% |
| De Dolgellau | 61% |
| Criccieth | 60% |
| Brithdir a Llanfachreth / Ganllwyd / Llanelltyd | 60% |
| Gogledd Dolgellau | 60% |
| Arllechwedd | 58% |
| Pentir 2 | 57% |
| Gorllewin Porthmadog | 56% |
| Llanbedrog ac Abersoch | 55% |
| Harlech | 55% |
| Glyder | 53% |
| Dewi | 52% |
| Marchog 1 | 51% |
| Corris/Mawddwy | 49% |
| Marchog 2 | 48% |
| Dyffryn Ardudwy / Llanbedr | 47% |
| Aberdyfi / Bryn-crug / Llanfihangel | 43% |
| Abermaw 1 / Abermaw 2 | 42% |
| Llangelynin | 40% |
| Tywyn 2 | 40% |

**Tabl 3.2: Gwynedd—LSOAs nad ydynt yn croesi'r trothwy 40%**

| Enw | % |
|---|---|
| Hendre | 38% |
| Tywyn 1 | 36% |
| Hirael a Garth 2 | 35% |
| Hirael a Garth 1 | 33% |
| Menai (Bangor) | 22% |
| Deiniol | 20% |

**Tabl 3.3: Ynys Môn—LSOAs sydd yn croesi'r trothwy 40%**

| Enw | % |
|---|---|
| Cyngar | 79% |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 75% |
| Tudur | 75% |
| Braint | 73% |
| Cefni | 73% |
| Bodffordd | 72% |
| Bryngwran | 69% |
| Gwyngyll | 68% |
| Llannerch-y-medd | 67% |
| Llanfair-yn-Neubwll 1 | 65% |
| Bodorgan | 64% |
| Llanidan | 64% |
| Rhosyr | 61% |
| Llanfaethlu | 61% |
| Porth Amlwch | 60% |
| Tysilio | 58% |
| Llanddyfnan/Moelfre | 58% |
| Cwm Cadnant | 58% |
| Mechell | 56% |
| Pentraeth | 54% |
| Llaneilian | 52% |
| Aberffraw a Rhosneigr 1/2 | 51% |
| Amlwch Wledig | 51% |
| Trearddur 1/Y Fali 1 | 49% |
| Brynteg | 49% |
| Parc a'r Mynydd | 48% |
| Y Fali 2 | 48% |
| Llanbadrig | 47% |
| London Road | 47% |
| Llangoed | 46% |
| Kingsland | 46% |
| Cadnant | 46% |
| Porthyfelin 2 | 45% |
| Maeshyfryd | 41% |

**Tabl 3.4: Ynys Môn—LSOAs nad ydynt yn croesi'r trothwy 40%**

| Enw | % |
|---|---|
| Llanbedrgoch | 39% |
| Morawelon | 38% |
| Tref Caergybi | 37% |
| Llanfair-yn-Neubwll 2 | 37% |
| Biwmares | 37% |
| Porthyfelin 1 | 36% |
| Trearddur 2 | 35% |

**Tabl 3.5: Conwy—LSOAs sydd yn croesi'r trothwy 40%**

| Enw | % |
|---|---|
| Uwchaled | 64% |
| Uwch Conwy | 62% |
| Llangernyw | 62% |
| Gower | 61% |
| Llansannan | 60% |
| Crwst | 57% |
| Eglwysbach | 54% |
| Betws-y-Coed | 47% |
| Pandy | 45% |
| Bryn | 42% |
| Trefriw | 42% |
| Betws yn Rhos | 41% |

**Tabl 3.6: Conwy—LSOAs nad ydynt yn croesi'r trothwy 40% ond sydd â chanran o siaradwyr Cymraeg sy'n uwch na 25%**

| Enw | % |
|---|---|
| Caerhun | 39% |
| Conwy 3 | 34% |
| Pant-yr-afon / Penmaenan 2 | 34% |
| Llansanffraid 1 a 2 | 32% |
| Capelulo | 31% |
| Pant-yr-afon/Penmaenan 1 | 31% |
| Pensarn 1 | 29% |
| Pensarn 2 | 29% |
| Marl 2 | 28% |
| Marl 1 | 26% |

**Tabl 3.7: Sir Gaerfyrddin—LSOAs sydd yn croesi'r trothwy 40%**

| Enw | % |
|---|---|
| Cwarter Bach 1 | 62% |
| Pontyberem 1 | 61% |
| Gorslas 1 | 61% |
| Llannon 2 | 60% |
| Pontyberem 2 | 60% |
| Llannon 1 | 59% |
| Llanegwad 1 | 58% |
| Penygroes 2 | 58% |
| Cwarter Bach 2 | 57% |
| Llanfihangel-ar-Arth 2 | 56% |
| Gorslas 2 | 56% |
| Llanddarog | 56% |
| Penygroes 1 | 55% |
| Abergwili | 55% |
| Llangyndeyrn 2 | 54% |
| Glyn | 54% |
| Llanismel 1 | 53% |
| Llanybydder 1 | 52% |
| Llandybie 2 | 52% |
| Pontaman 2 | 51% |
| Llanfihangel-ar-Arth 1 | 51% |
| Llanybydder 2 | 51% |
| Llandybie 1 | 51% |
| Garnant | 51% |
| Cynwyl Elfed 2 | 50% |
| Betws | 50% |
| Trimsaran 1 | 50% |
| Llannon 3 | 50% |
| Saron 2 | 49% |
| Glanaman 2 | 49% |
| Llangynnwr 2 | 48% |
| Cynwyl Elfed 1 | 48% |
| Llangeler 2 | 48% |
| Glanaman 1 | 48% |
| Llandeilo 1 | 48% |
| Llangynnwr 1 | 47% |
| Sanclêr 2 | 47% |
| Rhydaman 2 | 47% |
| Llangeler 1 | 47% |
| Llangadog | 47% |
| Llanboidy | 47% |
| Sanclêr 1 | 47% |
| Saron 1 | 46% |
| Llanfihangel Aberbythych | 46% |
| Pontaman 1 | 46% |
| Llangyndeyrn 1 | 46% |
| Cenarth | 46% |
| Manordeilo a Salem | 45% |
| Trelech | 45% |
| Tref Caerfyrddin Gogledd 4 | 45% |
| Rhydaman 1 | 44% |
| Cynwyl Gaeo | 43% |
| Llandeilo 2 | 43% |
| Tycroes | 42% |
| Cilycwm | 42% |
| Llangennech 1 | 42% |
| Llansteffan | 40% |
| Trimsaran 2 | 40% |

**Tabl 3.8: Sir Gaerfyrddin—LSOAs nad ydynt yn croesi’r trothwy 40%**

| Enw | % |
|---|---|
| Tref Caerfyrddin Gorllewin 2 | 39% |
| Llanymddyfri 2 | 39% |
| Hendy 1 | 38% |
| Tref Caerfyrddin De 2 | 38% |
| Cydweli 1 | 38% |
| Cydweli 2 | 38% |
| Hendy 2 | 37% |
| Llanismel 2 | 37% |
| Llangennech 3 | 37% |
| Tref Caerfyrddin Gorllewin 3 | 37% |
| Hendy-gwyn | 37% |
| Llanymddyfri 1 | 36% |
| Llanegwad 2 | 36% |
| Pen-bre 1 | 34% |
| Tref Caerfyrddin Gogledd 3 | 34% |
| Elli 1 | 33% |
| Lliedi 2 | 33% |
| Hengoed 1 | 33% |
| Porth Tywyn 3 | 32% |
| Tref Caerfyrddin Gogledd 1 | 32% |
| Llangennech 2 | 32% |
| Hengoed 2 / Hengoed 3 | 31% |
| Tref Caerfyrddin De 1 | 31% |
| Porth Tywyn 1 | 31% |
| Swiss Valley 1 / Swiss Valley 2 | 30% |
| Dafen 1 | 27% |
| Porth Tywyn 2 | 27% |
| Bynea 1 | 27% |
| Tref Caerfyrddin Gorllewin 1 | 26% |
| Tref Caerfyrddin Gogledd 2 | 26% |
| Felinfoel | 26% |
| Bigyn 1 | 25% |
| Bynea 2 | 25% |
| Elli 2 | 24% |
| Lliedi 3 | 24% |
| Glanymor 3 | 23% |
| Pen-bre 2 | 23% |
| Llwynhendy 2 | 23% |
| Llwynhendy 1 | 23% |
| Lliedi 1 | 22% |
| Bigyn 2 | 22% |
| Bigyn 3 | 22% |
| Dafen 2 | 21% |
| Treflan Lacharn 2 | 21% |
| Llwynhendy 3 | 20% |
| Tyisha 1 | 19% |
| Treflan Lacharn 1 | 19% |
| Glanymor 2 | 18% |
| Glanymor 1 | 18% |
| Tyisha 3 | 18% |
| Tyisha 2 | 17% |
| Glanymor 3 | 17% |
| Bigyn 4 | 15% |

**Tabl 3.9: Ceredigion—LSOAs sydd yn croesi'r trothwy 40%**

| Enw | % |
|---|---|
| Aberaeron | 59% |
| Tregaron | 59% |
| Ystwyth | 57% |
| Tref Llandysul | 57% |
| Pen-parc 2 | 55% |
| Aberteifi – Mwldan | 55% |
| Llanfarian | 53% |
| Llanfihangel Ystrad | 53% |
| Trefeurig | 53% |
| Llanwenog | 53% |
| Llanrhystud | 52% |
| Ceulanamaesmawr | 52% |
| Llambed 2 | 52% |
| Ciliau Aeron | 52% |
| Tirymynach | 52% |
| Beulah | 50% |
| Lledrod | 50% |
| Llandyfriog | 50% |
| Troedyraur | 50% |
| Llansantffraid 2 | 50% |
| Melindwr | 49% |
| Aberteifi - Rhyd-y-Fuwch | 48% |
| Llangeitho | 47% |
| Capel Dewi | 47% |
| Faenor 1 | 47% |
| Llansantffraid 1 | 47% |
| Aberporth 1 | 46% |
| Pen-parc 1 | 46% |
| Llanarth / Llandysiliogogo / Ceinewydd | 46% |
| Penbryn | 45% |
| Aberporth 2 | 45% |
| Llambed 1 | 45% |
| Llangybi | 44% |
| Aberystwyth Bronglais | 44% |
| Llanbadarn Fawr – Padarn a Llanbadarn Fawr – Sulien (W01001935) | 42% |
| Borth 1 / Borth 2 | 42% |
| Aberteifi - Teifi | 41% |

**Tabl 3.10: Ceredigion—LSOAs nad ydynt yn croesi'r trothwy 40%**

| Enw | % |
|---|---|
| Aberystwyth Rheidol 2 | 34% |
| Aberystwyth Penparcau 1 | 33% |
| Aberystwyth Penparcau 2 | 32% |
| Llanbadarn Fawr – Padarn a Llanbadarn Fawr – Sulien (W01001936) | 28% |
| Aberystwyth – Canol | 25% |
| Aberystwyth Rheidol 1 | 22% |
| Aberystwyth Gogledd / Faenor 2 (W01002000) | 22% |
| Aberystwyth Gogledd / Faenor 2 (W01002001) | 20% |

**Tabl 3.11: Sir Benfro—LSOAs sydd yn croesi'r trothwy 40%**

| Enw | % |
|---|---|
| Crymych 1 | 59% |
| Crymych 2 | 56% |
| Clydau | 50% |
| Dinas | 47% |
| Cilgerran | 47% |
| Maenclochog 2 | 46% |
| Llandudoch | 42% |
| Trefdraeth | 41% |
| Maenclochog 1 | 41% |

**Tabl 3.12: Sir Benfro—LSOAs nad ydynt yn croesi'r trothwy 40% ond sydd â chanran o siaradwyr Cymraeg sy'n uwch na 25%**

| Enw | % |
|---|---|
| Llanrhian | 37% |
| Treletert | 32% |
| Gogledd-orllewin Abergwaun | 31% |
| Scleddau | 30% |
| Gogledd-ddwyrain Abergwaun | 28% |
| Wdig | 28% |

**Tabl 3.13: Sir Ddinbych—LSOAs sydd yn croesi'r trothwy 40%**

| Enw | % |
|---|---|
| Llandrillo | 55% |
| Rhuthun 3 | 50% |
| Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch | 47% |
| Efenechtyd | 47% |
| Dinbych Isaf 1 | 44% |

| | |
|---|---|
| Llanfair Dyffryn Clwyd / Gwyddelwern | 44% |
| Corwen 1 | 42% |
| Corwen 2 | 42% |

**Tabl 3.14: Sir Ddinbych—LSOAs nad ydynt yn croesi'r trothwy 40% ond sydd â chanran o siaradwyr Cymraeg sy'n uwch na 25%**

| Enw | % |
|---|---|
| Dinbych Isaf 2 | 37% |
| Dinbych Isaf 3 | 35% |
| Llandyrnog | 35% |
| Dinbych Uchaf / Henllan 2 | 34% |
| Rhuthun 1 | 34% |
| Llanbedr Dyffryn Cwyd / Llangynhafal | 33% |
| Rhuthun 2 | 33% |
| Trefnant | 28% |
| Tremeirchion | 27% |
| Canol Dinbych | 27% |

**Tabl 3.15: Powys—LSOAs sydd yn croesi'r trothwy 40%**

| Enw | % |
|---|---|
| Glantwymyn | 55% |
| Machynlleth | 47% |
| Llanbrynmair a Banwy | 45% |
| Llanrhaeadr-ym-Mochnant | 41% |

**Tabl 3.16: Powys—LSOAs nad ydynt yn croesi'r trothwy 40% ond sydd â chanran o siaradwyr Cymraeg sy'n uwch na 25%**

| Enw | % |
|---|---|
| Cwm-twrch | 37% |
| Ystradgynlais 2 | 36% |
| Ynyscedwyn | 35% |
| Llanfair Caereinion | 34% |
| Aber-craf | 33% |
| Llanfyllin | 32% |
| Meifod a Llanfihangel | 28% |
| Llanrhaeadr ym Mochnant a Llansilin | 28% |
| Caersws | 25% |

**Tabl 3.17: Castell-nedd Port Talbot—LSOAs sydd yn croesi'r trothwy 40%**

| Enw | % |
|---|---|
| Cwmllynfell | 53% |
| Gwaun-Cae-Gurwen 1 | 52% |
| Brynaman Isaf | 51% |
| Gwaun-Cae-Gurwen 2 | 42% |

**Tabl 3.18: Castell-nedd Port Talbot—LSOAs nad ydynt yn croesi'r trothwy 40% ond sydd â chanran o siaradwyr Cymraeg sy'n uwch na 25%**

| Enw | % |
|---|---|
| Ystalyfera 2 | 38% |
| Ystalyfera 1 | 33% |
| Trebannws | 31% |
| Pontardawe 3 | 28% |
| Pontardawe 1 | 27% |
| Godre'r Graig | 27% |

**Gweddill Cymru—LSOAs nad ydynt yn croesi'r trothwy 40% ond sydd â chanran o siaradwyr Cymraeg sy'n uwch na 25%**

**Tabl 3.19: Caerdydd**

| Enw | % |
|---|---|
| Treganna 6 | 35% |
| Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais 1 | 31% |
| Treganna 7 | 28% |
| Treganna 5 | 27% |
| Treganna 8 | 27% |
| Creigiau/Sain Ffagan 2 | 27% |
| Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais 10 | 25% |

**Tabl 3.20: Abertawe**

| Enw | % |
|---|---|
| Mawr | 31% |
| Pontarddulais 1 | 28% |
| Pontarddulais 3 | 27% |
| Pontarddulais 2 | 26% |

**Tabl 3.21: Wrecsam**

| Enw | % |
|---|---|
| Dyffryn Ceiriog 1 a 2 | 30% |
| Ponciau 3 | 26% |

**Tabl 3.22: Sir y Fflint**


| Enw | % |
|---|---|
| De'r Wyddgrug | 28% |

**Tabl 3.23: Rhondda Cynon Taf**


| Enw | % |
|---|---|
| Pont-y-clun 2 | 27% |
| Pentre'r Eglwys 2 | 26% |
| Llanilltud Faerdref | 25% |

## 3.16 Map o LSOAs lle mae dros 40% a 25% yn medru siarad Cymraeg


### Canran y siaradwyr Cymraeg (Cyfrifiad 2021) – Cymru




## Canran y siaradwyr Cymraeg (Cyfrifiad 2021) – Aberystwyth





## Canran y siaradwyr Cymraeg (Cyfrifiad 2021) – Bangor




## Canran y siaradwyr Cymraeg (Cyfrifiad 2021) – Caerdydd




## Canran y siaradwyr Cymraeg (Cyfrifiad 2021) – Llanelli



## 3.17 Cydlynedd tiriogaethol ardaloedd lle mae dros 40% yn medru siarad Cymraeg

Mae'r map o Gymru yn 3.16 yn dangos cydlynedd tiriogaethol amlwg LSOAs lle mae dros 40% yn medru siarad Cymraeg. Gyda'i gilydd mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys digon o diriogaeth i gynnig gofod lle gellid, yn gredadwy, weithredu nodau polisi cyhoeddus.

## 3.18 Rhai ystyriaethau ynghylch cymunedau lle mae rhwng 25% a 40% yn medru siarad Cymraeg

Mae'r mapiau yn 3.16 hefyd yn dangos lleoliad LSOAs lle mae rhwng 25% a 40% yn medru siarad Cymraeg ac yn awgrymu rhai ystyriaethau a all godi o safbwynt gweithredu polisi cyhoeddus yno. Trafodir isod rai o'r ystyriaethau hyn yn enwedig o ran a ddylid dynodi trwy ddisgresiwn rai o'r LSOAs hyn yn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

### Cymunedau gwledig lle mae rhwng 25% a 40% yn medru siarad Cymraeg

Nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn bod canran y siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio ym myd amaeth yn neilltuol uchel o gymharu â sectorau economaidd eraill. Hyd yma, ni wnaed ymchwil trylwyr ar lefel LSOA i wead sosioieithyddol cymunedau gwledig y mae hyfywedd yr iaith ynddynt yn seiliedig i raddau helaeth ar y diwydiant amaeth a'r rhwydweithiau cymdeithasol cysylltiedig. Byddai hynny'n caniatáu cloriannu i ba raddau y gall dwysedd ieithyddol yr ardaloedd hyn oroesi yn annibynnol ar y sector economaidd neilltuol hwn a'r patrymau perchnogaeth tir cysylltiedig. Gallai hyn fod yn arwyddocaol o safbwynt penderfynu i ba raddau y byddai budd mewn dynodi trwy ddisgresiwn rai ardaloedd gwledig lle ceir rhwng 25% a 40% yn medru siarad Cymraeg. Ceir ardaloedd felly sy'n grynoadau o sawl LSOA mewn gwahanol fannau ar oror y rhanbarth 40%+, yn fwyaf arwyddocaol efallai mewn rhannau o ogledd sir Benfro, Maldwyn a Dyffryn Clwyd.

### Trefi prifysgol

O droi at y trefi prifysgol, gwelir bod dwy LSOA ym Mangor a thair LSOA yn Aberystwyth lle mae canran y siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth, yn ôl Cyfrifiad 2021, islaw 25%. Dyma'r data:

**Tabl 3.24: Siaradwyr Cymraeg mewn trefi prifysgol**

| Enw'r LSOA | Awdurdod lleol | Poblogaeth | Nifer y siaradwyr Cymraeg | % |
|---|---|---|---|---|
| Menai (Bangor) | Gwynedd | 3,033 | 681 | 22% |
| Deiniol | Gwynedd | 1,964 | 385 | 20% |
| Aberystwyth Rheidol 1 | Ceredigion | 1,154 | 257 | 22% |
| Aberystwyth Gogledd / Faenor 2 (W01002000) | Ceredigion | 2,895 | 629 | 22% |
| Aberystwyth Gogledd / Faenor 2 (W01002001) | Ceredigion | 1,401 | 277 | 20% |

Yn yr LSOAs hyn, mae'r gyfran o'r boblogaeth yn y grŵp oedran 16-24 oed yn neilltuol uchel, a chanran y siaradwyr Cymraeg yn yr un grŵp oedran yn neilltuol isel, a hynny'n adlewyrchu nifer y myfyrwyr yn y grŵp oedran hwnnw. Yn y tabl isod, rhoir nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn yr un LSOAs gan eithrio'r grŵp oedran 16-24:

**Tabl 3.25: Siaradwyr Cymraeg mewn trefi prifysgol gan eithrio'r grŵp oedran 16-24**

| Enw'r LSOA | Awdurdod lleol | Poblogaeth gan eithrio'r grŵp oedran 16-24 | Nifer y siaradwyr Cymraeg | % |
|---|---|---|---|---|
| Menai (Bangor) | Gwynedd | 796 | 271 | 34% |
| Deiniol | Gwynedd | 718 | 216 | 30% |
| Aberystwyth Rheidol 1 | Ceredigion | 651 | 178 | 27% |
| Aberystwyth Gogledd / Faenor 2 (W01002000) | Ceredigion | 977 | 375 | 38% |
| Aberystwyth Gogledd / Faenor 2 (W01002001) | Ceredigion | 569 | 186 | 33% |

O dynnu'r grŵp oedran 16-24 allan, gwelir bod canran y siaradwyr Cymraeg yn nes at y canrannau mewn LSOAs cyfagos ym Mangor ac Aberystwyth. Ymhellach, nid yw'r Comisiwn yn rhagweld y bydd y polisïau a'r ymyriadau a weithredir mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn cael effaith neilltuol ar fyfyrwyr sydd gan fwyaf yn trigo yn y trefi prifysgol hyn dros dro, wrth ddilyn cyrsiau addysg uwch. Mae hyn yn cryfhau'r ddadl dros ddynodi'r LSOAs hyn mewn trefi prifysgol yn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch trwy ddisgresiwn.

### Caerdydd

O droi wedyn at y brifddinas, mae'n ddiddorol fod dyrnaid o LSOAs ym maestrefi Caerdydd y mae canran y siaradwyr Cymraeg ynddynt yn gymharol uchel. Mae saith LSOA yng Nghaerdydd lle mae canran y siaradwyr Cymraeg dros 25%:

**Tabl 3.26: Siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd**

| Enw'r LSOA | Poblogaeth | Nifer y siaradwyr Cymraeg | % |
|---|---|---|---|
| Treganna 6 | 1,526 | 529 | 35% |
| Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais 1 | 1,580 | 482 | 31% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Treganna 7 | 1,520 | 427 | 28% |
| Treganna 5 | 1,672 | 456 | 27% |
| Treganna 8 | 1,242 | 337 | 27% |
| Creigiau/Sain Ffagan 2 | 1,386 | 369 | 27% |
| Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais 10 | 1,415 | 355 | 25% |

Yn ogystal ag ychydig o LSOAs gwasgaredig yn Rhondda Cynon Taf a Sir y Fflint, mae'r ardaloedd hyn yn hynod ymhlith yr ardaloedd 25%-40% gan nad ydynt nac yn rhan o ardal gydlynus ehangach o ddwysedd demoieithyddol Cymraeg, nac yn ffinio ag ardaloedd ehangach felly, ac nad ydynt chwaith yn cynrychioli cyfanheddiad demoieithyddol gweddilliol, hanesyddol.

At ei gilydd, cymdogaethau yw'r rhain sydd wedi bod yn gyrchfannau poblogaidd i siaradwyr Cymraeg sydd wedi symud i Gaerdydd o rannau eraill o Gymru. Oherwydd fod eu nodweddion cymdeithasol mor wahanol i gymunedau mewn rhannau eraill o Gymru lle ceir dros 40% yn medru siarad Cymraeg, nid ydym yn rhagweld y dylid eu dynodi trwy ddisgresiwn yn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi y byddai polisïau mewn meysydd fel datblygu economaidd, tai, cynllunio gwlad a thref, a datblygu cymunedol a fwriedid at ei gilydd ar gyfer cymunedau gwledig, lled-wledig, mân-drefol ac ôl-ddiwydiannol yr un mor addas yng Nghaerdydd, lle mae twf a chynaliadwyedd y Gymraeg yn ddibynnol ar ffactorau tra gwahanol.

Serch hynny, mae'r cynnydd hwn yng nghryfder cymunedol y Gymraeg mewn rhannau o Gaerdydd yn ddatblygiad arwyddocaol y mae'r Comisiwn o'r farn y dylai polisi cyhoeddus ei gefnogi. Er mwyn hyn, mae angen deall y prosesau sosioieithyddol sy'n mynd rhagddynt yng Nghaerdydd yn well. Dylid ymgymryd felly ag ymchwil pellach i'r berthynas rhwng dwysedd ieithyddol y cymunedau hyn dros amser, patrymau mudo mewnol yng Nghymru, a chyswllt siaradwyr Cymraeg â phrif sectorau gweithgarwch economaidd, er mwyn darparu data i gefnogi ymyraethau polisi i adfywio iaith mewn cyd-destun dinesig. Hanfodol fydd deall i ba raddau y mae trosglwyddo ieithyddol yn digwydd ar yr aelwyd mewn maestrefi lle ceir dwysedd lled uchel o siaradwyr Cymraeg, a beth yw natur defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymysg siaradwyr Cymraeg ifanc a aned yng Nghaerdydd.

### Casgliad

Dengys y gwahanol ystyriaethau hyn fod rhesymau sosioieithyddol cadarn dros ganiatáu disgresiwn yn achos cymunedau sy'n ffiniol yn ystadegol wrth ystyried a ddylid eu dynodi'n ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

## 3.19 Cerbyd deddfwriaethol ar gyfer dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch

Ystyriodd y Comisiwn yn ofalus y cerbyd rheoliadol neu statudol y gellid ei ddefnyddio er mwyn sefydlu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Mae'r Comisiwn o'r farn y dylai'r cerbyd hwn sefydlu endidau gwydn mewn proses dryloyw.

Dylid nodi hefyd fod y meysydd polisi y mae ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn berthynol iddynt yn sylweddol, ac yn cynnwys ystod o bynciau sydd o ddiddordeb neilltuol i ddinasyddion megis addysg, polisi economaidd, polisi tai, cynllunio gwlad a thref ac yn y blaen.

Byddai sefydlu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn ddatblygiad cadarnhaol tu hwnt mewn polisi cyhoeddus, ond byddai hefyd yn ddatblygiad o bwys. Am y rheswm hwn, byddai angen gosod ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch ar seiliau mor gadarn ag sy'n bosibl.

O ganlyniad i hynny, daeth y Comisiwn i'r casgliad na fyddai dynodiad anstatudol yn briodol.

Roedd y Comisiwn yn unfarn y byddai angen dynodiad statudol er mwyn sefydlu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch ac mai deddfwriaeth gynradd fyddai'r ffordd hwylusaf a mwyaf sicr o wneud hyn.

Ystyriodd y Comisiwn dair ffordd bosibl o sefydlu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch:

### 1. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Ystyriodd y Comisiwn a fyddai modd sefydlu cyfres o safonau a allai orfodi neu ganiatáu awdurdodau lleol i ddynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch o dan reoliadau sy'n berthynol i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Trwy'r dull hwn, gellid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol drwy Safonau'r Gymraeg i ddynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Gellid hefyd o bosib osod targedau ac amcanion ar gyrff y byddai safonau yn gymwys iddynt ac a fyddai'n berthnasol i bolisi cyhoeddus yn yr ardaloedd o dan sylw.

Fel y nodir yn adran 'Cynllunio ieithyddol cymunedol' yr adroddiad hwn, mae'r Comisiwn o'r farn y gallai Safonau'r Gymraeg fod yn gerbyd priodol ar gyfer gwella rhai elfennau o bolisi cynllunio ieithyddol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch mewn rhai amgylchiadau.

Ond daeth y Comisiwn i'r casgliad nad y safonau fyddai'r fframwaith gorau ar gyfer sefydlu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn y lle cyntaf, er y gellid datblygu neu gymhwyso safonau ar eu cyfer maes o law. Oherwydd pwysigrwydd pellgyrhaeddol egwyddor ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch i sawl maes polisi, rhaid gofyn a fyddai'n briodol darparu'r fframwaith cyfreithiol ar eu cyfer drwy gyfrwng deddfwriaeth eilradd yn bennaf.

### 2. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Ystyriodd y Comisiwn a fyddai modd diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, a hwyluso gweithredu ac amrywio polisïau cyhoeddus perthnasol ynddynt. Nid yw'r Comisiwn o'r farn fod hwn yn awgrym realistig oherwydd natur y ddeddf hon. Nid diben y ddeddf yw cymeradwyo polisïau penodol o dan ymbarél yr amcanion lles cyffredinol a hyrwyddir gan y ddeddf; mae angen deddfwriaeth neu bolisi pellach y tu hwnt i'r ddeddf ar gyfer gwneud hynny.

**3. Deddfwriaeth gynradd newydd**

Ystyriodd y Comisiwn wedyn a ddylid cyflwyno deddfwriaeth gynradd newydd er mwyn sefydlu fframwaith ar gyfer dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, ac a fyddai gyda'r nod o hwyluso datblygu ac amrywio polisi cyhoeddus.

Barn y Comisiwn yw mai dyma fyddai'r ffordd orau o sefydlu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch fel endidau gwydn ar gyfer gweithredu polisi cyhoeddus. Byddai darparu'r fframwaith cyfreithiol drwy ddeddfwriaeth gynradd yn rhoi'r sicrwydd cyfreithiol priodol i'r ardaloedd dynodedig ac yn gymesur â'u harwyddocâd ar gyfer datblygu polisi.

Mae dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn greiddiol ym marn y Comisiwn er mwyn sicrhau dyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol. Ni fyddai cyflwyno deddfwriaeth gynradd newydd yn anghymesur o ran y buddsoddiad amser y byddai ei angen i wneud hynny.

**Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth gynradd newydd er mwyn sefydlu'r fframwaith ar gyfer dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Gellid nodi pa ganran sy'n cyfateb i X% (sef y trothwy a grybwyllir yn argymhelliad 5), a beth yw'r diffiniad o 'ardal', mewn rheoliadau.**

## 3.20 Un haen neu ddwy haen o ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch

Yn yr ymatebion i alwad y Comisiwn am dystiolaeth, roedd rhai ymatebwyr o blaid sefydlu dwy haen o ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol mewn cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Un haen ar gyfer cymunedau lle mae'r Gymraeg yn gryf iawn fel iaith gymunedol, ac un lle mae'r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol beunyddiol y gymuned leol, ond nid yw cyn gryfed.

Ar ôl ystyriaeth ofalus, daeth y Comisiwn i'r casgliad mai dim ond un haen y dylid ei chreu.

Mae rhesymau'r Comisiwn dros ddod i'r penderfyniad hwn fel a ganlyn.

Diben sefydlu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yw caniatáu datblygu polisi cyhoeddus gwell, trwy gynnig fframwaith ystyrlon, rhesymol ac ymarferol ar gyfer amrywio polisïau o safbwynt eu heffaith ar y Gymraeg fel iaith gymunedol.

At y diben hwnnw, nid yw'r Comisiwn yn gweld budd mewn creu dwy haen o ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch (er enghraifft, haen ar gyfer ardaloedd 40-70% ac haen ar gyfer ardaloedd 70%+). Byddai trefn o'r fath yn cyfyngu'r haen ddwysaf i rai cymunedau yn y gogledd-orllewin, ac hyd yn oed yno ni fyddai fawr o gydlynedd tiriogaethol i'r haen 70%+. Byddai'r de-orllewin yn ei gyfanrwydd yn cael ei eithrio. Nid yw'r Comisiwn o'r farn fod hynny'n ddymunol nac yn ymarferol, ac nid yw'n credu y byddai hyn yn derbyn cefnogaeth eang.

Fel y nodwyd eisoes, mae'r Comisiwn o'r farn fod 40% yn gredadwy fel trothwy statudol pe sefydlid un haen. Byddai hyn yn creu ardal a fyddai'n bodloni'r angen i

gynnig fframwaith rhesymol ac ymarferol ar gyfer amrywio polisïau mewn modd a fyddai'n llesol i'r Gymraeg fel iaith gymunedol.

Mae'r cymunedau dan sylw yn ffurfio tiriogaeth gydlynus sy'n ddigon eang i fedru bod yn ystyrlon o safbwynt gweithredu polisi cyhoeddus. Mae'r diriogaeth yn ddigon helaeth hefyd i gynnwys llawer o'r rhwydweithiau cymdeithasol hynny sydd yn cysylltu pentrefi (a'r wlad amgylchynol) â threfi cyfagos yn sgil symudoledd mewn bywyd bob dydd (wrth i bobl deithio i'r gwaith, neu wrth fynychu ysgolion uwchradd neu goleg, neu wrth ddefnyddio gwasanaethau, er enghraifft).

Mae'r cymunedau yn ddigon tebyg i'w gilydd yn sosioieithyddol fel bod modd llunio polisïau mewn fframwaith amlinellol ar eu cyfer. Mae gan bob un o'r ardaloedd hyn hefyd hanes hir fel cymunedau Cymraeg, sydd yn bwysig o safbwynt ennill ymddiriedaeth y cyhoedd yng nghymhelliant a rhesymoldeb polisïau a weithredir.

Mae'r cymunedau hyn hefyd yn debyg yn sosioeconomaidd, ac yn wynebu yn aml heriau a chyfleoedd tebyg. Nodweddir ardaloedd lle mae dros 40% yn medru siarad Cymraeg gan fröydd gwledig a lled-wledig gan mwyaf, sydd wedi'u britho â nifer o bentrefi mân a mawr, ynghyd hefyd â threfi bychain. Mae'r ardaloedd hyn hefyd yn cynnwys nifer o gymunedau ôl-ddiwydiannol. Ar gwr yr ardal dan sylw, ceir nifer o drefi mwy (sydd eto'n gymharol fach mewn cyd-destun Prydeinig) sy'n ganolfannau rhanbarthol pwysig.

Mae tebygrwydd y cymunedau hyn i'w gilydd yn golygu fod modd meddwl yn synhwyrgall am amrywiadau polisi posibl mewn meysydd sosioeconomaidd a sosioieithyddol (tai, economi, datblygu cymunedol ayyb) a allai fod yn ystyrlon iddynt. Yn fyr, gellid gweithredu ymyraethau polisi cyhoeddus mewn modd ymarferol.

O ganlyniad, mae gan y Comisiwn hyder y byddai ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol wedi'u dynodi yn y dull hwn yn creu llywodraethiant weithredadwy ac o fudd i'r cyhoedd.

## 3.21 Anawsterau wrth geisio creu haen ar gyfer cymunedau lle mae rhwng oddeutu 25% a 40% yn medru siarad Cymraeg

Nid yw'r cryfderau sy'n caniatáu creu haen ar gyfer cymunedau lle mae dros 40% yn medru siarad Cymraeg mor amlwg yn achos cymunedau lle mae rhwng 25% a 40% yn medru siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021.

Fel y dengys y mapiau yn 3.16, nid ydynt yn ffurfio tiriogaeth gydlynus.

Gellid dosbarthu cymunedau o'r fath i hanner dwsin neu fwy o gategorïau gwahanol, a thrafodwyd rhai o'r rhain eisoes:

- rhannau o ddwyrain Sir Gaerfyrddin a gorllewin Morgannwg, yn yr hen faes glo yn bennaf, ynghyd hefyd â rhannau o dref Llanelli.
- rhai lleoedd ôl-ddiwydiannol mewn rhannau eraill o Gymru megis rhan o gymuned Rhosllanerchrugog ger Wrecsam.
- rhannau o drefi prifysgol fel Bangor, Aberystwyth a Chaerfyrddin.
- ardaloedd gwledig a lled-wledig, yn bennaf ar gyrion yr ardal lle mae dros 40% yn medru siarad Cymraeg, er enghraifft ym Maldwyn hyd at y ffin â bro Croesoswallt yn Lloegr, rhannau o ogledd Sir Benfro, darnau

gwasgaredig o Sir Gaerfyrddin, rhannau o Ddyffryn Clwyd, Dyffryn Ceiriog ger Wrecsam, ac yn y blaen.

- rhai ardaloedd ar hyd neu'n agos i'r arfordir.
- LSOAs yn ne-ddwyrain Cymru, er enghraifft i'r de o Bontypridd yn Rhondda Cynon Taf ac mewn maestrefi yng ngorllewin Caerdydd.
- rhan o dref a dyfasai'n ganolfan weinyddol bwysig yn yr ugeinfed ganrif, sef Yr Wyddgrug.

Nid yw'r Comisiwn wedi'i argyhoeddi y byddai dyletswydd statudol i ddynodi'r ardaloedd hyn yn 'ail haen' o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn ymarferol, ac nid oedd ychwaith wedi'i argyhoeddi y byddai'n arwain at bolisi cyhoeddus gwell.

Anodd iawn fyddai llunio fframwaith polisi cyffredinol ar gyfer y cymunedau hyn gan eu bod mor wahanol i'w gilydd, ac ar ben hynny yn hynod wasgaredig hefyd. Byddai'n anodd iawn i awdurdodau lleol weithredu trefn o'r fath, ac oherwydd natur ddarniog a hynod amrywiol y cymunedau dan sylw, byddai'n anodd i Lywodraeth Cymru greu polisïau ar gyfer yr haen yn ei chyfanrwydd heb berygl o wneud niwed anfwriadol i rai cymunedau.

### 3.22 Cefnogi cymunedau lle mae rhwng oddeutu 25% a 40% yn medru siarad Cymraeg

Mae'r Comisiwn o'r farn fod cymunedau lle ceir rhwng oddeutu 25% a 40% yn medru siarad Cymraeg yn bwysig yn strategol i'r Gymraeg.

Trwy ddefnyddio disgresiwn awdurdodau lleol, gellid dynodi nifer o'r cymunedau hyn yn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Ym marn y Comisiwn, byddai hynny'n fuddiol o safbwynt polisi cyhoeddus.

Ond ni fyddai hynny'n ddymunol, nac yn ymarferol, mewn sawl achos, yn enwedig yn achos cymunedau nad ydynt yn ffinio ar ardaloedd eraill o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, neu sydd â nodweddion sosioeconomaidd sy'n wahanol iawn i'r hyn a geir yn y rhan fwyaf o gymunedau sy'n nodweddu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Trafododd y Comisiwn sut orau y gellid mynd i'r afael ag anghenion ieithyddol y cymunedau hyn.

Mae'r Comisiwn yn credu'n gryf fod y cymunedau hyn o bwysigrwydd strategol i'r Gymraeg. Roedd cytundeb fod cymunedau o'r fath yn rhan o gontinwwm ieithyddol yng Nghymru, fod y rhan fwyaf ohonynt yn gymunedau lle bu'r Gymraeg yn gryf o fewn oes llawer o'u trigolion, a'u bod hefyd yn pontio'n ddiwylliannol rhwng gwahanol rannau o Gymru. Nododd y Comisiwn hefyd eu bod yn aml yn ardaloedd poblog a bod dwysedd canolig o siaradwyr Cymraeg mewn ardal drefol neu ddinesig yn golygu y ceir yno lawer o siaradwyr Cymraeg.

Teimlodd y Comisiwn bod nifer o'r ardaloedd hyn yn ffurfio 'trydydd categori' fel petai o arwyddocâd ieithyddol yng Nghymru rhwng ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch ac ardaloedd o Gymru lle mae canran y siaradwyr Cymraeg yn agos i'r cyfartaledd cenedlaethol neu'n is. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, nid oedd y Comisiwn wedi'i argyhoeddi mai creu 'haen' ar eu cyfer fyddai'r ffordd orau i fynd i'r afael â'u hanghenion.

Barn y Comisiwn oedd y dylid craffu’n fanwl ar bolisi iaith yn yr ardaloedd hyn yn ystod ail gam y Comisiwn.

### 3.23 Trefniadau gweinyddol

Derbyniodd y Comisiwn sawl awgrym yn yr ymateb i’w alwad am dystiolaeth ynghylch trefniadau gweinyddol er mwyn cydlynu’r gwaith o gyfnerthu cymunedau Cymraeg. Ymysg y cynigion yr oedd uned oddi mewn i Lywodraeth Cymru, corff hyd braich, ac asiantaeth cynllunio iaith rhanbarthol. Addawodd y Comisiwn ystyried y materion hyn.

Wrth wneud hynny, mae’r Comisiwn wedi gorfod cydnabod fod dirywiad wedi bod yn sefyllfa gyllidol Llywodraeth Cymru ers cynnal yr alwad am dystiolaeth dros aeaf 2022-23.

Cytunodd y Comisiwn y gallai fod dadleuon dilys dros sefydlu corff hyd braich, neu asiantaeth cynllunio iaith hyd braich, er mwyn datblygu polisi ar gyfer ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Fodd bynnag, byddai corff o’r fath yn gostus i’w sefydlu, ac mae’n bosibl y byddai’n dyblygu rhai swyddogaethau (a drafodir gennym yn yr adran ‘Economi’) y mae’r Comisiwn yn tybio y gallai cynllun ARFOR, neu olynydd iddo, eu mabwysiadu.

Am y tro o leiaf felly, barn y Comisiwn yw mai’r peth gorau fyddai sefydlu uned oddi mewn i Lywodraeth Cymru er mwyn datblygu a chydlynu polisi cyhoeddus perthnasol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Gan mai uned fewnol yn y Llywodraeth fyddai hon, byddai o help pe gallai gael mynediad at arbenigedd allanol priodol. Er mwyn hwyluso hynny, mae’r Comisiwn o’r farn y dylid sefydlu cyngor neu banel o arbenigwyr fyddai â sgiliau a phrofiad mewn gwahanol feysydd perthnasol (economi, tai, datblygu cymunedol ayyb). Gallai roi cyngor i Lywodraeth Cymru yn ôl y galw.

**Argymhelliad 8: Dylid sefydlu uned oddi mewn i Lywodraeth Cymru er mwyn datblygu a chydlynu polisi cyhoeddus perthnasol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Dylid sefydlu cyngor neu banel o arbenigwyr fyddai â sgiliau a phrofiad mewn gwahanol feysydd perthnasol (fel yr economi, tai, datblygu cymunedol ayyb) er mwyn cynghori’r uned.**

# 4. Economi

## 4.1 Amcanion

Mae'r economi yn faes allweddol bwysig i ddyfodol y Gymraeg. Mae gallu grŵp ieithyddol lleiafrifol i'w atgynhyrchu ei hun yn llwyddiannus yn ddibynnol i raddau ar ei leoliad o fewn y drefn economaidd (gweler European Commission, 1996: 7). O safbwynt cynllunio ieithyddol felly, mae cyfiawnhad i ymyraethau a strategaethau sydd yn rhoi sylw i'r drefn economaidd honno.

Yng Nghymru, mae ystod o brosesau economaidd cymhleth ac amrywiol yn dylanwadu ar yr economi, llawer ohonynt yn ymwneud â thueddiadau ac ystyriaethau Prydeinig a rhyngwladol ar y lefel macro nad oes modd i argymhellion gan y Comisiwn gael dylanwad arnynt. Ond ceir ystod o gyrff sy'n weithgar yn y maes datblygu economaidd yng Nghymru. Yn ogystal â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ceir cyrff sy'n gweithredu ar lefelau mwy rhanbarthol neu leol fel y partneriaethau twf a'r dinas-ranbarthau, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ogystal â'r awdurdodau lleol.

Bwriad y Comisiwn yn yr adran hon o'r adroddiad yw mynd i'r afael â'r heriau economaidd sydd yn benodol i gymunedau Cymraeg y mae modd i Lywodraeth Cymru gael dylanwad arnynt, sydd heb dderbyn sylw digonol bob tro yn ein barn ni gan rai cyrff economaidd cyfredol. Rydym yn dymuno gwneud hyn wrth geisio ychwanegu gwerth i'r gweithgarwch sydd eisoes ar waith.

Felly bwriad yr adran hon fydd:

- ystyried ymagweddau tuag at ddatblygu economaidd o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.
- trafod polisïau a gweithgarwch economaidd penodol sydd yn cynnig budd i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.
- cynnig argymhellion mewn perthynas â'r economi, a modelau addas ar gyfer eu gwireddu.

Mae'r adran wedi ei rhannu'n dair rhan:

- Yn gyntaf, cynigir trafodaeth am natur yr economi ac ymagweddau at bolisi economaidd sydd ar waith mewn perthynas â chymunedau Cymraeg.
- Yn yr ail ran, amlinellir barn ac argymhellion y Comisiwn ac argymhellion mewn perthynas â meysydd polisi penodol.
- Bydd y rhan olaf yn trafod sut y dylid mynd ati i weithredu'r argymhellion, gan drafod modelau a chyrff addas ar gyfer gwneud hynny.

## 4.2 Economi cymunedau Cymraeg

Mae ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch wedi'u lleoli ar hyd a lled Cymru, ond ceir canran helaeth ohonynt mewn ardaloedd gorllewinol, gwledig a lled-wledig. Mae gan yr ardaloedd hyn economïau amrywiol, bywiog ac arloesol, sydd wedi cynnal eu cymunedau am ganrifoedd. Maent wedi chwarae rôl flaenllaw yn y diwydiannau trwm a mwyngloddio (yn wir, buont o arwyddocâd byd-eang yn hynny o beth), yn ogystal ag mewn meysydd fel amaeth, morwriaeth a masnach.

Mae amaeth yn parhau'n sector pwysig i'r ardaloedd hyn, ond bellach mae twristiaeth a'r sector cyhoeddus yn ganolog hefyd i'w perfformiad economaidd a'u capasiti i gyflogi a chynnal poblogaeth. Gwelwyd hefyd dwf diweddar arwyddocaol yn nifer y mentrau cymunedol. Mae nifer o'r mentrau hyn wedi eu hysbrydoli gan ymrwymiad dwfn wrth y Gymraeg, sy'n gweithredu fel nwydd cymdeithasol yn yr ardaloedd hyn. Maent yn tystio hefyd i fywiogrwydd a bwrlwm cymunedau. Ceir cryfderau eraill hefyd: mae gweithlu gwledig, medrus, yn ogystal â chyfoeth o adnoddau naturiol, yn cynnig cyfleoedd euraidd i fuddsoddi yn yr economi werdd ac ynni cynaliadwy, sectorau sy'n debyg o ddod yn bwysicach yn y dyfodol.

Serch hyn, mae'r ardaloedd gorllewinol, fel nifer o ardaloedd yng Nghymru, yn wynebu heriau economaidd sylweddol a strwythurol. Ceir isadeiledd trafnidiaeth gwan, marchnad lafur nad yw bob tro yn bodloni anghenion diwydiant, a lefelau cynhyrchedd sydd yn is na'r rhan fwyaf o weddill Prydain (gweler Henley, 2021). Er bod lefelau diweithdra yn gymharol isel, mae'r ffigurau hyn yn aml yn cuddio gwir natur cyflogaeth yn yr ardal; y tangyflogaeth a'r cyflogau isel.

## 4.3 Heneiddio, allfudo a diboblogi ymysg oedolion oedran gwaith

Her allweddol a wynebir yn yr ardaloedd hyn yw patrymau demograffig. Mae poblogaeth Cymru gyfan yn heneiddio, ac erbyn 2040, bydd tua dau berson o oedran gwaith i bob person dros 65 oed yn hytrach na phedwar, sef y sefyllfa yn 1991 (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2018). Yn ôl data Cyfrifiad 2021, mae anghyfartaledd oedran yn fwy acíwt mewn siroedd gorllewinol fel Ynys Môn, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, lle mae oddeutu 25% o'r boblogaeth eisoes dros 65 oed. Golyga hyn gostau gofal ac iechyd uwch a gallwn ragdybio y bydd y rhain hefyd yn cynyddu yn y dyfodol. Mae rhagamcanion sy'n awgrymu y bydd cwymp yn y niferoedd o bobl oedran gwaith yn codi'r posibiliad y gall twf economaidd confensiynol fod yn anos ei gynnal.

Mae allfudo yn her arall sy'n wynebu ardaloedd gorllewinol ac ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Mae mudoledd wedi bod yn elfen ganolog o hanes Cymru, yn aml ar raddfa sydd wedi gweddnewid ein cymunedau. Oni bai am fewnfudo dros y ddegawd ddiwethaf, mae data Cyfrifiad 2021 yn awgrymu y gallai poblogaeth ardaloedd gwledig Cymru fod wedi cwympo o oddeutu 20,000 drwy allfudo a phrosesau naturiol. Ond er gwaethaf hyn, mae canran y boblogaeth sydd o oedran gwaith yn cwympo. Mae patrymau allfudo yn rhan o'r her ddemograffig gymhleth hon. Mae'r niferoedd sylweddol o bobl ifanc sy'n gadael rhanbarthau lle ceir ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn destun pryder.

Mae'r allfudo hwn yn her economaidd ac ieithyddol strwythurol i gymunedau Cymraeg. Mae allfudo ymysg pobl ifanc yn gwanhau gwytnwch a hyfywedd yr iaith. Fel arfer, pobl ifanc sydd yn magu plant ac yn chwarae'r rôl allweddol o drosglwyddo'r iaith o'r naill genhedlaeth i'r llall. At hynny, mae allfudo ymysg pobl ifanc, yn enwedig ymysg pobl ifanc â sgiliau lefel uchel, yn anfantais economaidd. Mae'n rhoi mwy o bwysau ar weithlu sy'n crebachu; mae cymunedau'n colli pobl a allai fod yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle; ac mae hefyd yn lleihau'r cyfleoedd sydd gan fusnesau i ddatblygu gweithluoedd y dyfodol. Ceir budd ieithyddol ac economaidd amlwg wrth geisio sicrhau fod lefelau allfudo ymysg pobl ifanc yn gostwng. Serch hyn, ac eithrio rhai rhaglenni prin a bychan eu maint, nid oes

strategaeth na chynllun cydlynol wedi bod erioed i geisio cynnig cymorth i bobl aros yn eu cymunedau Cymraeg, neu i'w hannog i ddychwelyd, neu i gymell siaradwyr Cymraeg eraill i ymsefydlu yno.

## 4.4 Adnoddau ac ymchwil

Ymhellach, mewn cyfnod estynedig o lymdra mewn gwariant cyhoeddus, gadael yr Undeb Ewropeaidd a'r Rhaglen Ddatblygu Gwledig, mae'r adnoddau ar gyfer datblygu'r economi yn brin. Gyda thwf poblogaeth arafach na gweddill y Deyrnas Unedig, bydd Cymru yn derbyn llai o arian drwy'r fformiwla Barnett yn y dyfodol. Mae toriadau i gyllidebau llywodraeth leol dros y ddegawd ddiwethaf hefyd wedi llyffetheirio capasiti awdurdodau lleol i gynllunio a gweithredu ym maes yr economi.

Yn olaf, ceir diffyg data ac ymchwil ynglŷn â'r gydberthynas rhwng yr economi a'r Gymraeg (Llywodraeth Cymru, 2020a; Bonner er al., 2024a). Mae ymchwil ar gael am effaith ffactorau ieithyddol ar newidynnau economaidd megis canlyniadau'r farchnad lafur, agweddau tuag at fenter, gwariant busnes a throsiant. Ond mae llai o dystiolaeth empeiraidd am effaith polisïau, gweithgareddau a thueddiadau economaidd ar y Gymraeg. Er bod dealltwriaeth o'r berthynas hon wedi datblygu rhywfaint dros y blynyddoedd diwethaf, mae angen amlwg am fwy o ddata a gwaith ymchwil i ddeall sut yn union y mae prosesau economaidd yn effeithio ar y Gymraeg.

## 4.5 Natur datblygu economaidd

Mae economi Prydain wedi datblygu yn anghyson, ac mae gwahaniaethau sylweddol a strwythurol rhwng gwahanol wledydd Prydain a'u rhanbarthau. Mae polisi economaidd prif ffrwd yn blaenoriaethu grymoedd hunan-gywiro y farchnad fel y modd i ddatblygu effeithlonrwydd economaidd. Mae polisïau economaidd o'r fath yn rhoi llai o sylw i ffactorau yn ymwneud â 'lle', megis hanes, daearyddiaeth a diwylliant. O ganlyniad, mae Llundain a de-ddwyrain Lloegr wedi cael budd o hyblygrwydd a symudoledd ei gweithlu, yn ogystal â'i lleoliad a'i hanes fel canolbwynt economaidd a *haute finance* rhyngwladol. Gadewir rhannau eraill o Brydain, fel ardaloedd gorllewinol Cymru, ar gyrion yr economi. Mae wedi bod yn anos iddynt gystadlu ac atynnu buddsoddiad, yn enwedig ers diwedd oes diwydiannau trwm. Gellid cyfiawnhau mabwysiadu ymagwedd amgen mewn polisi economaidd er mwyn cefnogi a datblygu economïau'r ardaloedd hynny.

Un ystrydeb am yr ardaloedd gorllewinol yw eu bod wedi'u 'gadael ar ôl' neu'n 'anghystadleuol'. Mae'r safbwyntiau hyn yn seiliedig ar fesuriadau perfformiad economaidd megis Gwerth Ychwanegol Gros y pen, sydd yn is yn yr ardaloedd hyn mewn cymhariaeth â'r cyfartaledd Prydeinig. Ond er ei bod yn fesuriad ystyrlon a phwysig, nid yw Gwerth Ychwanegol Gros yn fesuriad effeithiol o ddatblygiad economaidd ystyrlon ar lefel gymunedol. Mae defnyddio'r mesuriad hwn ar ei ben ei hun yn annog cymariaethau diangen gydag ardaloedd eraill, yn hytrach na ffocysu ar economïau'r cymunedau dan sylw a'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yno. Mae canolbwyntio ar Werth Ychwanegol Gros yn unig hefyd yn arwain gwneuthurwyr polisi at geisio mabwysiadu polisïau economaidd confensiynol sydd—er o bosib yn llwyddiannus mewn ardaloedd eraill—yn gallu bod yn llai effeithiol mewn perthynas â blaenoriaethau'r math o economïau a geir o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol

dwysedd uwch. Mae'r flaenoriaeth a roddir i'r fath ymdrechion hefyd yn dueddol o lyncu cyfran helaeth o'r adnoddau prin iawn sydd ar gael i helpu datblygu'r economi.

## 4.6 Anghenion sylfaenol y boblogaeth

Nid yw polisïau economaidd confensiynol wedi cau'r bwlch Gwerth Ychwanegol Gros rhwng cymunedau Cymraeg a gweddill Prydain, nac ychwaith wedi atal eu dirywiad o ran hyfywedd cymunedol ac ieithyddol. Mae polisi economaidd llwyddiannus yn alinio gyda natur lleoedd penodol, ac yn dwyn i ystyriaeth beth sy'n bwysig i'r bobl sydd yn dewis byw yno. Os yw unigolion yn perthyn i ardal benodol, yna rôl polisi cyhoeddus cynhwysol a theg ddylai fod eu galluogi i barhau i fyw yno ar y rhagdybiaeth fod ganddynt y dychymyg a'r gallu i ailddyfeisio'r lle yn barhaus, ac ar yr amod bod y gwasanaethau sylfaenol hanfodol ar gael iddynt. Os ydym am i bobl aros, dychwelyd neu ymsefydlu mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, gan barhau i allu caffael a defnyddio'r Gymraeg, mae angen gofyn pa arferion a pholisïau economaidd fydd yn cefnogi a chaniatáu iddynt wneud hynny.

Mae hyn yn golygu ailfeddwl ynghylch trin anfantais economaidd fel mater o incwm ac allbwn yn unig. Dylid ehangu'r ffocws oherwydd mae mynediad at wasanaethau hanfodol a seilwaith cymdeithasol yr un mor bwysig ag incwm os am gynnal cymunedau. O ganlyniad, barn y Comisiwn yw y dylai datblygu economaidd mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch sicrhau, ynghyd â phethau eraill, anghenion sylfaenol y boblogaeth. Dylid pwysleisio 'lles aelwydydd' ('*household wellbeing*') ac ystyried yn llawn gwerth cymdeithasol gweithgarwch economaidd.

Blaenoriaethau amlwg ymagwedd o'r fath fyddai:

- isadeiledd gwasanaethau megis tai, cyfleustodau, trafnidiaeth gyhoeddus, iechyd, gofal ac addysg.
- isadeiledd cymdeithasol lleol, megis hybiau ac asedau cymunedol, llyfrgelloedd a mannau cyhoeddus.
- gweithgarwch sy'n cynyddu incwm gweddilliol (incwm ar ôl costau tai, trafnidiaeth a chyfleustodau) neu GDHI (*Gross Disposable Household Income*) y boblogaeth leol.

Dyma rannau o'r economi sy'n creu ac yn dosbarthu'r nwyddau a'r gwasanaethau y dibynnir arnynt ar gyfer bywyd bob dydd. Dylai ymdrechion i ddatblygu'r economi hefyd fod yn gefnogol i ymdrechion, cyfleoedd a phrosesau i gaffael a defnyddio'r Gymraeg. Dylid blaenoriaethu hyfywedd cymunedau a'r Gymraeg, gan helpu ac annog pobl i fyw a gweithio yn yr ardaloedd hyn.

Mae gan gymdeithas sifil, a mentrau lleol a chymunedol, rôl bwysig wrth fynnu a gyrru datblygiadau sy'n gweddu i anghenion penodol cymunedau. Dylai hyn fod mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, byrddau iechyd a sefydliadau addysg. Dylai fod cyfleoedd i gymunedau berchnogi mwy o'u heconomïau, a'u datblygu mewn modd sy'n cyd-fynd â'u hamcanion a'u hanghenion.

## 4.7 Strategaeth ar gyfer datblygu economi'r ardaloedd gorllewinol

Nid oes gan Gymru gorff neu strategaeth datblygu gwledig cynhwysfawr sy'n ymwneud â pholisïau economaidd a chymdeithasol yn ogystal ag amaeth a'r amgylchedd. Mae rhaglenni ARFOR wedi bod ar waith ers 2019, yn cynnig cymorth ac yn treialu ymyraethau economaidd yn Sir Gaerfyrddin, Gwynedd, Ceredigion ac Ynys Môn, gan ystyried hefyd eu heffaith ar y Gymraeg yn ogystal ag ar yr economi. Ond mewn cymhariaeth â'r ystod o gyrff eraill sy'n gyfrifol am agweddau ar ddatblygu economaidd mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch (sef llywodraethau, dinas-ranbarthau, partneriaethau rhanbarthol ac awdurdodau lleol), mae cyllideb a sgôp ARFOR yn fychan iawn. Mae amcanion strategol y cyrff eraill yn aml yn genedlaethol neu ranbarthol, gan weithio'n bennaf ar hyd echel dwyrain-gorllewin. Gellid dadlau nad ydynt yn blaenoriaethu bob tro yr heriau a'r cyfleoedd sydd yn gyffredin i economïau'r ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch gorllewinol (sydd ar gwr yr echel dwyrain-gorllewin). Mae'r sefyllfa hon yn ei gwneud yn fwy anodd cynnal rhaglen datblygu economaidd gynhwysfawr a hirdymor ar eu cyfer.

Mae anghenion, heriau, cryfderau a chyfleoedd sydd yn gyffredin i'r ardaloedd hyn yn gallu bod yn wahanol i nodau strategol rhanbarthol a chenedlaethol eraill yng Nghymru. O ganlyniad, daeth y Comisiwn i'r casgliad fod achos cryf dros gydlynu ymdrechion i ddatblygu'r economi yn yr ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Y ffordd orau o wneud hyn fyddai datblygu strategaeth glir sydd yn cydlynu a chyfeirio adnoddau yn fwy effeithiol tuag at amcanion penodol y cymunedau o dan sylw. Dylai'r strategaeth adlewyrchu ymagweddau amgen tuag at yr economi, a chyflwyno ffyrdd o gyflawni argymhellion.

Yma ceir gorgyffwrdd rhwng strategaeth datblygu gwledig a strategaeth ar gyfer economïau ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch gorllewinol. Er enghraifft, mae *Maniffesto Cymru Wledig* Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn galw am ffocws penodol ar faterion gwledig yn ogystal â chynllun clir i olynu'r Rhaglen Ddatblygu Gwledig (CLlLC, 2021). Mae'r Comisiwn yn cytuno â'r safbwynt hwn. Fodd bynnag, ar ôl ystyried y mater yn ofalus, teimlodd y Comisiwn nad oedd gwneud argymhellion ar gyfer Cymru wledig yn ei chyfanrwydd yn rhan o'i gylch gorchwyl. Serch hynny, mae'n bwysig nodi y gall strategaeth datblygu gwledig gynnwys agweddau fyddai'n ymdrin yn benodol â chymunedau Cymraeg.

Dylai'r strategaeth honno sicrhau elfen o berchnogaeth leol ac arweiniad gan y cymunedau o dan sylw. Yn hynny o beth, dylid ystyried datblygu a mabwysiadu mecanwaith tebyg i raglen LEADER yr Undeb Ewropeaidd a'r Grwpiau Gweithredu Lleol. Bu'r Grwpiau Gweithredu Lleol yn fodd o gyflawni blaenoriaethau strategol o dan arweiniad y gymuned (gweler Llywodraeth Cymru, 2023c:107).

**Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau fod strategaeth datblygu economaidd yn cael ei llunio a'i gweithredu sydd wedi ei theilwra'n benodol ar gyfer anghenion economaidd ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Dylai'r strategaeth ychwanegu gwerth at bolisi economaidd presennol drwy hyrwyddo dulliau ychwanegol o ddatblygu economaidd, gan gynnwys blaenoriaethu polisïau a gweithgarwch a fydd yn darparu ar gyfer anghenion sylfaenol y boblogaeth a lles aelwydydd (gan gynnwys gwella isadeiledd**

**gwasanaethau, isadeiledd cymdeithasol, incwm gweddillol, a chynllunio ieithyddol effeithiol).**

## Datblygiadau economaidd sydd yn fuddiol i'r Gymraeg

Mae'r Comisiwn o'r farn y gellir cynnig cyfres o argymhellion a fydd yn blaenoriaethu lles aelwydydd a hyfywedd y Gymraeg o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

### 4.8 Cefnogi mentrau a busnesau cymdeithasol a pherchnogaeth leol

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod natur perchnogaeth ac arweinyddiaeth cwmnïau a sefydliadau yn agwedd bwysig mewn perthynas â lle'r Gymraeg o fewn y cwmnïau a'r sefydliadau hynny, ac o ran eu cyfraniad i'r iaith yn gymunedol. Mae cwmnïau lleol yn fwy tebygol o weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ffurfiol neu'n anffurfiol. Mae unrhyw elw hefyd yn fwy tebygol o gylchdroi yn lleol, yn hytrach na'i echdynnu o gymunedau.

Yn y blynyddoedd cyn pandemig COVID-19, bu twf yn nifer a phwysigrwydd mentrau cymdeithasol yn economi Cymru. Datgelodd ymchwil gan Fusnes Cymdeithasol Cymru (2021) bod y sector busnes cymdeithasol yn gwneud cyfraniad cymdeithasol ac economaidd pwysig yng Nghymru. Yn 2022, roedd rhwng 56,713 a 65,299 o weithwyr yn cael eu cyflogi gan 2,282 o fusnesau cymdeithasol o ryw fath yng Nghymru, a dau draean o'r rheini ar gyflog byw neu fwy (Busnes Cymdeithasol Cymru, 2023: 29-38). Mae tafarnau a siopau pentref sydd wedi'u cynnal gan y gymuned yn parhau i gynnig gwasanaethau allweddol, yn ogystal â gofodau lle gellir siarad Cymraeg. O safbwynt effaith a hirhoedledd y mathau hyn o fusnesau, er bod COVID-19 wedi cael effaith negyddol, mae'r sector busnes cymdeithasol wedi 'dangos gwydnwch syfrdanol, ac mae'n ymddangos bod effaith COVID-19 wedi oedi twf yn hytrach na'i ddirywio' (Busnes Cymdeithasol Cymru 2021: 75).

Mae cyfraniad ieithyddol mentrau cymdeithasol yn bwysig. Mae oddeutu 75% o fusnesau cymdeithasol Cymru yn gweithredu neu'n cynnig gwasanaethau i ryw raddau drwy gyfrwng y Gymraeg (Busnes Cymdeithasol Cymru, 2023: 40). Mae nifer sy'n weithgar mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn gweithredu yn unol ag ethos ac ymrwymiad i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith. Mae'r cyrff hyn yn arddel ac yn cymell defnydd o'r Gymraeg wrth gynnig gwasanaethau o fewn cymunedau, ac maent yn tueddu denu staff sydd eisiau defnyddio a gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gwelir, wrth astudio profiad Cwmni Cymunedol Bro Ffestiniog, er enghraifft, botensial pellach mentrau cymunedol wrth ddod ynghyd i gydweithio a ffederaleiddio er lles ardal gyfan. Ond mae enghreifftiau fel hyn yn anghyffredin, ac mae angen datblygu perchnogaeth leol neu gymunedol o'r economi ar raddfa fwy, er mwyn sicrhau traweffaith sylweddol. Ar hyn o bryd, eithriadau sy'n digwydd ar raddfa fawr, ac i nifer, mae buddsoddiadau cyfalaf yn rhwystr allweddol.

Er bod mentrau cymdeithasol yn aml yn cael eu rheoli'n dda, maent yn ei chael hi'n anodd mewn rhai amgylchiadau cynhyrchu arian dros ben i'w fuddsoddi er mwyn datblygu mentrau newydd (ceir eithriadau megis Menter Môn sydd, wrth dyfu ei bortffolio o brosiectau economaidd ac ynni mawr, yn enghraifft o dyfu refeniw a chael mynediad at ffynonellau ariannol sylweddol). Ond os yw mentrau a busnesau cymdeithasol o les i'r Gymraeg, yna dylid eu cefnogi er mwyn y budd cymdeithasol sy'n deillio ohonynt. Ceir enghreifftiau o wneud hyn yn y prosiect Perthyn a gafodd ei

sefydlu yn 2022 gan Lywodraeth Cymru ac a weinyddir gan Cwmpas gyda'u partneriaid Dolan a PLANED (gweler Cwmpas, 2023).

Yn ogystal â hyrwyddo mentrau cymdeithasol a chymunedol, dylai Llywodraeth Cymru geisio cynnal perchnogaeth leol o'r economi. Bu enghreifftiau lle tyfid busnesau cynhenid ond gwelwyd y berchnogaeth yn cael ei throsglwyddo wedyn o bobl leol i endidau allanol. Gall hyn droi busnes o un sy'n cylchdroi arian yn lleol i un sy'n echdynnu elw o'r ardal. Mae angen cefnogaeth bellach ar gymunedau a gweithluoedd lleol i gadw o leiaf elfen o berchnogaeth leol ar y busnesau hyn.

**Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru gynnig cefnogaeth ychwanegol i fentrau a busnesau cymunedol er mwyn cryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, gan gynnwys:**

- **cymorth i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer tyfu, cynnal a rheoli mentrau ar raddfa fwy.**
- **hwyluso mynediad at asedau a ffynonellau cyllido.**
- **cymorth i ddatblygu rhwydweithiau a phrosesau ar gyfer datblygu partneriaethau.**
- **rhagor o gymorth i gymunedau a gweithluoedd brynu neu berchnogi cyfran o fusnesau yn y gymuned sydd yn cael eu gwerthu.**

## 4.9 Amaethyddiaeth, defnydd tir a pholisi gwledig

Mae'r diwydiant amaethyddol a'i ddiwylliant yn rhan greiddiol o wead cymdeithasol ardaloedd gwledig sy'n Gymraeg eu hiaith, ac mae ei ddyfodol o bwys i ddyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol. Roedd 10,860 o'r boblogaeth 16 oed neu'n hŷn a oedd yn gweithio yn y diwydiannau 'Amaeth, Coedwigaeth a Physgota' yn gallu siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021. Roedd hyn yn cyfateb i 43.1% o gyfanswm gweithwyr y sector, y gyfran uchaf o ran siaradwyr Cymraeg yn yr holl sectorau gweithgarwch economaidd. Mae'r ganran o'r gweithlu amaethyddol sy'n medru'r Gymraeg yn uwch fyth mewn ardaloedd o'r gogledd a'r gorllewin.

At hyn, mae canran y sawl yn y diwydiant amaethyddol sy'n medru Cymraeg fel arfer yn uwch na'r ganran yn y gymuned ac weithiau mae'n sylweddol uwch. Gall y ganran o'r gweithlu Cymraeg lleol a gyflogir gan y diwydiant fod yn uchel mewn rhai cymunedau hefyd. Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd 51 LSOA yng Nghymru lle roedd o leiaf 20% o'r gweithlu 16 oed neu'n hŷn sy'n siaradwyr Cymraeg yn gweithio yn y sector 'Amaeth, Ynni a Dŵr'. Roedd y rhain ym Mhowys, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, Conwy, Gwynedd, Sir Ddinbych a Wrecsam. Mae hyn yn digwydd yn aml mewn cymunedau lle mae'r Gymraeg yn rhan o'r gwead cymdeithasol ond nid yw'n ddominyddol, gan gynnwys cymunedau ar gyrion yr ardaloedd Cymraeg craidd. Yn ddaearyddol felly, mae'r diwydiant amaethyddol yn un ffactor sy'n peri fod y Gymraeg yn hyfyw fel iaith gymunedol dros rannau ehangach o diriogaeth Cymru nag y byddai fel arall.

Mae cyfraniad ieithyddol amaethyddiaeth yn bwysig yn gymdeithasol hefyd. Mae gweithgareddau a mudiadau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r sector (Clybiau Ffermwyr Ifanc, sioeau amaethyddol, rhai clybiau chwaraeon, er enghraifft) yn

darparu gofodau a chyfleoedd i gymdeithasu drwy'r Gymraeg. I grynhoi, mae amaethyddiaeth yn gweithredu fel asgwrn cefn i'r Gymraeg mewn nifer sylweddol o gymunedau gwledig. O safbwynt ieithyddol, mae'n hollbwysig ei chynnal.

O ran dyfodol cymunedau Cymraeg, mae'n bwysig fod sectorau o'r economi sy'n cyflogi canran uchel o siaradwyr Cymraeg yn cael eu cefnogi, ac mae maint y sectorau hynny hefyd yn bwysig—hynny yw, y niferoedd absoliwt sy'n gysylltiedig â nhw (nid trwy gyflogaeth uniongyrchol o angenrheidrwydd).

Mae sicrhau ffyniant sector amaethyddol sy'n cyflogi pobl ac yn gwrthsefyll tueddiadau diboblogi yn hollbwysig i ddyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol yng nghefn gwlad Cymru, barn y mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â hi (Llywodraeth Cymru, 2022a).

Mae'r Comisiwn felly yn cefnogi'n ddiamwys y fferm deuluol sydd yn cynhyrchu bwyd ochr yn ochr ag ysgwyddo dyletswyddau amgylcheddol. Mae cynhyrchu bwyd yn cynnal gweithgareddau economaidd eraill yng nghefn gwlad mewn meysydd sydd hefyd yn aml yn cyflogi nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg.

Nid oes diffiniad swyddogol o beth yw 'fferm deuluol', ond dealltwriaeth y Comisiwn o'r ymadrodd yw ei bod yn dynodi'r math o fferm sy'n gysylltiedig â theulu penodol yn aml, ac sydd yn cael ei throsglwyddo o un genhedlaeth i'r genhedlaeth nesaf. Gall crynhoad o ffermydd teuluol mewn ardal neilltuol fod yn foddion i gadw poblogaeth yn y cymunedau hyn. Mae hyn yn bwysig nid yn unig o ran canran y siaradwyr Cymraeg mewn unrhyw gymuned, ond hefyd o ran màs critigol y boblogaeth. Mae cadw ffermydd teuluol yn gydnaws felly ag egwyddor ganolog y Comisiwn, sef pwysigrwydd cynaliadwyedd cymunedol.

Yn ystod ei drafodaethau, ystyriodd y Comisiwn a fyddai'n briodol amrywio polisi amaethyddol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Daeth y Comisiwn i'r casgliad y gellid, pe dymunid, roi i'r Gymraeg ddynodiad neilltuol mewn rhai ardaloedd yng nghyd-destun polisi amaethyddol a gwledig.

Mae amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn cynnwys y canlynol:

> Y pedwerydd amcan yw cadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â hwy, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd...

Byddai amrywio polisi mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn un modd o gyflawni hynny.

Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn ymwybodol fod y fferm deuluol hefyd yn bwysig i wead cymdeithasol y Gymraeg mewn ardaloedd o Gymru sydd â dwysedd is o siaradwyr Cymraeg. Ceir cymunedau na fyddant efallai yn cael eu dynodi fel ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan ganran sylweddol o'r gweithlu amaethyddol yn lleol. Am y rheswm hwn, daeth y Comisiwn i'r casgliad y dylai polisi amaethyddol mewn perthynas a'r Gymraeg gael ei weithredu ar sail Cymru gyfan.

Ar yr un pryd, roedd y Comisiwn o'r farn y gellid ail-edrych ar y mater hwn yn y dyfodol wrth i bolisi cyhoeddus ddatblygu.

**Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau fod y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog mewn polisi amaethyddol. Dylid sicrhau cefnogaeth i'r fferm deuluol, a bod egwyddor pwysigrwydd y fferm deuluol yn cael ei hadlewyrchu mewn polisïau eraill megis polisi amgylcheddol.**

## 4.10 Economi ymwelwyr

Gall economi ymwelwyr fod yn fuddiol i economïau lleol. Mae'r sector yn creu cyflogaeth a chyfleoedd i drigolion weithio a byw yn eu cymunedau. Yng nghyd-destun economi'r gorllewin, mae hwn yn gyfraniad arwyddocaol a phwysig.

Ar yr un pryd, mae tystiolaeth y gall prosesau economaidd sy'n gysylltiedig â'r sector fod yn niweidiol mewn rhai amgylchiadau i gymunedau a'r Gymraeg.

Mae cyflogaeth yn y sector yn tueddu at y tymhorol, nid oes fawr o sicrwydd cyflogaeth, ac mae cyflogau'n isel. Mae canolfannau twristiaeth mawr, yn ogystal â chyfran o'r diwydiant llety, wedi eu perchnogi'n aml gan gwmnïau allanol, ac yn hyrwyddo prosesau economaidd lle mae elw yn cael ei dynnu o gymunedau. Bu twf cyflym llety gwyliau tymor byr hefyd yn fodd mewn rhai amgylchiadau i drosglwyddo elw a wnaed o fewn y sector i ddwylo perchnogion eiddo nad ydynt bob amser yn cyfrannu i'r cymunedau hyn.

Serch hynny, nid yw'r Comisiwn yn wrthwynebus i economi ymwelwyr fel y cyfryw. Mater ydyw yn hytrach o ystyried y modd y strwythurir y diwydiant a sut i sicrhau cyfraniad priodol at gynaliadwyedd cymunedau lleol.

Dylai polisïau sy'n hyrwyddo'r economi ymwelwyr mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch gael eu gyrru yn bennaf gan werth cymdeithasol y gweithgarwch economaidd. Dylai cefnogaeth i'r sector flaenoriaethu busnesau a berchnogir yn lleol ac ymdrechion i'w tyfu mewn modd cynaliadwy, yn hytrach na cheisio denu cwmnïau allanol. Dylid sefydlu a chryfhau prosesau sy'n cefnogi perchnogaeth ac arweiniad gan y gymuned leol, a chydnabyddiaeth o statws yr iaith.

A chodi un enghraifft yn unig, cyflwynwyd i'r Comisiwn awgrym ynghylch sut i droi tai gwyliau'n ased cymunedol trwy fodel o berchnogaeth leol. Gallai cwmnïau nid-er-elw bwrcasu eiddo addas a'i adnewyddu. Gellid gosod cyfran o'r eiddo yn gartrefi gwyliau er mwyn creu elw wedyn, a chyfran yn gartrefi cymdeithasol i'w rhentu neu eu gwerthu drwy gynllun rhan-berchnogaeth. Gellid hefyd ddefnyddio cyfran o'r elw at ddibenion cymdeithasol-fuddiol eraill. Mae'r Comisiwn yn cymeradwyo awgrymiadau o'r fath sy'n creu modelau ar gyfer economi ymwelwyr sy'n hyrwyddo lles cymunedau lleol.

Cafwyd datblygiadau yn y maes o safbwynt polisi cyhoeddus, megis *Cynllun Strategol Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035*, sydd yn gosod fframwaith ar gyfer dyfodol cynaliadwy yn yr ardal ar gyfer y sector (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd, 2023). Mae'r cynllun yn cyflwyno cyfres o egwyddorion sy'n anelu at roi cymunedau wrth galon yr economi ymwelwyr. Mae'r egwyddorion hyn wedi eu datblygu er mwyn llywio blaenoriaethau'r dyfodol ac yn eu plith, ceir dathlu, parchu a gwarchod cymunedau a'u hiaith; parchu'r amgylchedd; a sicrhau fod cymunedau Gwynedd ac Eryri yn cael mwy o fantais nac anfantais o

weithgarwch y sector. Mae’r cynllun hefyd yn cyflwyno meini prawf a mesuryddion posibl ar gyfer asesu budd y sector i gymunedau a’r ardal leol.

**Argymhelliad 12: Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun sydd yn blaenoriaethu budd cymunedol a gweithgarwch cynaliadwy o fewn y sector ymwelwyr ynghyd â hyfywedd y Gymraeg. Yn ogystal, dylai egwyddorion *Cynllun Strategol Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035* gael eu hystyried gan awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol eraill.**

## 4.11 Sector cyhoeddus

Er bod canolfannau’r sector cyhoeddus, megis swyddfeydd awdurdodau lleol, ysbytai ac ysgolion yn aml wedi eu crynhoi yn yr ardaloedd trefol, mae’r gweithlu’n byw yn fwy gwasgaredig, ac mae’r sector cyhoeddus wedi tyfu’n gyflogwr sylweddol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Dengys data StatsCymru ar gyfer 2023 y cyflogwyd dros 67,000 o bobl, sef rhwng 30%-37% o’r gweithlu, gan y sector cyhoeddus ym Môn, Gwynedd, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Ar y cyfan, mae’n cynnig cyflogau a phensiynau cystadleuol a llwybrau gyrfaol sy’n gallu cadw staff o fewn cymunedau am gyfnodau hir. Ymhellach, mae gan lywodraeth leol a Llywodraeth Cymru y gallu i ddylanwadu a hybu caffael iaith, hyfforddiant a recriwtio lleol, yn ogystal â defnydd o’r Gymraeg, yn y sector drwy Safonau’r Gymraeg a chynlluniau fel *Mwy na geiriau* (Llywodraeth Cymru, 2022b).

Mae gan gyflogwyr mawr fel Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru (GIG Cymru) rôl bwysig wrth greu gwerth economaidd lleol drwy gyflogaeth. Mae GIG Cymru yn cyflogi oddeutu 100,000 o bobl ar hyd a lled Cymru. Mae nyrsio a swyddi meddygol yn cynrychioli llai na hanner y gweithlu, ac mae mathau eraill o swyddi yn hynod amrywiol, gan gynnig cyfleoedd i bobl ddatblygu ystod eang o yrfaoedd. Mae’r byrddau iechyd yn gwario cyfran sylweddol o wariant GIG Cymru, gan gynnwys oddeutu £4.6bn y flwyddyn ar gostau staff, ac maent yn un o’r cyflogwyr pwysicaf yng Nghymru (Foundational Economy Research, 2022: 13-20). Mae’r buddsoddiad hwn drwy gyflogau yn sylweddol. Mae’n creu incwm gweddillol sydd yn cael ei gylchdroi o fewn cymunedau ac economïau lleol.

Petai modd hyfforddi a chyflogi mwy o unigolion o gymunedau Cymraeg yn y sector iechyd, byddai modd arallgyfeirio mwy o fuddsoddiad drwy gyflogau i’r cymunedau hyn. Mae byrddau iechyd Hywel Dda ac Aneurin Bevan eisoes wedi cychwyn rhaglenni i hyfforddi a chyflogi trigolion lleol (gweler Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, 2021; Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, 2023). Er bod yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar gymorth gofal iechyd, y nod yw datblygu’r rhaglenni gan agor llwybrau i swyddi a sgiliau proffesiynol eraill. Mae’r ddau fwrdd iechyd hefyd yn cynnig hyfforddiant i weithwyr cymorth ddod yn nyrsys cymwysedig.

Cyflogwr pwysig arall mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yw prifysgolion. Un o nodweddion cadarnhaol ardaloedd gorllewinol Cymru yw fod sawl prifysgol yno. Dylid ystyried a fyddai modd iddynt wneud cyfraniad mwy i’r Gymraeg drwy eu polisïau cyflogaeth. Er nad yn rhan o’r sector cyhoeddus, mae gwariant a photensial cymdeithasau tai i gydweithio a buddsoddi mewn cymunedau yn cynnig ffyrdd eraill o gyfeirio a chylchdroi gwariant sylweddol o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

**Argymhelliad 13: Dylai byrddau iechyd a phrifysgolion fabwysiadu a chynyddu nifer cynlluniau sy'n hybu cyflogaeth leol. Dylid sicrhau mynediad unigolion at gyrsiau hyfforddi a llwybrau gyrfaol mewn modd hyblyg, trwy gydol eu gyrfaoedd. Dylid rhannu arfer da er mwyn cefnogi datblygiadau tebyg mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus.**

## 4.12 Marchnad lafur

Mae cyflogaeth yn ffactor allweddol sydd yn dylanwadu ar benderfyniadau pobl ifanc i aros mewn cymunedau Cymraeg, dychwelyd yno ar ôl prifysgol neu nes ymlaen mewn bywyd, neu ymsefydlu ynddynt o'r newydd. Ond ceir gwendidau o fewn marchnad lafur cymunedau Cymraeg yn yr ochr gyflenwi a galw. Er i allfudwyr fynegi pryder am brinder swyddi mewn ardaloedd gwledig (gweler Woods ac Utz, 2022), mae cyflogwyr yn nodi gwendid y farchnad lafur, ac yn wynebu heriau recriwtio.

Ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, mae angen casglu a dadansoddi gwell data, yn ogystal â chynnig gwell arweiniad a chymorth i gynllunwyr polisi, er mwyn deall budd y Gymraeg i unigolion a chyflogwyr, ac er mwyn sicrhau cynllunio ieithyddol mwy effeithiol. Mynegwyd hyn mewn adroddiad gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a amlinellodd gamau gweithredu ar gyfer gwella'r sefyllfa (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2019: 44, 50).

Mae angen datblygu'r gweithlu sydd eisoes yn byw mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Dylid datblygu prosesau lleol i adnabod a datblygu'r sgiliau penodol sydd eu hangen ar brif gyflogwyr y cymunedau hyn, neu er mwyn cefnogi meysydd twf penodol. Byddai'n fuddiol ystyried potensial denu pobl yn ôl i'r ardaloedd hyn, yn ogystal â chymell siaradwyr Cymraeg eraill i ymsefydlu yno os mai dyna yw eu dymuniad. Mae angen brocer a allai gysylltu unigolion sydd yn dychwelyd, neu'n ymsefydlu o'r newydd, gyda chyflogwyr o fewn y cymunedau o dan sylw, yn ogystal â chefnogi gwaith ehangach ym maes mudoledd er mwyn denu siaradwyr Cymraeg i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

## 4.13 Datblygiadau economaidd sylweddol eu maint

Mae cael seiliau economaidd cadarn yn allweddol i ffyniant y Gymraeg. Yn aml iawn gwelir fod datblygiadau economaidd yn cael effaith sylweddol ar economïau lleol drwy gynnig swyddi ond hefyd wrth greu a chefnogi cadwyni cyflenwi ehangach. Yn gyffredinol, mentrau bach a chanolig sy'n cyfrannu at ffyniant economaidd y gorllewin.

Ym mis Mai 2024, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig mai safle Wylfa yn Ynys Môn yw'r safle a ffefrir ar gyfer datblygiad pwerdy niwclear sylweddol ei faint. Pe gwireddir y penderfyniad i fynd ymlaen â'r datblygiad, neu pe ceid datblygiadau economaidd sylweddol eu maint eraill mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, bydd angen cynllunio'n ofalus. Bydd angen cynllunio bwriadus ar gyfer gweithlu'r dyfodol gan ddatblygu sgiliau yn lleol, cynllunio anghenion tai yn ofalus a sicrhau fod cadwyni cyflenwi cryf ar gael yn lleol. Dylid ystyried unrhyw effaith ar y Gymraeg a chreu fframwaith asesu effaith cadarn. Yn yr un modd, dylid sicrhau fod datblygiadau isadeiledd sy'n gysylltiedig yn cael eu cynllunio'n ofalus hefyd ac yn dilyn yr egwyddorion a nodir uchod.

## 4.14 Grantiau a gwariant cyhoeddus

Mae dylanwad buddsoddiadau arian cyhoeddus yn gallu bod yn sylweddol, ac maent yn aml yn ffordd o hwyluso neu alluogi datblygiadau o fewn cymunedau na fyddent yn bosibl fel arall. Mae ARFOR wedi datblygu dealltwriaeth o botensial grantiau cyhoeddus i ddylanwadu ar ddefnydd iaith, yn ogystal â'r math o ddatblygiadau economaidd y gallai fod yn bosibl eu hysgogi drwy grantiau (Wavehill Cyf, 2021). Ymhellach, mae rhaglenni ARFOR wedi dangos sut y gall grantiau o werth ariannol gymharol fach gael effaith sylweddol ar ddatblygiad ac arloesedd busnesau cynhenid o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Er mwyn sicrhau bod gwariant cyhoeddus yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, dylid sgorio ceisiadau mewn prosesau caffael o safbwynt cylchdroi arian yn yr economi leol yn ogystal hefyd â'r effaith ar y Gymraeg. Mae ystyriaeth o'r Gymraeg eisoes yn rhan o brosesau sgorio ceisiadau ar gyfer cronfeydd eraill, megis Dechrau'n Deg.

Mae'r amodau a osodir ar grantiau ac arian cyhoeddus yn elfen hollbwysig o'r broses o ddefnyddio cefnogaeth ariannol i ysgogi'r math o ddatblygiadau economaidd a ddymunir. Dylid cryfhau amodau grantiau neu fenthyciadau cyhoeddus a gosod sail egwyddorol gliriach er mwyn sicrhau'r budd mwyaf i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Mae hyn o bwys mawr mewn perthynas â datblygiadau sylweddol, megis prosiectau ynni sydd yn debygol o greu cyflogaeth ar raddfa sydd â'r potensial i weddnewid gwead cymdeithasol ardaloedd.

**Argymhelliad 14: Dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus perthnasol sicrhau fod gwariant cyhoeddus, drwy grantiau a phrosesau caffael, yn gwarantu lles aelwydydd mewn cymunedau lleol, gwerth cymdeithasol a bod cyfleoedd yn cael eu creu i gynyddu defnydd o'r Gymraeg. Dylid anelu at gynyddu capasiti a datblygiad busnesau cynhenid.**

**Pan fo'n ymarferol bosibl, felly, dylai cyllid cyhoeddus mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch:**

- **gefnogi prosesau defnydd a chaffael y Gymraeg.**
- **gefnogi prosesau caffael a chadwyni cyflenwi lleol.**
- **sicrhau budd cymunedol.**
- **greu neu gynnal gofodau Cymraeg.**
- **gyfrannu'n briodol i 'naws am le'.**
- **geisio, mewn rhai modelau economaidd, uchafu ymwneud y busnes â'r gymuned a'r gweithlu lleol, neu berchnogaeth y gymuned a'r gweithlu lleol ohono.**

## 4.15 Tref-ranbarthau

Mae'r cysyniad o dref-ranbarthau wedi derbyn sylw yn y gorffennol, yn benodol gan adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd a gyhoeddwyd yn 2014 (Llywodraeth Cymru, 2014). Argymhellodd y dylid hwyluso datblygiadau mewn ardaloedd penodol, gan adnabod Aberystwyth, Porthmadog a Chaerfyrddin fel esiamplau. Y bwriad oedd gallu dynodi 'parthau iaith economaidd arbennig' gan flaenoriaethu ymdrechion i gynhyrchu cyflogaeth o ansawdd yn y

rhanbarthau hyn lle byddai'r Gymraeg yn ystyriaeth gadarnhaol. Mae'r Comisiwn o'r farn fod gwerth o hyd i'r cysyniad o dref-ranbarthau, yn arbennig mewn perthynas ag ymdrechion i gefnogi pobl ifanc i ymgartrefu mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Mae gwasanaethau a chyfleoedd o ran hamdden a chymdeithasu yn elfennau pwysig mewn penderfyniadau pobl ifanc i fyw mewn cymunedau gwledig neu eu gadael (gweler Woods & Utz, 2022: 15-16; Social Mobility Commission, 2020: 21). Gan fod isadeiledd o'r fath yn ei le yn y trefi hyn eisoes, byddai modd ceisio eu datblygu fel hybiau a fyddai'n gallu cynnig gwasanaethau a chyfleoedd sy'n atyniadol i unigolion a theuluoedd sydd yn ystyried dychwelyd neu symud i'r ardal. Dylai eu datblygiad geisio cyd-fynd â strategaeth glir ynghylch mudoledd sy'n cymell pobl ifanc i ymsefydlu mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, ac i geisio cyfleoedd gyrfaol oddi mewn i'r rhanbarth. Dylid cynllunio a buddsoddi'n fwriadus i ddatblygu isadeiledd a chymwysterau yn y trefi allweddol hyn.

## 4.16 Allfudo

Mae mudoledd yn rhan o gwrs bywyd i lawer, ac mae'n cynnig cyfleoedd i unigolion ddatblygu sgiliau a phrofiadau gwerthfawr. Ond mae patrymau cyfredol o allfudo o ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn niweidiol. Dylid gwneud mwy i gefnogi'r sawl sydd ag awydd i ddychwelyd i'r rhanbarth, neu siaradwyr Cymraeg sy'n dymuno ymsefydlu yno, megis trwy hyrwyddo llwybrau dychwelyd neu ymsefydlu sy'n hybu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch fel cyrchfannau i bobl ifanc.

Nid Cymru fyddai'r wlad gyntaf i geisio mynd i'r afael â her ddemograffig allfudo pobl ifanc. Mae amryw o raglenni wedi ceisio atynnu pobl i ddychwelyd neu symud i ardaloedd ymhell o ganolfannau metropolitan megis Vermont yn yr Unol Daleithiau ac ynysoedd oddi ar arfordir Iwerddon (Vermont Government, 2023; Rjaltas na hÉireann, 2023). Un enghraifft yw deddf a gafwyd yn Castilla-La Mancha yn Sbaen yn 2021 sydd yn ceisio mynd i'r afael â diboblogi gwledig drwy bolisïau ac ymyraethau gweithredol. Mae'r rhain yn cynnwys toriadau o hyd at 25% o dreth incwm unigolion, toriadau o 50% ar dreth trosglwyddiadau cyfalaf a gweithredoedd cyfreithiol ar gyfer prynu cartref neu safle ar gyfer sefydlu gweithle (gweler, ENRD, 2023). Mae polisïau o'r fath yn codi'r cwestiwn a ellid yng Nghymru ddefnyddio'r system trethi er mwyn hybu gweithgarwch economaidd a chymdeithasol mewn ardaloedd sy'n wynebu allfudo.

Mae rhesymau pobl ifanc dros allfudo o gymunedau Cymraeg, a'u rhesymau dros ddychwelyd neu ymsefydlu yno, yn amrywiol ac yn gymhleth (gweler Cunningto Wynn, 2019). Mae dealltwriaeth gwneuthurwyr polisi o'r maes wedi datblygu dros y blynyddoedd diwethaf yn sgil gwaith academaidd a gwersi a ddysgwyd gan raglenni ARFOR a Llwyddo'n Lleol. Gwyddom, er enghraifft, fod rhai unigolion yn debygol iawn o adael tra bod eraill bron yn sicr o aros yn eu hardal leol (Bonner et al., 2024b). Ond gwyddom hefyd fod cyfran sylweddol yn llai sicr o'u bwriad, ac yn barod i ystyried aros, neu ddychwelyd, ar wahanol adegau o'u bywydau. Mae cyfleoedd felly i dargedu'r unigolion hyn gyda chymorth a gwybodaeth er mwyn hwyluso penderfyniadau i ddychwelyd neu aros.

Eto i gyd, mae angen gwaith pellach i ddyfnhau dealltwriaeth o bwy sy'n gadael a pham, yn ogystal â phwy fyddai'n debygol o ddychwelyd i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Ymhellach, mae angen deall pa fath o gymorth fyddai'n cefnogi pobl i aros neu ymsefydlu yn y cymunedau hyn. Mae hefyd angen cynnal a chynyddu ein dealltwriaeth o batrymau allfudo. Dylai'r ddealltwriaeth hon fod wrth gefn ymgyrch gydlynol i gyfathrebu'n rheolaidd gydag unigolion ar hyd eu taith bywyd, gyda'r bwriad o hyrwyddo'r ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch fel cyrchfannau posibl, a chynnig cymorth, pan fo'n briodol, er mwyn hwyluso symud yn ôl. Un o wersi pwysicaf rhaglen Llwyddo'n Lleol yw'r angen i sicrhau fod ymgyrch o'r fath yn barhaus, a bod cysondeb o ran neges a brand.

Mae naratifau ac ystrydebau negyddol yn cyfrannu at y feddylfryd fod rhaid i bobl ifanc adael cymunedau gorllewinol Cymru. Mae 81% o bobl ifanc yr ardaloedd gwledig yn credu y bydd angen iddynt symud o'u hardal leol i gael addysg, hyfforddiant neu waith, a 61% yn poeni am fedru dod o hyd i swydd addas yno (Woods & Utz, 2022: 1). Dylai unrhyw gymorth fynd law-yn-llaw ag ymdrechion i gyfleu naratif gadarnhaol ynghylch aros, dychwelyd, ymsefydlu, a byw a gweithio mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Dylid pwysleisio fod y rhanbarth yn un flaengar sydd yn groesawgar i unigolion a syniadau neu ddatblygiadau newydd.

Yn ogystal â denu pobl i ddychwelyd i'r rhanbarth neu ymsefydlu yno, mae angen cefnogi'r syniad o '*restanza'*, sef gwneud penderfyniad pwrpasol i aros mewn ardal er mwyn mynd ati i'w gwarchod a'i datblygu (gweler Teti, 2018; Cunnington Wynn, Froud & Williams, 2022). Mae angen gochel rhag darlunio 'arhoswyr' fel unigolion sydd wedi 'methu' neu 'wedi'u gadael ar ôl'.

**Argymhelliad 15: Er mwyn mynd i'r afael ag allfudo pobl ifanc o ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau:**

- **fod gwybodaeth a data yn cael eu casglu'n barhaus am bobl ifanc a mudoledd mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.**
- **fod gwaith ymchwil yn cael ei gomisiynu er mwyn dyfnhau dealltwriaeth o elfennau penodol megis pwy sydd yn symud, o ble, i ble, pryd a pham; pa gymorth a allai gymell pobl i aros neu ddychwelyd; sut i dargedu ac atynnu pobl sydd fwyaf tebygol o gefnogi'r economi a'r iaith mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch; a sut i helpu a chroesawu siaradwyr Cymraeg eraill i ymgartrefu yno.**
- **fod cynllun cyfathrebu a chymorth parhaol yn cael ei ddatblygu er mwyn cymell pobl ifanc i aros, dychwelyd neu ymsefydlu. Dylid seilio'r cynllun ar ddata ac ymchwil pellach am ddyheadau a phenderfyniadau pobl ifanc, gan ddatblygu naratif gadarnhaol, a chan alinio gydag anghenion y farchnad lafur yn ogystal â blaenoriaethau a dyheadau pobl ifanc.**

**Dylai Llywodraeth Cymru osod y cyfrifoldeb ar un corff i gyflawni a chydlynu hyn.**

## Sut i weithredu

Mae’r adroddiad hwn wedi trafod yr angen am strategaeth glir i gydlynu ystod o bolisïau a gweithgarwch i’w rhoi ar waith o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Mae’r Comisiwn o’r farn y dylid mynd ati i weithredu mewn ffyrdd penodol, drwy sefydlu corff i arwain a chydlynu’r gwaith ynghylch yr economi a sefydlu canolfan ragoriaeth.

### 4.17 Dyfodol rhaglen ARFOR

Gan fod rhaglen ARFOR, y partneriaeth cydweithio ym maes yr economi rhwng Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin, yn rhan mor bwysig o dirwedd polisïau ym maes yr economi a’r Gymraeg, ystyriodd y Comisiwn ei dyfodol yn ofalus. Mae ymwybyddiaeth o’i phwysigrwydd yn arwydd o aeddfedrwydd cynyddol mewn cynllunio ieithyddol yng Nghymru wrth inni sylwi fod creu amodau sosioeconomaidd ffafriol yn hanfodol i ddyfodol cymunedau ac felly i’r Gymraeg ei hun. Roedd y Comisiwn yn ymwybodol fod Llywodraeth Cymru, fel rhan o’i chytundeb cydweithio blaenorol â Phlaid Cymru, wedi comisiynu darn o waith i ystyried strwythurau sefydliadol tymor hir posibl ar gyfer ARFOR. Nid oedd canfyddiadau’r gwaith hwn wedi eu cyhoeddi erbyn i’r Comisiwn gwblhau ei drafodaethau.

### 4.18 Cerbyd polisi economaidd addas

Daeth y Comisiwn i’r casgliad fod angen cerbyd, neu gorff, penodol i arwain a chydlynu gweithgarwch mewn modd sydd yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau. Dylai’r cerbyd weithredu ar hyd ardaloedd gorllewinol Cymru yn bennaf, gan wasanaethu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Byddai’n hanfodol bwysig fod gan y corff arbenigedd o ran cynllunio ieithyddol yn ogystal â datblygu economaidd.

Mae eginyn corff o’r fath eisoes yn bodoli ar ffurf rhaglen ARFOR. Barn y Comisiwn yw bod y rhaglen yn bwysig i gynaliadwyedd ieithyddol cymunedau Cymraeg. Nid yn unig y mae’n hwyluso buddsoddiad yn yr ardaloedd hyn, ond mae hefyd yn caniatáu trafodaethau strategol ar hyd echel gogledd-de, ac yn cynnig gofod ar gyfer canolbwyntio ar yr economi a’r Gymraeg, ac i graffu a dod i ddeall y berthynas rhyngddynt.

Mae rhaglen ARFOR 2 yn dod i ben yn 2025. Mae’r Comisiwn yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr y rhaglen, ac yn awyddus fod dilyniant priodol yn digwydd yn y maes hollbwysig hwn. Mae’r Comisiwn o’r farn felly y dylai ARFOR, neu gorff tebyg, neu gorff arall o’r math a awgrymir isod gennym, fod yn barhaol.

Trafodwyd cwmpas daearyddol rhaglen ARFOR. Barn y Comisiwn yw ei bod yn bwysig cryfhau rhaglen ARFOR, neu unrhyw olynydd, trwy gynnwys ynddi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch sydd tu allan i bedair sir y rhaglen bresennol. Byddai eu cynnwys nid yn unig yn llesol i’r ardaloedd hynny eu hunain, ond hefyd i’r pedair sir bresennol. Mae’r cymunedau hyn yn rhan hanfodol o gontinwwm ieithyddol y rhanbarth gyfan.

Trafodwyd sawl model posibl ar gyfer corff i olynu rhaglen ARFOR 2. Gallai corff o’r fath ychwanegu gwerth i strwythurau datblygu economaidd ehangach drwy fireinio

cymorth economaidd er budd ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn benodol. Ymhellach, drwy sefydlu corff yn barhaol, crëir cyfleoedd i gynllunio yn strategol at yr hirdymor ar gyfer cymunedau, eu heconomïau a'r Gymraeg.

Ar ôl trafodaeth, cytunodd y Comisiwn i argymell dau opsiwn posibl i Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 16: Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu corff i arwain a chydlynu ystod o weithgarwch ym maes datblygu'r economi a'r Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Byddai ei ffiniau felly yn ymestyn y tu hwnt i bedair sir gyfredol rhaglen ARFOR. Dylai'r corff feddu ar arbenigedd o ran cynllunio ieithyddol a datblygu economaidd.**

**Dylai cylch gorchwyl y corff hwn gynnwys cyfrifoldebau ar gyfer:**

- **datblygu ystod o bolisïau neu strategaethau datblygu economaidd yng nghyd-destun ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.**
- **prif-ffrydio polisïau economaidd mewn perthynas ag ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.**
- **dylanwadu ar strwythurau datblygu economaidd ehangach.**
- **datblygu partneriaethau a rhannu capasiti ac arbenigedd ar lawr gwlad.**
- **datblygu'r ddealltwriaeth o'r cyswllt rhwng yr economi a'r Gymraeg.**
- **arwain a chydlynu ymdrechion i ddenu pobl ifanc i aros, dychwelyd neu ymsefydlu mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch er mwyn ysgogi mentergarwch a gwrthweithio diboblogi.**

**Dylai'r corff hwn fod ar ffurf un o'r ddau opsiwn isod:**

**Opsiwn 1: Yn yr opsiwn hwn, sefydlir ARFOR, neu gorff tebyg i ARFOR, yn endid gorfforedig barhaol a fyddai'n meddu ar ei gweithrediaeth ei hun. Byddai gan awdurdodau lleol gynrychiolaeth ar ei fwrdd, ond byddai'n annibynnol ar awdurdodau lleol unigol. Gellid hefyd gryfhau ei gapasiti drwy drosglwyddo iddo gyfran o arian rhaglenni prif ffrwd sydd ar gael ar gyfer datblygu economaidd yn rhanbarthol. Byddai corff o'r fath yn gerbyd addas ar gyfer cyflawni'r amcanion uchod heb darfu'n ormodol ar y gwead o strwythurau datblygu economaidd sydd eisoes yn bodoli.**

**Opsiwn 2: Yn yr opsiwn hwn, byddai'r corff yn endid lefel uwch gan greu asiantaeth datblygu economaidd ar gyfer y gorllewin. Byddai'n cael ei gyfundrefnu drwy fwrdd o gynrychiolwyr awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cysondeb a chyd-gynllunio strategol. Gellid trosglwyddo i'r corff arian ac adnoddau o raglenni prif ffrwd Llywodraeth Cymru sy'n hyrwyddo datblygu economaidd yn rhanbarthol. Gellid ystyried cryfhau ei gapasiti ymhellach drwy drosglwyddo iddo rai swyddogaethau datblygu economaidd ychwanegol.**

**Yng nghyd-destun Opsiwn 2, dylid osgoi sefyllfa lle mae polisïau economaidd, cynllunio gwlad a thref, a thrafnidiaeth yn cael eu datblygu ar wahân yn ôl amserlen wahanol. Gellid felly osod gofynion ar awdurdodau lleol i ymgynghori â'r corff newydd hwn yn y meysydd hynny. Gellid hefyd osod gofynion ar y Cyd-bwyllgorau Corfforedig i ymgynghori gyda'r corff wrth iddynt ddatblygu Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.**

Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai Opsiwn 2 yn rhagori.

## 4.19 Canolfan Ragoriaeth

Un o brif heriau'r dyfodol fydd datblygu'r ddealltwriaeth o'r berthynas rhwng yr economi a'r Gymraeg. Un modd addas o gyflawni hyn fyddai drwy sefydlu Canolfan Ragoriaeth. Amcan canolfan o'r fath fyddai datblygu'r ddealltwriaeth o'r rhyngberthynas rhwng yr economi a'r Gymraeg er mwyn cynorthwyo gwneuthurwyr polisi i ddatblygu ymyraethau effeithiol. Dylai'r ganolfan gydlynu a datblygu rhaglen ymchwil a data strategol er mwyn cefnogi gwaith polisi ehangach mewn perthynas â'r economi.

Byddai'n bwysig dod â phrifysgolion a busnesau, neu ganolfannau arbenigol eraill, yn rhan o'r drafodaeth ynglŷn ag union gylch gorchwyl canolfan o'r fath.

**Argymhelliad 17: Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Canolfan Ragoriaeth er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth o'r rhyng-berthynas rhwng yr economi a'r Gymraeg. Dylai'r ganolfan gydlynu a datblygu rhaglen ymchwil a data strategol er mwyn cefnogi gwaith polisi ehangach mewn perthynas â'r economi. Gallai'r ganolfan gael ei lleoli oddi mewn i'r corff a grybwyllir yn argymhelliad 16.**

# 5. Gweithleoedd Cymraeg

## 5.1 Pwysigrwydd y gweithle

Mae defnydd a wneir o’r Gymraeg yn y gweithle yn allweddol o safbwynt hyfywedd yr iaith. Gall hyn fod yn neilltuol bwysig i’r sawl nad ydynt yn defnyddio Cymraeg yn y cartref neu mewn rhwydweithiau cymdeithasol beunyddiol. Yn ogystal, mae ymdreiddiad dyfnach y Gymraeg i wahanol sectorau o’r economi yn fodd i roi gwerth ychwanegol arni. Mae creu, cynnal a chefnogi gweithleoedd Cymraeg yn rhan bwysig o strategaeth iaith gynhwysfawr ar gyfer cymunedau Cymraeg.

## Y sector cyhoeddus

## 5.2 Y sector cyhoeddus a’r Gymraeg

Mae gan sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru ddyletswydd i gefnogi’r Gymraeg. Mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, dylai’r ddyletswydd hon ymestyn i ddefnydd mewnol o’r Gymraeg yn y gweithle, a dylai sefydliadau cyhoeddus gynyddu eu gweinyddiaeth cyfrwng Cymraeg. Mae’r Comisiwn yn cydnabod fod patrwm defnydd mewnol o’r Gymraeg mewn sefydliadau yn gallu amrywio yn aml o ardal i ardal. Mae tuedd i hyn adlewyrchu dwysedd siaradwyr Cymraeg yn lleol.

Mewn ardaloedd lle mae’r Gymraeg yn gryf, gall fod yn briodol fod sefydliadau sector cyhoeddus yn symud tuag at weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig neu yn bennaf. Mae hyn eisoes yn digwydd mewn rhai awdurdodau lleol a chyrff yn y gogledd-orllewin, ac mewn rhai sefydliadau mewn rhannau eraill o Gymru. Hwyrach mai polisi iaith Cyngor Gwynedd fyddai’r esiampl fwyaf adnabyddus o hyn. Mae cryfder y Gymraeg yng Nghaernarfon lle lleolir pencadlys Cyngor Gwynedd, ac mewn pentrefi amgylchynol lle mae llawer o’r gweithlu’n byw, yn awgrymu fod defnydd o’r Gymraeg yn y gweithle yn un ffactor sy’n gallu gwrthweithio shifft iaith yn y gymuned.

Mewn rhai ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, fodd bynnag, ni fydd yn ymarferol fod pob sefydliad yn defnyddio’r Gymraeg yn unig neu’n bennaf. Pan nad yw hyn yn bosibl, dylai fod serch hynny strategaeth sy’n hwyluso mwy o weinyddu drwy gyfrwng y Gymraeg. Gallai hyn fod ar sail ymestyn mwy o ddefnydd mewnol o’r Gymraeg ar draws y sefydliad, neu gallai fod yn well sefydlu unedau sy’n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg oddi mewn i’r sefydliad; gellid, wrth gwrs, gyfuno’r ddwy strategaeth. Mae’r Comisiwn yn cydnabod ei bod yn bwysig fod camau o’r fath yn dwyn i ystyriaeth natur ieithyddol cymunedau.

Dylid symud cyrff a sefydliadau sector cyhoeddus ar hyd continwwm ieithyddol drwy gynllunio bwriadus sy’n rhesymol ac yn ymarferol, ac yn cynyddu defnydd o’r Gymraeg dros amser. Dylai hyn gael ei fapio; nid yw gobaith annelwig y bydd hyn yn digwydd rywdro yn y dyfodol heb fod cynllunio ar ei gyfer yn debyg o gyrraedd y nod. Bydd angen cefnogi’r gweithlu, peri fod strategaeth ar gael sy’n ehangu’r gweithlu Cymraeg sydd ar gael (er enghraifft, trwy hyfforddiant, neu yn y tymor hir trwy’r

system addysg), ac mae angen hefyd cryfhau diwylliant arweinyddol mewn perthynas â’r Gymraeg.

## 5.3 Mesur hyfedredd yn y Gymraeg yn effeithiol

Er mwyn galluogi sefydliadau sector cyhoeddus i weinyddu mwy drwy gyfrwng y Gymraeg, mae angen datblygu hyfedredd y gweithlu yn y Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae anghysondeb o ran y mesuriadau hyfedredd Cymraeg a ddefnyddir. Wrth recriwtio, mae rhai sefydliadau yn defnyddio graddfa 1-5 i fesur hyfedredd, tra bod eraill yn cyfeirio at y Gymraeg fel gallu sydd ‘yn hanfodol’, ‘yn ddymunol’, neu maent yn sôn am ‘angen i ddysgu Cymraeg ar ôl cael y swydd’. Mae’r diffyg cysondeb hwn yn rhwystr i allu arweinwyr a sefydliadau sector cyhoeddus i gynllunio’n bwrpasol ar gyfer datblygu sgiliau iaith, a defnydd o’r Gymraeg, yn y gweithle.

Byddai cysoni mesuriadau hyfedredd yn gam pwysig ymlaen. Byddai hynny’n hwyluso prosesau recriwtio, ac yn gymorth wrth gynllunio ar gyfer gwella sgiliau iaith unigolion.

Mae’r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin (CEFR, sef y *Common European Framework of Reference for Languages*) yn cynnig disgrifiadau cynhwysfawr, cydlynol a thryloyw o hyfedredd iaith. Mae eisoes yn cael ei ddefnyddio mewn rhai sectorau yng Nghymru, gan gynnwys yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Dylid defnyddio’r CEFR er mwyn mesur hyfedredd y Gymraeg yn y gweithle ar hyd y sector cyhoeddus.

**Argymhelliad 18: Dylai sefydliadau sector cyhoeddus ddefnyddio fframwaith cyffredin ar gyfer mesur hyfedredd yn y Gymraeg er mwyn cefnogi gwella sgiliau Cymraeg y gweithlu, ac fel rhan o’r broses recriwtio. Dylai’r fframwaith hwn fod yn seiliedig ar y CEFR.**

## 5.4 Datblygu hyfedredd iaith pob aelod o’r gweithlu

Mae datblygu hyfedredd y gweithlu yn cynyddu’r gallu i weithredu drwy’r Gymraeg. Ond yn ôl Arolwg Defnydd Iaith 2019-20, dim ond 33% o siaradwyr Cymraeg a nododd fod eu cyflogwr yn cynnig hyfforddiant neu gymorth i wella eu Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2023f). Mae angen i sefydliadau, a chyrff cyhoeddus yn enwedig, hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu sgiliau iaith eu gweithluoedd ar hyd eu gyrfa.

Mae rhaglen Cymraeg Gwaith yn fodd o gynorthwyo’r datblygiadau hyn wrth gynnig hyfforddiant amrywiol, hyblyg sydd wedi ei ariannu i gyflogwyr. Gall yr hyfforddiant fod ar ffurf sesiynau codi hyder, neu’n gyrsiau mwy dwys sydd ar gael wyneb-yn-wyneb gyda thiwtoriaid neu’n gyfan gwbl ar-lein.

## 5.5 Prentisiaethau

Byddai cynnig prentisiaethau cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn fanteisiol fel rhan o strategaeth o greu gweithleoedd Cymraeg. Byddai hefyd yn fodd o greu amodau ffafriol fel bod mwy o bobl ifanc yn aros yn eu cymunedau. Ond mae darparu prentisiaethau cyfrwng Cymraeg yn gallu bod yn gymhleth; fel arfer, mae angen prentis, cyflogwr, mentor a darparwr sydd yn

medru'r Gymraeg. Byddai modd i sefydliadau sector cyhoeddus gynnig mwy o brentisiaethau cyfrwng Cymraeg wrth gynllunio'n fwy bwriadus. Dylai awdurdodau lleol, byrddau iechyd a sefydliadau sector cyhoeddus mawr eraill fynd ati i gynllunio er mwyn gwireddu hyn.

## 5.6 Cefnogi defnydd o'r Gymraeg drwy dechnoleg

Mae technoleg yn hollbwysig er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Yn gyffredinol hefyd, gall datblygiadau technoleg leihau pellter economaidd rhwng ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch a phrif farchnadoedd gwledydd Prydain. Mae'r sector cyhoeddus yn allweddol o safbwynt arddel defnydd o dechnoleg Cymraeg, ac mae'n gallu ysgogi datblygiad a defnydd ar raddfa sylweddol.

Mae *Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg* yn cynllunio ar gyfer cynyddu defnydd y Gymraeg drwy dechnoleg mewn ystod eang o sefyllfaoedd (Llywodraeth Cymru, 2018). Prif themâu'r cynllun yw technoleg lleferydd, cyfieithu â chymorth cyfrifiadur, yn ogystal â Deallusrwydd Artiffisial Sgyrsiol. Ceir pecynnau gwaith yn ymwneud yn benodol â'r byd gwaith. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn gweithio gyda Stable i greu CALI (*Customised Automated Language Interface*)—proses sydd wedi'i chynllunio i newid rhyngwyneb defnyddiwr yn gyfan gwbl i'r Gymraeg, yn awtomatig. Drwy leihau'r ffrithiant wrth ddewis y Gymraeg yn ddigidol, mae profiad y defnyddiwr yn gwella wrth ddefnyddio'r iaith ar-lein, ac anogir mwy o bobl i ddefnyddio mwy o Gymraeg.

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gynnig arweiniad ym maes technoleg iaith, gan annog sefydliadau sector cyhoeddus i barhau i fabwysiadu a defnyddio technoleg iaith er mwyn hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

## 5.7 Newid diwylliant arweinwyr

Mae diwylliant arweinyddol sefydliadau yn allweddol bwysig. Mae arweinwyr yn gallu 'gosod tôn' ynghylch y Gymraeg. Mae diwylliant arweinyddol sydd yn eangfrydig, yn groesawgar, yn gyfeillgar ac yn gynhwysol yn sail pwysig ar gyfer ysgogi a hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Serch esiamplau cadarnhaol lle mae arweinwyr wedi newid tôn sefydliad er budd y Gymraeg, nid yw'r darlun yn gyson ledled Cymru. Mae angen gwella ymwybyddiaeth arweinwyr o swyddogaeth bwysig gweithleoedd o ran dyfodol y Gymraeg er mwyn eu cynorthwyo i gynllunio'n fwy bwriadus ar gyfer datblygu sgiliau a defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae Academi Wales wedi datblygu cwrs 'Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog' sy'n dod ag uwch arweinwyr o'r sector cyhoeddus ynghyd i drafod sut i arwain sefydliadau mewn ffordd a fydd yn cyfrannu at ysbryd ac amcanion *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. Dylid datblygu cwrs cyfatebol ynghylch arwain a fydd wedi ei baratoi yn benodol ar gyfer anghenion cymunedau Cymraeg. Dylai geisio datblygu dealltwriaeth a gallu arweinwyr i deilwra ymagwedd ieithyddol y sefydliad mewn modd sydd yn adlewyrchu ac yn atgyfnerthu natur ieithyddol y cymunedau hynny.

**Argymhelliad 19: Dylai arweinwyr cyrff cyhoeddus yng Nghymru ddilyn cwrs 'Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog'. Dylai Academi Cymru hefyd ddatblygu cwrs 'Arwain mewn Cymuned Gymraeg' a fyddai'n addas ar gyfer arweinwyr sefydliadau a gweithleoedd mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Gallai cwrs o'r fath fod yn ddefnyddiol hefyd ar gyfer arweinwyr cymunedol, y trydydd sector a'r sector preifat yn yr ardaloedd hynny.**

## 5.8 Symud sefydliadau sector cyhoeddus ar hyd continwwm iaith

Gyda mesuriadau hyfedredd safonol, cymorth i ddatblygu sgiliau, gwell defnydd o dechnoleg iaith, ac arweinwyr sydd yn gosod tôn a chynllunio'n fwriadus, bydd cyrff cyhoeddus mewn lle gwell i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Mae'r Comisiwn yn nodi fod rhai cyrff cyhoeddus mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch wedi ymrwymo ers blynyddoedd i weinyddu'n gynyddol drwy gyfrwng y Gymraeg. Ond nid oes fawr o dystiolaeth fod pob un o'r sefydliadau hyn wedi llwyddo i wneud hynny. Mewn rhai achosion, gellid olrhain y methiant yn ôl dros gyfnod o rai degawdau, ac mae hyn wedi bod yn rhwystredigaeth i lawer, ac wedi cyfrannu at y shifft iaith i'r Saesneg mewn cymunedau lleol.

Oherwydd y cyd-destun hwn, daeth y Comisiwn i'r casgliad fod angen gweithredu'n gadarn. Dylid defnyddio Safonau'r Gymraeg er mwyn symud sefydliadau sector cyhoeddus ar hyd continwwm ieithyddol o ran eu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Dylai hyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn symud mwyfwy i weithredu'n fewnol yn ddwyieithog neu yn Gymraeg, trwy gymryd camau penodol i alluogi a gwireddu hynny.

**Argymhelliad 20: Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio safonau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 er mwyn sicrhau fod sefydliadau sector cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Mesur mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn datgan beth yw eu defnydd o'r Gymraeg fel iaith fewnol, a'r camau y byddant yn eu cymryd er mwyn symud y sefydliad o dan sylw ar hyd continwwm ieithyddol o fewn fframwaith amser penodol.**

## 5.9 Gweithleoedd sector preifat

Bu tuedd i drafodaethau am weithleoedd Cymraeg ganolbwyntio ar weithleoedd cyhoeddus. Mae'n haws defnyddio polisi cyhoeddus er mwyn dylanwadu ar y sector hwn nag ar sectorau eraill. Yn y sector preifat, neu mewn rhannau o'r trydydd sector, gellid annog busnesau i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg yn fewnol, ond nid yw'r un offerynnau polisi ar gael er mwyn cyflawni hynny.

Serch hynny, mae'n bwysig ystyried gweithleoedd heblaw rhai yn y sector cyhoeddus o safbwynt eu defnydd o'r Gymraeg gan eu bod yn rhan bwysig o economi cymunedau Cymraeg. Yn y sector preifat, mae peth tystiolaeth fod busnesau yn aml yn gweithredu'n anffurfiol drwy gyfrwng y Gymraeg (Wavehill, 2021: 28; 31-32). Nid oes gan y rhan fwyaf o'r rhain gynlluniau swyddogol neu achrededig i yrru datblygiad defnydd o'r Gymraeg o fewn y busnes, ond maent yn parhau i ddefnyddio'r iaith. Yn aml, mae'r gwaith ffurfiol mewnol (ac allanol gyda chwsmeriaid megis taliadau), cytundebau neu waith cyfreithiol, yn cael ei wneud

drwy'r Saesneg. Ond mae gweithgarwch answyddogol neu anffurfiol, megis siarad gyda chwsmeriaid a chleientiaid, yn digwydd yn aml drwy'r Gymraeg. Mae gweithleoedd o'r fath yn greiddiol i barhad y Gymraeg fel iaith gymunedol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Mae angen sicrhau cefnogaeth ar gyfer y sector preifat er mwyn hybu defnydd o'r Gymraeg. Gallai ARFOR gael rôl wrth ddarparu cefnogaeth o'r fath. Mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, dylai'r pwyslais fod ar ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn bennaf oll. Dylai fod cymorth lleol ar gael i fusnesau i'w hannog i ddefnyddio mwy o Gymraeg mewn ffordd a fydd yn cynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd pob dydd. Dylai cyngor a chymorth fod ar gael er mwyn annog busnesau i ddarparu cymaint ag sy'n bosibl o wasanaethau llafar yn Gymraeg i'w cwsmeriaid a'u hyrwyddo.

# 6. Datblygu cymunedol

## 6.1 Cynnig atebion lleol a chyfannol

Mae dyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol hyfyw yn dibynnu ar sylfaen economaidd a chymdeithasol gynaliadwy. Mae angen felly i unrhyw ymgais i gryfhau cymunedau Cymraeg fynd i'r afael â hwy fel bröydd sydd ag anghenion gwahanol o ran tai, economi, datblygu cymunedol a chynllunio ieithyddol. Fodd bynnag, ni ddylid edrych ar yr anghenion hyn ar wahân yn unig, a dylid yn ogystal geisio ateb cyfannol i nifer o'r heriau sy'n wynebu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Dylai polisi cyhoeddus wneud y ddau: ystyried cyd-destunau economaidd-gymdeithasol unigol yn ogystal â'r hyn sydd gan gymunedau yn gyffredin.

## 6.2 Cyd-destun a lledaenu arfer da

Ers pandemig COVID-19, mae rhai cymunedau wedi dangos eu gallu i'w cefnogi eu hunain mewn amgylchiadau heriol. Mae enghreifftiau llwyddiannus o fodelau integredig a chyfannol o ddatblygu cymunedol mewn rhannau o Wynedd (yn enwedig yn y cymunedau llechi), a hefyd ym Môn a Sir Benfro, er enghraifft. Mae ymddiried mewn cymunedau a'u grymuso i ddarparu eu hatebion eu hunain, gyda chefnogaeth ychwanegol ar gael os oes angen, yn allweddol. Mae ymgysylltu ac ymgynghori â'r cymunedau eu hunain hefyd yn allweddol.

I'r perwyl hwn, mae'r Comisiwn yn gweld gwerth mewn defnyddio arbenigedd sydd eisoes yn bodoli'n lleol er mwyn gwireddu gweledigaeth ieithyddol. Mae sefydliadau, mudiadau a grwpiau sydd eisoes yn gweithio yn y cymunedau hyn, mewn ffyrdd sy'n cefnogi'r Gymraeg a'r gymuned yn gyffredinol, yn y sefyllfa orau i weithredu'n lleol mewn sawl maes. Mae enghreifftiau penodol lle mae cymunedau wedi llwyddo i gefnogi seilwaith cymdeithasol ac wedi defnyddio eu hadnoddau eu hunain i ddatblygu a chynnal gofodau o bob math. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys tafarndai, bwytai, caffis, siopau cymunedol a chylchoedd meithrin.

Byddai mapio'r sefydliadau cymunedol hyn yn ogystal â'r gwaith maent yn ei wneud yn gam cychwynnol. Yn ogystal, dylid rhoi cyfle iddynt rannu syniadau â'i gilydd. Fodd bynnag, nid oes gan bob cymuned y gallu i wireddu rhai o'u syniadau, ac mae hyn yn golygu ar brydiau fod angen darparu cefnogaeth fwy effeithiol a phenodol gan lywodraeth leol a chanolog.

**Argymhelliad 21: Dylai Llywodraeth Cymru ddyfeisio a chefnogi rhaglen i ledaenu modelau datblygu cymunedol llwyddiannus ar draws ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch gan ddefnyddio arbenigedd ac arfer da sydd eisoes yn bodoli'n lleol. Gellid rhoi modelau llwyddiannus ar waith mewn rhannau eraill o Gymru hefyd.**

## 6.3 Cynllunio hirdymor

Er y dylai cymorth ar gyfer gweithgarwch a datblygu cymdeithasol sydd yn cynnal y Gymraeg gael ei siapio gan flaenoriaethau cymunedau, mae'n dal yn wir bod angen cefnogaeth ariannol i sicrhau perchnogaeth adeiladau, er enghraifft, a chefnogi costau gwasanaethau. At hynny, mae cydgysylltu â gwasanaethau seilwaith

cymdeithasol a ddarperir gan awdurdodau lleol, megis llyfrgelloedd neu fannau gwyrdd cyhoeddus, hefyd yn bwysig er mwyn sicrhau cymysgedd priodol o weithgareddau a gwasanaethau sydd yn cefnogi'r Gymraeg.

O ganlyniad, mae angen cynyddu capasiti, adnoddau a nawdd i'r mudiadau, sefydliadau a grwpiau hyn. Un peth sydd angen ei wneud yw gwella'r drefn bresennol o sicrhau nawdd gan nad yw'n caniatáu cynllunio hirdymor. Er enghraifft, mae'r mentrau iaith ar hyn o bryd yn cael eu cyllido drwy'r grantiau hyrwyddo a hwyluso defnydd y Gymraeg ar sail cytundeb grant blynyddol. Gall trefn gyllido dymor byr o'r fath fod yn dramgwydd o safbwynt cynllunio ieithyddol a chymunedol bwriadus hirdymor ynghyd â'r gallu i ddenu neu gadw staff ar gytundebau hirach.

**Argymhelliad 22: Dylai Llywodraeth Cymru a chyrff cyllido perthnasol eraill newid y drefn bresennol o ddyfarnu nawdd i fudiadau a grwpiau cymunedol fel bod y cyrff hynny yn gallu cynllunio prosiectau tymor canolig a hirdymor. Yn bennaf, mae angen cynyddu cyfnod grantiau presennol o flwyddyn i dair blynedd er mwyn sicrhau hirhoedledd a llwyddiant cynlluniau.**

## 6.4 Asedau a pherchnogaeth gymunedol a chyd-berchnogaeth

Dylid rhoi grym cyfreithiol, ariannol a gwleidyddol i gymunedau mewn ffordd ystyrlon. Yn ogystal, mae angen meddwl sut y gall cymunedau gael rheolaeth ar asedau. Gellir dadlau fod grwpiau cymunedol, mentrau cymdeithasol a chynghorau cymuned yn aml ar flaen y gad yn cynnal ac yn achub gwasanaethau a chyfleusterau er budd y gymuned leol. Mae llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a chanolfannau cymunedol yn enghreifftiau o wasanaethau a chyfleusterau sydd wedi cael eu trosglwyddo i berchnogaeth y gymuned.

Gall asedau cymunedol fod yn sylfaen effeithiol ar gyfer datblygu cymunedau Cymraeg. Mae enghreifftiau diweddar o sefydlu tafarndai cymunedol mewn broydd Cymraeg, ynghyd â chanolfannau cymunedol eraill, yn galonogol. Fel rhan o hyn, dylid annog grwpiau cymunedol i sicrhau fod y Gymraeg yn ganolog i weithgareddau. Mae hyn yn golygu hefyd amddiffyn hawl cynghorau tref a chymuned, fel yr haen fwyaf lleol a chymunedol o ddemocratiaeth, i weithredu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae perchnogaeth gymunedol yn antithesis i anghydraddoldeb. Ni fydd yn disodli'r cyfan sy'n gyhoeddus a'r cyfan sy'n breifat, ond dylai chwarae rôl fwy blaenllaw mewn unrhyw fodel o ddatblygiad economaidd, cymdeithasol ac ieithyddol o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Mae polisïau sy'n annog perchnogaeth gymunedol yn debyg o fod yn gefnogol i'r Gymraeg yn y cymunedau lle ceir dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg.

O ganlyniad, cred y Comisiwn ei bod yn gynyddol bwysig i gymunedau allu perchnogi asedau er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y cymunedau hyn a'u hiaith. Gall ased cymunedol gynnwys yr amgylchedd adeiledig (er enghraifft, defnydd o adeiladau a chyfleusterau); tir, gan gynnwys mannau gwyrdd a pharciau; a hefyd y bobl sy'n byw yn y gymuned (er enghraifft, eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u rhwydweithiau cymdeithasol).

Mae cyd-berchnogaeth yr un mor bwysig yn achos cymunedau sydd yn gallu defnyddio elfennau o weithgarwch y sector preifat i gryfhau gweithgareddau cymdeithasol ac ieithyddol. Mae cyd-berchnogaeth yn aml yn rhan o fodel ar gyfer prosiectau ynni adnewyddol, er enghraifft, lle mae'r asedau'n eiddo ar y cyd ac yn cael eu rheoli gan aelodau o'r gymuned a datblygwyr/gweithredwyr y prosiect. Ceir cyfle yma ar gyfer datblygiad economaidd a chymdeithasol sydd yn wir fynd i'r afael ag anghenion y cymunedau dan sylw.

Mae Sefydliad Bevan wedi tynnu sylw at y cyfleoedd y mae perchnogaeth gymunedol yn eu cynnig i greu cyfoeth cymunedol, megis drwy ddarparu cyflogaeth a chefnogi cadwyni cyflenwi lleol. Un o'r buddion posibl a nodwyd gan Sefydliad Bevan yw'r gallu i fesur a dangos effaith gymdeithasol. Yn eu barn nhw, nid yw pob ased yn cynhyrchu elw ond mae llawer yn cynhyrchu gwerth cymdeithasol (Sefydliad Bevan, 2020). Un o'r cyfleoedd yw gallu perchnogaeth gymunedol i gryfhau economi a seilwaith cymdeithasol ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch gan greu cyfleoedd i drigolion fyw a gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae gan gymunedau mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig hawliau nad ydynt yn bodoli yng Nghymru. Er enghraifft, ceir y *Community Right to Buy* yn yr Alban a'r *Community Right to Bid* yn Lloegr. Yn yr Alban, gall y *Community Empowerment (Scotland) Act* hwyluso trosglwyddo asedau. Mae'r ddeddf yn rhoi hawl i gyrff cymunedol wneud ceisiadau i awdurdodau lleol, Gweinidogion yr Alban ac amrywiaeth o gyrff cyhoeddus drosglwyddo iddynt dir neu adeiladau sydd mewn perchnogaeth gyhoeddus y teimlent y gallent wneud gwell defnydd ohonynt. Gallent ofyn am berchnogaeth, prydles neu hawliau eraill. Os gwrthodir cais o'r fath, mae gan y grŵp cymunedol hawl i apelio neu ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw. Mae'r *Community Right to Bid* yn Lloegr yn caniatáu i gymunedau a chynghorau plwyf enwebu adeiladau neu dir i'w rhestru gan yr awdurdod lleol fel ased o werth cymunedol. Pan ddaw ased rhestredig i gael ei werthu, gellir cael moratoriwm o hyd at 6 mis i roi gwell cyfle i grwpiau cymunedol lleol godi cyllid, datblygu cynllun busnes a gwneud cais i brynu'r ased ar y farchnad agored.

Er y gallai cymunedau Cymru gael budd o gynlluniau perchnogaeth gymunedol, dengys gwaith ymchwil gan y Sefydliad Materion Cymreig mai cymunedau Cymreig yw'r rhai sydd â'r grym lleiaf i hwyluso perchnogaeth gymunedol ym Mhrydain a bod galw felly am newid polisi cymunedol yn sylweddol (Sefydliad Materion Cymreig, 2022). Mae'r Comisiwn yn cytuno â chynsail adroddiad Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai Senedd Cymru ar Asedau Cymunedol a gyhoeddwyd yn 2022 fod angen newidiadau deddfwriaethol i rymuso cymunedau (Senedd Cymru, 2022). Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn 15 o 16 argymhelliad y Pwyllgor.

Ar yr un pryd, mae'r Comisiwn yn nodi'r angen i sicrhau nad yw'r broses o drosglwyddo asedau i'r gymuned yn tanseilio'r Gymraeg. Er enghraifft, wrth ystyried a ddylid caniatáu i ymgeisydd gyflwyno achos busnes llawn ar gyfer trosglwyddo ased, dylai'r meini prawf gynnwys y gallu i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r gallu i greu cyfalaf cymdeithasol er budd y Gymraeg.

**Argymhelliad 23: Dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi'n ariannol mewn mentrau cymunedol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch drwy ddarparu grantiau a/neu fenthyciadau hirdymor iddynt ar raddfeydd**

**ffafriol. Dylid sicrhau fod y broses o drosglwyddo asedau i'r gymuned yn llesol i'r Gymraeg, drwy osod amodau a gofynion ar grantiau a/neu fenthyciadau fel bod cyfalaf cymdeithasol y Gymraeg yn ganolog i unrhyw gynllun.**

## 6.5 Cymunedoli

Cafodd Cymunedoli ei lansio yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, 2023, sef rhwydwaith o 26 o fentrau a busnesau cymdeithasol yng Ngwynedd. Fe'i ariennir gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) a Menter Môn ac mae'n un o'r prosiectau gafodd gefnogaeth gan brosiect Perthyn. Yn 2023, roedd y mentrau sydd yn ffurfio Cymunedoli yn cyflogi dros 450 o bobl, ac roedd gwerth eu hasedau dros £43.2m. Mae'r rhan fwyaf o'r mentrau a busnesau cymdeithasol hyn yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bwriad Cymunedoli yw ceisio sicrhau fod cymunedau yn berchen ac yn rheoli eu hadnoddau eu hunain.

Dyma fodel amgen o ddatblygiad economaidd sydd yn hybu perchnogaeth o asedau cymunedol a phrosiectau traws-gymunedol. Ceir gwerth cymdeithasol, ieithyddol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd i'r gwaith hwn. Mae'r Comisiwn yn croesawu'r math hwn o ddatblygiad cymunedol ac economaidd. Mae er budd y Gymraeg ar hyd ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, ac mae'n cynyddu capasiti a chymhwysedd lleol.

Mae angen edrych ar yr hyn sydd yn gefnogol i'r Gymraeg yn ogystal ag i seilwaith cymunedol. Mae mentrau cymdeithasol yn ogystal â phrosiectau megis Cymunedoli a Perthyn yn fodelau posibl ar gyfer datblygu capasiti. Gall rhwydwaith pwrpasol lle mae cymunedau yn rhannu profiadau, ac yn dysgu o arfer da, fod yn ffordd effeithiol o gychwyn ar y daith hon. Mewn ardaloedd lle mae eisoes enghreifftiau o waith cymunedol gwydn sydd yn cefnogi'r Gymraeg, mae angen meithrin a datblygu'r modelau hyn er budd cymunedol ac ieithyddol. Er mwyn datblygu cymhwysedd, mae angen sicrhau hyfforddiant a chanllawiau ar gyfer cymunedau, gan gynnwys eu cynorthwyo i sefydlu mentrau cymdeithasol newydd os yw hynny'n briodol.

Mae'r Comisiwn yn ymwybodol o bryderon y gallai rhai ffurfiau o weithgarwch cymunedol arwain at lai o ddefnydd o'r Gymraeg mewn rhai cymunedau mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch lle mae'r Gymraeg yn llai cryf efallai. Mae angen cyfarwyddyd er mwyn osgoi sefyllfaoedd o'r fath gan drin y Gymraeg yn hytrach fel nwydd cymdeithasol sy'n ganolog i brosiectau cymunedol.

**Argymhelliad 24: Dylai Llywodraeth Cymru gynnig cymorth i helpu grwpiau cymunedol ddatblygu rhwydwaith neu rwydweithiau a all eu cynorthwyo i asesu a chynyddu cymhwysedd a chapasiti yn eu meysydd gwahanol, gan rannu arfer da ac arbenigedd ar draws y rhwydwaith.**

## 6.6 Cynlluniau Cynefin

Yn sgil gweithdy yn ymwneud â chynllunio a'r Gymraeg, ystyriodd y Comisiwn botensial posibl Cynlluniau Cynefin o safbwynt datblygu cymunedol a'r Gymraeg. Cyflwynwyd Cynlluniau Cynefin gan Lywodraeth Cymru er mwyn grymuso cymunedau i ymgysylltu'n greadigol â'r broses gynllunio, ac i gynllunwyr gefnogi blaenoriaethau lleol. Caiff Cynlluniau Cynefin eu llunio gan y gymuned leol ac maent yn gallu ychwanegu mwy o fanylion at y gwaith a wneir gan gynllunwyr gwlad a thref.

Mae’r Comisiwn yn awyddus fod Cynlluniau Cynefin yn cael eu defnyddio er mwyn rhoi ystyriaeth fwy cynhwysfawr i’r Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Gallent hefyd fod yn fodd i berchnogaeth gymunedol gael ei hwyluso gan y system gynllunio. Bydd y Comisiwn yn ymhelaethu ar hyn mewn argymhellion pellach y bydd yn eu gwneud am gynllunio gwlad a thref erbyn mis Rhagfyr 2024 (gweler yr adran am ‘Gynllunio gwlad a thref’ am fanylion).

# 7. Tai

## 7.1 Rhagarweiniad

Heb amheuaeth, mae Cymru yn wynebu argyfwng tai a digartrefedd. Ers cyfnod pandemig COVID-19, mae’r argyfwng hwn wedi gwaethygu wrth i’r bwlch gynyddu rhwng lefelau incwm lleol a phrisiau tai a chost rhentu. Mae’r sefyllfa yn wir fygythiad i gymunedau Cymraeg. Mae anallu pobl ifanc a theuluoedd i ddod o hyd i gartrefi sydd yn fforddiadwy ac addas yn ei dro yn effeithio ar hyfywedd cymunedau, cynaliadwyedd ysgolion, gwasanaethau hanfodol, ac yn peri y gall fod prinder o ran y gweithwyr sydd ar gael ar gyfer cyflogwyr. Mae angen gweithredu ar fyrder i ddarparu cyflenwadau o gartrefi fforddiadwy yn unol ag anghenion y cymunedau hyn, o’r math o ddeiliadaeth sydd yn ymateb i hynny.

## 7.2 Datblygiadau polisi perthnasol

Mae’r maes polisi tai wedi gweld pecyn o fesurau cynllunio, trethi a thrwyddedu yn ddiweddar i fynd i’r afael ag ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr ar gyfer twristiaid. Bu trafodaeth ar fesurau o’r fath yn adroddiad annibynnol Simon Brooks i Lywodraeth Cymru, *Ail gartrefi: datblygu polisïau newydd yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru 2021b), a chyflwynwyd nifer o ymyraethau yng nghyd-destun y *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg* (2022c) a chamau polisi Llywodraeth Cymru ynghylch ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr. Cyflwynwyd nifer o bolisïau newydd gan awdurdodau lleol hefyd.

Cyhoeddwyd un Papur Gwyrdd gan Lywodraeth Cymru, sef *Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru: Cais am dystiolaeth ar sicrhau llwybr tuag at Dai Digonol—gan gynnwys Rhenti Teg a Fforddiadwyedd* ac un Papur Gwyn, *Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru (*gweler Llywodraeth Cymru, 2023d; 2024a). Mae’r ddau yn cynnwys argymhellion a allai gael effaith ar ddefnydd o’r Gymraeg. Er mai ym mis Mehefin 2022 y cychwynnodd *Cynllun peilot ail gartrefi a fforddiadwyedd Dwyfor* (Llywodraeth Cymru, 2023g), mae tystiolaeth anecdotaidd yn dechrau dod i’r fei am effeithiau cyflwyno rhai newidiadau.

## 7.3 Data cefndirol defnyddiol

Mae ffigurau Cyfrifiad 2021 o ran deiliadaeth yn dangos fod o blith aelwydydd Cymru:

- 38% yn berchen eu cartrefi.
- 28.3% yn berchen eu cartrefi gyda morgais, benthyciad neu ran-berchnogaeth.
- 17% yn rhentu’n breifat.
- 16.5% yn byw yn y sector rhentu cymdeithasol, sy’n cael ei gynnal un ai gan awdurdodau lleol neu gymdeithasau tai.

Dengys ystadegau StatsCymru, Mawrth 2024 fod 11,273 o unigolion yng Nghymru yn ddigartref ac wedi eu lleoli mewn llety dros dro ar ddiwedd mis Rhagfyr 2023. O’r rhain, roedd 2,077 o blant o dan 16 oed yn ddigartref.

Yn ystod 2022-2023, roedd 12,537 o aelwydydd wedi eu hasesu fel rhai digartref, ble mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i gefnogi'r aelwydydd hyn i sicrhau llety. Roedd hyn yn gynnydd o 7% ers 2021-2022. O'r achosion hyn, llwyddwyd i roi cymorth i 30% i sicrhau llety hirdymor addas. Ceir rhestrau aros hir am dai cymdeithasol hefyd, ac ym mis Rhagfyr 2023 amcangyfrifodd Shelter Cymru fod bron i 139,000 o deuluoedd ar y rhestrau hyn (*BBC Wales investigates,* 2023).

Cafodd pandemig COVID-19 effeithiau negyddol o safbwynt fforddiadwyedd yn y farchnad dai agored. Cynyddodd prisiau tai o 28% ar gyfartaledd yng Nghymru rhwng Mawrth 2020 a Mawrth 2023. Roedd cynnydd sylweddol yng nghyfraddau llog o 0.1% ym Mawrth 2020 i 5.25% erbyn Awst 2023.

## 7.4 Cyd-destun

Mewn cymunedau Cymraeg, ceir ymdeimlad o anghyfiawnder yn aml fod trigolion yn wynebu anawsterau wrth geisio cael mynediad i'r farchnad dai. Mynegid y rhwystredigaeth yn y drafodaeth am ail gartrefi, ond mae'n ymwneud yn ogystal â'r farchnad dai yn ehangach. Yng Ngwynedd, er enghraifft, yn ôl adroddiad gan Gyngor Gwynedd (Cyngor Gwynedd, 2023: 23), mae 65.5% o'r boblogaeth wedi eu prisio allan o'r farchnad dai leol.

I ryw raddau, mae'r broblem yn debyg i'r sefyllfa mewn rhannau eraill o wledydd Prydain lle mae twf hirdymor prisiau tai wedi arwain at ganran sylweddol o'r boblogaeth yn cael ei phrisio allan o'r farchnad dai. Mewn cymunedau Cymraeg, fodd bynnag, mae'r sefyllfa yn cael ei chymhlethu gan yr angen i sicrhau cynaliadwyedd ieithyddol. Mae hyn yn llawer anos os nad oes modd i bobl brynu eiddo yn eu cymunedau eu hunain. O ganlyniad, mae'r drafodaeth am dai yn bwysig o safbwynt dyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol.

## 7.5 Cynllunio yn seiliedig ar anghenion lleol

Er mwyn mynd i'r afael ag anghenion cymunedau gwledig a Chymraeg, mae angen mwy o gartrefi. Fodd bynnag, rhaid iddynt fod y math o gartrefi y mae pobl eu hangen ac yn gallu fforddio byw ynddynt.

Gall cartrefi fforddiadwy helpu sicrhau dyfodol cymunedau gwledig. Gall llond llaw o dai newydd wneud y gwahaniaeth rhwng ysgol gynradd sy'n cael ei gorfodi i gau ac un sy'n dal i groesawu disgyblion newydd, rhwng siop bentref yn cau ac un sy'n parhau i wasanaethu cwsmeriaid, neu rhwng tafarn sydd wedi'i throi'n fythynnod gwyliau ac un sy'n parhau i fod yn ganolbwynt i'r gymuned leol.

Er mwyn hwyluso cynllunio ar sail anghenion lleol, dylai awdurdodau cynllunio lleol ledled Cymru ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw strategaethau sydd yn weithredol gan yr awdurdod cynllunio lleol, ond hefyd yr angen i fod yn gysylltiedig â pholisïau cenedlaethol.

Mae angen bod yn ofalus o ran maint datblygiadau mewn pentrefi yng nghefn gwlad. Dylai unrhyw ddatblygiad mewn cymunedau gwledig fod yn gynaliadwy ac yn deg, ac ni ddylai arwain at ddadleoli cymunedau lleol. Gall datblygiad sydd uwchben y galw lleol am dai fod yn ddinistriol i'r gymuned ac i'r Gymraeg. Bob pum mlynedd,

mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal adolygiad o anghenion tai trwy gynnal Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol (LHMA), ag adolygiad hanner ffordd rhwng blwyddyn dau a thri. Mae'r LHMA yn rhan allweddol o dystiolaeth wrth baratoi Strategaethau Tai Lleol a'r Cynlluniau Datblygu Lleol sydd yn dyrannu tir ar gyfer tai fforddiadwy a thai'r farchnad agored. Mae'r LHMA hefyd yn darparu tystiolaeth ar gyfer y Prosbectws Grant Tai Cymdeithasol sy'n cael ei baratoi gan bob awdurdod lleol, sy'n crynhoi'r angen am dai mewn ardal yn ogystal â nodi anghenion tai gwahanol grwpiau o fewn cymunedau gan nodi beth yw blaenoriaethau'r awdurdod lleol. Yn ogystal â dogfen leol sydd yn cael ei rhannu gyda phartneriaid y Bartneriaeth Tai yn lleol, mae'r Prosbectws yn dangos sut y bwriedir cynllunio er mwyn dyrannu Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Nid yw'r templed LHMA yn rhoi ystyriaeth i nodweddion sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg.

Mae'r LHMA yn seiliedig ar amcangyfrifon eang. Mae Ardaloedd Marchnad Tai yn ardaloedd sydd wedi cael eu diffinio'n ddaearyddol yn seiliedig ar yr ardaloedd lle mae pobl yn byw ar hyn o bryd a lle byddent yn fodlon symud cartref heb newid swydd. Canlyniad anfwriadol hyn yw bylchau mewn gwybodaeth gan nad yw'r data yn cyfateb i'r angen am dai yn lleol ar lefel cymunedau unigol. Mae'n bosibl y bydd gan awdurdod lleol hyd at 20 o Ardaloedd Marchnad Tai lleol, a ddiffinnir gan ddefnyddio wardiau, MSOAs (*Middle layer Super Output Areas*) neu LSOAs. Gall pob Ardal gynnwys hyd at 40 o wardiau, MSOAs neu LSOAs.

Yn ychwanegol, nid yw cyfnod data'r rhagamcanion poblogaeth diweddaraf yn cyd-fynd â'r amserlen a ddefnyddir ar gyfer cynnal yr LHMA. Er enghraifft, cwblhawyd yr LHMA diweddaraf ym mis Chwefror 2024 gan ddefnyddio rhagamcanion poblogaeth sy'n dyddio'n ôl i 2021. Yn sicr mae angen rhagor o gysondeb yn y defnydd o ddata er mwyn sicrhau fod asesiadau, sy'n sail ar gyfer dogfennau cynllunio allweddol, yn gadarn.

Dylai'r Strategaeth Tai Lleol a'r Cynllun Datblygu Lleol gael eu llywio gan dystiolaeth o anghenion tai ar lefel cymunedau lleol. Byddai'r wybodaeth hon yn sail wedyn ar gyfer y datrysiadau tai sydd yn briodol fesul cymuned, ac yn y pen draw yn sicrhau fod arian cyhoeddus yn cael ei fuddsoddi yn effeithiol ac yn cynnig y gwerth gorau. Mae angen i Lywodraeth Cymru ail-edrych a newid y fethodoleg er mwyn cael gwell sylfaen data ar gyfer y cynlluniau strategol hyn.

Arfer da sydd yn weithredol yng ngogledd-orllewin, canolbarth a de-orllewin Cymru yw'r Hwyluswyr Tai Gwledig (ac yn Nwyfor ceir Uwch Hwylusydd Tai Cymunedol) sy'n gweithio ar lefel leol mewn cydweithrediad â'r awdurdod lleol, y parc cenedlaethol, cynghorau cymuned, cynghorau tref gwledig, sefydliadau eraill a'r gymuned, i ganfod a deall anghenion tai lleol. Ariennir y swyddi gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol a chymdeithasau tai. Mae Asesiad Cymunedol yr Hwyluswyr Tai Gwledig yn cynnwys gweithio gyda'r gymuned er mwyn darganfod anghenion tai'r ardal a'r sefyllfa dai yno. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys llythyru'r gymuned gan annog pobl i gwblhau holiadur anghenion tai un ai dros y ffôn neu ar-lein, neu yn ystod diwrnod agored a gynhelir yn y gymuned gyda'r partner datblygu / grŵp cymunedol. Mae gwybodaeth o'r ymgynghoriad yn cael ei chyflwyno ar ffurf adroddiad ynghyd â data sydd yn berthnasol i'r sefyllfa dai yn y gymuned, er enghraifft niferoedd ail gartrefi a thai

gwag, prisiau tai marchnad agored, cyflogau lleol a rhestrau tai cymdeithasol a'r gofrestr tai fforddiadwy.

Defnyddir y dystiolaeth wrth gyflwyno ceisiadau am ganiatâd cynllunio am dai fforddiadwy megis ar safleoedd eithriedig a hefyd er mwyn i gymdeithasau tai ac awdurdodau lleol dderbyn Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer costau datblygu. Rhydd y dystiolaeth fwy o hyder i'r gymdeithas dai neu'r awdurdod lleol fod angen yn bodoli am y cartrefi a fydd yn cael eu datblygu. Mae'n hollbwysig cael y mathau iawn o gartrefi o ran deiliadaeth, fforddiadwyedd a maint yn y mannau iawn. Mae'n bwysig bod cymunedau yn cael eu grymuso a bod eu llais yn cael ei glywed wrth ganfod beth yw anghenion tai. Gall y datblygiad ateb yr angen yn lleol, neu gall fod yn ddatrysiad sydd yn gwasanaethu nifer o gymunedau. Drwy gydweithio a chyd-gynhyrchu'r asesiadau a bwydo'r canlyniadau yn ôl i bartneriaid sydd yn cynnwys y gymuned leol, dylid gallu ennyn perchnogaeth leol, a sicrhau gwell dealltwriaeth a llai o wrthdaro pe bai cais am hawl cynllunio.

**Argymhelliad 25: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau fod canllawiau a thempled yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn cynnwys meini prawf sydd yn ymwneud â'r Gymraeg.**

**Argymhelliad 26: Dylai awdurdodau lleol sicrhau fod pob cynllun sydd yn y Prosbectws Tai Cymdeithasol yn cynnwys tystiolaeth o anghenion tai lleol. Dylid cynnal asesiad cymunedol o'r anghenion am dai a hynny bob pum mlynedd fesul ardal cyngor cymuned neu gyngor tref. Dylai'r broses gael ei harwain gan yr Hwyluswyr Tai Gwledig.**

## 7.6 Rhentu—sector tai cymdeithasol

Dylai cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol fod â rôl ganolog wrth ymateb i anghenion tai mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Mae 70% o gartrefi fforddiadwy yng Nghymru yn cael eu datblygu gan gymdeithasau tai a adnabyddir hefyd fel Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Llywodraeth Cymru, 2023ch). Mae hyn er gwaetha'r risgiau yn y sector datblygu megis argaeledd tir, polisïau cynllunio, ffosffadau, effaith chwyddiant ar gostau ac argaeledd defnyddiau, a datblygwyr yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr. Yn ychwanegol at hynny, mae gofynion y gyfundrefn Grant Tai Cymdeithasol—sef safonau datblygu, canllawiau cost derbyniol, cyfraddau grant a sicrhau fod rhenti yn fforddiadwy—i gyd yn dylanwadu ar hyfywedd unrhyw gynllun datblygu. Fel y nodwyd eisoes, mae argyfwng yn bodoli yn y sector tai yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a Chymraeg. Mae angen gweithredu ar fyrder gan edrych sut gellir symleiddio prosesau, datblygiadau a chyfleoedd i weithio mewn partneriaeth.

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn ei Rhaglen Lywodraethu i ddarparu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel newydd rhwng 2021 a 2026 yn gam i'r cyfeiriad cywir. Bydd angen sicrhau fod hyn yn cael ei wireddu.

Mae'r buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer adeiladu tai fforddiadwy i'w groesawu. Fodd bynnag, yn lle cadarnhad blynyddol o gyllid cyfalaf, byddai rhaglenni ariannu tair blynedd yn rhoi mwy o sicrwydd a hyder i'r cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol wrth gynllunio a datblygu tai. Yn naturiol, gan mai arian cyhoeddus yw'r Grant Tai Cymdeithasol, mae Llywodraeth Cymru am uchafu niferoedd yr

unedau tai sy’n cael eu datblygu. O ganlyniad i fodelau ariannu sy’n adlewyrchu hyn, ffefrir datblygiadau mwy eu maint gan y bydd costau datblygu fesul uned yn llai ar gyfartaledd o ganlyniad.

Dosrennir arian grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru sy’n cyfrannu tuag at ddatblygiad tai rhent cymdeithasol i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn unol â Model Hyfywedd Safonol. Gydag ambell i eithriad, cyfradd grant o 58% oedd yn bodoli ar gyfer datblygiadau tai rhent cymdeithasol a chyfradd o 35% tuag at ddatblygiad tai rhent canolraddol. Ond ers i’r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd, ac o ganlyniad i sgileffeithiau pandemig COVID-19, bu mwy o hyblygrwydd wrth ddyrannu’r grant. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn edrych ar bob cais yn unigol. Yn sgil derbyn tystiolaeth gan gymdeithas dai ac awdurdod lleol yng ngogledd-orllewin Cymru, byddai’r Comisiwn o blaid bod datblygiadau ar raddfa fechan yng nghefn gwlad yn derbyn hyd at 70% o arian grant tuag at ddatblygu tai rhent cymdeithasol, gan wneud datblygiadau bychain yn hyfyw. Derbynnir y gallai cyfanswm y tai cymdeithasol a ddatblygir oddi mewn i’r gyllideb bresennol fod ychydig yn is o ganlyniad i hyn, ond mae’r Comisiwn o’r farn fod cymryd y cam hwn yn hanfodol. Dylid cydnabod hefyd fod grantiau eraill ar gael gan Lywodraeth Cymru, megis Rhaglen Gyfalaf ar gyfer llety dros dro (TACP) a’r Gronfa Tai â Gofal, sydd yn cefnogi ychwanegu at gyflenwad tai rhent cymdeithasol, a gellir cyfuno’r rhain gyda’r Grant Tai Cymdeithasol.

**Argymhelliad 27: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau hyblygrwydd yn y fformiwla grantiau tai cymdeithasol, ynghyd ag mewn unrhyw grant perthnasol arall, er mwyn hwyluso datblygiadau ar raddfa fechan mewn ardaloedd gwledig o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Dylid sicrhau trwy hyn bod y tai yn fforddiadwy i’w datblygu, gan gadw o fewn Modelau Hyfywedd Safonol Llywodraeth Cymru.**

## 7.7 Cyflenwad tai

Awgryma ffigurau rhestrau aros na fydd 20,000 o dai cymdeithasol carbon isel yn ddigonol i gwrdd â’r angen am gartrefi.

Mae angen gweld cynnydd sylweddol ar draws Cymru yn y cyflenwad cartrefi fforddiadwy ar gyfer aelwydydd sydd ar incwm isel neu ganolig i’w rhentu neu brynu. Mae hyn yn wir hefyd am ardaloedd gwledig Cymraeg. Byddai cyflawni hyn o gymorth wrth gefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau, ac wrth adfywio canol trefi mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Gellid gwneud hyn trwy adeiladu o’r newydd, ynghyd â gwneud gwell defnydd o’r stoc dai a siopau gwag presennol, a hynny trwy waith awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, mentrau tai a arweinir gan y gymuned, a mentrau cydweithredol.

## 7.8 Dyfodol y *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg*

Mae’r Comisiwn yn cefnogi’r *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg*, y camau mae Llywodraeth Cymru wedi eu cymryd i ymdrin â niferoedd uchel o ail gartrefi, a’r peilot ail gartrefi a fforddiadwyedd yn ardal Dwyfor. Mae’r cynlluniau hyn yn cynnig cyfleoedd i weithredu mewn cymunedau ble mae nifer uchel o ail gartrefi gan edrych ar ddatrysiadau i’r problemau ddaw yn sgil hynny. Mae’r *Cynllun Tai Cymunedau*

*Cymraeg* a'r peilot yn Nwyfor yn gallu rhoi ystyriaeth i effeithiau polisi tai ar gynaliadwyedd yr iaith. Trwy ystod o ymyraethau, y nod yw helpu datrys materion sy'n gysylltiedig â fforddiadwyedd tai, mynediad at berchnogaeth leol, ffyniant economaidd, cynaliadwyedd cymunedol a pharhad y Gymraeg fel iaith gymunedol fyw.

Gan fod cymunedau Cymraeg yn bodoli oddi mewn i gyd-destun marchnadoedd tai agored ble mae gan eu preswylwyr lai o fynediad at gyfalaf na sydd ar gael weithiau mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, mae'n debyg y bydd angen cefnogaeth barhaus arnynt. Nid yw'r ffactorau sy'n effeithio ar fforddiadwyedd ac argaeledd tai mewn cymunedau Cymraeg yn debyg o ddiflannu yn y tymor byr na chanolig heb newidiadau mewn polisi cyhoeddus sydd wedi'u teilwra ar gyfer yr ardaloedd hyn.

Mae achos cadarn dros ymestyn y *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg* tu hwnt i'w gynllun tair blynedd presennol gan ei wneud yn barhaol.

Byddai modd hefyd ehangu gwaith y *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg* er mwyn creu cerbyd strategol 'system gyfan' i weithredu ac amrywio polisi tai mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

**Argymhelliad 28: Dylai Llywodraeth Cymru wneud y *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg* yn barhaol. Dylai'r cynllun fod yn weithredol ar hyd ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.**

## 7.9 Gwerthuso *Cynllun peilot ail gartrefi a fforddiadwyedd Dwyfor*

Mae cynllun peilot Dwyfor bellach ar waith ers mis Mehefin 2022 i ddatblygu datrysiadau tai. Fel unrhyw beilot, rhydd gyfle i wneud polisïau'n weithredol, gan fesur a monitro'r effaith y maent yn eu cael gan gynnwys ar y farchnad dai leol ac ar y Gymraeg. Comisiynwyd cwmni annibynnol i werthuso'r ymyraethau sydd wedi eu cyflwyno trwy gynllun peilot Dwyfor ac mae wedi cychwyn ar ei waith. Bydd yn adrodd trwy gydol y peilot, gan gyflwyno adroddiad terfynol ym mis Hydref 2026.

**Argymhelliad 29: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau fod gwerthusiad *Cynllun peilot ail gartrefi a fforddiadwyedd Dwyfor* yn ystyried yn llawn effaith ar y Gymraeg. Os yn briodol, dylid ehangu ymyraethau peilot Dwyfor i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch eraill.**

## 7.10 Ail gartrefi

Bu trafodaeth frwd am y sefyllfa o ran ail gartrefi mewn cymunedau Cymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Nid oedd y Comisiwn o'r farn y dylai ail-agor y drafodaeth hon gan fod y mater wedi'i drin yn adroddiad *Ail gartrefi: datblygu polisïau newydd yng Nghymru* (2021b), yn y *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg* (2022c), ac mewn dogfennau eraill. Mae'r drafodaeth wedi arwain at gyfres o ymyraethau polisi newydd, o ran polisi trethiannol, fforddiadwyedd, trwyddedu a'r gallu i newid y fframwaith cynllunio cenedlaethol ac felly y system gynllunio yn lleol.

Am fod llawer o'r ymyraethau hyn yn cael eu cyflwyno am y tro cyntaf, mae'n anodd rhagweld eu heffaith hirdymor ar hyn o bryd.

Am y rheswm hwnnw, dylid monitro effaith yr ymyraethau. Bydd angen gwybod a ydynt yn peri gostyngiad mewn niferoedd a chanran ail gartrefi, a beth yw eu heffaith ar argaeledd tai a phrisiau tai. Bydd angen gwirio hefyd fod trosi ail gartrefi yn dai annedd yn hwyluso mynediad pobl leol at y farchnad dai. Bydd yn bwysig hefyd ystyried unrhyw effeithiau anfwriadol megis lleihad o ran meddiant y gymuned Gymraeg ar eiddo yn sgil etifeddiaeth, ac unrhyw effaith bosibl ar hawliau eiddo pobl leol.

Yn hollbwysig, bydd rhaid holi a yw'r mesurau hyn, o'u hystyried gyda'i gilydd, yn llesol o safbwynt y Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, ynteu a fyddant yn cael yr effaith anfwriadol o'i gwanhau.

Ar hyn o bryd, nid oes modd i'r Comisiwn ateb y cwestiynau hyn.

Mae'n bosibl mai'r newid mwyaf arwyddocaol yn hirdymor yw bod Llywodraeth Cymru bellach yn caniatáu i awdurdodau cynllunio lleol gyflwyno'r hyn a elwir yn Gyfarwyddyd Erthygl 4 mewn perthynas ag ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn galluogi awdurdod i fynnu fod cais cynllunio yn cael ei gymeradwyo cyn bod modd troi prif annedd yn ail gartref neu lety gwyliau tymor byr.

Dylid nodi y byddai'r cam hwn yn ddigynsail. Nid oes modd rhagweld ar hyn o bryd y canlyniadau a allai ddeillio o'i weithredu. Pe bai Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael ei gyflwyno, byddai angen mecanweithiau i fesur ei effaith, ynghyd ag ymyraethau eraill, ar y farchnad dai leol ac ar y Gymraeg.

**Argymhelliad 30: Dylai awdurdodau cynllunio sy'n cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 gynnal proses werthuso rheolaidd i fonitro unrhyw sgileffeithiau anfwriadol ar y Gymraeg ac ar y farchnad dai.**

## 7.11 Trothwy llety gwyliau tymor byr mewn perthynas â chynaliadwyedd cymunedol

Nid oes trothwy Cymru gyfan wedi'i nodi o safbwynt pennu'r lefel neu niferoedd o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr y bernir y byddent yn effeithio ar gynaliadwyedd cymuned. Cred rhai arbenigwyr fod diffyg astudiaethau a thystiolaeth yn y maes hwn. Wrth weithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 felly bydd angen i awdurdodau cynllunio gyfiawnhau'n ofalus unrhyw drothwy sy'n cael ei bennu.

Noder mai ffigurau yn seiliedig ar bwynt penodol mewn amser yw ystadegau a gall ardal sydd uwchben y trothwy pan weithredir Cyfarwyddyd Erthygl 4 ddisgyn gydag amser islaw'r trothwy hwnnw.

## 7.12 Tai dan arweiniad y gymuned

Maes yw tai dan arweiniad y gymuned sy'n berthnasol i'r adran hon, a hefyd i'r adran datblygu cymunedol, a dylid darllen y ddwy adran ochr-yn-ochr â'i gilydd.

Mae gan gymdeithasau tai yng Nghymru, ac awdurdodau lleol sydd yn perchen eu stoc dai o hyd, fynediad at Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru er mwyn ariannu tai cymdeithasol a thai fforddiadwy. Mae'r grant yn cael ei ddyrannu gan awdurdodau lleol mewn ymateb i'r Prospectws Grant Tai Cymdeithasol. Daw gweddill y cyllid a ddefnyddir gan gymdeithasau tai ac awdurdodau lleol er mwyn

adeiladu tai o'r newydd sydd yn aml-ddeiliadaeth, a phrynu eiddo presennol i'w hadnewyddu, trwy gymryd benthyciadau preifat yn bennaf.

Ni fydd yn hawdd i fentrau tai cymunedol a chydweithredol godi arian cyfalaf ar gyfer prynu tir neu adeiladau a datblygu tai a fydd yn fforddiadwy. Anawsterau o ran hyn yw un o'r prif rwystrau wrth symud ymlaen.

Mae sawl prosiect diweddar yng Nghymru wedi llwyddo i godi arian trwy werthu cyfranddaliadau cymunedol ar gyfer prynu tafarndai, gwestai neu siopau cymunedol. Mae'r *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg* wedi sefydlu cronfa grant refeniw, Perthyn, i gefnogi grwpiau cymunedol i baratoi astudiaethau dichonoldeb a chynlluniau busnes, prisiadau ac arolygon. Fodd bynnag, mae costau datblygu yn gallu bod yn sylweddol, a bydd angen ffynhonnell ariannu ychwanegol yn y mwyafrif o sefyllfaoedd lle nad oes llif arian digonol ar gael. Bydd yn anodd cael benthyciadau masnachol er mwyn i'r mentrau hyn lwyddo, a bydd angen felly fynediad at fenthyciadau llog isel, grantiau, trefniadau gwarantu neu fuddsoddiadau ecwiti eraill.

Byddai'n fanteisiol pe bai cyllid cyfalaf ar gael i gynorthwyo cymunedau i brynu tir neu eiddo a datblygu tai sy'n cynnig benthyciadau, grantiau a buddsoddiadau ecwiti. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa fenthyciadau benodol, neu gynnig ecwiti mewn cynlluniau, ar gyfer hwyluso datblygiadau tai dan arweiniad y gymuned. Yn achos cynigion ecwiti, byddai gan y Llywodraeth siâr ecwiti yn yr eiddo hyd nes bod y benthyciad wedi ei dalu'n ôl. Defnyddio arian cyhoeddus mewn ffordd wahanol fyddai hyn lle byddai Llywodraeth Cymru yn dod yn fwy o fuddsoddwr.

**Argymhelliad 31: Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa benthyciadau penodol sy'n cynnig benthyciadau llog isel, neu ecwiti mewn cynlluniau, er mwyn cynorthwyo mentrau cymunedol i brynu tir neu eiddo ynghyd â datblygu tai dan arweiniad y gymuned.**

## 7.13 Defnyddio'r stoc dai bresennol yn well

Mae gormod o eiddo gwag hirdymor yng Nghymru (22,457 ym mis Ionawr 2023) (gweler Llywodraeth Cymru, 2023dd), sydd yn wastraff ar adnoddau, a hefyd yn peri dirywiad yng ngwneuthuriad adeiladau ac yn creu lleoliadau lle gall fod ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Mae eiddo gwag yn gallu cynnwys eiddo masnachol, llety uwchben siopau a hefyd dai gwag. Gan fod diffyg cyfleoedd i ddatblygu tai newydd ar raddfa datblygiadau bychain sy'n hyfyw, dylid defnyddio'r stoc dai bresennol yn well.

Mae nifer o fentrau cymunedol megis Menter Môn, Y Galeri, Partneriaeth Ogwen, Cwmni Bro Ffestiniog, Yr Orsaf a Planed yn gwneud gwell defnydd o adeiladau gwag ar raddfa fechan. Dylid hyrwyddo'r ymdrechion hyn yn eang fel arfer da ble gellir creu perchnogaeth gymunedol ar asedau, creu swyddi a chyfleoedd hyfforddi, a chreu hybiau cymunedol.

Gwelwyd llwyddiant dros y blynyddoedd diwethaf hefyd gan Swyddogion Tai Gwag mewn awdurdodau lleol ar draws Cymru wrth iddynt ddefnyddio amrediad o gymhellion ariannol a phwerau gorfodaeth i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Nid yw'n hawdd defnyddio'r pwerau a'r prosesau hyn ym mhob achos, a dylid gwneud pob ymdrech i'w symleiddio.

Ar raddfa fwy eang, gwireddir cynlluniau trawsnewid ac adfywio canol trefi a dinasoedd mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, cymdeithasau tai, awdurdodau lleol, datblygwyr a chyrff eraill. Maent yn dod ag adeiladau gwag a thir yn ôl i ddefnydd, neu yn dymchwel adeiladau gwag gan godi yn eu lle gartrefi a gofodau gweithio gan ddod â bwrlwm yn ôl i ganol trefi. Dylid cefnogi cyfleoedd i gyd-blethu polisïau adfywio canol tref gyda pholisïau tai wedi eu hariannu ac sy'n cynnwys ymysg eu hamodau ymrwymiad i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae rhai awdurdodau lleol wedi dynodi symiau o arian er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r argyfwng tai, megis trwy'r Gronfa Ffyniant Cyffredin a defnydd o arian a godir gan drethi ym maes ail gartrefi a chartrefi gwyliau. Mae'r camau hyn i'w croesawu. Dylai pob awdurdod lleol edrych yn fwy strategol ar ddefnydd arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin, a'r trethi ychwanegol a ddaw yn sgil codi premiwm ar ail gartrefi, gan wneud gwell defnydd o eiddo gwag.

**Argymhelliad 32: Dylai awdurdodau lleol wneud gwell defnydd o'r stoc dai ac eiddo gwag wrth ymateb i anghenion tai lleol. Dylid cyd-blethu polisïau adfywio canol tref gyda pholisïau tai, ac yn rhan o hynny, dylai amodau ar grantiau neu fenthyciadau gynnwys ystyriaethau yn ymwneud â'r Gymraeg.**

## 7.14 Cytundebau Adran 106 a pholisïau gosod tai cymdeithasol

Mae awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol eisoes â phwerau i roi amodau ar geisiadau am hawl cynllunio. Mae modd gosod amodau ar brynu, gwerthu a gosod tai er mwyn pennu pwy all fyw mewn tai penodol, a hynny trwy ddefnydd o Gytundeb Adran 106, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae amodau yn gallu cynnwys meini prawf preswyl a chyflogaeth. Mae gofyn wedyn i'r awdurdod lleol, cymdeithas dai, datblygwyr tai neu asiantaeth arall berthnasol gydymffurfio â'r amodau sydd wedi eu gosod.

## 7.15 Tai cymdeithasol: cysylltiadau lleol ac ystyriaeth o'r Gymraeg

Yn y maes gosod tai cymdeithasol, mae rhai awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn dyfarnu pwyntiau ychwanegol os yw'r ymgeiswyr â chysylltiad lleol â'r tŷ sydd i'w osod.

Mae union ddiffiniad 'cysylltiad lleol' yn gallu amrywio rhwng awdurdodau lleol, a hefyd yn gallu amrywio rhwng yr amodau o fewn Cytundebau Adran 106 sydd gan awdurdodau cynllunio a pholisïau gosod yn lleol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, crëir cysylltiad lleol pan fo'r ymgeisydd neu aelod o'r cartref (rhywun sydd fel arfer yn byw gyda'r ymgeisydd fel rhan o'u haelwyd) wedi bod yn byw yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod y pum mlynedd diwethaf neu yn y gorffennol (ar unrhyw adeg). Mewn rhai awdurdodau lleol, mae pwyntiau ychwanegol ynghlwm wrth feddu ar gysylltiad cymunedol. Mae rhai awdurdodau lleol hefyd yn ystyried cyfnodau pan mae'r ymgeisydd wedi gweithio yn yr ardal.

Yn gyffredinol, nid oes amodau sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag iaith wrth osod tai cymdeithasol. Mae'r Comisiwn yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod pawb yn y gymuned, beth bynnag yw eu hiaith, yn gallu cael hyd i wasanaethau ac adnoddau hanfodol, gan gynnwys tai. Am y rheswm hwn, ni fyddai'r Comisiwn yn cefnogi

ymyraethau a fyddai'n arwain at siaradwyr Cymraeg lleol yn cael mynediad at dai cymdeithasol ar draul y boblogaeth ddi-Gymraeg leol, er enghraifft.

Fodd bynnag, ni fyddai'n rhaid i gamau o blaid y Gymraeg ym maes gosod tai cymdeithasol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch weithredu mewn dull mor amrwd â hynny.

Mae'r Comisiwn yn ymddiddori mewn modelau o gefnogi siaradwyr Cymraeg na fyddent yn digwydd ar draul y di-Gymraeg, ond a allai nodi'r Gymraeg fel ystyriaeth ategol ymysg nifer o ystyriaethau eraill heb beri anfantais annerbyniol i grwpiau eraill yn y gymdeithas.

Mae'r Comisiwn yn nodi pwysigrwydd symudoledd siaradwyr Cymraeg oddi mewn i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Yng nghyd-destun y farchnad lafur leol, lle ceir nifer o swyddi lle bo angen y Gymraeg a bu trafferth i'w llenwi, mae angen sicrhau nad yw polisïau i flaenoriaethu pobl leol yn cael yr effaith anfwriadol o rwystro siaradwyr Cymraeg rhag symud i'r cymunedau hyn. Gall annog siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn lleol i ymsefydlu am y tro cyntaf mewn ardal o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch fod yn llesol i'r iaith.

Mae hyn yn codi'r cwestiwn a oes angen datblygu polisïau er mwyn cynorthwyo siaradwyr Cymraeg i symud i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch mewn achosion lle nad oes ganddynt gysylltiad lleol, ond lle byddai eu presenoldeb yn llesol o safbwynt y farchnad lafur leol a hyfywedd y Gymraeg yn gyffredinol. Byddai'n rhaid i unrhyw bolisi o'r fath fodoli ochr-yn-ochr â pholisïau cysylltiad lleol, sy'n berthnasol i bawb yn y gymuned beth bynnag yw eu hiaith, yn hytrach na'u disodli. Byddai'n rhaid hefyd ei fod yn cydymffurfio â pholisïau ym maes cydraddoldeb.

**Argymhelliad 33: Dylai awdurdodau lleol ac awdurdodau cynllunio ystyried a ellir datblygu modelau, o ran gosod tai cymdeithasol neu wrth lunio Cytundebau Adran 106, lle gallai'r Gymraeg fod yn un ystyriaeth gadarnhaol, ochr-yn-ochr ag ystyriaethau eraill. Dylid craffu ar unrhyw fodelau a ddatblygir er mwyn sicrhau nad oes anfantais annerbyniol i'r boblogaeth ddi-Gymraeg, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth gydraddoldeb berthnasol.**

## 7.16 Morgeisi ar gyfer tai sydd â chyfyngiadau lleol arnynt

Mae darpariaeth morgeisi ar gyfer eiddo sydd â chyfyngiadau arnynt yn wael o ran nifer y benthycwyr sydd ar gael, a hefyd o ran pa mor gystadleuol yw'r morgeisi a gynigir.

Mae hyn yn wir am eiddo sy'n ddarostyngedig i amodau Cytundeb Adran 106. Yn ychwanegol, bydd angen sicrhau nad yw gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn golygu fod llai o forgeisi ar gael ar gyfer eiddo.

Mae'r sefyllfa bresennol yn ei gwneud hi'n anoddach nag y dylai fod i bobl brynu eiddo sydd â chyfyngiadau arnynt. Gall hefyd ei gwneud hi'n fwy anodd i bobl godi cyllid ar gyfer hunan-adeiladu eiddo sydd â chyfyngiadau arnynt. O ganlyniad, mae'n tanseilio ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y mecanweithiau hyn ac mewn mentrau tai fforddiadwy yn fwy cyffredinol.

Byddai'n wir i ddweud fod hyn yn achosi pryder mewn llawer o gymunedau Cymraeg. Mae llawer ohonynt wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig lle mae datblygiadau newydd yn aml yn destun cyfyngiad. Dylid cymryd camau i sicrhau mwy o gystadleuaeth o ran darpariaeth morgeisi ar eiddo sydd â chyfyngiadau arnynt.

**Argymhelliad 34: Dylai Llywodraeth Cymru drafod â darparwyr morgeisi sut i wella cystadleuaeth darpariaeth morgeisi ar gyfer eiddo sydd â chyfyngiadau arnynt. Dylid gosod fframwaith sy'n mesur nifer y benthycwyr sy'n cynnig morgeisi ar eiddo sydd â chyfyngiadau arnynt, a'r cyfraddau llog a gynigir mewn morgeisi ar eu cyfer mewn cymhariaeth â chyfraddau llog morgeisi a gynigir mewn perthynas ag eiddo sydd heb gyfyngiad.**

# 8. Cynllunio gwlad a thref

## 8.1 Y berthynas rhwng cynllunio gwlad a thref a chynllunio ieithyddol

Mae’r berthynas rhwng cynllunio gwlad a thref a chynllunio ieithyddol yn un sydd wedi’i thrafod yn helaeth. Perthynas amlhaenog yw hon, ac mae dylanwad y ddau faes ar rychwant eang o bynciau polisi eraill yn gymhleth. Serch hynny, byddai llawer o fudd yn deillio o gryfhau’r cysylltiad rhyngddynt. Fel disgyblaeth, mae cynllunio ieithyddol wedi datblygu’n sylweddol dros y degawdau diwethaf ac mae’n allweddol fod y maes polisi cynllunio gwlad a thref yn derbyn cefnogaeth a chyngor oddi wrth arbenigwyr cynllunio ieithyddol wrth adolygu neu ddatblygu polisïau yn y dyfodol.

Dangosodd galwad y Comisiwn am dystiolaeth fod pryderon dwys ynghylch y berthynas rhwng cynllunio gwlad a thref a’r Gymraeg yn ymestyn ar draws cymdeithas sifil, ymysg cyrff proffesiynol ac awdurdodau cynllunio yn ogystal ag ymhlith mudiadau iaith ac ymgyrchwyr.

Mae cynllunio gwlad a thref â chyfraniad allweddol i’w wneud o safbwynt cynaliadwyedd y Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Mae angen craffu ar y maes, adolygu polisïau, cyflwyno gwelliannau ac mewn rhai achosion lunio polisïau newydd. Gan fod y maes yn gymhleth, mae hwn yn ddarn sylweddol o waith.

## 8.2 Rhai ystyriaethau pwysig

Ystyriodd y Comisiwn nifer o ddogfennau polisi a chanllawiau perthnasol yn y maes cynllunio gwlad a thref.

*Polisi Cynllunio Cymru* sy’n datgan polisïau Llywodraeth Cymru ym maes cynllunio defnydd tir (Llywodraeth Cymru, 2024b) gyda’r nod o sicrhau bod y drefn gynllunio yng Nghymru yn cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy gan wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Mae’r Comisiwn o’r farn fod angen gwell arweiniad yn y polisi yng nghyswllt egwyddorion datblygu cynaliadwy mewn perthynas â’r Gymraeg ac yn arbennig cynaliadwyedd hirdymor ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

*Cymru’r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040* yw’r fframwaith datblygu cenedlaethol sy’n gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer Cymru am yr ugain mlynedd nesaf (Llywodraeth Cymru, 2021c). Barn y Comisiwn yw fod angen gwneud mwy yn y ddogfen i gydnabod dosbarthiad gofodol siaradwyr Cymraeg ynghyd â rhoi gwell arweiniad i’r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol wrth iddynt fynd ati i ddarparu Cynlluniau Datblygu Strategol.

Nodiadau Cyngor Technegol sy’n rhoi arweiniad technegol i randdeiliaid ar ddehongli gofynion y polisi Cynllunio Cenedlaethol. Mae cynnwys *Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a'r Gymraeg* yn neilltuol bwysig, ynghyd â’i berthnasedd â’r nodiadau technegol eraill (Llywodraeth Cymru, 2017b). Mae angen adolygiad cynhwysfawr o *TAN 20* er mwyn cryfhau’r arweiniad a’r cyngor a roddir wrth i awdurdodau cynllunio baratoi cynlluniau datblygu ac wrth asesu a gwneud penderfyniadau ar ganiatâd cynllunio. Yn sgil hyn, bydd angen ystyried cyd-berthynas â nodiadau technegol perthnasol eraill yng nghyswllt y Gymraeg.

Y *Llawlyfr Cynlluniau Datblygu* sy'n rhoi arweiniad i swyddogion awdurdodau cynllunio sy'n gyfrifol am baratoi a gweithredu cynlluniau datblygu (Llywodraeth Cymru, 2020b). Mae angen rhoi gwell arweiniad ynglŷn â'r Gymraeg yn y *Llawlyfr Cynlluniau Datblygu.* Dylai hyn gynnwys eglurhad ac arweiniad ar y berthynas rhwng llunio a gweithredu Arfarniadau Cynaliadwyedd Integredig, asesiadau effaith iaith Gymraeg, a'r broses o baratoi cynlluniau datblygu.

Byddai'n dda pe gellid gwella ymwybyddiaeth a sgiliau rhai cynllunwyr gwlad a thref o ran hanfodion cynllunio ieithyddol. Yn yr un modd, cydnabyddir fod prinder gwybodaeth a sgiliau priodol ymysg rhai cynllunwyr ieithyddol am y maes cynllunio gwlad a thref. Byddai'r Comisiwn yn croesawu adolygu'r ddarpariaeth addysg uwch er mwyn sicrhau bod ymarferwyr, graddedigion a myfyrwyr yn meddu ar setiau sgiliau priodol yn y maes cynllunio ieithyddol mewn perthynas â chynllunio gwlad a thref.

## 8.3 Cam nesa'r Comisiwn a phroses llunio polisi

Yn ystod hydref 2023, penderfynodd y Comisiwn gychwyn proses er mwyn craffu ar bolisïau presennol gyda golwg ar wneud argymhellion manwl yn y meysydd hyn. Trefnwyd gweithdy ar gyfer arbenigwyr cynllunio gwlad a thref a chynllunwyr ieithyddol ble trafodwyd y problemau a'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'r ddau faes polisi, blaenoriaethau polisi, a chamau polisi y gellid eu cymryd er mwyn gwella'r sefyllfa.

Mewn cymunedau Cymraeg, gall ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch fod yn gerbyd pwysig ar gyfer gweithredu rhai polisïau o'r fath. Bydd modd yn yr ardaloedd hynny amrywio polisïau a'u teilwra ar gyfer anghenion arbennig cymunedau Cymraeg. Ond mae hefyd angen edrych ar bolisïau o safbwynt y Gymraeg yng nghyd-destun Cymru gyfan.

Mae llai o gynnydd wedi bod yn y maes cynllunio gwlad a thref o ran polisi sydd yn ymwneud â'r Gymraeg na mewn nifer o feysydd eraill. O ganlyniad, nid yw gwneud argymhellion yn fater yn unig neu'n bennaf o amrywio polisïau. Mae angen craffu ar sylfeini'r maes yn ei gyfanrwydd.

Bydd yn angenrheidiol ystyried cynllunio gwlad a thref mewn rhannau eraill o Gymru yn ogystal ag mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Daeth y Comisiwn i'r farn mai annoeth fyddai trafod y maes hwn yn ei fanylder mewn dau adroddiad ar wahân (sef yn yr adroddiad hwn, ac yna yn yr adroddiad a gyhoeddir erbyn 2026 am gymunedau mewn rhannau eraill o Gymru). Gwell fyddai dod i gasgliadau, a chyhoeddi argymhellion perthnasol, mewn un ddogfen.

Gan fod y Comisiwn wedi gwneud llawer iawn o waith yn y maes eisoes, ni fydd rhaid oedi tan 2026 cyn y gallwn gyhoeddi'r canfyddiadau ac argymhellion hynny. Bwriad y Comisiwn yw cyhoeddi adroddiad fydd yn gwneud argymhellion manwl yn y maes cynllunio gwlad a thref erbyn mis Rhagfyr 2024.

**Argymhelliad 35: Dylai Llywodraeth Cymru wneud newidiadau i bolisïau a chanllawiau ym maes cynllunio gwlad a tref er mwyn cryfhau'r berthynas ag amcanion cynaliadwy yng nghyswllt y Gymraeg ac yn benodol wrth ystyried cynaliadwyedd ieithyddol cymunedol. Dylai rhai o'r newidiadau esgor ar**

**bolisïau ac ymagweddau newydd fydd yn weithredol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, ac eraill ar bolisïau ac ymagweddau fydd yn weithredol trwy Gymru gyfan.**

**Mae'r Comisiwn yn argymell y dylid gwneud newidiadau yn y meysydd canlynol:**

- **Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau fod *Polisi Cynllunio Cymru* yn rhoi gwell arweiniad yng nghyswllt egwyddorion datblygu cynaliadwy mewn perthynas â'r Gymraeg, ac yn benodol cynaliadwyedd hirdymor ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.**
- **Dylai Llywodraeth Cymru adolygu *TAN 20* er mwyn cryfhau'r arweiniad a'r cyngor a roddir i awdurdodau cynllunio wrth iddynt baratoi cynlluniau datblygu ac wrth wneud penderfyniadau am ganiatâd cynllunio.**
- **Dylai Llywodraeth Cymru adolygu *Llawlyfr Cynlluniau Datblygu* fel bo modd rhoi gwell arweiniad yng nghyswllt cynaliadwyedd y Gymraeg, ac yn benodol cynaliadwyedd hirdymor ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch wrth i awdurdodau cynllunio lunio Arfarniadau Cynaliadwyedd Integredig.**
- **Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio gyda'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol, cynllunwyr iaith a phrifysgolion i adolygu'r ddarpariaeth addysg uwch er mwyn sicrhau bod ymarferwyr, graddedigion a myfyrwyr yn meddu ar setiau sgiliau priodol yn y maes cynllunio ieithyddol mewn perthynas â chynllunio gwlad a thref.**

**Bydd y Comisiwn yn gwneud argymhellion llawn mewn adroddiad pwrpasol erbyn mis Rhagfyr 2024.**

# 9. Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

## 9.1 Cymunedau Cymraeg cynhwysol

Dylai cymunedau Cymraeg fod yn lleoedd lle mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb. Oherwydd hyn, ystyriodd y Comisiwn faterion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

## 9.2 Y Gymraeg a nodweddion gwarchodedig

Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o bolisïau yn y maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant sy'n weithredol trwy Gymru gyfan. Maent yn berthnasol i siaradwyr Cymraeg (gan gynnwys siaradwyr Cymraeg â nodweddion gwarchodedig) mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Mae a wnelo polisi cydraddoldeb yn y Deyrnas Unedig â nodweddion gwarchodedig yn bennaf. Nid yw iaith ei hun yn nodwedd warchodedig yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010. Ac eto, i lawer o siaradwyr Cymraeg, mae'n gweithredu fel pe bai'n nodwedd warchodedig. Ymhellach, mae siaradwyr ieithoedd lleiafrifedig wedi wynebu anfantais strwythurol yn y gorffennol, ac mewn rhai ardaloedd o Gymru, fel y trafodir yn yr adran am Gyfrifiad 2021, gellid dadlau fod siaradwyr Cymraeg fel grŵp yn wynebu anfantais gymharol mewn rhai meysydd sosioeconomaidd o hyd.

Gan nad yw iaith yn nodwedd warchodedig, mae perygl i grwpiau iaith gael eu heithrio o drafodaethau am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Ond gan mai grŵp lleiafrifedig yw'r grŵp sy'n siarad Cymraeg, mae sicrhau ffyniant y Gymraeg a'i siaradwyr yn gydnaws â phwyslais ehangach polisi cyhoeddus ar sicrhau ecwiti i unigolion o gefndiroedd lleiafrifol yn gyffredinol.

Ymhellach, nid grŵp unwedd yw'r grŵp Cymraeg. Mae amrywiaeth mewnol yn perthyn iddo, ac mae nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg yn perthyn i grwpiau lleiafrifol eraill yn ogystal, gan gynnwys grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

Mae angen mwy o ymchwil er mwyn deall natur y croestoriadaeth rhwng (ac oddi mewn i) grwpiau lleiafrifol mewn cymunedau Cymraeg. Tybir weithiau fod gan ardaloedd gwledig a lled-wledig batrymau gwahanol o ran nodweddion gwarchodedig i'r rhai sy'n gallu bod yn gyffredin mewn canolfannau metropolitan, a bod profiadau byw aelodau o grwpiau lleiafrifol yn wahanol o ganlyniad. Nid oes digon o ymchwil ar gael er mwyn gwirio i ba raddau mae'r rhagdybiaeth hon yn wir yng Nghymru, ac i ba raddau (os o gwbl) mae ystyriaethau yn ymwneud â'r Gymraeg yn berthnasol yn y cyd-destun hwn. Mae'n bosibl fod cyd-destun gwledig, ac anfantais sosioeconomaidd yr ardaloedd hyn yn gyffredinol, yn fwy arwyddocaol nac iaith.

Gan nad yw craffu ar bolisïau cydraddoldeb Llywodraeth Cymru trwy Gymru gyfan yn rhan o gylch gorchwyl y Comisiwn, nid oes bwriad yma i ymwneud â'r naw nodwedd warchodedig a ddiffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 o safbwynt eu perthynas â'r Gymraeg. Yn hytrach, byddwn yn canolbwyntio ar ddau faes yn benodol lle mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi strategaethau yn ddiweddar, sef *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol* (Llywodraeth Cymru, 2022ch) a *Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru* (Llywodraeth Cymru, 2023ff). Nid nod y Comisiwn wrth

wneud hyn yw gwneud argymhellion polisi manwl, ond ceisio deall yn hytrach lle y gallai fod angen gwneud gwaith polisi pellach yng nghyd-destun ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, a sut byddai modd hwyluso hynny. Mae cydraddoldeb yr un mor bwysig mewn cymunedau Cymraeg ag mewn rhannau eraill o Gymru.

## 9.3 Hil, ethnigrwydd a'r Gymraeg

Mae'r ffordd y diffinnir hil ac ethnigrwydd yn newid dros amser, ond sut bynnag y diffinnir categorïau cymdeithasol o'r fath, mae lleiafrifoedd o ran hil neu ethnigrwydd wedi bodoli oddi mewn i'r gymuned Gymraeg erioed (Brooks, 2021). Heddiw mae lleiafrifoedd ethnig yn rhan gynyddol o'r gymuned Gymraeg. Serch hynny, fel mewn gwledydd eraill yn y gorllewin, nodweddir Cymru o hyd gan wahanol batrymau o hiliaeth, rhagfarnau ethnig, ac anfantais gymdeithasol sydd yn aml yn strwythurol.

Gall ystyriaethau am hil ac ethnigrwydd gydblethu ag ystyriaethau ieithyddol ym mhrofiadau byw unigolion, ac yn y cyd-destun hwn mae'n werth cofio y gall ieithoedd mwyafrifol a lleiafrifedig, a'r grwpiau sy'n eu siarad, feddu ar wahanol raddfeydd o rym cymdeithasol. Mae'n bosibl y gall materion yn ymwneud â chydraddoldeb a chynhwysiant fod yn wahanol mewn rhai ffyrdd mewn cymunedau ieithyddol mwyafrifol a lleiafrifedig a bod angen felly i gamau polisi fod yn wahanol mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae gwaith yn digwydd er mwyn deall rhai o oblygiadau hyn yn well (gweler Bermingham a Higham, 2018; Guma a Jones, 2021; Jones, 2015; Neal et al., 2021; Woods, 2022), ond mae angen gwneud mwy o waith.

## 9.4 Cyfrifiad 2021: hil a'r Gymraeg

Mae sawl ffordd o ddiffinio categorïau cymdeithasol ym maes hil ac ethnigrwydd. At ddiben y dadansoddiad hwn o niferoedd siaradwyr Cymraeg o gefndir ethnig leiafrifol, defnyddir ffigurau a chategorïau a ddefnyddid gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol mewn cyfrifiadau rhwng 2001 a 2021 yng Nghymru.

Yn 2001, roedd 5,536 o unigolion yng Nghymru yn dweud eu bod yn perthyn i grwpiau heblaw y grŵp gwyn ac yn medru siarad Cymraeg. Erbyn 2011, roedd y nifer wedi codi i 10,969, ac erbyn 2021 i 16,036. Rhwng 2001 a 2011, ac yna rhwng 2011 a 2021, bu twf sylweddol iawn yn niferoedd siaradwyr Cymraeg sy'n perthyn i grwpiau heblaw y grŵp gwyn.

**Tabl 9.1: Hil a'r Gymraeg**

| | Niferoedd siaradwyr Cymraeg | | | Newid mewn niferoedd | Newid canran mewn niferoedd |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2001 | 2011 | 2021 | 2001 i 2021 | 2001 i 2021 |
| Gwyn | 576,832 | 551,047 | 522,259 | -54,573 | -9% |
| Cymysg | 2,910 | 5,027 | 7,405 | +4,495 | +154% |
| Asiaidd | 1,648 | 4,174 | 5,536 | +3,888 | +236% |
| Du | 443 | 978 | 1,597 | +1,154 | +260% |
| Arall | 535 | 790 | 1,498 | +963 | +180% |

Yn ogystal â niferoedd absoliwt, mae'n ddefnyddiol ystyried canrannau hefyd. Yng Nghyfrifiad 2021, roedd 18% o'r grŵp gwyn yng Nghymru yn dweud eu bod yn medru siarad Cymraeg, 16% o'r grŵp cymysg, 6% (6.4%) o'r grŵp Asiaidd, 6% (6.1%) o'r grŵp Du, a 6% (5.9%) o'r grŵp 'Arall' (Trystan a Begum: 2023). Nid yw'r gwahaniaeth rhwng y grŵp gwyn a'r grŵp cymysg yn sylweddol iawn felly. Ond mae'r gwahaniaeth rhwng y grŵp gwyn a'r grŵp cymysg ar y naill law, a'r grwpiau Asiaidd, Du ac Arall ar y llaw arall, gryn dipyn yn fwy.

Mae modd dadansoddi'r ystadegau hyn fesul awdurdod lleol. Yn y siroedd lle ceir canrannau uwch o siaradwyr Cymraeg, ceir gwahaniaeth sylweddol rhwng y ganran o'r boblogaeth wyn sy'n medru siarad Cymraeg a'r canrannau o'r boblogaeth Ddu a'r boblogaeth Asiaidd sy'n medru siarad Cymraeg. Yng Ngwynedd, er enghraifft, mae 66% o'r boblogaeth wyn yn medru siarad Cymraeg a dim ond 15% o'r boblogaeth Ddu a 14% o'r boblogaeth Asiaidd. Ceir gwahaniaeth hefyd rhwng grwpiau mewn ardaloedd awdurdod lleol lle mae canran y siaradwyr Cymraeg yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Ond nid yw'r bwlch yma mor fawr. Ym Mro Morgannwg, er enghraifft, mae 12% o'r boblogaeth wyn yn medru siarad Cymraeg, 9% o'r boblogaeth Asiaidd a 4% o'r boblogaeth Ddu.

Ceir yn y siroedd sydd â chanrannau uwch o siaradwyr Cymraeg y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg mewn gwahanol grwpiau ethnig. Yn Ynys Môn, dywedodd 56% o'r grŵp gwyn, 51% o'r grŵp cymysg, 17% o'r grŵp Asiaidd a 22% o'r grŵp Du eu bod yn medru siarad Cymraeg. Yn Ynys Môn mae'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg mewn grwpiau heblaw y grŵp gwyn.

Mae angen mwy o ymchwil yn y maes hwn. Ar hyn o bryd, nid oes dadansoddiad ar lefel MSOA neu LSOA o groestoriadau rhwng hil ac iaith, sy'n ddiffyg amlwg o ran dealltwriaeth o'r maes. Yng Ngwynedd, er enghraifft, mae'n amhosibl gwybod a oes gwahaniaeth ystyrlon rhwng Bangor (lle ceir canrannau llai o ddisgyblion mewn addysg Gymraeg nag yng ngweddill y sir) a gweddill Gwynedd o ran gallu gwahanol aelodau o grwpiau ethnig leiafrifol i siarad Cymraeg. Heb ddadansoddiadau ar lefel MSOA neu LSOA, anodd hefyd yw deall arwyddocâd cyd-destunau gwledig, neu arwyddocâd dwysedd siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau penodol. Mae'n bosibl ei bod yn haws integreiddio lleiafrifoedd yn ieithyddol mewn cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg, ond mae'n anodd gwirio'r dybiaeth hon. Mae'n

debyg felly y gallai dadansoddiad llawnach o Gyfrifiad 2021 gyfrannu at drafodaethau polisi cyhoeddus, er enghraifft am y ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion.

## 9.5 *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol* a'r Gymraeg

Mae'r Comisiwn yn llwyr gytuno â gweledigaeth Llywodraeth Cymru o Gymru wrth-hiliol, ac mae'n awyddus fod cymunedau Cymraeg yn rhan greiddiol o'r weledigaeth hon. Dylai polisi cyhoeddus mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a dylai'r gwerthoedd cymdeithasol hyn fod yn werthoedd craidd i'r gymuned hefyd.

Prif ddogfen bolisi Llywodraeth Cymru yn y maes yw *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol* sy'n cynnwys adran sy'n cyfeirio at y Gymraeg (Llywodraeth Cymru, 2022ch). Mae'r camau gweithredu a nodir yn cynnwys: meithrin gwell dealltwriaeth o brofiad byw pobl o gymunedau ethnig lleiafrifol, gwella cynrychiolaeth yn y gweithlu, comisiynu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i adolygu strategaethau i hybu mynediad at y Gymraeg, cynyddu nifer lleiafrifoedd ethnig sy'n mynychu addysg Gymraeg, datblygu adnoddau gwrth-hiliol amlieithog, sicrhau terminoleg Cymraeg priodol, a sicrhau bod adnoddau addysgu cyfrwng Cymraeg yn wrth-hiliol.

Mae'r Comisiwn yn cytuno â phob un o'r camau gweithredu hyn, ond dylid nodi nad oes cyfeiriad yn y camau gweithredu at hil ac ethnigrwydd yng nghyswllt penodol cymunedau Cymraeg, neu o ran y Gymraeg fel iaith gymunedol.

## 9.6 Hunaniaethau LHDTC+ a'r Gymraeg

Bu unigolion â hunaniaethau LHDTC+ yn rhan o'r gymdeithas Gymraeg erioed. Bu eu cyfraniad yn amlweddog, ond nid yw hyn yn golygu na fu homoffobia neu nad yw'n bodoli heddiw.

Wrth i gymdeithas ddod yn fwy ymwybodol o amrywiaeth, bu cynnydd o ran y sylw i unigolion pwysig yn hanes a llenyddiaeth y Gymru Gymraeg gyda hunaniaethau LHDTC+ fel Cranogwen a Prosser Rhys. Mae hyn wedi cydfynd â thwf mewn gweithgarwch LHDTC+ Cymraeg cyfoes, er enghraifft mewn llenyddiaeth, theatr, cerddoriaeth, y cyfryngau gweledol, ac mewn gweithgareddau ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol. Wrth groesawu'r datblygiadau diweddar hyn, dylid cydnabod lawn cystal y drafodaeth gyhoeddus Gymraeg a gafwyd yn y 1990au yn sgil creu'r mudiad pwyso Cymraeg CYLCH (Cymdeithas yr Hoywon a'r Lesbiaid Cymraeg eu Hiaith). Aeth y mudiad hwn i'r afael yn uniongyrchol â homoffobia o fewn y gymdeithas Gymraeg, allfudo o fröydd Cymraeg ac o Gymru, ac â rhagfarn gwrth-Gymraeg.

Nid oes fawr o dystiolaeth ansoddol ynghylch y berthynas bosibl (neu fel arall) rhwng y Gymraeg a phrofiadau byw y sawl sydd â hunaniaethau LHDTC+. Nid oes tystiolaeth fod y Gymraeg wrth wraidd profiadau negyddol neu ddiffyg cynhwysiant y mae rhai siaradwyr Cymraeg gyda hunaniaethau LHDTC+ yn eu profi, er bod y profiadau negyddol a'r diffyg cynhwysiant yn aml wedi eu mynegi drwy'r Gymraeg. Mae'n bosibl y gall eithrio mewn cymunedau Cymraeg fod yn ganlyniad patrymau o ran amrywiaeth mewn ardaloedd gwledig yn gyffredinol ynghyd â'r heriau unigryw sy'n wynebu'r ardaloedd hyn megis diffyg isadeiledd sydd o ganlyniad yn cael effaith ar rwydweithiau cymdeithasol.

Mae’n bwysig nodi serch hynny i un astudiaeth o gyd-blethiad hunaniaethau siaradwyr Cymraeg LHDTC+ godi materion yn ymwneud â chynhwysiant a chynrychiolaeth mewn cymunedau Cymraeg (Morris a Parker, 2024). Nododd awduron yr astudiaeth mewn erthygl yn y cyfryngau mai ‘thema amlwg oedd y teimlad bod gwerthoedd traddodiadol Cymreig yn gallu bod yn rhwystr i deimladau o berthyn ymhlith pobl LHDTC+’ (BBC Cymru Fyw, 2023).

## 9.7 Cyfrifiad 2021: hunaniaethau LHDTC+ a’r Gymraeg

Cyfrifiad 2021 oedd y cyfrifiad cyntaf i holi am hunaniaeth o ran cyfeiriadedd rhywiol a rhywedd; gwnaed hynny mewn dau gwestiwn gwirfoddol ar gyfer y boblogaeth 16 oed neu hŷn. Atebodd 2.4 miliwn o bobl yng Nghymru (92.4% o’r boblogaeth) y cwestiwn am gyfeiriadedd rhywiol. Disgrifiodd 2.3 miliwn (89.4%) eu cyfeiriadedd rhywiol fel ‘Heterorywiol/Strêt’, 38,000 (1.5%) fel ‘Hoyw neu Lesbiaidd’, a 32,000 (1.2%) fel ‘Deurywiol/Bi’. Dewisodd 7,000 (0.3%) nodi ‘cyfeiriadedd rhywiol arall’. Gyda’i gilydd, roedd 77,000 (3.0%) yn uniaethu â chyfeiriadedd rhywiol LHD+.

Roedd y ganran a nododd eu bod yn ‘Hoyw neu Lesbiaidd’ ar ei huchaf yng Nghaerdydd (2.4%). Ond roedd y ganran a nododd eu bod yn ‘Ddeurywiol/Bi’ ar ei huchaf yng Ngheredigion (2.6%) a chafwyd canrannau uchel hefyd yng Nghaerdydd (2.4%), Gwynedd (1.6%) ac Abertawe (1.5%). Ceredigion a Gwynedd oedd yr unig awdurdodau lleol yng Nghymru a chanddynt fwy o bobl yn nodi eu bod yn ‘Ddeurywiol/Bi’ (2.6% a 1.6%) na ‘Hoyw neu Lesbiaidd’ (1.5% a 1.3%). Roedd y canrannau uchaf a nododd ‘gyfeiriadedd rhywiol arall’ yng Ngheredigion (0.7%) a Chaerdydd (0.5%). Yng Ngheredigion a Chaerdydd, roedd y canrannau uchaf a nododd eu bod yn ‘Panrywiol’ hefyd (0.2%). Yng Ngheredigion, roedd y ganran a nododd ‘Arywiol’ hefyd ar ei huchaf (0.2%). Roedd y ganran a nododd ‘Cwiar’ ar ei huchaf yng Ngheredigion, Caerdydd a Gwynedd (0.1% yr un).

Atebodd 2.4 miliwn (93.7% o’r boblogaeth) y cwestiwn am hunaniaeth o ran rhywedd. Datganodd 93.3% fod eu hunaniaeth o ran rhywedd yr un fath â'r rhyw a gofrestrwyd adeg eu geni, a 0.4% fod eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i’r rhyw a gofrestrwyd adeg eu geni. Cafwyd y canrannau uchaf a nododd hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i’r rhyw a gofrestrwyd adeg eu geni yng Nghaerdydd a Cheredigion (0.7%). Roedd y ganran uchaf a nododd eu bod yn uniaethu â rhywedd ‘anneuaidd’ hefyd yng Ngheredigion (0.2%).

Nid oedd dadansoddiad o’r data hyn sy’n croesgyfeirio â galluoedd Cymraeg y boblogaeth ar gael yn gyhoeddus yn ystod trafodaethau’r Comisiwn. Ond mae’n werth nodi fod Ceredigion a Gwynedd ymysg yr ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru sydd â rhai o’r canrannau uchaf o bobl gyda hunaniaethau LHDTC+ a hunaniaethau trawsryweddol. Mae hyn yn groes i’r naratif y gall fod gan siroedd lled-wledig lai o amrywiaeth o ran hunaniaethau LHDTC+ a hunaniaethau rhywedd na rhai rhannau eraill o’r wlad.

Nodweddir Ceredigion a Gwynedd gan ddwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae’n bosibl mai yn eu trefi prifysgol mae’r canrannau uchaf o hunaniaethau LHDTC+, a bod cysylltiad â myfyrwyr y prifysgolion hynny. Ond mae hefyd yn bosibl fod staff y prifysgolion hyn sydd â hunaniaethau LHDTC+ yn byw mewn dalgylchoedd ehangach, a bod presenoldeb y prifysgolion yn gwneud y dalgylchoedd

hynny yn gyrchfannau LHDTC+ cyfeillgar i boblogaethau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r prifysgolion. Byddai dadansoddiad ar lefel MSOA neu LSOA yn fuddiol er mwyn deall rhai o'r tueddiadau hyn yn well.

## 9.8 *Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru*

Mae *Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru* yn cynnwys cyfeiriadau at siaradwyr Cymraeg LHDTC+ ac at strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* y Llywodraeth (Llywodraeth Cymru, 2023ff; 2017a). Ceir un cam gweithredu sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn uniongyrchol, sef 'Sicrhau bod gwasanaethau cymorth Cymraeg ar gael i siaradwyr Cymraeg LHDTC+.' Cyfeirir hefyd at y Gymraeg yn naratif y cynllun. Yn Adran F, 'Cymunedau, bywyd preifat a bywyd teuluol', dywedir mai wrth fynd 'i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol, yn enwedig mewn rhannau gwledig o Gymru ac mewn ardaloedd lle siaredir y Gymraeg fel y brif iaith, bydd hynny'n helpu pawb sy'n LHDTC+ i gael ymdeimlad o berthyn' (Llywodraeth Cymru, 2023ff: 29).

## 9.9 Yr angen am waith pellach

Mae angen mwy o waith ymchwil ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn perthynas â'r Gymraeg, ac mae angen neilltuol am hyn yn achos cymunedau Cymraeg. Byddai'n llesol hefyd ddeall yn well y berthynas rhwng cyd-destunau gwledig yng Nghymru a nodweddion gwarchodedig.

Daeth rhai themâu o ran camau polisi posibl i'r amlwg yn ystod trafodaethau'r Comisiwn.

Roedd teimlad y byddai darparu addysg Gymraeg ar gyfer pob plentyn mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn lleihau'r risg fod aelodau o rai grwpiau yn llai tebygol na'i gilydd o ddod yn siaradwyr Cymraeg. Pwysleisiwyd hefyd bwysigrwydd canolfannau trochi o safbwynt cynhwysiant a chydraddoldeb mewn cymunedau Cymraeg.

Roedd dathlu a dyrchafu modelau rôl Cymraeg â nodweddion gwarchodedig hefyd yn thema amlwg, a nodwyd pwysigrwydd sicrhau bod nifer priodol o'r modelau rôl yn gysylltiedig â chymunedau Cymraeg neu gymunedau gwledig. Roedd teimlad hefyd y dylid gwella gwelededd cyffredinol gwasanaethau Cymraeg perthnasol, a mynediad hwylus atynt, mewn ardaloedd gwledig lle mae dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg.

Trafodwyd gwella cynrychiolaeth mewn gweithleoedd mewn cymunedau Cymraeg, ac a ddylid sicrhau fod cyrsiau Cymraeg dwys, a chyfnodau sabothol, ar gael ar gyfer aelodau o gymunedau sy'n cael eu tangynrychioli yn y gweithle.

Daeth y Comisiwn i'r casgliad mai llesol fyddai rhoi trefn ar awgrymiadau polisi er mwyn sicrhau gweithredu cydlynol yn y maes, yn enwedig o safbwynt cyd-destun penodol cymunedau Cymraeg.

Er mwyn cael sylfaen tystiolaeth gadarn ar gyfer y gwaith hwnnw, dylid yn y lle cyntaf edrych eto ar Gyfrifiad 2021 er mwyn olrhain croestoriadau rhwng y gallu i siarad Cymraeg a nodweddion gwarchodedig perthnasol. Bydd angen i hyn fod ar lefel leol,

sef ar lefel MSOA neu mewn LSOAs, yn ogystal ag ar lefel yr awdurdod lleol cyfan. Gall astudiaeth o'r fath osod sail ar gyfer gwaith pellach. Ym marn y Comisiwn, y ffordd orau o wneud y gwaith fyddai sefydlu grŵp tasg a gorffen er mwyn llunio awgrymiadau polisi pellach o ran nodweddion gwarchodedig a'r Gymraeg, ac yn benodol mewn perthynas â chymunedau Cymraeg a chymunedau gwledig.

**Argymhelliad 36: Dylai Llywodraeth Cymru wneud astudiaeth o'r croestoriadau rhwng y gallu i siarad Cymraeg a nodweddion gwarchodedig perthnasol yng Nghyfrifiad 2021. Dylai'r astudiaeth gynnwys mwy o fanylder na'r hyn sydd ar gael ar lefel yr awdurdod lleol yn unig, ac os oes modd gwneud hynny, dylai gynnwys dadansoddiad ar lefel MSOA, neu drwy gyfuno LSOAs.**

**Argymhelliad 37: Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu grŵp tasg a gorffen er mwyn edrych ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn perthynas â'r Gymraeg. Dylai'r grŵp roi ystyriaeth lawn i'r materion hyn yng nghyd-destun y Gymraeg fel iaith gymunedol ac mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Dylid hefyd roi sylw priodol i gyd-destunau gwledig.**

# 10. Addysg Gymraeg

## 10.1 Cefndir a chyd-destun

Hyd at draean olaf yr ugeinfed ganrif, nodweddid llawer o gymunedau Cymraeg gan ddwysedd uchel iawn o siaradwyr Cymraeg a olygai fod trosglwyddo ieithyddol o genhedlaeth i genhedlaeth yn digwydd yn weddol ddidrafferth. O ganlyniad, nid oedd yr angen am addysg cyfrwng Cymraeg mor amlwg ag ydoedd mewn rhannau mwy Saesneg o Gymru lle eid ati i sefydlu rhwydwaith o ysgolion penodedig Cymraeg. Yn wir, gan mai angen plant yn yr ardaloedd Cymraeg oedd meistroli Saesneg, addysg cyfrwng Saesneg oedd yn ymgynnig fel dull o wneud hynny. Mae patrwm ieithyddol cymysg darpariaeth addysg mewn cymunedau Cymraeg heddiw, yn enwedig addysg uwchradd, yn waddol hanesyddol y sefyllfa hon.

Erbyn heddiw, mae cyfansoddiad ieithyddol cymunedau Cymraeg wedi newid yn llwyr. Dim ond mewn ychydig o gymunedau y byddai modd i blant o aelwydydd ble na siaredir y Gymraeg godi'r Gymraeg heb gefnogaeth y gyfundrefn addysg. Yn ogystal ceir plant mewn cymunedau Cymraeg sydd o aelwydydd Cymraeg nad ydynt yn dod yn rhugl ynddi. Hyd yn oed yn y cymunedau sydd â'r dwysedd uchaf o siaradwyr Cymraeg, mae Saesneg yn ymdreiddio i fywyd pob plentyn, er enghraifft trwy'r cyfryngau ar-lein. Mewn sawl cymuned, mae'r newidiadau cymdeithasol hyn yn peri nad yw modelau ieithyddol hanesyddol y ddarpariaeth addysg yn addas mwyach.

O ganlyniad i hyn, mae'r Comisiwn yn unfarn nad yw'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn llawer o ardaloedd Cymraeg yn ddigon dwys i gynnal y Gymraeg fel iaith gymunedol at y dyfodol. Mae hyn yn arbennig o wir am y sector uwchradd. Mae angen camau breision ymlaen yn y maes.

Maes yw addysg sydd â'r gallu nid yn unig i warchod a hyrwyddo rhwydweithiau Cymraeg presennol ond hefyd i greu siaradwyr Cymraeg newydd, gwaith sy'n hanfodol bwysig er mwyn cynnal a chyfnerthu cymunedau Cymraeg. Nid oes yr un maes polisi arall yn cael cymaint o ddylanwad ar alluoedd ac arferion ieithyddol.

## 10.2 Y Bil Addysg Gymraeg a gwaith y Comisiwn

Cafodd yr adroddiad hwn ei lunio yn ystod y cyfnod rhwng cyhoeddi'r Papur Gwyn Addysg Gymraeg a chyhoeddi'r Bil ei hun (Llywodraeth Cymru, 2023e). Ni wyddai'r Comisiwn beth fyddai cynnwys y Bil, ac ni allai wneud awgrymiadau polisi ar ei sail. Ni wyddai ychwaith i ba raddau yr ymgorfforid cynigion y Papur Gwyn yn y Bil. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd rhaid dehongli rhai rhannau o'r adran hon yng nghyd-destun y tirwedd ddeddfwriaethol a pholisïol newydd a gynigir gan y Bil Addysg Gymraeg.

## 10.3 Yr ysgol fel cymuned ieithyddol gynhwysol

Mae'r Comisiwn yn cydnabod y rhyngberthynas rhwng y Gymraeg fel iaith yr ysgol a'r Gymraeg fel iaith yn y gymuned. Mae cymunedau lle mae iaith yr ysgol ac iaith y gymuned yn atgyfnerthu ei gilydd yn creu hinsawdd gadarnhaol ar gyfer ffyniant y

Gymraeg a throsglwyddo ieithyddol rhwng y cenedlaethau. Dylid dwyn hyn i ystyriaeth wrth benderfynu sut i drefnu addysg.

Mae'n werth nodi fod tystiolaeth hefyd y gall darparu addysg Gymraeg ar gyfer pob disgybl hybu ymdeimlad o berthyn i'r gymuned leol, sydd yn ei dro yn ei gwneud yn fwy tebygol fod pobl ifanc yn penderfynu aros yn y broydd hyn (Cunnington Wynn, 2014). Yng nghyd-destun diboblogi, mae hyn yn ystyriaeth bwysig hefyd.

Mae ysgolion yn rhan greiddiol o rwydwaith cymdeithasol eu hardaloedd. Dylid ystyried eu cyfraniad i'w broydd fel math o nwydd cyhoeddus. Mae angen cadw hyn mewn cof wrth ddatblygu polisi yn eu cylch. Er enghraifft, mewn rhai achosion byddai'n well ffederaleiddio ysgolion, a rhannu adnoddau rhyngddynt (er enghraifft, wrth ddefnyddio technoleg), yn hytrach na'u cau.

## 10.4 Lles y plentyn—cynhwysiant cymdeithasol

Yn bennaf, fodd bynnag, mae'r Comisiwn am dynnu sylw at les y plentyn. Cytunodd â Gweinidog y Gymraeg ac Addysg y pryd hwnnw pan ddywedodd yn 2023 yn ei ragair i'r Papur Gwyn Addysg Gymraeg fod 'pob disgybl yng Nghymru felly yn haeddu dod yn siaradwr Cymraeg' (Llywodraeth Cymru, 2023e: 4). Yn y cyd-destun hwn, mae'r Comisiwn yn nodi amgylchiadau penodol cymunedau Cymraeg, a'r angen neilltuol i sicrhau fod pob plentyn sy'n byw ynddynt yn caffael y Gymraeg yn hyderus a'u bod yn llythrennog ynddi.

Mewn ardaloedd sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg, y Gymraeg yw iaith nifer helaeth o weithgareddau'r gymuned, ac hi yn aml yw iaith bywyd sifig yn lleol.

Mae'n hanfodol o safbwynt cydraddoldeb fod pob plentyn sy'n byw yn y cymunedau hyn yn dod yn hyderus yn y Gymraeg. Mater ydyw o gynhwysiant cymunedol, ac o degwch ieithyddol ac o sicrhau fod pob plentyn yn teimlo eu bod yn perthyn.

Mae'n bryder felly i'r Comisiwn fod rhai plant mewn rhai ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn caffael yr iaith gan ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus, ond nid yw eraill yn cael cyfle cystal i wneud hynny. Mae'r Comisiwn yn ymwybodol yn benodol o'r angen i sicrhau nad yw rhai grwpiau cymdeithasol yn wynebu anfantais strwythurol o ran cael mynediad at addysg Gymraeg: dylai plant sy'n dod o wahanol gefndiroedd o ran cenedligrwydd a/neu ethnigrwydd, neu o wahanol gefndiroedd o ran dosbarth cymdeithasol, gael cyfle cyfartal i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus.

Mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, mae'r Comisiwn yn rhagweld y bydd gan y Gymraeg ran weithredol yn y farchnad lafur leol. Mae amddifadu plant o'r gallu i fod yn rhugl yn y Gymraeg yn niweidiol o safbwynt cyfleoedd cyfartal, ac o ran hybu symudoledd cymdeithasol yn lleol. Dylai pob plentyn gaffael cyweiriau ieithyddol sy'n fanteisiol iddynt er mwyn cael swyddi yn y rhannau hynny o'r economi lle mae gwerth ar fedru'r Gymraeg.

Yn y cyd-destun hwn, mae llythrennedd yn y Gymraeg yn bwysig. Dylai'r sgil allweddol hwn fod ym meddiant pob disgybl. Mae llythrennedd yn hanfodol er mwyn i ddisgyblion feddu ar ystod lawn o sgiliau yn yr iaith leiafrifol. Dylai gwella llythrennedd disgyblion a myfyrwyr fod yn ystyriaeth bwysig ar bob cam o'u taith addysg, ac yng nghyd-destun addysg ôl-14 ac ôl-16 yn ogystal.

Sicrhau fod addysg Gymraeg gynhwysol ar gael i bawb yw'r ffordd orau o wella sgiliau iaith plant yn yr hirdymor. Mae'r Comisiwn yn derbyn nad oes modd cyflawni hyn yn syth, ac mai'r flaenoriaeth ar hyn o bryd yw symud ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol. Serch hynny, dylai fod consensws mai addysg Gymraeg gynhwysol yw pen y daith.

## 10.5 Dod yn hyderus ac yn llythrennog yn y Gymraeg

O dafoli popeth yn ofalus, daeth y Comisiwn i gasgliad pendant. Dylai pob plentyn mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch orffen eu haddysg yn hyderus o ran eu defnydd o'r Gymraeg ac yn llythrennog ynddi.

**Argymhelliad 38: Dylai pob plentyn mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch adael addysg statudol yn hyderus ac yn llythrennog yn Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig, a dylai hynny gael ei adlewyrchu mewn polisi cyhoeddus.**

**Argymhelliad 39: Dylid gosod nod y dylai pob ysgol o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch ymhen y rhawg gynnig addysg Gymraeg gynhwysol sy'n galluogi pob disgybl o bob cefndir i gaffael y Gymraeg yn hyderus ac yn llythrennog.**

## 10.6 Gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar

Mae taith addysgol plentyn yn cychwyn yn ystod y blynyddoedd cynnar gyda darpariaeth gofal plant a chwarae cyn dechrau cyfnod addysg statudol. Mae hwn yn gyfnod allweddol o safbwynt caffael iaith. Mae hefyd yn cynnig cyfle i drochi plant o aelwydydd ble na siaredir y Gymraeg. Nodweddir y dull trochi gan yr egwyddor fod plentyn yn clywed ac yn dechrau defnyddio'r iaith leiafrifol mor gynnar ag sy'n bosib.

O ystyried pwysigrwydd y grŵp oedran hwn, nid yw'n amlwg pam fod—mewn rhai achosion—bolisïau iaith gweithredol sy'n wahanol i blant dwy oed (er enghraifft) ac i blant mewn addysg statudol nad ydynt ond ychydig flynyddoedd yn hŷn. Mae addysg gynradd mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn aml yn arddel polisi cyfrwng Cymraeg cadarn. Nid yw'r un disgwyliad yn ei le bob tro ar gyfer y sector meithrin nas cynhelir er ei bod yn darparu gan amlaf ar gyfer yr un plant. Er nad oes modd i awdurdodau lleol osod polisi iaith ar gyfer y sector nas cynhelir, mae'n anodd cyfiawnhau anghysondeb o'r fath. Mae'r mwyafrif o leoliadau meithrin nas cynhelir (er enghraifft, meithrinfeydd dydd, grwpiau chwarae, cylchoedd meithrin) yn derbyn grantiau (ac felly arian cyhoeddus) sydd yn talu am wasanaethau gofal plant fel Dechrau'n Deg, y Cynnig Gofal Plant ac addysg ar gyfer plant tair oed.

Byddai cyplysu polisi iaith yn y sector gofal plant, blynyddoedd cynnar a chwarae â pholisi iaith mewn addysg gynradd statudol yn gwneud synnwyr mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Byddai hyn yn sicrhau caffael iaith mwy llwyddiannus, gwell cynhwysiant cymdeithasol, defnydd amlach o'r Gymraeg a byddai hefyd o fudd i lesiant y plentyn. Byddai hefyd yn creu cysondeb mewn polisi cyhoeddus.

**Argymhelliad 40: Dylai awdurdodau lleol gymell a chefnogi pob lleoliad meithrin nas cynhelir a grwpiau chwarae oddi mewn i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch i ddilyn polisi lle mae darpariaeth Gymraeg sydd ar gael o safbwynt cynlluniau fel addysg gynnar, Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant. Dylid buddsoddi yn y gweithlu er mwyn cyrraedd y nod.**

## Addysg Statudol

### 10.7 Cynigion y Papur Gwyn Addysg Gymraeg o ran ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch

Cyhoeddwyd y Papur Gwyn Addysg Gymraeg ym mis Mawrth 2023 (Llywodraeth Cymru, 2023e), ac fe'i croesawyd gan y Comisiwn. Croesawodd y Comisiwn yn arbennig safbwynt canolog y Papur Gwyn, sef bod angen symud cyfrwng dysgu ysgolion yng Nghymru ar hyd continwwm ieithyddol a fydd yn golygu mwy o ddisgyblion yn cael mwy o gyswllt â'r Gymraeg gyda'r nod o gyflawni nodau polisi cyhoeddus o ran caffael iaith.

Croesawodd y Comisiwn hefyd yr ymrwymiadau i lesiant ieithyddol cymunedau Cymraeg. Cytunodd â Gweinidog y Gymraeg ac Addysg y pryd hwnnw yn ei ragair i'r Papur Gwyn fod angen i bolisi addysg gynorthwyo yn y gwaith o 'warchod cymunedau Cymraeg sydd â chanrannau uchel o siaradwyr Cymraeg ond sy'n dangos gostyngiad' (Llywodraeth Cymru, 2023e: 4).

Croesawodd y Comisiwn fod targedau o ran y Gymraeg a osodir ar awdurdodau lleol yn medru cael eu hamrywio mewn ardaloedd penodol, ac y gellid o ganlyniad osod disgwyliadau uwch o ran y ddarpariaeth Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Yn benodol, croesawodd y Comisiwn gymalau 59 ac 89 y Papur Gwyn:

> Fel rhan o ystyriaethau'r awdurdod [lleol] wrth bennu ym mha ddalgylchoedd y mae am weld cynnydd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg, cynigiwn y bydd yn rhaid i'r awdurdod ystyried demograffeg y Gymraeg yn y dalgylchoedd hynny. Yn ymarferol, bydd tystiolaeth gan y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, sydd â'r dasg o wneud argymhellion ynghylch ardaloedd o sensitifrwydd y Gymraeg, yn rhan o ystyriaeth Gweinidogion wrth osod targedau ar awdurdodau lleol (Llywodraeth Cymru, 2023e: 20, 32).
>
> Mewn rhai awdurdodau lleol, lle mae'r dwysedd siaradwyr Cymraeg yn uchel yn gyffredinol a'r Gymraeg yn rhan annatod o wead cymdeithasol yr ardal, yr her yw gwarchod yr ardaloedd rhag shifft iaith a sefydlogi dwysedd y siaradwyr fel eu bod yn parhau yn gymunedau o siaradwyr Cymraeg. Bydd y dystiolaeth gan y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ynghylch ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol yn rhoi sail i osod disgwyliadau uwch mewn ardaloedd o'r fath (Llywodraeth Cymru, 2023e: 32).

### 10.8 Categoreiddio ysgolion yn ôl cyfrwng iaith

Gosodir ysgolion yng Nghymru mewn categorïau ieithyddol yn ôl eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Ar hyn o bryd ceir canllawiau anstatudol, ond mae'r Papur Gwyn yn cynnig rhoi i Weinidogion Cymru bwerau i bennu disgrifiadau statudol ar gyfer categoreiddio ysgolion.

Yng nghanllawiau anstatudol Llywodraeth Cymru, ceir tri chategori o ran cyfrwng iaith ysgolion. Mae ysgol Categori 1 yn cael ei chydnabod fel 'Ysgol Cyfrwng Saesneg'. Mae ysgol Categori 2 yn 'Ysgol Dwy iaith' tra bod ysgol Categori 3 yn

‘Ysgol Cyfrwng Cymraeg’. Yn y canllawiau anstatudol, gellid dynodi hefyd ysgol uwchradd yn ysgol Categori 3P, sef ‘Ysgol Cyfrwng Cymraeg Penodedig’.

Nid oedd y Comisiwn yn gwybod beth fyddai cynnwys y Bil Addysg Gymraeg wrth baratoi’r adroddiad hwn. Ond mae diffiniad presennol y canllawiau anstatudol ar gyfer ysgolion uwchradd Cymraeg Categori 3 yn nodi bod o leiaf 60% o’r plant i wneud o leiaf 70% o’u ‘gweithgareddau ysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg’. Mae’r diffiniad o ysgol uwchradd Categori 3P yn nodi bod yr holl blant i wneud 90% o leiaf o’u ‘gweithgareddau ysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg’ (Llywodraeth Cymru, 2021d: 17).

O ran ysgolion cynradd, nid oes ysgolion ‘Cymraeg Penodedig’ ac mae’r diffiniad o Ysgol Cyfrwng Cymraeg yn nodi ‘o 7 oed ymlaen bydd o leiaf 80% o weithgareddau ysgol y dysgwr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg’ (Llywodraeth Cymru, 2021d: 15).

Mae’r sefyllfa bresennol o ran ysgolion uwchradd mewn cymunedau Cymraeg yn peri mwy o bryder na’r sefyllfa o ran ysgolion cynradd.

Nid yw’r ddarpariaeth addysgol bresennol o safbwynt iaith yn y sector uwchradd yn ddigon cryf ar hyn o bryd i atal enciliad y Gymraeg, heb sôn am wrthdroi’r broses honno. Nid oes digon o ysgolion uwchradd yn y broydd hyn yn ysgolion Categori 3 neu 3P a cheir amheuaeth a yw rhai ysgolion Categori 3 â pholisi iaith digon cryf. Mae hefyd leihad o ran defnydd o’r Gymraeg ymysg plant hŷn a phobl ifanc yn y sector uwchradd wrth iddynt fynd yn hŷn, gan fod y niferoedd sy’n parhau i astudio TGAU a Lefel A drwy gyfrwng y Gymraeg yn gyffredinol yn gostwng mewn cymhariaeth â chyfrwng iaith addysg yr un disgyblion yn gynt yn eu gyrfa addysgol.

Os yw’r Gymraeg i ffynnu yn yr ardaloedd hyn, y rhagdybiaeth fyddai fod polisi cyhoeddus yn cael ei lunio fel ag i gynyddu defnydd o’r Gymraeg yn iaith gymunedol fyw. Dylid anelu felly at sicrhau fod ysgolion mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn dod yn gymunedau Cymraeg hyderus eu hunain.

Mae’r Comisiwn yn cydnabod i addysg uwchradd Gymraeg gael ei darparu yn hanesyddol drwy fodelau gwahanol mewn gwahanol rannau o Gymru, ac ni fu cysondeb rhwng y mathau o ddarpariaeth a ddatblygid yn yr hen Wynedd a Dyfed yn benodol. Mewn llawer o’r hen Wynedd, yr arfer mwyaf cyffredin fu gwneud y Gymraeg yn brif gyfrwng addysg, gweinyddu a chymdeithasu ysgolion, gyda rhai eithriadau (yn enwedig yn y trefi mwyaf). Yn yr hen Ddyfed, datblygwyd dau fodel, sef (a) sefydlu ysgolion uwchradd Cymraeg a Saesneg yn gyfochrog oddi mewn i’r un ardal, a (b) cynyddu defnydd o Gymraeg yn gyfrwng dysgu, gweinyddu a chymdeithasu o fewn ysgolion dwyieithog a oedd yn aml yn ffrydio yn ôl iaith.

Mae’r ffaith hanesyddol fod gwahanol fodelau wedi bod o ran y ddarpariaeth addysg Gymraeg yn golygu y bydd ysgolion uwchradd mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn cychwyn ar eu taith ieithyddol mewn llefydd gwahanol iawn. Bydd rhaid felly i argymhellion o ran symud ysgolion ar hyd continwwm ieithyddol feddu ar elfen o hyblygrwydd.

Un ffordd o ddarparu elfen o hyblygrwydd fyddai caniatáu i Weinidogion Cymru eithrio ychydig o ysgolion uwchradd mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch rhag gorfod bod yn ysgolion Categori 3. Gallent felly weithredu

polisïau Categori 2 am y tro. Gan fod rhai o'r ysgolion hyn yn ysgolion Categori 1 ar hyn o bryd, mewn rhai achosion byddai dod yn ysgolion Categori 2 yn gam ymlaen. Nid ydym yn rhagdybio y byddai ond lleiafswm o ysgolion yn cael eu heithrio o'r angen i fod yn ysgolion Categori 3, mewn trefi o bwysigrwydd rhanbarthol bron yn ddieithriad. Dylid adolygu unrhyw benderfyniad i eithrio yn rheolaidd.

Canlyniad eithrio rhai ysgolion fyddai caniatáu sefyllfa lle na fyddai lleiafrif o ddisgyblion yn derbyn addysg Gymraeg yn llawn. Nid dyma'r ateb hirdymor gorau, ond gellid o ganlyniad osgoi anghydfod mewn trefi o bwysigrwydd rhanbarthol lle ceir ysgolion Saesneg uwchradd ar hyn o bryd.

Ni ddylai eithrio olygu na fyddai Llywodraeth Cymru am sicrhau y 'dylai pob ysgol o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch ymhen y rhawg gynnig addysg Gymraeg gynhwysol sy'n galluogi pob disgybl o bob cefndir i gaffael y Gymraeg yn hyderus ac yn llythrennog' (gweler uchod, argymhelliad 39).

Mae angen symud ysgolion uwchradd mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch ar hyd continwwm ieithyddol, a phen y daith ddylai fod addysg Gymraeg gynhwysol.

**Argymhelliad 41: Dylai fod bwriad fod ysgolion cynradd mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg, ac yn y sector uwchradd dylent fod yn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg (categori 3) neu Ysgolion Cyfrwng Cymraeg Penodedig (categori 3P), ac eithrio yn achos ysgolion a enwir gan awdurdodau lleol am resymau eithriadol. Os nad yw ysgolion ar hyn o bryd yn y categorïau hyn, dylent fod o fewn cyfnod rhesymol.**

## 10.9 Darpariaeth Gymraeg ysgolion Categori 3

Mae'r Comisiwn yn sylweddoli mai isafswm a nodir yn y canllaw presennol ar gyfer y ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion Categori 3 a bod modd i ysgolion gynnig mwy o ddarpariaeth na hynny. Fodd bynnag, nid yw'r isafswm presennol ynddo'i hun yn ddigon uchelgeisiol i rai ysgolion mewn rhai ardaloedd. Yng Ngwynedd, er enghraifft, ceir mewn nifer o ysgolion uwchradd Categori 3 ddarpariaeth Gymraeg sy'n sylweddol uwch na'r canrannau a nodir fel gwaelodlin. Nodwn ar yr un pryd bod y canllawiau ar gyfer ysgolion Categori 3 a 3P yn golygu y gall fod gwahaniaeth hanfodol rhwng y ddau fath o ysgol.

Mae'r Comisiwn yn pryderu y gallai fod gwendidau i fodel ysgolion Categori 3 sydd â gwaelodlin lle nad yw ond 60% o'r plant yn gwneud 70% o'u haddysg trwy'r Gymraeg:

- Mae'n ddamcaniaethol bosibl i 40% o'r disgyblion osgoi unrhyw addysg Gymraeg o gwbl, er nad felly y mae hi gan amlaf.
- Mae trefnu a darparu ar gyfer y math hyn o ofynion ieithyddol amrywiol yn gymhleth ac felly'n heriol i'r weinyddiaeth ac i'r athrawon a fydd yn fynych yn gorfod defnyddio'r ddwy iaith o fewn yr un dosbarth ac yn yr un gwersi.
- Go brin bod darparu ar gyfer gofynion ieithyddol dwy garfan o ddisgyblion yn y modd hwn yn gwneud defnydd darbodus o amser ac adnoddau dynol nac yn

ymarfer pedagogaidd da. Bydd tuedd barhaus mewn amgylchiadau felly i'r Saesneg fynd â hi.

- O fewn y model hwn hefyd bydd disgyblion a ddewisodd addysg Saesneg, neu rannol Saesneg, yn dueddol o hunan-ddiffinio fel grŵp ieithyddol Saesneg. Mae'n debygol iawn mai Saesneg fydd iaith ymwneud y grŵp Saesneg â'r grŵp Cymraeg, a bydd hynny yn ei dro yn dylanwadu ar arferion ieithyddol y siaradwyr Cymraeg.
- Dichon y bydd tuedd i ddisgyblion o gefndir Saesneg ddewis darpariaeth Saesneg a thrwy hynny beri i'r grŵp Cymraeg fod yn llai cynhwysol.
- Rhwng un peth a'r llall anodd fydd i'r ysgol fod yn gymuned Gymraeg gynhwysol, cam hanfodol yn y prosiect ehangach o greu cymuned diriogaethol Gymraeg gynhwysol.

O ystyried hyn oll, casgliad y Comisiwn yw mai ysgolion Cymraeg ar ffurf y Categori 3P presennol, neu ysgolion Categori 3 sy'n nes at y trothwy ar gyfer Categori 3P, yw'r model gorau er darparu at ofynion addysgol disgyblion, dinasyddion y dyfodol, ac er gwarchod a chyfnerthu'r Gymraeg yn iaith gymunedol gynhwysol, ac yn offeryn i wrthdroi shifft iaith.

Byddai'n well felly pe bai ysgolion Categori 3 o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn nes at y trothwy ar gyfer darpariaeth Categori 3P na gwaelodlin Categori 3.

Mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, dylai ysgolion Categori 3 anelu at gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg. Nid oes dim yn rhwystro awdurdod lleol rhag bod yn uchelgeisiol o ran y ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer ei hysgolion, neu i ysgol bennu darpariaeth Gymraeg uchelgeisiol ar ei chyfer ei hun. Byddai cyflawni hyn yn cynyddu hyder plant yn y Gymraeg, yn gwella eu llythrennedd ynddi, ac yn debyg hefyd o gynyddu eu defnydd cymdeithasol o'r iaith.

**Argymhelliad 42: Oddi mewn i ffiniau ieithyddol eu categori, dylai awdurdodau lleol, ar y cyd ag ysgolion, bennu'r ganran o ddarpariaeth Gymraeg y disgwylir i ddisgyblion ei derbyn mewn ysgolion penodol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Dylai'r ganran hon fod yn ddigon uchelgeisiol i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg.**

## 10.10 Diffygion o ran data ynghylch y ddarpariaeth Gymraeg

Prin yw'r dogfennau neu adroddiadau swyddogol sy'n nodi data am nifer a chanran y plant sy'n astudio dros hanner eu haddysg trwy'r Gymraeg. Nid yw data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn mesur hyn.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) awdurdodau lleol hefyd wedi bod o dan sylw'r Comisiwn. Mae CSCA yn cynnwys data sy'n nodi canran y plant sy'n astudio canran neilltuol o'u pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

O ran y CSCAau, mae rhai awdurdodau lleol yn cyhoeddi data manylach na'i gilydd. Fodd bynnag, nid yw'r un awdurdod yn cyhoeddi data CSCA digon manwl.

Nodwn ymhellach nad yw CSCA sawl awdurdod lleol yn mesur yn erbyn gwaelodlinau sydd, yn y canllawiau anstatudol presennol, yn diffinio categorïau

ieithyddol ysgolion. Dylai awdurdodau lleol, boed trwy eu CSCA neu drwy adroddiadau swyddogol, gyhoeddi faint o blant wna ystod o ganrannau gwahanol o'u haddysg trwy'r Gymraeg, ac yn benodol 50% a 70%. Byddai cyhoeddi'r data yn golygu fod perfformiad yn y maes yn llawer mwy tryloyw, a gallai fod yn sail ar gyfer gwell polisi cyhoeddus.

**Argymhelliad 43: Dylid cyhoeddi data manwl ynghylch y ddarpariaeth Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Dylai awdurdodau lleol gyhoeddi data yn unol â gwaelodliniau categori iaith ysgolion, a mesur yn ogystal faint a pha ganran o blant wna 50% a 70% o'u haddysg trwy'r Gymraeg. Dylai awdurdodau lleol gyhoeddi data o'r fath ar gyfer pob ysgol (a dylent hefyd gyhoeddi'r data ar gyfer y sir gyfan yn eu CSCA).**

## 10.11 Dilyniant o ran addysg Gymraeg

Un o nodweddion taith addysgol sawl plentyn mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yw i gyswllt ag addysg cyfrwng Cymraeg leihau wrth i'r disgybl fynd yn hŷn.

Wrth drosglwyddo o'r sector cynradd i'r sector uwchradd, ceir cwymp yn niferoedd a chanran y plant sy'n derbyn y rhan fwyaf o'u haddysg drwy'r Gymraeg. Ceir cwymp arall mewn niferoedd a chanran mewn addysg ôl-14, ac unwaith eto mewn addysg ôl-16.

Mae i'r duedd hon nifer o nodweddion anffodus. Un yw'r duedd seicolegol i gysylltu'r Gymraeg â phrofiadau plentyndod a'r Saesneg yn fwy felly â byd oedolion a'r byd gwaith. Bu'r duedd hon yn rhan o'r ffordd y synnid am ieithoedd lleiafrifedig mewn diwylliannau mwyafrifol yn y Gorllewin, ac yn gysylltiedig â shifft iaith i'r iaith fwyafrifol.

Mae'r gwendid hwn yn cael ei enghreifftio gan y ffaith fod disgyblion yn llai tebygol o sefyll arholiadau drwy'r Gymraeg wrth fynd yn hŷn.

Mae cynyddu'r niferoedd sy'n astudio ystod o gymwysterau ôl-14 ac ôl-16 (ac yn sefyll arholiadau) drwy gyfrwng y Gymraeg yn allweddol er mwyn sicrhau gweithlu i'r dyfodol a fydd yn hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg, ac yn llythrennog. Byddai hefyd yn debyg o gynyddu nifer y myfyrwyr a fyddai'n astudio trwy'r Gymraeg mewn addysg drydyddol a galwedigaethol, ac mewn prifysgolion, wedyn. Dylid sicrhau bod ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch â thargedau pendant, ac adnoddau i'w cynorthwyo i gyrraedd y targedau hynny.

## 10.12 Swyddogaeth Estyn o ran gwella darpariaeth Gymraeg

Mae gan reoleiddwyr allanol rôl bwysig wrth arfarnu effeithiolrwydd y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, dylai Estyn arolygu'r ddarpariaeth hon mewn modd sy'n cymell disgwyliadau uwch yn ei chylch. I'r perwyl hwn, dylai Estyn wirio'r ganran o ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgol, gan dalu sylw penodol i ddilyniant a'r ganran sy'n astudio cymwysterau ôl-14 ac ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae rôl Estyn hefyd yn cynnwys arolygu awdurdodau lleol, a hynny, ar hyn o bryd, ar gylch chwe blynedd. Dylai Estyn gael rôl yn arfarnu cynnydd awdurdodau lleol tuag at wireddu nodau eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Dylai wneud hynny'n ffurfiol a rheolaidd, bob dwy flynedd dyweder.

**Argymhelliad 44: Dylai Estyn ddatblygu canllaw arolygu atodol ar gyfer arolygu darpariaeth Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, gan gynnwys fel iaith addysg ôl-14 ac ôl-16. Dylai edrych hefyd ar y ganran sy'n astudio cymwysterau ôl-14 ac ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg.**

**Argymhelliad 45: Wrth weithio gydag awdurdodau lleol, dylai Estyn graffu'n ffurfiol ar gynnydd o ran darpariaeth Gymraeg yn erbyn nodau'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg bob dwy flynedd, gan gyflwyno eu casgliadau i Gabinet yr awdurdod lleol.**

## 10.13 Ysgolion gwirfoddol a sefydledig

Dylai ysgolion gwirfoddol a sefydledig fod yn ddarostyngedig i bolisïau cenedlaethol o ran darpariaeth Gymraeg. Os nad yw ysgolion gwirfoddol a sefydledig yn symud ar hyd continwwm iaith, gallai ymdrechion i symud ysgolion eraill ar hyd continwwm iaith gael eu tanseilio.

**Argymhelliad 46: Dylai ysgolion gwirfoddol a sefydledig ddilyn polisïau cenedlaethol ac awdurdodau lleol o ran darpariaeth Gymraeg.**

## 10.14 Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

Mae gan weithgareddau allgyrsiol a gynhelir drwy'r Gymraeg rôl hollbwysig wrth ei hatgyfnerthu fel iaith gymdeithasol.

Bodolaeth cymunedau lle roedd y Gymraeg yn brif gyfrwng cyfathrebu'r gymdeithas sicrhaodd bod yr iaith wedi goroesi. O fewn realiti cyd-destun y dwyieithrwydd ansefydlog sy'n bodoli mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch heddiw, bydd cryfhau sefydliadau Cymraeg sy'n medru ffurfio cymunedau ieithyddol yn allweddol.

O blith y sefydliadau y gellid synio amdanynt fel cymunedau, dichon mai ysgolion yw'r pwysicaf. Wrth eu symud ar hyd continwwm tuag at normaleiddio addysg Gymraeg, dylid gofalu bod y Gymraeg yn dod yn brif gyfrwng eu bywyd gweinyddol, cymdeithasol, allgyrsiol a diwylliannol—hynny yw, yn iaith arferedig bywyd yr ysgol ac eithrio mewn amgylchiadau arbennig neu eithriadol.

Cydnabyddir fod Siarter Iaith ysgolion cynradd ac uwchradd wedi cyflawni llwyddiannau amrywiol yn cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg mewn ysgolion. Er hynny, nid yw eu heffeithiolrwydd yn cael ei arfarnu'n ddigonol ac mae'r Comisiwn o'r farn y gellid eu harfarnu'n well drwy reoleiddio.

Mae Estyn yn gwneud sylwadau defnyddiol o bryd i'w gilydd ar y defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol mewn ysgolion. Mantais fyddai cynnwys hyn fel thema yn Fframwaith Arolygu Estyn er mwyn monitro llwyddiant a gweithrediad y Siarter Iaith o

fewn ysgolion. Dylid anelu at symud ysgolion ar hyd continwwm fel y bydd y Gymraeg yn dod yn brif gyfrwng eu bywyd gweinyddol, cymdeithasol, allgyrsiol a diwylliannol.

**Argymhelliad 47: Dylai Llywodraeth Cymru osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i arfarnu defnydd allgyrsiol a chymdeithasol o’r Gymraeg gan gynnwys effeithiolrwydd Siarterau Iaith mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ac i adrodd yn flynyddol arnynt. Dylai Estyn arolygu gweithrediad Siarter Iaith yng nghyd-destun ehangach yr ysgol.**

## 10.15 Canolfannau trochi

Mae sicrhau trochi ieithyddol effeithiol ar gyfer newydd-ddyfodiaid di-Gymraeg yn fater o flaenoriaeth, a’r ffordd fwyaf effeithiol o wneud hyn yw trwy ganolfannau trochi.

Mae achos cadarn dros ehangu a dwysáu’r math hwn o ddarpariaeth, yn benodol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, gan sicrhau adnoddau priodol ar ei chyfer. Mae a wnelo canolfannau trochi â mwy nag un elfen o bolisi cyhoeddus, sef strategaeth cydraddoldeb yn ogystal â strategaeth iaith.

Mae canolfannau trochi yn hanfodol ar gyfer cynnal a chefnogi is-adeiledd addysg cyfrwng Cymraeg. Heb rwydwaith o ganolfannau, mae potensial i hwyrddyfodiaid newid iaith ffurfiol ac anffurfiol ysgolion.

O safbwynt cydraddoldeb, mae canolfannau trochi yn hyrwyddo cynhwysiant wrth roi i hwyrddyfodiaid sgil hanfodol er mwyn medru integreiddio i’w cymunedau newydd. Yn y canolfannau hyn, darperir yn aml ar gyfer plant sydd wedi symud i Gymru o rannau eraill o’r Deyrnas Unedig, yn ogystal ag o’r tu allan i’r Deyrnas Unedig.

Er cydnabod bod y grant a ddarperir i bob awdurdod lleol yng Nghymru ar gyfer darpariaeth trochi yn hynod fanteisiol, mae angen cydnabod yn ogystal bod y ddarpariaeth sydd ei hangen mewn cymunedau Cymraeg yn sylweddol, ac o’r herwydd yn fwy costus. Gan fod canolfannau trochi mor allweddol, dylid gwarchod ac ehangu eu cyllidebau hyd yn oed mewn gwasgfa gyllidol.

Dylid manteisio ar gyfleoedd i ledaenu arfer da canolfannau trochi. Mae angen buddsoddi hefyd mewn ymchwil er mwyn parhau i ddatblygu methodolegau effeithiol yn y maes trochi, a sicrhau eu bod ar gael yn eang. Gellid datblygu elfennau o hyfforddiant penodol yn genedlaethol i staff a darpar staff canolfannau trochi gan fod addysgu mewn canolfan o’r fath yn sgil benodol.

Gellid ystyried hefyd ehangu ar gynlluniau trochi mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch drwy sicrhau bod y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cynnig cyfleoedd i rieni/gofalwyr a theuluoedd ddysgu’r Gymraeg ar yr un pryd â’u plant, a bod ystod o bartneriaid (y Mentrau Iaith lleol a’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, er enghraifft) yn darparu cyfleoedd i’r uned deuluol fagu hyder a defnyddio eu Cymraeg yn gymdeithasol.

**Argymhelliad 48: Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau fod canolfannau trochi yn derbyn adnoddau digonol i gyflawni eu nodau.**

## 10.16 Recriwtio i'r gweithlu addysg

Mae'r Comisiwn yn cydnabod fod her genedlaethol gynyddol wrth recriwtio i'r gweithlu addysg. Dylid sicrhau fod ymdrech arbennig i recriwtio mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Dylai adnoddau gael eu blaenoriaethu ar gyfer staff mewn ysgolion a fydd yn cynyddu eu darpariaeth Gymraeg. Bydd angen defnyddio ystod o ddulliau, gan gynnwys cyfnodau sabothol er mwyn i staff ddysgu a gloywi eu Cymraeg. Dylai hyn fod yn rhan o gynllunio strategol awdurdodau lleol, gyda darpariaeth ar gael yn lleol ac wedi'i chyd-destunoli ar gyfer angen yr ysgol. Dylid cydweithio â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn adnabod cyfleoedd addas a phwrpasol i staff, a hynny er mwyn sicrhau trosolwg strategol ac arweiniad arbenigol yn y maes.

**Argymhelliad 49: Dylai Llywodraeth Cymru gynllunio i gwrdd ag anghenion y gweithlu addysg o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, a hynny er mwyn sicrhau bod staff yn hyderus wrth i ddisgwyliadau o ran darpariaeth Gymraeg gynyddu mewn ysgolion.**

## 10.17 Addysg drydyddol a galwedigaethol

Nid oes digon o ddarpariaeth addysg drydyddol a galwedigaethol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Yn ei adroddiad diweddaraf, a gyhoeddwyd yn 2021, nododd Pwyllgor yr Arbenigwyr, sef y pwyllgor sy'n adrodd i Gyngor Ewrop ar gydymffurfiaeth y Deyrnas Unedig â'r Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol, fod y Deyrnas Unedig wedi cyrraedd y lefelau uchaf o gydymffurfiaeth o ran y Gymraeg yn y rhan fwyaf o feysydd, ond nid oedd addysg dechnegol a galwedigaethol yn un ohonynt. Yn wir, mae addysg dechnegol a galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o'r tri maes lle argymhellodd wrth y Deyrnas Unedig y dylai weithredu (Council of Europe, 2021: 14). Mae'r Comisiwn yn cefnogi safbwynt Pwyllgor yr Arbenigwyr, ac yn atseinio'r galw i ehangu'r ddarpariaeth o addysg dechnegol a galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dengys ymchwil ddiweddar ynghylch symudoledd yn Lloegr fod 40% o raddedigion wedi gadael yr ardal lle'r oeddent yn byw yn 16 oed erbyn iddynt gyrraedd 30 oed, o gymharu â 20% o'r rhai nad ydynt yn raddedigion (Britton et al., 2021: 11). Mae angen ymchwil bellach a phenodol o ran y sefyllfa yng Nghymru, ond yn Lloegr o leiaf ymddengys fod pobl ifanc sydd yn dilyn cyrsiau galwedigaethol yn fwy tebygol o aros yn eu cymunedau na phobl ifanc sydd yn mynychu prifysgolion. O safbwynt cynllunio ieithyddol, mae hyn yn gyfiawnhad pellach dros ehangu darpariaeth Gymraeg y sector addysg drydyddol a galwedigaethol. Mae angen hefyd wella'r ddarpariaeth ehangach, megis addysg i wella sgiliau Cymraeg myfyrwyr, gwella ethos ieithyddol sefydliadau, a datblygu mwy o weithgareddau ategol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae angen sicrhau yn ogystal fod cyrsiau a hyfforddiant sydd yn gwasanaethu ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn gysylltiedig ag anghenion yr economi leol. Dylid gosod premiwm ar hyfforddiant a sgiliau sydd yn hwyluso mynediad at y gweithlu yn lleol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn

amgylchiadau lle ceir datblygiadau economaidd mawr ar y gweill efallai megis y pwerdy niwclear arfaethedig yn Ynys Môn.

Bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) yn gyfrifol am ariannu a goruchwylio addysg ac ymchwil ôl-16 o fis Awst 2024 ymlaen, a phenodwyd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i roi cyngor i'r Comisiwn ar ei ddyletswyddau yn ymwneud â'r Gymraeg. Yn ogystal â chydweithio â rhanddeiliaid i sicrhau darpariaeth ddigonol, dylai CADY osod targedau fel modd o gymell cynnydd o ran y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

# 11. Cynllunio ieithyddol cymunedol

## 11.1 Pwysigrwydd cynllunio ieithyddol cymunedol

Bydd argymhellion sosioeconomaidd yr adroddiad hwn o'u gweithredu yn rhoi seiliau cadarnach i'r Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Ond mae angen dylanwadu ar arferion ieithyddol rhyngbersonol o fewn cymunedau yn ogystal. Ar gyfer hynny, mae angen cynllunio ieithyddol cymunedol pwrpasol ac egnïol sydd â chefnogaeth polisi cyhoeddus cadarn, adnoddau digonol, a rhyddid i fentro a threialu prosiectau. O ystyried natur ryngbersonol iaith, bydd rhaid i'r ymdrech fwriadus hon dreiddio i galon cymdeithas ac i ymwneud pobl â'i gilydd.

Er mwyn gwireddu hyn, mae angen i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ymrwymo wrth gynllunio ieithyddol cymunedol. Mae eraill yn cyfrannu at y maes hefyd wrth gwrs, megis cyrff trydydd sector fel y Mentrau Iaith, Mudiad Meithrin ac Urdd Gobaith Cymru. Ar ben hynny, ceir cyrff cymunedol sy'n gweithio'n naturiol drwy'r Gymraeg. A chyn bwysiced yw bod unigolion yn gweithredu'n wirfoddol dros y Gymraeg o fewn cymunedau.

Ceir heriau wrth gwrs, ac nid y lleiaf ohonynt yw'r her ariannol. Gwelir effeithiau negyddol cyni ariannol, a chanlyniadau penderfyniad y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd, ar waith mewn cynllunio ieithyddol cymunedol ar hyn o bryd. Ergyd yw colli rhaglenni Ewropeaidd, megis LEADER a'r Gronfa Datblygu Gwledig, a oedd yn caniatáu i gyrff trydydd sector wireddu prosiectau a gâi effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Nid yw'r rhaglenni newydd o du Llywodraeth flaenorol y Deyrnas Unedig (y Gronfa Ffyniant Bro a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin) o angenrheidrwydd yn rhoi bri ar hybu'r Gymraeg. Ar ben hynny, mae crebachu ar gyllid cyhoeddus yn peri i awdurdodau lleol orfod canolbwyntio adnoddau ar eu dyletswyddau statudol, ac ar ddarparu gwasanaethau i grwpiau mwyaf bregus cymdeithas. O ganlyniad, mae mathau eraill o waith yn aml yn syrthio ar y trydydd sector, a chyrff fel grwpiau cymunedol, a sefydliadau fel y Mentrau Iaith, yn gorfod llenwi bylchau.

Ond mae rhesymau i fod yn obeithiol hefyd. Ceir sefydliadau, rhwydweithiau ac unigolion mewn cymunedau Cymraeg sy'n gwbl alluog o gynnal y Gymraeg yn gymunedol. Mae angen ymrwymiad mewn polisi cyhoeddus i'w cyfnerthu er mwyn cael yr effaith fwyaf cadarnhaol posibl ar ddefnydd o'r Gymraeg.

**Argymhelliad 50: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ymrwymiad i gynllunio ieithyddol cymunedol yn ei holl strategaethau sy'n ymwneud â'r maes cymunedol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Yn yr un modd, dylai cynlluniau corfforaethol awdurdodau lleol, cynlluniau lles Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a rhaglenni strategol perthnasol Cyd-bwyllgorau Corfforedig roi sylw dyledus i bwysigrwydd cynllunio ieithyddol cymunedol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch gan sicrhau adnoddau digonol ar ei gyfer.**

## 11.2 Safonau hybu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Fel rhan o'r gwaith o wireddu cynllunio ieithyddol cymunedol effeithiol, bydd angen arweiniad strategol ar lefel awdurdod lleol sydd wedi cael ei dargedu at gymunedau.

Un ffordd o ddarparu fframwaith polisi ar gyfer hyn mewn cymunedau Cymraeg fyddai trwy ddefnydd priodol o safonau hybu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, gellid defnyddio'r safonau hybu er mwyn gosod dyletswydd newydd ar gyrff perthnasol—awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig—i lunio strategaeth cynllunio ieithyddol cymunedol.

Mae'r Comisiwn o'r farn y gallai hyn helpu datblygu polisi cyhoeddus er lles y Gymraeg, gan gynnwys targedu ymyraethau mewn nifer o feysydd o bwysigrwydd sosioieithyddol yr ydym yn cyfeirio atynt yn yr adroddiad hwn. Gallai hefyd fod yn fodd i roi ffocws angenrheidiol i gynllunio ieithyddol cymunedol ar y lefel feicro a meso mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Mae Adran 31 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn diffinio 'safon hybu' fel 'safon (yn ymwneud ag unrhyw weithgaredd) y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach'. Ceir yn Atodlen 4 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ddwy safon hybu o'r fath: Safon 145 a Safon 146.

Mae Safon 145 yn darllen fel a ganlyn:

> Rhaid ichi [sef corff y mae'r safonau hybu'n berthnasol iddo] lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill)—
>
> > (a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw, a
> >
> > (b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw;
>
> a rhaid ichi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).

Mae Safon 146 wedyn yn gosod cyfrifoldeb ar y corff o dan sylw i asesu llwyddiant y strategaeth, sef 'i ba raddau yr ydych wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi'.

Mae'r Comisiwn o'r farn fod y safonau hybu hyn yn rhai neilltuol o berthnasol yng nghyswllt cymunedau Cymraeg oherwydd y gydnabyddiaeth a geir ynddynt o bwysigrwydd defnydd iaith. Byddai eu cymhwyso at ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn arbennig o fuddiol felly.

Byddai creu gofyniad neilltuol yn y safonau hybu ar gyfer ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn golygu fod rhaid creu strategaeth benodol ar gyfer hybu defnydd iaith yn yr ardaloedd hyn. Gallai hyn greu fframwaith ar gyfer cynllunio ieithyddol cymunedol ar lefel yr awdurdod lleol yn yr ardaloedd hyn.

**Argymhelliad 51: Dylid yn Safon 145 Atodlen 4 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ychwanegu gofyniad pellach at (a) a (b). Byddai (c) yn berthynol i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch ac yn darllen fel a ganlyn:**

> **(c) [rhaid i'r strategaeth gynnwys] dogfen sy'n egluro sut yr ydych yn gwneud darpariaeth benodol a phriodol ar gyfer ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn eich ardal, gyda phwyslais arbennig ar atgyfnerthu a chynyddu defnydd y Gymraeg fel iaith gymunedol.**

## 11.3 Gwella data i fesur effaith cynlluniau ieithyddol cymunedol

Mae angen gwella'r data sydd ar gael er mwyn cynllunio a mesur effaith cynllunio ieithyddol cymunedol. Yn ogystal â data craidd am sgiliau ieithyddol, mae angen data ansoddol am agweddau, hyder a defnydd. Gyda ffigurau cyfrifiad yn sail cyffredinol felly, byddai clytwaith o fesuryddion a dulliau ychwanegol o gasglu gwybodaeth yn rhoi'r darlun cynhwysfawr, angenrheidiol ar gyfer cynllunio ieithyddol effeithiol. Mae agweddau ar ddata'r cyfrifiad yn medru rhoi gwybodaeth ddefnyddiol o raddfeydd trosglwyddo iaith ar yr aelwyd, fel mae gwaith ystadegol Prosiect BRO yn yr adroddiad hwn, a *Polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd* Llywodraeth Cymru, yn dangos (Llywodraeth Cymru, 2021ch). Mae'r Arolwg Defnydd Iaith hefyd wedi cynnig data am allu ieithyddol, hyder ac amlder defnydd o'r Gymraeg, ond mae diffyg cysondeb, a diffyg maint yr arolygon, yn llesteirio ymdrechion i fesur effaith cynllunio ieithyddol yn ystyrlon.

Anodd hefyd yw mesur hyfywedd rhwydweithiau cymunedol sy'n cynnal y Gymraeg. Er bydd Prosiect BRO yn cynorthwyo i ddeall hyn yn well, mae angen fframwaith cadarn, a dylid buddsoddi mewn dulliau casglu data rheolaidd a chyson er mwyn sicrhau seiliau cadarn ar gyfer cynllunio ieithyddol cymunedol.

**Argymhelliad 52: Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd ag ymchwilwyr academaidd a rhanddeiliaid, ddatblygu fframwaith ar gyfer mesur effaith cynllunio ieithyddol cymunedol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.**

## 11.4 Trosglwyddo iaith

Mae trosglwyddo'r iaith rhwng cenedlaethau yn greiddiol i barhad y Gymraeg. Proses ydyw sy'n digwydd yn y cartref a thrwy gymdeithasoli yn y gymuned ehangach.

Mae gan bolisi Llywodraeth Cymru, *Polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd*, nod o 'helpu'r teuluoedd [sydd ag o leiaf un oedolyn a all siarad Cymraeg] i ddatblygu ac ehangu eu defnydd o'r Gymraeg ar yr aelwyd' (Llywodraeth Cymru, 2021ch: 11). Seiliwyd y polisi ar ymchwil a gomisiynodd Llywodraeth Cymru oddi wrth Brifysgol Caerdydd (Llywodraeth Cymru, 2015). Wrth weithredu'r polisi, mae'r Llywodraeth, ar y cyd â Mudiad Meithrin, wrthi'n treialu ymyraethau yn seiliedig ar y gwyddorau ymddygiadol.

Nodir yn y polisi fod siaradwyr Cymraeg yn y gogledd a'r gorllewin, o gymharu ag mewn ardaloedd yn y de-ddwyrain,

> ... yn trosglwyddo'r Gymraeg fel ymddygiad anymwybodol ... I lawer o bobl, y Gymraeg oedd y brif iaith roedden nhw'n ei defnyddio gyda'u plant drwy'r amser. Roedd y rhan fwyaf ohonyn nhw yn dod o deuluoedd Cymraeg eu hiaith, roedd ganddyn nhw bartneriaid Cymraeg eu hiaith, ac roedden nhw'n dweud eu bod yn hyderus wrth siarad Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2021ch: 13).

Mae dadansoddiad y Comisiwn o Gyfrifiad 2021 yn codi pryderon nad yw'r duedd isymwybodol hon yn gwbl gyffredin bellach, hyd yn oed yn yr ardaloedd sydd â'r dwysedd uchaf o siaradwyr Cymraeg. Yn wyneb y dystiolaeth hon, mae'r Comisiwn o'r farn fod cryfhau trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau yn flaenoriaeth. Mae angen gwaith i gefnogi teuluoedd, a hefyd gymunedau, i drosglwyddo'r Gymraeg.

Dylai'r gwaith hwn bwysleisio trosglwyddo iaith ar yr aelwyd, ond dylai gydnabod hefyd fod iaith yn ffenomen gymdeithasol ehangach. Felly, dylid ystyried rôl y gymuned, cymheiriaid ac eraill. Dylid seilio'r gwaith ar dystiolaeth, y gwyddorau ymddygiadol ac arfer gorau o feysydd cysylltiedig yng Nghymru a thu hwnt nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r Gymraeg (megis llythrennedd rhieni ac annog darllen rhwng rhieni a phlant).

Mae'r gwaith ymchwil y seiliwyd y polisi trosglwyddo newydd arno yn adolygiad o ymyraethau ym maes trosglwyddo'r Gymraeg (Llywodraeth Cymru, 2015). Ond teg dweud mai prin yw'r gwaith a wnaed ar gymdeithasoli iaith ehangach; er enghraifft, o ran dylanwad cymheiriaid a rhieni di-Gymraeg ar dwf y Gymraeg. Gallai fod budd edrych ar sefyllfa'r Fasgeg i weld pa wersi y gellir dysgu yno.

Un o nodau rhaglen Cymraeg i Blant (olynydd prosiect *Twf*) yw dylanwadu ar arferion ieithyddol rhieni newydd drwy amlygu buddion siarad Cymraeg gyda phlant bach. Gan fod rhan o'r gwaith hwn yn cael ei gyflawni gan y sector iechyd, ac oherwydd y cyswllt rhwng y sector iechyd â rhieni, mae angen ymchwilio sut y gellir manteisio i'r eithaf ar y cyswllt hwn er mwyn trosglwyddo negeseuon cadarnhaol am y Gymraeg.

Ymdrinnir â'r sector gofal plant, blynyddoedd cynnar a chwarae yn yr adran am addysg. Dylid nodi, fodd bynnag, fod y grŵp oedran cyn-ysgol yn hanfodol o safbwynt cymdeithasoli defnydd o'r Gymraeg a sicrhau trosglwyddiad ieithyddol o fewn teuluoedd a'r gymuned. Yn y gymuned, mae potensial i ddarparu mwy o weithgareddau cymdeithasol Cymraeg i ddatblygu a chynnal yr arfer o siarad Cymraeg gyda phlant bach, ac i gefnogi defnydd iaith rhwydweithiau cymdeithasol rhieni, rhieni-cu a gwarcheidwaid, ac yn wir i ddatblygu eu sgiliau iaith hwythau.

**Argymhelliad 53: Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau fod trosglwyddo iaith, ar yr aelwyd ac ar ffurf cymdeithasoli iaith tu hwnt i'r teulu, yn ganolog i faes cynllunio ieithyddol cymunedol. Dylid dwyn i ystyriaeth tystiolaeth briodol (gan gynnwys tystiolaeth ryngwladol), y gwyddorau ymddygiadol, ac arfer gorau mewn meysydd cysylltiedig megis llythrennedd rhieni ac annog darllen rhwng rhieni a phlant. Dylid hefyd ymchwilio sut y gellid manteisio i'r eithaf ar y cyswllt rhwng rhieni a'r sector iechyd er mwyn trosglwyddo negeseuon cadarnhaol am y Gymraeg.**

## 11.5 Cefnogi plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol

Mae atgyfnerthu rhwydweithiau cymdeithasol Cymraeg plant a phobl ifanc mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn hanfodol. Nid oes un sector lle bu'r crebachu ar wasanaethau cyhoeddus cymunedol Cymraeg yn fwy niweidiol o safbwynt cynllunio ieithyddol na'r sector gwasanaeth ieuenctid. Wrth i awdurdodau lleol orfod canolbwyntio ar fuddsoddi mewn gwasanaethau hanfodol i'r bobl ifanc fwyaf bregus, diflannodd sawl gwasanaeth arall, fel clybiau ieuenctid, mewn sawl lle.

Mae Grŵp y Gymraeg o'r Bwrdd Gweithredu Strategaeth Gwaith Ieuenctid a arweinir gan Lywodraeth Cymru am gynyddu gwasanaethau ieuenctid cyfrwng Cymraeg. Byddai'r Comisiwn yn dymuno gweld ffocws penodol a gwahanol ar y ddarpariaeth mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Yn wyneb dylanwad technoleg a chyfryngau cymdeithasol byd-eang lle mae'r Saesneg yn dominyddu, mae atgyfnerthu awydd pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol yn hollbwysig. Mae Urdd Gobaith Cymru, Mudiad y Clybiau Ffermwyr Ifanc a'r Mentrau Iaith yn gweithio gyda phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus. Ceisir cynyddu hefyd ymwybyddiaeth ieithyddol pobl ifanc hŷn. Dylid hefyd cynyddu balchder plant a phobl ifanc yn eu broydd a rhoi hyder iddynt yn eu hunaniaeth Gymraeg. Mae'n bwysig yn ogystal magu arweinwyr cymunedol fel y gwna Mudiad y Clybiau Ffermwyr Ifanc yn llwyddiannus.

Mae gwaith y Mentrau Iaith ac eraill wrth feithrin bandiau Cymraeg ifanc ac ennyn diddordeb mewn cerddoriaeth gyfoes Gymraeg yn enghraifft o'r math o waith sydd angen ei wneud. Dylid cynyddu capasiti Mentrau Iaith a'r Urdd i'w galluogi i ddarparu mwy o gyfleoedd anffurfiol i arddel y Gymraeg o gylch yr ysgol er mwyn iddi, fel cymuned Gymraeg yn ei hawl ei hun, ymestyn tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Mae angen sylw penodol i'r maes chwaraeon a hamdden o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Dylid gwneud popeth posibl i sicrhau bod clybiau chwaraeon a hamdden yn gwneud defnydd helaeth o'r Gymraeg wrth hyfforddi plant a phobl ifanc. Mae ymchwil Chwaraeon Cymru yn dangos fod 50% o blant ysgol sy'n siarad Cymraeg yng ngorllewin Cymru a 44% o blant y gogledd yn cymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos (Chwaraeon Cymru, 2022).

Byddai sicrhau mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn clybiau chwaraeon yn cael effaith gadarnhaol dros ben ar ddefnydd iaith pobl ifanc. 'Ceisio dylanwadu ar glybiau a hyfforddwyr gweithgareddau hamdden cymunedol i ystyried y Gymraeg fel rhan o'u gweithgareddau' yw un argymhelliad a wneir mewn adroddiad diweddar am dyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol yn Ynys Môn (Hodges et al., 2023: 5). Nid oes rheswm i dybio nad yw chwaraeon yn bwysig o ran defnydd iaith mewn cymunedau Cymraeg eraill.

Er mwyn sicrhau defnydd amlach mewn clybiau chwaraeon o'r Gymraeg, mae angen gweithio gyda chyrff llywodraethu chwaraeon a chlybiau unigol er mwyn cymhwyso hyfforddwyr sy'n medru Cymraeg, yn ogystal â hyrwyddo'r angen i ddefnyddio'r Gymraeg gyda phlant a phobl ifanc.

**Argymhelliad 54: Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau fod y gwaith o gefnogi plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn elfen ganolog o gynllunio ieithyddol cymunedol. Dylid cyd-gynllunio hyn ar lefel awdurdod lleol gyda mewnbwn gan Grŵp y Gymraeg o'r Bwrdd Gweithredu Strategaeth Gwaith Ieuenctid. Yn rhan greiddiol o hyn, dylai sefydliadau perthnasol sicrhau parhad a datblygiad i waith cynllunio ieithyddol ar y lefel feicro.**

**Argymhelliad 55: Dylai cyrff llywodraethu chwaraeon osod disgwyliad ar glybiau chwaraeon (neu mewn achosion lle nad yw hynny'n bosibl gynnig arweiniad) er mwyn annog rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, gan gynnwys datblygu cynlluniau i gymhwyso mwy o hyfforddwyr Cymraeg. Dylid hefyd cadw data am sgiliau iaith hyfforddwyr.**

## 11.6 Cynnal gweithgareddau Cymraeg mewn cymunedau Cymraeg

Er mwyn diogelu'r broses o gymdeithasoli drwy'r Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, bydd rhaid ymdrechu i warchod gwead cymunedol y Gymraeg. Mae cefnogi rhwydweithiau cymunedol Cymraeg, a chynorthwyo newydd-ddyfodiaid i'r cymunedau hyn i integreiddio'n ieithyddol, yn hanfodol. Serch hynny, mae'n anodd weithiau i bolisi cyhoeddus gyfrannu at gynnal rhwydweithiau Cymraeg mewn cymunedau: maent yn tarddu'n organig o'r cymunedau hynny, ac yn cael eu cynnal yn bennaf yn wirfoddol.

Ceir nifer helaeth o sefydliadau gwirfoddol mewn cymunedau Cymraeg sy'n cynnal yr iaith: canghennau Merched y Wawr, Clybiau Ffermwyr Ifanc, corau, eisteddfodau lleol, cymdeithasau llenyddol a diwylliadol, clybiau adloniant, clybiau cinio, ac yn y blaen, ynghyd hefyd â nifer helaeth o gyrff cymunedol nad oes a wnelont â'r Gymraeg yn uniongyrchol ond sy'n cynnal eu gweithgareddau'n naturiol yn yr iaith. Mae natur wirfoddol, gymunedol y sefydliadau hyn i'w thrysori. Ond dylai fod cefnogaeth ar gael iddynt os ydynt yn dymuno hynny.

Ceir meysydd lle gellid grymuso mwy o weithgaredd cymdeithasol Cymraeg. Mewn rhai cymunedau, lle mae'r shifft ieithyddol wedi mynd yn bell, y capel neu eglwys yw'r unig ofod Cymraeg sydd ar ôl. Os yw amgylchiadau'n caniatáu, a chyda chydsyniad eu haelodau, gellid ystyried a allai fod rôl iddynt fel canolfannau cymunedol Cymraeg. Mae neuaddau pentref, yn yr un modd, yn fannau ymgynnull pwysig a fyddai'n medru atgyfnerthu defnydd cymunedol o'r Gymraeg o dderbyn ychydig o gymorth. Mae papurau bro yn enghraifft arall o ddarpariaeth gymunedol a allai elwa o gefnogaeth bellach.

Ceir rhai sefydliadau mewn cymunedau Cymraeg sydd heb ymdeimlad o gyfrifoldeb at y Gymraeg fel iaith gymunedol. Mae'n bwysig cynyddu dealltwriaeth y cyrff hyn o bwysigrwydd defnydd cymunedol o'r Gymraeg. Gallai fod modd dylanwadu arnynt hefyd trwy ddulliau megis amodau grant, amodau les neu amodau cydweithio.

## 11.7 Integreiddio'n ieithyddol i'r gymuned Gymraeg

Dylid darparu cyfleoedd i oedolion sy'n symud i gymunedau Cymraeg ddysgu a defnyddio Cymraeg. Mae cael rhwydwaith gynhwysfawr o gyrsiau Cymraeg mewn

cymunedau ac ar-lein sydd ar gael i bawb yn hynod bwysig, ac mae darpariaeth y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac eraill yn gyfrwng i sicrhau mynediad i ystod o gyrsiau addas. Ar yr un pryd, dylid hefyd feddwl yn strategol am grwpiau sy'n ganolog i'r broses o drosglwyddo'r Gymraeg i'r genhedlaeth nesaf. Nodwyd eisoes y lles a allai ddeillio o ddarparu gwersi Cymraeg i rieni a theulu o gylch yr ysgol. Pe bai ysgolion yn cael eu datblygu fel gofodau Cymraeg cymunedol, byddai modd cyplysu addysg plant a phobl ifanc gyda chyfleoedd i rieni ddysgu Cymraeg.

Dengys gwaith ymchwil rhyngwladol gan academyddion o Wlad y Basg, er enghraifft, fod agor ysgolion i deuluoedd a'r gymuned yn arwain at wella dangosyddion perfformiad o bob math, gan gynnwys mewn cyd-destunau ble mae disgyblion yn dysgu mewn iaith wahanol i iaith y cartref ac mewn ardaloedd difreintiedig (gweler Zubiri, 2023). Ceir enghreifftiau o arfer da yn y maes hwn mewn cymunedau Cymraeg hefyd, a byddai'n dda eu hymestyn.

Dylid hefyd ceisio codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymhlith newydd-ddyfodiaid. Gwnaed gwaith gan Fentrau Iaith ac awdurdodau lleol i gyflwyno pecynnau gwybodaeth i newydd-ddyfodiaid, ond mae angen gweithredu mwy dwys i fwrw'r maen i'r wal. Byddai partneriaeth ehangach, yn cynnwys meddygfeydd a chymdeithasau tai er enghraifft, yn medru symbylu trefn ddosbarthu lawer mwy effeithiol. Mae rhaglen hyfforddi llysgenhadon diwylliannol Llywodraeth Cymru yn cynnig potensial pellach wrth gynorthwyo newydd-ddyfodiaid i integreiddio i'r gymuned yn ieithyddol.

Mae angen hefyd mewn ardaloedd Cymraeg helpu unigolion sy'n medru siarad 'cryn dipyn o Gymraeg' ond nad ydynt am wahanol resymau yn gwneud defnydd helaeth ohoni. Dylai fod ymdrechion i wella eu rhuglder a hyder. Dangosodd yr astudiaeth ddiweddar o'r Gymraeg yn Ynys Môn mai 'rhuglder' siaradwyr Cymraeg 'yw un o'r prif ffactorau sy'n effeithio ar y defnydd cymunedol o iaith' (Hodges et al., 2023: 55).

## 11.8 Cynllunwyr ieithyddol cymunedol

Ceir ystod o sefydliadau yng Nghymru sydd yn gweithredu fel cynllunwyr ieithyddol cymunedol ac yn cefnogi'r Gymraeg. Mae nifer o'r sefydliadau hyn yn derbyn cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyfrannu at wireddu amcanion strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (Llywodraeth Cymru, 2017a). Nodwyd pwysigrwydd gwaith nifer o'r sefydliadau hyn, megis y Mentrau Iaith, Urdd Gobaith Cymru, Mudiad y Clybiau Ffermwyr Ifanc, Mudiad Meithrin a'r rhwydwaith o bapurau bro. Mae gan y sefydliadau hyn gyfraniad pwysig i'r maes cynllunio ieithyddol cymunedol.

Mae dros 30 mlynedd bellach ers sefydlu'r Fenter Iaith gyntaf, a hynny yng Nghwm Gwendraeth. Ers hynny, gwelwyd sawl ardal yng Nghymru yn mynd ati i greu Menter Iaith i hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn gymunedol, a hynny yn aml iawn wedi digwydd yn organaidd wrth i unigolion brwdfrydig ddod at ei gilydd i geisio gwrthdroi dirywiad yr iaith yn lleol. Ceir enghreifftiau eraill o Fentrau Iaith sydd yn rhan o sefydliadau ehangach megis Menter Iaith Môn sy'n rhan o gwmni adfywio economaidd a chymunedol Menter Môn. Mae rhai mentrau yn gweithredu o fewn strwythurau awdurdodau lleol. Yn naturiol felly mae strwythurau llywodraethiant a dull atebolrwydd y Mentrau yn amrywio.

Mae’r Mentrau Iaith yn gweithio’n agos gyda sefydliadau cynllunio ieithyddol eraill sy’n derbyn cyllid grant oddi wrth Lywodraeth Cymru, ac yn creu partneriaethau gydag ystod eang o sefydliadau a grwpiau cymunedol er budd y Gymraeg. O ganlyniad i’r gweithio agos ar lefel leol, mae gan y Mentrau adnabyddiaeth drylwyr o’r gymuned, ac felly maent mewn lle delfrydol i adnabod eu hanghenion ynghyd ag unrhyw fylchau amlwg mewn darpariaeth a allai lesteirio datblygiad y Gymraeg.

Er mwyn bod yn effeithiol, bydd angen i gynllunio ieithyddol cymunedol yng Nghymru fod yn llawer mwy dwys nag yw ar hyn o bryd. Mae Mentrau Iaith yn un cerbyd hanfodol er mwyn cyflawni hyn. Dylai eu gwaith fod mor strategol â phosibl gan flaenoriaethu adnoddau i gael yr effaith fwyaf posibl. Mewn rhai achosion, bydd hyn yn golygu y gall fod angen i Fentrau Iaith aildrefnu blaenoriaethau.

Mae angen i weithlu cynllunio ieithyddol cymunedol fod â’r wybodaeth fwyaf cyfredol am gynllunio ieithyddol. Dylid darparu rhaglenni hyfforddiant priodol ar gyfer staff ar wahanol adegau o’u gyrfa. Dylai’r rhaglenni ymgyffwrdd â chynllunio ieithyddol, ymwybyddiaeth iaith, datblygu cymunedol, newid ymddygiad ieithyddol ac ati.

Mae’r cyllid craidd sydd ar gael i sefydliadau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynllunio ieithyddol cymunedol yn amrywio’n sylweddol. Gan amlaf mae’r symiau hyn yn seiliedig ar ddyraniad hanesyddol. Yng nghyd-destun y Mentrau Iaith yn benodol, mae hyn yn golygu nad yw pob Menter gyda’r adnoddau i weithredu a chyflawni gwaith i’r un graddau. Serch hynny, mae nifer o’r Mentrau wedi datblygu modelau ariannu amrywiol gan ddenu arian gan gyllidwyr eraill, er enghraifft gweithgareddau sy’n cynnig ffynhonnell ariannol sefydlog, neu wedi creu adain fasnachol ar gyfer creu incwm.

Mae’r Comisiwn yn cydnabod fod lefel y cyllid sy’n cael ei dyrannu i sefydliadau cynllunio ieithyddol cymunedol heb gynyddu. Ym marn y Comisiwn, er mwyn mynd i’r afael yn effeithiol â shifft iaith ar y lefel gymunedol, bydd angen buddsoddiad ychwanegol arwyddocaol sy’n cynyddu adnoddau. Ond gall fod angen ailffocysu gwaith hefyd.

**Argymhelliad 56: Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu adnoddau sefydliadau sy’n gweithio ym maes cynllunio ieithyddol cymunedol fel bod ganddynt y capasiti angenrheidiol i ymateb i anghenion ieithyddol cymunedau. Dylai unrhyw gyllid newydd fod yn seiliedig ar feini prawf yn ymwneud â gwrthweithio shifft iaith ar lefel gymunedol.**

## 11.9 Peilot ynghylch defnydd a throsglwyddo iaith ar stad o dai cymdeithasol yn y gogledd-orllewin

Mae’r Comisiwn yn gofidio’n fawr am yr arwyddion yng Nghyfrifiad 2021 o shifft iaith i’r Saesneg mewn trefi yng ngogledd-orllewin Cymru a ystyrid hyd yma yn gadarnleoedd gweddol ddiogel i’r Gymraeg. Ceir tystiolaeth hefyd bod cyfraddau trosglwyddo iaith yn is mewn teuluoedd yng nghategorïau Gradd Gymdeithasol Fras D ac E (galwedigaethau lled-grefftus, heb sgiliau, di-waith, ayyb). Ceir trafodaeth am hyn yn y dadansoddiad o Gyfrifiad 2021. Dengys fod dwywaith cymaint o blant nad ydynt yn medru siarad Cymraeg ar aelwydydd lle mae o leiaf un oedolyn yn medru siarad Cymraeg yng nghategorïau Gradd Gymdeithasol Fras D ac E o gymharu ag

aelwydydd cyffelyb yng nghategorïau Gradd Gymdeithasol Fras A a B (galwedigaethau rheolaethol, proffesiynol uwch, ayyb).

Am y rheswm hwn, mae’r Comisiwn o blaid cynnal peilot i hyrwyddo defnydd iaith a throsglwyddo ieithyddol ar stad o dai cymdeithasol yn y gogledd-orllewin. Dylai’r peilot dynnu sawl sefydliad at ei gilydd, gan gynnwys asiantaethau cefnogi yn ogystal â sefydliadau cynllunio ieithyddol cymunedol. Byddai hyn yn caniatáu treialu cynllun er mwyn ceisio cynyddu cyfraddau trosglwyddo’r iaith ar yr aelwyd ac i gymdeithasoli plant trwy’r Gymraeg. Dylai partneriaid blynyddoedd cynnar ac ysgolion lleol fod ynghlwm wrth y peilot er mwyn ymgysylltu’n gadarnhaol â phlant a’u rhieni/gofalwyr. Byddai modd hefyd i sefydliad addysg bellach fod yn bartner allweddol er mwyn datblygu sgiliau a chysylltiad pobl ifanc â’r byd gwaith.

**Argymhelliad 57: Dylid cynnal peilot ar stad o dai cymdeithasol mewn tref yng ngogledd-orllewin Cymru. Dylai’r peilot gael ei gydlynu gan landlord cymdeithasol mewn ymgynghoriad â’r gymuned ac ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol gan gynnwys ystod o sefydliadau cynllunio ieithyddol cymunedol. Nod y peilot fyddai treialu ymyraethau er mwyn gwrthdroi shifft iaith ar y stad.**

# 12. Rhestr argymhellion

### Egwyddorion cyffredinol

**Argymhelliad 1**: Iaith genedlaethol yw'r Gymraeg sy'n perthyn i bawb yng Nghymru yn ogystal ag i'w siaradwyr yng ngweddill y byd. Er mwyn cryfhau'r Gymraeg fel iaith genedlaethol fyw, mae angen ei chryfhau fel iaith gymunedol. Dylid atgyfnerthu cymunedau Cymraeg, a chryfhau hefyd gynaliadwyedd y Gymraeg mewn cymunedau Cymraeg, a dylai polisi cyhoeddus adlewyrchu'r nodau hyn yn llawn.

### Ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch

**Argymhelliad 2**: Dylai Llywodraeth Cymru ddynodi 'ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch' yng Nghymru.

**Argymhelliad 3**: Dylid mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch:

- dwysáu'r ystyriaeth a wneir o'r Gymraeg o fewn fframwaith polisi.
- caniatáu ymyraethau ac amrywiaeth polisi a phwyslais polisi o blaid y Gymraeg fel iaith gymunedol.
- sicrhau fod yr amrywiaeth polisi yn ymateb i anghenion cymdeithasol ac ieithyddol yr ardaloedd hyn.
- rhoi grymoedd angenrheidiol i rymuso cymunedau i wrthdroi shifft iaith.

**Argymhelliad 4**: Ni ddylai dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch olygu na wneir darpariaeth gyfanfydol (sy'n weithredol ymhob rhan o diriogaeth Cymru) ar gyfer y Gymraeg mewn nifer o feysydd polisi. Mewn materion o'r fath, ni ddylai fod rhaid amrywio polisi.

**Argymhelliad 5**: Dylai ardal gael ei dynodi fel un o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch os yw canran y siaradwyr yn yr ardal yn hafal i neu'n uwch na throthwy cenedlaethol a osodir gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal â hynny dylai fod gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i ddynodi ardal fel un o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch os yw ardal yn ffinio ar ardal o'r fath, neu ar sail dwysedd siaradwyr Cymraeg fel canran o'r boblogaeth yno.

Dylid gwneud darpariaeth ar gyfer dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch fel a ganlyn:

<u>'Ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch'</u>

(1) Mae dyletswydd ar awdurdod lleol i ddynodi ardal o fewn ei ardal fel un o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch os yw canran y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal honno yn hafal i neu'n uwch na X%.

(2) Gall awdurdod lleol hefyd ddynodi ardal arall o fewn ei ardal fel un o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch:

(a) os ydyw'n ffinio ag ardal a ddynodir yn unol ag isadran (1) uchod.

(b) os ydyw’n ystyried y dylid gwneud hynny ar sail dwysedd y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal honno fel canran o’i phoblogaeth, hyd yn oed os yw’r ganran honno yn is na X%.

(3) Wrth arfer eu swyddogaethau, mae’n rhaid i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol roi sylw arbennig i hyfywedd y Gymraeg o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

(4) Mae dyletswydd ar awdurdod lleol i gydweithio gydag awdurdodau lleol eraill drwy rannu arbenigedd a gwybodaeth sy’n berthnasol i’w dyletswyddau a’u grymoedd o dan yr adran hon.

**Argymhelliad 6**: Dylai fod rhagdybiaeth o blaid dynodi X% (sef y trothwy a grybwyllir yn argymhelliad 5) fel 40%. Dylai Llywodraeth Cymru wneud y penderfyniad terfynol ynghylch beth yw X% yn sgil cyhoeddi rhagor o ganlyniadau gwaith ymchwil Prosiect BRO, ac wrth ddwyn i ystyriaeth hefyd sylwadau academyddion ac ystadegwyr eraill, ac wedi ymgynghori â rhan-ddeiliaid gan gynnwys awdurdodau lleol.

**Argymhelliad 7**: Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth gynradd newydd er mwyn sefydlu’r fframwaith ar gyfer dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Gellid nodi pa ganran sy’n cyfateb i X% (sef y trothwy a grybwyllir yn argymhelliad 5), a beth yw’r diffiniad o ‘ardal’, mewn rheoliadau.

**Argymhelliad 8**: Dylid sefydlu uned oddi mewn i Lywodraeth Cymru er mwyn datblygu a chydlynu polisi cyhoeddus perthnasol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Dylid sefydlu cyngor neu banel o arbenigwyr fyddai â sgiliau a phrofiad mewn gwahanol feysydd perthnasol (fel yr economi, tai, datblygu cymunedol ayyb) er mwyn cynghori’r uned.

### Economi

**Argymhelliad 9**: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau fod strategaeth datblygu economaidd yn cael ei llunio a’i gweithredu sydd wedi ei theilwra’n benodol ar gyfer anghenion economaidd ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Dylai'r strategaeth ychwanegu gwerth at bolisi economaidd presennol drwy hyrwyddo dulliau ychwanegol o ddatblygu economaidd, gan gynnwys blaenoriaethu polisïau a gweithgarwch a fydd yn darparu ar gyfer anghenion sylfaenol y boblogaeth a lles aelwydydd (gan gynnwys gwella isadeiledd gwasanaethau, isadeiledd cymdeithasol, incwm gweddillol, a chynllunio ieithyddol effeithiol).

**Argymhelliad 10**: Dylai Llywodraeth Cymru gynnig cefnogaeth ychwanegol i fentrau a busnesau cymunedol er mwyn cryfhau’r Gymraeg fel iaith gymunedol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, gan gynnwys:

- cymorth i ddatblygu’r sgiliau angenrheidiol ar gyfer tyfu, cynnal a rheoli mentrau ar raddfa fwy.
- hwyluso mynediad at asedau a ffynonellau cyllido.
- cymorth i ddatblygu rhwydweithiau a phrosesau ar gyfer datblygu partneriaethau.
- rhagor o gymorth i gymunedau a gweithluoedd brynu neu berchnogi cyfran o fusnesau yn y gymuned sydd yn cael eu gwerthu.

**Argymhelliad 11**: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau fod y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog mewn polisi amaethyddol. Dylid sicrhau cefnogaeth i'r fferm deuluol, a bod egwyddor pwysigrwydd y fferm deuluol yn cael ei hadlewyrchu mewn polisïau eraill megis polisi amgylcheddol.

**Argymhelliad 12**: Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun sydd yn blaenoriaethu budd cymunedol a gweithgarwch cynaliadwy o fewn y sector ymwelwyr ynghyd â hyfywedd y Gymraeg. Yn ogystal, dylai egwyddorion *Cynllun Strategol Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035* gael eu hystyried gan awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol eraill.

**Argymhelliad 13**: Dylai byrddau iechyd a phrifysgolion fabwysiadu a chynyddu nifer cynlluniau sy'n hybu cyflogaeth leol. Dylid sicrhau mynediad unigolion at gyrsiau hyfforddi a llwybrau gyrfaol mewn modd hyblyg, trwy gydol eu gyrfaoedd. Dylid rhannu arfer da er mwyn cefnogi datblygiadau tebyg mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus.

**Argymhelliad 14**: Dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus perthnasol sicrhau fod gwariant cyhoeddus, drwy grantiau a phrosesau caffael, yn gwarantu lles aelwydydd mewn cymunedau lleol, gwerth cymdeithasol a bod cyfleoedd yn cael eu creu i gynyddu defnydd o'r Gymraeg. Dylid anelu at gynyddu capasiti a datblygiad busnesau cynhenid.

Pan fo'n ymarferol bosibl, felly, dylai cyllid cyhoeddus mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch:

- gefnogi prosesau defnydd a chaffael y Gymraeg.
- gefnogi prosesau caffael a chadwyni cyflenwi lleol.
- sicrhau budd cymunedol.
- greu neu gynnal gofodau Cymraeg.
- gyfrannu'n briodol i 'naws am le'.
- geisio, mewn rhai modelau economaidd, uchafu ymwneud y busnes â'r gymuned a'r gweithlu lleol, neu berchnogaeth y gymuned a'r gweithlu lleol ohono.

**Argymhelliad 15**: Er mwyn mynd i'r afael ag allfudo pobl ifanc o ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau:

- fod gwybodaeth a data yn cael eu casglu'n barhaus am bobl ifanc a mudoledd mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

- fod gwaith ymchwil yn cael ei gomisiynu er mwyn dyfnhau dealltwriaeth o elfennau penodol megis pwy sydd yn symud, o ble, i ble, pryd a pham; pa gymorth a allai gymell pobl i aros neu ddychwelyd; sut i dargedu ac atynnu pobl sydd fwyaf tebygol o gefnogi'r economi a'r iaith mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch; a sut i helpu a chroesawu siaradwyr Cymraeg eraill i ymgartrefu yno.

- fod cynllun cyfathrebu a chymorth parhaol yn cael ei ddatblygu er mwyn cymell pobl ifanc i aros, dychwelyd neu ymsefydlu. Dylid seilio'r cynllun ar ddata ac ymchwil pellach am ddyheadau a phenderfyniadau pobl ifanc, gan

ddatblygu naratif gadarnhaol, a chan alinio gydag anghenion y farchnad lafur yn ogystal â blaenoriaethau a dyheadau pobl ifanc.

Dylai Llywodraeth Cymru osod y cyfrifoldeb ar un corff i gyflawni a chydlynu hyn.

**Argymhelliad 16**: Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu corff i arwain a chydlynu ystod o weithgarwch ym maes datblygu'r economi a'r Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Byddai ei ffiniau felly yn ymestyn y tu hwnt i bedair sir gyfredol rhaglen ARFOR. Dylai'r corff feddu ar arbenigedd o ran cynllunio ieithyddol a datblygu economaidd.

Dylai cylch gorchwyl y corff hwn gynnwys cyfrifoldebau ar gyfer:

- datblygu ystod o bolisïau neu strategaethau datblygu economaidd yng nghyd-destun ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.
- prif-ffrydio polisïau economaidd mewn perthynas ag ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.
- dylanwadu ar strwythurau datblygu economaidd ehangach.
- datblygu partneriaethau a rhannu capasiti ac arbenigedd ar lawr gwlad.
- datblygu'r ddealltwriaeth o'r cyswllt rhwng yr economi a'r Gymraeg.
- arwain a chydlynu ymdrechion i ddenu pobl ifanc i aros, dychwelyd neu ymsefydlu mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch er mwyn ysgogi mentergarwch a gwrthweithio diboblogi.

Dylai'r corff hwn fod ar ffurf un o'r ddau opsiwn isod:

Opsiwn 1: Yn yr opsiwn hwn, sefydlir ARFOR, neu gorff tebyg i ARFOR, yn endid gorfforedig barhaol a fyddai'n meddu ar ei gweithrediaeth ei hun. Byddai gan awdurdodau lleol gynrychiolaeth ar ei fwrdd, ond byddai'n annibynnol ar awdurdodau lleol unigol. Gellid hefyd gryfhau ei gapasiti drwy drosglwyddo iddo gyfran o arian rhaglenni prif ffrwd sydd ar gael ar gyfer datblygu economaidd yn rhanbarthol. Byddai corff o'r fath yn gerbyd addas ar gyfer cyflawni'r amcanion uchod heb darfu'n ormodol ar y gwead o strwythurau datblygu economaidd sydd eisoes yn bodoli.

Opsiwn 2: Yn yr opsiwn hwn, byddai'r corff yn endid lefel uwch gan greu asiantaeth datblygu economaidd ar gyfer y gorllewin. Byddai'n cael ei gyfundrefnu drwy fwrdd o gynrychiolwyr awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cysondeb a chyd-gynllunio strategol. Gellid trosglwyddo i'r corff arian ac adnoddau o raglenni prif ffrwd Llywodraeth Cymru sy'n hyrwyddo datblygu economaidd yn rhanbarthol. Gellid ystyried cryfhau ei gapasiti ymhellach drwy drosglwyddo iddo rai swyddogaethau datblygu economaidd ychwanegol.

Yng nghyd-destun Opsiwn 2, dylid osgoi sefyllfa lle mae polisïau economaidd, cynllunio gwlad a thref, a thrafnidiaeth yn cael eu datblygu ar wahân yn ôl amserlen wahanol. Gellid felly osod gofynion ar awdurdodau lleol i ymgynghori â'r corff newydd hwn yn y meysydd hynny. Gellid hefyd osod gofynion ar y Cyd-bwyllgorau Corfforedig i ymgynghori gyda'r corff wrth iddynt ddatblygu Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

**Argymhelliad 17**: Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Canolfan Ragoriaeth er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth o'r rhyng-berthynas rhwng yr economi a'r Gymraeg. Dylai'r ganolfan gydlynu a datblygu rhaglen ymchwil a data strategol er mwyn

cefnogi gwaith polisi ehangach mewn perthynas â'r economi. Gallai'r ganolfan gael ei lleoli oddi mewn i'r corff a grybwyllir yn argymhelliad 16.

### Gweithleoedd Cymraeg

**Argymhelliad 18**: Dylai sefydliadau sector cyhoeddus ddefnyddio fframwaith cyffredin ar gyfer mesur hyfedredd yn y Gymraeg er mwyn cefnogi gwella sgiliau Cymraeg y gweithlu, ac fel rhan o'r broses recriwtio. Dylai'r fframwaith hwn fod yn seiliedig ar y CEFR.

**Argymhelliad 19**: Dylai arweinwyr cyrff cyhoeddus yng Nghymru ddilyn cwrs 'Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog'. Dylai Academi Cymru hefyd ddatblygu cwrs 'Arwain mewn Cymuned Gymraeg' a fyddai'n addas ar gyfer arweinwyr sefydliadau a gweithleoedd mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Gallai cwrs o'r fath fod yn ddefnyddiol hefyd ar gyfer arweinwyr cymunedol, y trydydd sector a'r sector preifat yn yr ardaloedd hynny.

**Argymhelliad 20**: Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio safonau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 er mwyn sicrhau fod sefydliadau sector cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Mesur mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn datgan beth yw eu defnydd o'r Gymraeg fel iaith fewnol, a'r camau y byddant yn eu cymryd er mwyn symud y sefydliad o dan sylw ar hyd continwwm ieithyddol o fewn fframwaith amser penodol.

### Datblygu cymunedol

**Argymhelliad 21**: Dylai Llywodraeth Cymru ddyfeisio a chefnogi rhaglen i ledaenu modelau datblygu cymunedol llwyddiannus ar draws ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch gan ddefnyddio arbenigedd ac arfer da sydd eisoes yn bodoli'n lleol. Gellid rhoi modelau llwyddiannus ar waith mewn rhannau eraill o Gymru hefyd.

**Argymhelliad 22**: Dylai Llywodraeth Cymru a chyrff cyllido perthnasol eraill newid y drefn bresennol o ddyfarnu nawdd i fudiadau a grwpiau cymunedol fel bod y cyrff hynny yn gallu cynllunio prosiectau tymor canolig a hirdymor. Yn bennaf, mae angen cynyddu cyfnod grantiau presennol o flwyddyn i dair blynedd er mwyn sicrhau hirhoedledd a llwyddiant cynlluniau.

**Argymhelliad 23**: Dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi'n ariannol mewn mentrau cymunedol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch drwy ddarparu grantiau a/neu fenthyciadau hirdymor iddynt ar raddfeydd ffafriol. Dylid sicrhau fod y broses o drosglwyddo asedau i'r gymuned yn llesol i'r Gymraeg, drwy osod amodau a gofynion ar grantiau a/neu fenthyciadau fel bod cyfalaf cymdeithasol y Gymraeg yn ganolog i unrhyw gynllun.

**Argymhelliad 24**: Dylai Llywodraeth Cymru gynnig cymorth i helpu grwpiau cymunedol ddatblygu rhwydwaith neu rwydweithiau a all eu cynorthwyo i asesu a chynyddu cymhwysedd a chapasiti yn eu meysydd gwahanol, gan rannu arfer da ac arbenigedd ar draws y rhwydwaith.

**Tai**

**Argymhelliad 25**: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau fod canllawiau a thempled yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn cynnwys meini prawf sydd yn ymwneud â'r Gymraeg.

**Argymhelliad 26**: Dylai awdurdodau lleol sicrhau fod pob cynllun sydd yn y Prosbectws Tai Cymdeithasol yn cynnwys tystiolaeth o anghenion tai lleol. Dylid cynnal asesiad cymunedol o'r anghenion am dai a hynny bob pum mlynedd fesul ardal cyngor cymuned neu gyngor tref. Dylai'r broses gael ei harwain gan yr Hwyluswyr Tai Gwledig.

**Argymhelliad 27**: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau hyblygrwydd yn y fformiwla grantiau tai cymdeithasol, ynghyd ag mewn unrhyw grant perthnasol arall, er mwyn hwyluso datblygiadau ar raddfa fechan mewn ardaloedd gwledig o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Dylid sicrhau trwy hyn bod y tai yn fforddiadwy i'w datblygu, gan gadw o fewn Modelau Hyfywedd Safonol Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 28**: Dylai Llywodraeth Cymru wneud y *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg* yn barhaol. Dylai'r cynllun fod yn weithredol ar hyd ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

**Argymhelliad 29**: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau fod gwerthusiad *Cynllun peilot ail gartrefi a fforddiadwyedd Dwyfor* yn ystyried yn llawn effaith ar y Gymraeg. Os yn briodol, dylid ehangu ymyraethau peilot Dwyfor i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch eraill.

**Argymhelliad 30**: Dylai awdurdodau cynllunio sy'n cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 gynnal proses werthuso rheolaidd i fonitro unrhyw sgileffeithiau anfwriadol ar y Gymraeg ac ar y farchnad dai.

**Argymhelliad 31**: Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa benthyciadau penodol sy'n cynnig benthyciadau llog isel, neu ecwiti mewn cynlluniau, er mwyn cynorthwyo mentrau cymunedol i brynu tir neu eiddo ynghyd â datblygu tai dan arweiniad y gymuned.

**Argymhelliad 32**: Dylai awdurdodau lleol wneud gwell defnydd o'r stoc dai ac eiddo gwag wrth ymateb i anghenion tai lleol. Dylid cyd-blethu polisïau adfywio canol tref gyda pholisïau tai, ac yn rhan o hynny, dylai amodau ar grantiau neu fenthyciadau gynnwys ystyriaethau yn ymwneud â'r Gymraeg.

**Argymhelliad 33**: Dylai awdurdodau lleol ac awdurdodau cynllunio ystyried a ellir datblygu modelau, o ran gosod tai cymdeithasol neu wrth lunio Cytundebau Adran 106, lle gallai'r Gymraeg fod yn un ystyriaeth gadarnhaol, ochr-yn-ochr ag ystyriaethau eraill. Dylid craffu ar unrhyw fodelau a ddatblygir er mwyn sicrhau nad oes anfantais annerbyniol i'r boblogaeth ddi-Gymraeg, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth gydraddoldeb berthnasol.

**Argymhelliad 34**: Dylai Llywodraeth Cymru drafod â darparwyr morgeisi sut i wella cystadleuaeth darpariaeth morgeisi ar gyfer eiddo sydd â chyfyngiadau arnynt. Dylid gosod fframwaith sy'n mesur nifer y benthycwyr sy'n cynnig morgeisi ar eiddo sydd â chyfyngiadau arnynt, a'r cyfraddau llog a gynigir mewn morgeisi ar eu cyfer mewn cymhariaeth â chyfraddau llog morgeisi a gynigir mewn perthynas ag eiddo sydd heb gyfyngiad.

### Cynllunio gwlad a thref

**Argymhelliad 35**: Dylai Llywodraeth Cymru wneud newidiadau i bolisïau a chanllawiau ym maes cynllunio gwlad a tref er mwyn cryfhau'r berthynas ag amcanion cynaliadwy yng nghyswllt y Gymraeg ac yn benodol wrth ystyried cynaliadwyedd ieithyddol cymunedol. Dylai rhai o'r newidiadau esgor ar bolisïau ac ymagweddau newydd fydd yn weithredol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, ac eraill ar bolisïau ac ymagweddau fydd yn weithredol trwy Gymru gyfan.

Mae'r Comisiwn yn argymell y dylid gwneud newidiadau yn y meysydd canlynol:

- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau fod *Polisi Cynllunio Cymru* yn rhoi gwell arweiniad yng nghyswllt egwyddorion datblygu cynaliadwy mewn perthynas â'r Gymraeg, ac yn benodol cynaliadwyedd hirdymor ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.
- Dylai Llywodraeth Cymru adolygu *TAN 20* er mwyn cryfhau'r arweiniad a'r cyngor a roddir i awdurdodau cynllunio wrth iddynt baratoi cynlluniau datblygu ac wrth wneud penderfyniadau am ganiatâd cynllunio.
- Dylai Llywodraeth Cymru adolygu *Llawlyfr Cynlluniau Datblygu* fel bo modd rhoi gwell arweiniad yng nghyswllt cynaliadwyedd y Gymraeg, ac yn benodol cynaliadwyedd hirdymor ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch wrth i awdurdodau cynllunio lunio Arfarniadau Cynaliadwyedd Integredig.
- Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio gyda'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol, cynllunwyr iaith a phrifysgolion i adolygu'r ddarpariaeth addysg uwch er mwyn sicrhau bod ymarferwyr, graddedigion a myfyrwyr yn meddu ar setiau sgiliau priodol yn y maes cynllunio ieithyddol mewn perthynas â chynllunio gwlad a thref.

Bydd y Comisiwn yn gwneud argymhellion llawn mewn adroddiad pwrpasol erbyn mis Rhagfyr 2024.

### Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

**Argymhelliad 36**: Dylai Llywodraeth Cymru wneud astudiaeth o'r croestoriadau rhwng y gallu i siarad Cymraeg a nodweddion gwarchodedig perthnasol yng Nghyfrifiad 2021. Dylai'r astudiaeth gynnwys mwy o fanylder na'r hyn sydd ar gael ar lefel yr awdurdod lleol yn unig, ac os oes modd gwneud hynny, dylai gynnwys dadansoddiad ar lefel MSOA, neu drwy gyfuno LSOAs.

**Argymhelliad 37**: Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu grŵp tasg a gorffen er mwyn edrych ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn perthynas â'r Gymraeg. Dylai'r grŵp roi ystyriaeth lawn i'r materion hyn yng nghyd-destun y Gymraeg fel iaith gymunedol ac mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Dylid hefyd roi sylw priodol i gyd-destunau gwledig.

### Addysg Gymraeg

**Argymhelliad 38**: Dylai pob plentyn mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch adael addysg statudol yn hyderus ac yn llythrennog yn Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig, a dylai hynny gael ei adlewyrchu mewn polisi cyhoeddus.

**Argymhelliad 39**: Dylid gosod nod y dylai pob ysgol o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch ymhen y rhawg gynnig addysg Gymraeg gynhwysol sy'n galluogi pob disgybl o bob cefndir i gaffael y Gymraeg yn hyderus ac yn llythrennog.

**Argymhelliad 40**: Dylai awdurdodau lleol gymell a chefnogi pob lleoliad meithrin nas cynhelir a grwpiau chwarae oddi mewn i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch i ddilyn polisi lle mae darpariaeth Gymraeg sydd ar gael o safbwynt cynlluniau fel addysg gynnar, Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant. Dylid buddsoddi yn y gweithlu er mwyn cyrraedd y nod.

**Argymhelliad 41**: Dylai fod bwriad fod ysgolion cynradd mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg, ac yn y sector uwchradd dylent fod yn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg (categori 3) neu Ysgolion Cyfrwng Cymraeg Penodedig (categori 3P), ac eithrio yn achos ysgolion a enwir gan awdurdodau lleol am resymau eithriadol. Os nad yw ysgolion ar hyn o bryd yn y categorïau hyn, dylent fod o fewn cyfnod rhesymol.

**Argymhelliad 42**: Oddi mewn i ffiniau ieithyddol eu categori, dylai awdurdodau lleol, ar y cyd ag ysgolion, bennu'r ganran o ddarpariaeth Gymraeg y disgwylir i ddisgyblion ei derbyn mewn ysgolion penodol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Dylai'r ganran hon fod yn ddigon uchelgeisiol i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg.

**Argymhelliad 43**: Dylid cyhoeddi data manwl ynghylch y ddarpariaeth Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Dylai awdurdodau lleol gyhoeddi data yn unol â gwaelodliniau categori iaith ysgolion, a mesur yn ogystal faint a pha ganran o blant wna 50% a 70% o'u haddysg trwy'r Gymraeg. Dylai awdurdodau lleol gyhoeddi data o'r fath ar gyfer pob ysgol (a dylent hefyd gyhoeddi'r data ar gyfer y sir gyfan yn eu CSCA).

**Argymhelliad 44**: Dylai Estyn ddatblygu canllaw arolygu atodol ar gyfer arolygu darpariaeth Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, gan gynnwys fel iaith addysg ôl-14 ac ôl-16. Dylai edrych hefyd ar y ganran sy'n astudio cymwysterau ôl-14 ac ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Argymhelliad 45**: Wrth weithio gydag awdurdodau lleol, dylai Estyn graffu'n ffurfiol ar gynnydd o ran darpariaeth Gymraeg yn erbyn nodau'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg bob dwy flynedd, gan gyflwyno eu casgliadau i Gabinet yr awdurdod lleol.

**Argymhelliad 46**: Dylai ysgolion gwirfoddol a sefydledig ddilyn polisïau cenedlaethol ac awdurdodau lleol o ran darpariaeth Gymraeg.

**Argymhelliad 47**: Dylai Llywodraeth Cymru osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i arfarnu defnydd allgyrsiol a chymdeithasol o'r Gymraeg gan gynnwys effeithiolrwydd Siarterau Iaith mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ac i adrodd yn flynyddol arnynt. Dylai Estyn arolygu gweithrediad Siarter Iaith yng nghyd-destun ehangach yr ysgol.

**Argymhelliad 48**: Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau fod canolfannau trochi yn derbyn adnoddau digonol i gyflawni eu nodau.

**Argymhelliad 49**: Dylai Llywodraeth Cymru gynllunio i gwrdd ag anghenion y gweithlu addysg o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, a hynny er mwyn sicrhau bod staff yn hyderus wrth i ddisgwyliadau o ran darpariaeth Gymraeg gynyddu mewn ysgolion.

### Cynllunio ieithyddol cymunedol

**Argymhelliad 50**: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ymrwymiad i gynllunio ieithyddol cymunedol yn ei holl strategaethau sy'n ymwneud â'r maes cymunedol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Yn yr un modd, dylai cynlluniau corfforaethol awdurdodau lleol, cynlluniau lles Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a rhaglenni strategol perthnasol Cyd-bwyllgorau Corfforedig roi sylw dyledus i bwysigrwydd cynllunio ieithyddol cymunedol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch gan sicrhau adnoddau digonol ar ei gyfer.

**Argymhelliad 51**: Dylid yn Safon 145 Atodlen 4 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ychwanegu gofyniad pellach at (a) a (b). Byddai (c) yn berthynol i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch ac yn darllen fel a ganlyn:

> (c) [rhaid i'r strategaeth gynnwys] dogfen sy'n egluro sut yr ydych yn gwneud darpariaeth benodol a phriodol ar gyfer ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch yn eich ardal, gyda phwyslais arbennig ar atgyfnerthu a chynyddu defnydd y Gymraeg fel iaith gymunedol.

**Argymhelliad 52**: Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd ag ymchwilwyr academaidd a rhanddeiliaid, ddatblygu fframwaith ar gyfer mesur effaith cynllunio ieithyddol cymunedol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

**Argymhelliad 53**: Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau fod trosglwyddo iaith, ar yr aelwyd ac ar ffurf cymdeithasoli iaith tu hwnt i'r teulu, yn ganolog i faes cynllunio ieithyddol cymunedol. Dylid dwyn i ystyriaeth tystiolaeth briodol (gan gynnwys tystiolaeth ryngwladol), y gwyddorau ymddygiadol, ac arfer gorau mewn meysydd cysylltiedig megis llythrennedd rhieni ac annog darllen rhwng rhieni a phlant. Dylid hefyd ymchwilio sut y gellid manteisio i'r eithaf ar y cyswllt rhwng rhieni a'r sector iechyd er mwyn trosglwyddo negeseuon cadarnhaol am y Gymraeg.

**Argymhelliad 54**: Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau fod y gwaith o gefnogi plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn elfen ganolog o gynllunio ieithyddol cymunedol. Dylid cyd-gynllunio hyn ar lefel awdurdod lleol gyda mewnbwn gan Grŵp y Gymraeg o'r Bwrdd Gweithredu Strategaeth Gwaith Ieuenctid. Yn rhan greiddiol o hyn, dylai sefydliadau perthnasol sicrhau parhad a datblygiad i waith cynllunio ieithyddol ar y lefel feicro.

**Argymhelliad 55**: Dylai cyrff llywodraethu chwaraeon osod disgwyliad ar glybiau chwaraeon (neu mewn achosion lle nad yw hynny'n bosibl gynnig arweiniad) er mwyn annog rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, gan gynnwys datblygu cynlluniau i gymhwyso mwy o hyfforddwyr Cymraeg. Dylid hefyd cadw data am sgiliau iaith hyfforddwyr.

**Argymhelliad 56**: Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu adnoddau sefydliadau sy'n gweithio ym maes cynllunio ieithyddol cymunedol fel bod ganddynt y capasiti angenrheidiol i ymateb i anghenion ieithyddol cymunedau. Dylai unrhyw gyllid newydd fod yn seiliedig ar feini prawf yn ymwneud â gwrthweithio shifft iaith ar lefel gymunedol.

**Argymhelliad 57**: Dylid cynnal peilot ar stad o dai cymdeithasol mewn tref yng ngogledd-orllewin Cymru. Dylai'r peilot gael ei gydlynu gan landlord cymdeithasol mewn ymgynghoriad â'r gymuned ac ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol gan gynnwys ystod o sefydliadau cynllunio ieithyddol cymunedol. Nod y peilot fyddai treialu ymyraethau er mwyn gwrthdroi shifft iaith ar y stad.

# 13. Llyfryddiaeth

## Cyhoeddiadau


Addaney, M., Yegblemenawo, S. A. M., Akudugu, J.A., Kodua, M. A., (2022). ‘Climate change and preservation of minority languages in the upper regions of Ghana: A systematic review.’ *Chinese Journal of Population, Resources and Environment Volume*, 20 (2), 177-189.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd. (2023). *Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035: Cynllun Strategol*. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd. Ar gael: Economi Ymweld Gynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 - Parc Cenedlaethol Eryri (llyw.cymru)

Bermingham, N., a Higham, G. (2018). ‘Immigrants as new speakers in Galicia and Wales: issues of integration, belonging and legitimacy.’ *Journal of Multilingual and Multicultural Development*, 39 (5), 394–406.

Bonner, E., Prys, C., Mitchelmore, S., a Hodges, R. (2024a). ‘Defining economic impact on minority languages: The Case of Wales.’ *Journal of Multilingual and Multicultural Development*, 1-17.

Bonner, E., Prys, C., Hodges, R., a Mitchelmore, S. (2024b). ‘Migration through a language planning lens: a typology of Welsh speakers’ migration decisions.’ *Current Issues in Language Planning,* 1–22.

Britton, J., van der Erve, l., Waltmann, B., a Xu. X. (2021). *London calling? Higher education, geographical mobility and early-career earnings*. Llundain: The IFS. Ar gael: https://ifs.org.uk/publications/london-calling-higher-education-geographical-mobility-and-early-career-earnings

Brooks, S. (2021). *Hanes Cymry: Lleiafrifoedd Ethnig yn y Gwareiddiad Cymraeg*. Gwasg Prifysgol Cymru.

Busnes Cymdeithasol Cymru. (2021). *Mapio’r Sector Busnesau Cymdeithasol yng Nghymru / Cyfrifiad 2020*. Ar lein. Ar gael: Mapio busnesau cymdeithasol Cymru | Cyfrifiad 2020 – Cwmpas [cyrchwyd 24/4/24]

Busnes Cymdeithasol Cymru. (2023). *Mapio’r Sector Busnes Cymdeithasol yng Nghymru / Cyfrifiad 2022.* Ar lein. Ar gael: Mapio’r Sector Busnes Cymdeithasol yng Nghymru | Cyfrifiad 2022 - Cwmpas [cyrchwyd 24/4/24]

Comisiynydd y Gymraeg. (2019). *Cynllunio a’r Gymraeg: arolwg o weithdrefnau awdurdodau cynllunio Cymru*. Ar lein. Ar gael: Tai a chynllunio (comisiynyddygymraeg.cymru) [cyrchwyd 26/4/2024]

Council of Europe. (2021). EUROPEAN CHARTER FOR REGIONAL OR MINORITY LANGUAGES: *Information Document on the implementation of the Recommendations for Immediate Action based on the 5th monitoring cycle*. Strassbourg: Council of Europe. Available at: Reports and Recommendations - European Charter for Regional <br>or Minority Languages (coe.int)

Cunnington Wynn, L. (2014). *Allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg.* Traethawd Ymchwil Doethurol. Prifysgol Bangor. Ar gael: Allfudiaeth pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg - Bangor University

Cunnington Wynn, L. (2019). '"Beth yw'r ots gennyf i am Gymru?": Astudiaeth o allfudo a dyheadau pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg.' *Gwerddon*, 28, 43–63.

Cunnington Wynn, L. Froud, J., Williams, K. (2022). *A WAY AHEAD? Empowering restanza in a slate valley.* Foundational Economy Research. Ar gael: Research reports – The Foundational Economy

Cyngor Gwynedd. (2020). *Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau*. Caernarfon: Cyngor Gwynedd. Ar gael: Agenda item - PAPUR YMCHWIL: RHEOLI'R DEFNYDD O DAI FEL TAI GWYLIAU (llyw.cymru)

Cyngor Gwynedd. (2023). *Papur cyfiawnhau cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4: Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd.* Caernarfon: Cyngor Gwynedd. Ar gael: Cyfarwyddyd Erthygl 4 (llyw.cymru)

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. (2021). *Maniffesto Cymru Wledig: Cymunedau Llewyrchus ar gyfer y Dyfodol.* Caerdydd: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Ar Gael: Maniffesto CLlLC ar gyfer Cymru Wledig - CLlLC (wlga.cymru)

*Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen.* (2005). [dim cyhoeddwr].

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau). (2019). *Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.* Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ar gael: Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (senedd.cymru)

ENRD. (2023). *The regional law in Castilla-La Mancha (Spain) to combat rural depopulation: CASE STUDY.* Brwsel: European Network for Rural Development. Ar gael: enrd_case_study_castilla_130622_final_0.pdf (europa.eu)

European Commission, Directorate-General for Education, Youth, Sport and Culture. (1996). *Euromosaic: The Production and reproduction of the minority language groups in the European Union.* Luxemburg: Office for Official Publications of the European Communities.

Euskarabidea, Hizkuntza Politika Sailburuordetza eta UEMA. (2024). *Euskararen arnasguneak: definizioaren eta erronken berrikuspena.* Hizkuntza Politika Sailburuordetza eta UEMA. Ar lein. Ar gael: www.arnasagara.eus/arnasguneak [cyrchwyd 20/6/2024]

Foundational Economy Research (FERL). (2022). *NHS Wales as a Driver of Economic Value.* Foundational Economy Research Limited. Ar gael: Research Reports – Foundational Economy Research

Guma, T., a Jones, R. D. (2021). 'I didn't even know that Wales existed': EU migrants' participation and belonging in Wales'. Yn Morgan, W. J., a Bowie, F., (Goln.). *Social Anthropologies of the Welsh: Past and Present* (pp. 220-240). (The RAI Country Series). Sean Kingston Publishing.

Henley. A., (2021). *Wales' Productivity Challenge: Exploring the issues*. *Productivity Insights Paper No. 007*. The Productivity Institute. Ar gael: [Wales' Productivity Challenge: Exploring the issues - The Productivity Institute]

Hodges, R., Prys, C., Bonner, E., Orrell, A., a Gruffydd, I. (2023). *Defnyddio'r Gymraeg mewn Cymunedau yn Ynys Môn.* Bangor: Prifysgol Bangor. Ar gael: [Defnyddio'r Gymraeg mewn Cymunedau yn Ynys Mon - Bangor University]

Intergovernmental Panel on Climate Change. (2023). *AR6 Synthesis Report: Climate Change 2023*. IPPC. Ar gael: [AR6 Synthesis Report: Climate Change 2023 — IPCC]

Jaakkola, J, Juntunen, S a Näkkäläjärvi, K. (2018). 'The Holistic Effects of Climate Change on the Culture, Well-Being, and Health of the Saami, the Only Indigenous People in the European Union.' *Global Environmental Health and Sustainability*, 5, 401 – 417.

Jones, D. (2015). 'Mwslemiaid yn y Gymru wledig: datgysylltiad, ffydd a pherthyn.' *Gwerddon*, 19, 9-27.

Llywodraeth Cymru. (2014). *Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Adroddiad y Grwp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd | LLYW.CYMRU]

Llywodraeth Cymru. (2015). *Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd | LLYW.CYMRU]

Llywodraeth Cymru. (2017a). *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg | LLYW.CYMRU]

Llywodraeth Cymru. (2017b). *Nodyn cyngor technegol (TAN) 20: cynllunio a'r Gymraeg*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Nodyn cyngor technegol (TAN) 20: cynllunio a'r Gymraeg | LLYW.CYMRU]

Llywodraeth Cymru. (2018). *Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Cynllun gweithredu ar gyfer technoleg Cymraeg a chyfryngau digidol | LLYW.CYMRU]

Llywodraeth Cymru. (2020a). *Y Gymraeg a'r economi: adolygiad o'r dystiolaeth a'r dulliau.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Y Gymraeg a'r economi | LLYW.CYMRU]

Llywodraeth Cymru. (2020b). *Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) Mawrth 2020.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) Mawrth 2020 | LLYW.CYMRU]

Llywodraeth Cymru. (2021a). *Cymru gryfach, wyrddach a thecach i bawb*. Ar lein. Ar gael: [Cymru gryfach, wyrddach a thecach i bawb | LLYW.CYMRU] [cyrchwyd 24/5/2024]

Llywodraeth Cymru. (2021b). *Ail gartrefi: datblygu polisïau newydd yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: [Ail gartrefi: datblygu polisïau newydd | LLYW.CYMRU]

Llywodraeth Cymru. (2021c). *Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru. (2021ch). *Polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru. (2021d). *Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru. (2022a). *Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cynigion Bras ar gyfer 2025*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar Gael: Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cynigion Bras ar gyfer 2025 | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru. (2022b). *Mwy na geiriau, Cynllun Pum Mlynedd, 2022-27.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: Mwy na geiriau: Cynllun y Gymraeg mewn iechyd a gofal Cymdeithasol | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru. (2022c). *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: Y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru. (2022ch). *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru. (2023a). *Dyfodol cymunedau Cymraeg: galwad am dystiolaeth.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: Dyfodol cymunedau Cymraeg: galwad am dystiolaeth | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru. (2023b). *Papur safbwynt y Comisiwn Cymunedau Cymraeg*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: Papur safbwynt y Comisiwn Cymunedau Cymraeg [HTML] | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru. (2023c). *Gwerthusiad o LEADER yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: Gwerthusiad o LEADER yng Nghymru | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru. (2023ch). *Darpariaeth tai fforddiadwy: Ebrill 2022 i Fawrth 2023*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: Darpariaeth tai fforddiadwy: Ebrill 2022 i Fawrth 2023 | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru. (2023d). *Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru: Cais am dystiolaeth ar sicrhau llwybr tuag at Dai Digonol – gan gynnwys Rhenti Teg a Fforddiadwyedd.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: Creu llwybr tuag at dai digonol gan gynnwys rhenti teg a fforddiadwyedd | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru. (2023dd). *Datganiad Ysgrifenedig: Cynllun Grant Cartrefi Gwag Cenedlaethol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: Datganiad Ysgrifenedig: Cynllun Grant Cartrefi Gwag Cenedlaethol (30 Ionawr 2023) | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru. (2023e). *Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: Addysg Gymraeg: papur gwyn | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru. (2023f). *Defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle (Arolwg Defnydd Iaith): Gorffennaf 2019 i Fawrth 2020*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael:

Defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle (Arolwg Defnydd Iaith): Gorffennaf 2019 i Fawrth 2020 | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru. (2023ff). *Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru. (2024a). *Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru. (2024b). *Polisi cynllunio Cymru*. *Rhifyn 12* | *Chwefror 2024*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: Polisi cynllunio Cymru | LLYW.CYMRU

Morris, J., a Parker, S. (2024). 'Intersecting identities in minority-language contexts: LGBTQ+ speakers of Welsh.' Yn Walsh, J., (Gol.). *Queering language revitalisation: Navigating identity and inclusion among queer speakers of minority languages*. Cambridge Elements in Language, Gender and Sexuality Cambridge: Cambridge University Press.

Neal , S., Gawlewicz, A., Heley, J., a Jones, R. D. (2021). 'Rural Brexit? The ambivalent politics of rural community, migration and dependency.' *Journal of Rural Studies*, 82*,* 176-183.

Sefydliad Bevan. (2020). *Productive Community assets: generating the benefits.* Merthyr Tudful: Sefydliad Bevan. Ar gael: Productive community assets: generating the benefits - Bevan Foundation

Sefydliad Materion Cymreig. (2022). *Ein Tir: Cymunedau a Defnyddio Tir*. Caerdydd: Sefydliad Materion Cymreig. Ar gael: Our Land: Communities and Land Use - Institute of Welsh Affairs (iwa.wales)

Senedd Cymru (Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai). (2022). *Asedau Cymunedol*. Caerdydd: Senedd Cymru. Ar gael: Ymchwiliad i asedau cymunedol (senedd.cymru)

Social Mobility Commission. (2020). *Moving out to move on: Understanding the link between migration, disadvantage and social mobility*. Brighton: Institute for Employment Studies. Ar gael: Internal migration and social mobility - moving out to move on - Social Mobility Commission

Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2018). *Principal projection - Wales summary*. Ar lein. Ar gael: Principal projection - Wales summary - Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk) [cyrchwyd 25/6/2024]

Teti, V., Loriggio, F. (cyfieithydd), Pietropaolo, D. (cyfieithydd). (2018). *Stones into Bread.* Canada: Guernica Editions

Trystan, D., a Begum, Y. (2023). 'Y Gymraeg ac ethnigrwydd'. *Barn.* Mai 2023, rhifyn 724.

Wavehill Cyf. (2021). *Gwerthuso, Casgliadau ac Argymhellion Rhaglen Arfor*. Ar gael: Rhaglen ARFOR

Williams, G., Morris, D. (2000). *Language planning and language use: Welsh in a global age*. Cardiff: University of Wales Press.

Woods, M. (2022). 'Refugees, race and the limits of rural cosmopolitanism: Perspectives from Ireland and Wales.' *Journal of Rural Studies,* 95*,* 316-325.

Woods, M., ac Utz, P. (2022). *Young People in Rural Wales: Survey Report*. Aberystwyth: Prifysgol Aberystwyth. Ar gael: Young People in Rural Wales: Survey Report — Porth Ymchwil Aberystwyth

### Gwefannau

BBC Cymru Fyw. (2023). *LHDTC+ a'r Gymraeg: Ydy hi'n anodd perthyn i'r ddwy gymuned?* BBC Cymru Fyw. Ar lein. Ar gael: LHDTC+ a'r Gymraeg: Ydy hi'n anodd perthyn i'r ddwy gymuned? - BBC Cymru Fyw [cyrchwyd: 24/5/2024]

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. (2021) *Prentisiaethau.* Ar lein. Ar Gael: Prentisiaethau - Aneurin Bevan (abuhb-jobs.co.uk). [Cyrchwyd: 21/3/2024]

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. (2023). *Academi Brentisiaeth.* Ar lein. Ar gael: https://hduhb.nhs.wales/working-for-us/apprenticeship-academy/ [Cyrchwyd: 21/3/2024]

Cwmpas. (2023). *Perthyn*. Ar lein. Ar gael: Perthyn - Cwmpas [cyrchwyd: 24/5/2024]

Chwaraeon Cymru. (2022). *Dadansoddiad yn ôl y defnydd o'r Gymraeg* Chwaraeon Cymru. Ar lein. Ar gael: Dadansoddiad yn ôl y defnydd o'r Gymraeg | Chwaraeon Cymru [cyrchwyd: 24/5/2024]

Llywodraeth Cymru. (2023g). *Cynllun peilot ail gartrefi a fforddiadwyedd Dwyfor*. Ar lein. Ar gael: Cynllun peilot ail gartrefi a fforddiadwyedd Dwyfor | LLYW.CYMRU [cyrchwyd 30/4/2024]

Rjaltas na hÉireann Government of Ireland. (2023). *Our Living Islands. National Islands Policy 2023-2033.* Ar lein. Ar gael: gov.ie - Our Living Islands (www.gov.ie) [cyrchwyd: 21/12/2023]

Vermont Government. (2023). *Relocation incentives* | *Agency of Commerce and Community Development.* Ar lein. Ar gael: https://accd.vermont.gov/economic-development/relocation-incentives [cyrchwyd: 21/12/2023]

### Rhaglenni

*BBC Wales investigates - I'm homeless - how will Santa find me?* (2023). BBC Cymru/Wales, Rhagfyr 11, 20:00. Ar lein. Ar gael: https://www.bbc.co.uk/iplayer/episode/m001tfb8/bbc-wales-investigates-im-homeless-how-will-santa-find-me [cyrchwyd: 24/5/2024]